Trawsgrifiad	<p>ac yn wynebu y ffordd fawr. Clock mewn ffrâm o goed a gwyneb gwydr iddo, ac wyneb (dial) at faint wyneb clock mawr teuluaid neu clock capel.</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Hefyd yr oedd clock hwylus ar pared “watchmakers isaf” gyferbyn a’r drws, a gellir cael cip arno wrth bashio neu trwy y drws gwydyr, ac rhwng rhain a’r saethu yr oedd yr ardal yn gallu mynd yn mlaen yn hwylus.</p> <p># Pan oedd y teulu wedi penderfynu (yn wir toedd fawr, os dim dewis) fod yr hogyn i fynd i’r chwarel. Ymlaen llaw yr oedd y tad, neu “gynrychiolydd” yn ymweld a’r swyddfa i “ofyn am waith” a rhoir yr enw a’r ychydig o fanylion eraill i lawr. Yn naturiol yr oedd yr oruchwyliaeth yn cymeryd y bechgyn i mewn yn “batches” ac ddim un ar ôl y llall</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes Cymdeithasol, Rheoli

What Facet	61, 73
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 182
Trawsgrifiad	felly yr oedd rhai yn gorfod disgwyl rhai wythnosau . Fel rheol byddai yr “intake” yn dilyn diwedd term yr ysgol, a rhyw ddwsin neu rhagor yn dechraue hefo’i gilydd. Disgwyl rŵan am y cerdyn swyddogol o’r chwarel, ac cais i mi reportio yn swyddfa y chwarel ar yr adeg a’r adeg. Ein tadau ni oedd yn dod a’r cerdyn fel arfer a llawenydd mawr gartref, mam druan yn gorfoleddu ac yn falch ein bod yn cael y fraint o fynd i weithio i’r “chwarel fwyaf yn y byd” a “lle anrhydeddus”, “brenhines y chwareli” chwadad mam a rhedeg i ddangos y cerdyn i’r cymdogion a’r perthnasau . Cerdyn wedi ei brintio ar bwrpas a’ m henw wedi ei “teipio” arno : golwg swyddogol arno, ac i ni yr oedd yn garreg filltir ac yn bwysig iawn.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	61, 73
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 183
Trawsgrifiad	Yn fuan yr oedd y newydd wedi mynd o fachgen i fachgen a’r teuluoedd etc ac yr oedd yr holl ardal yn wybod, ac wrth gwrs yr oedd yr hogia at yr un oed yn gwybod pwy oedd yn disgwyl, a buan iawn yr oedd y newydd yn mynd o amgylch. Ymweld a’r swyddfa erbyn naw o’r gloch ar ddiwrnod arbennig, rhoi manylion ein hoed cyfeiriad etc, a cael sgwrs a “shiers” gan Mr W.J. Griffith Pant, syd i ymddwyn a beth i osgoi a rhybuddion. Hefyd rhestr o’r celfi

	oedd yn anghenrheidiol yw cael at y gwaith cyn y gallem ddechrau gwuthio. Ein hanfon i gyd i lawr i'r Ysbyty y Chwarel i gael ein harchwilio gan meddyg y chwarel, ar ôl hyn disgwyl am y cerdyn i gael gwybod pryd yr oeddem i ddechrau gweithio. Yn y cyfamser ein tad yn ceisho hel celfi (tools) i ni, cael ambell i beth gan hwn a llall, fel rheol hen daclau oeddynt, pethau wedi mynd
Nodiadau	Ysbyty'r Chwarel : gw Edward Davies, <u>The North Wales Quarry Hospitals, and the Health and Welfare of the Quarrymen</u> (Archifdy Gwynedd, 2003)
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	61, 73, 57
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 184
Trawsgrifiad	rhy fach neu sal at waith beunyddiol y chwarelwr. Anamyl iawn y byddai hogyn yn cael dim newydd, cast offs oeddynt. Byddai syndod weithiau pan fyddai bachgen yn troi i fynny hefo set o gelfi newydd, ac yn amyl mi fyddai hyn yn digwydd pan oedd bachgen yn dechreu a dim tad neu gysylltiad ganddo yn y chwarel, a'i fam neu ddirprwy wedi rhoi archeb trw y gof am set o gelfi. Ond siarad yn gyffredinol cast offs fyddai y "gear" – ac a dweud y gwir yr oedd rhain y cast offs yn fwy priodol at y gwaith a ddisgwylir gan fachgen, a llawer llai o shawns iddynt gael eu "dwyn" a'u "colli". Yr oedd cynion manholt wedi eu treulio i lawr yn llawer hwylsach i fachgen ac yn fwy priodol at y gwaith man a ddisgwylir ganddo. Yr oedd y clytiau (blocks) a neilltuir i'r bechgyn yn fan a pob peth yn gydmorol yn llai ac yn dilyn nad oedd angen "ger" mawr a safonol
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	61, 73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 185
Trawsgrifiad	Yr oedd rhaid i bob bachgen fod yn berchennog ar : Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 186
Trawsgrifiad	<p>1) <u>Cynion manholt</u> Pytia wedi cael eu treulio i lawr. Yn wir yr oedd rhain fel arfer yn cael eu trysori gan chwarelwyr ac nid oedd yn hawdd ganddynt ei gildio. Yr oeddynt yn hwylus i fras hollti a man scolpio etc ac yr oedd pob holltwr yn feddiannol a rhai cyffelyb ac yn eu harfer yn barhaus i fan drin, ac nid oedd yn hawdd ei cael yw gildio. Fel rheol yr oedd gan y rhan fwyaf un neu ddau yn gyddiedig yn y box i syrthio yn ôl arnynt, a rhain fyddai yn dod allan “gan ddylanwad” i’r hogia.</p> <p>2) <u>Gordd bren</u> Rhan amlaf , hen un fyddai wedi gweld ei dyddiau ac wedi sychu a’r cylcha yn bygwth dod i ffwrdd. Yr oedd gordd yn ddrud ac anamyl y byddai prentis yn feddiannol ag un newydd.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What	73

Facet	
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 187
Trawsgrifiad	<p>3) <u>Cyn brashollt neu "sgolpio"</u> Bron yn ddieithriad hen un fyddai, pwt byr a llawer mwy hwylys nag un newydd a llawn faint fyddai yn berygl i fachgen. Ond yr oedd rhai eithafion bron rhy fyr i afael ynddynt.</p> <p>4) <u>Cyllath bach</u> Fel arfer un wedi naddu miloedd o lechi ac wedi gwneyd blynyddoedd o ymarfer ac yn gwneud ei phwrpas yn iawn, yn enwedig ar ôl cael sylw gan y gof</p> <p>5) <u>Pric Mesur</u> Gan fod rhain yn torri yn amyl, ac nid yn ddryd, mi fyddai shawns ? y byddai bachgen hefo un newydd, ac yr oedd rhain yn weddol hawdd yw "gwaddoli"</p> <p>6) <u>Traval</u> (traverse) Er fod rhaid cael traval, nid oedd yr awdurdodau yn "pwysu", gan fod traval yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 188
Trawsgrifiad	<p>gwneud rhwng dau neu dri, ac yr oedd amyl i "draval" yn y shed ned oedd neb yn gwybod pwy oedd ei pherchenog : wrth gwrs yr oedd y rhai hynaf yn eu hawlio ; ac man yn gadael wedi darfod y cyfnod o "brentisiaeth" yr oedd rhywun arall yn eu meddiannu ; ac o ganlyniad yr oedd traveli yno o "oes i oes" at wasanaeth rhywun, weithiai y byddai traval dda "newydd" yn ymddangos efo bachgen a'r tad yn gofalu ei chasglu wedi iddo ddarfod ei gyfnod. Yr oedd yr oruchwyliaeth yn sylweddoli fod traval yn "item" ac ddim yn pwysu a rhyw fodd mi fyddai pawb yn gally mynd ymlaen : rhai traveli mewn cyflwr gresunus ond plank a hen draval wedi gwisgo yn denau ar gocyn o glytiau yn lle troed.</p>

	<u>“Box gear” Yr oedd rhaid cael hwn : ac yr oedd yn weddol hawdd yw gael . Amrhyw o’r hogia yn progio un, neu y tad o rhan hynny</u>
Nodiadau	Progio – dod o hyd i rhywbeth trwy ffyrdd a dulliau answyddogol
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 189
Trawsgrifiad	yn cael hen un o rhywle. Ond am chwech ceiniog (rhaid cofio fod hyn yn item i deuly y cyfnod hwnnw, ac nid oedd gobaith i’r bachgen fod yn berchennog ar y fath ffortiwn) gallech brynu box <u>newydd</u> yn y Felin Fawr. Yr oedd yno gyflenwad o honynt, “boxes” gwag o faint hwylus ac yn wreiddiol wedi dod i’r chwarel yn cynnwys 50lbs o “powdwr du” (Explosive Granules). Yr oedd caudad arnynt a hwn wedi ei dacio i lawr a hoelen neu ddwy. Yr oedd yn ofynnol ei gryfhau a rhoi hinges, clasp a cael clo iddo ; a dyna pob peth yn barod, y celfi i gyd yn diflannu i waelod y box, oddigerth y pric mesur. Gan dreigladd amser ac yn ei waith yn y chwarel, byddai y box gear yn llenwi, pob “trysor” yn cael ei cadw a’i cuddio yno, cwpan de, cadach glin, “progs”, “tools extra” ac rhai wedu ei troi heibio i syrthio arnynt fel “reserves” pan fyddai lleill yn gweithdy y gof, neu ddisgwyl am rhai newydd. Fodd bynnag dyma gell ddirgel a personol y chwarelwyr i guddio a “trysori”. Gan
Nodiadau	Un o gyflenwyr ffrwydron i Chwarel y Penrhyn oedd cwmni Curtis & Harvey
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 190
Trawsgrifiad	dreiglad amser yr oedd amrhyw yn feddiannol ar fwy nac un “box gear”, taclau wedi ei progio a’i meddiannu, a rhai blêr ddim yn feddiant ar fawr o gwbl a’r gear yn cael ei gadael ar yr wyneb dros nos neu ei cuddio dan y bwrdd cerryg neu dan glwt neu grawan, dibynnu pa mor drefnys oeddych a faint o elfen y pioden oedd ynoch !!. Pan ddechreuais i weithio, ac dyna oedd y drefn am flynyddoedd wedyn – y diwrnod cyntaf yr oedd yn ofynol i’r “Group” newydd fynd i’r prif swyddfa erbyn naw, a mynd a’r gear hefo ni i’r goruchwiliwr neu ei ddirprwy gael ei gweld a’i harchwilio, a boddloni ei hun fod y set yn gymwys at y gwaith. Fel rheol byddai pawb yn mynd trwy yr archwiliad rhywfodd, weithiau byddai bygwth ei bod yn ofynnol cael cun gwell, neu ordd well etc nes ymlaen. Wrth gwrs byddai llawer o “wangler” – rhai o’r bechgyn wedi cael menthyg ambell i erfyn gan ei dad neu frawd – neu
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 191
Trawsgrifiad	gyfaill dros dro er mynd heibio yr archwiliad. Yr oedd cymaint anhrefn a colli a dwyn yn “shed yr hogia bach”, ac mi fyddai y gofawr (“Boys Instructor” Duw a’i helpo !) yn sylweddoli fod rhai yn raddol yn cyrraedd y cyflwr nad oedd ganddynt “gear” o gwbl, ac yn dibynnu ar fenthycia a “dwyn”, ac peth cyffredin fyddai i rhai fod yn berchennog ar <u>un</u> pwt o gyn manholt i wneud pobpeth. O ganlyniad byddai “snap check”, archwiliad ar amrantiad heb rhybudd, a’r canlyniad fyddai pregeth a bygwth, ac rhai o’r adar gwir ddu yn cael ei hanfon at y goruchwiliwr, a bygwth cael sack. Y canlyniad fyddai i rhyw fath o gynysgaeth ddod o rhywle ac fe a yr ystorm

	heibio. Ar ôl i'r "gear" gael eu harchwilio yn y swyddfa, fe gyfeiria y Group a'r box ar ei hysgwydd a'r pric (pren) mesur yn y law arall fel llinell o gaethweision ar hyd y "cob" neu cutting oedd yn cysylltu "ochr dde" ac "ochr chwith" y chwarel. Droeon gwelais
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 192
Trawsgrifiad	group cyffelyb yn gwneud ei ffordd am y diwrnod cyntaf i Shed Ponc Leval, mintai lwm, dlodaidd a gwan ei gwedd ar y cyfan. Yn ddiweddarach yr oedd yr elfennau "gear" yn cael ei harchwilio yn y shed y bore cyntaf gan swyddog ac nid oedd yn ofynnol i fynd i'r brif swyddfa. Bum yn archwilio am rhai blynyddoedd fy hun yn ddiweddarach ac yn ymwybodol o pob "tric" ac "amgylchiad", ac yn brofiadol o'r gwasgu a'r cefndir. Yr oedd y fintai yn cerdded yn rhes (nid oedd bosibl oherwydd culni y cob a'r rails gerdded yn Group) un ar ôl y llall ac yn fy adgoffa i bob tro o'r lluniau a welais yn llyfrau cenhadaeth yn Ysgol Sul Treflys, neu y brodorion yn dod a corph a meddiannau Dr Livingstone o ganolbarth Africa. Er codi prentisiaid a cael "gwaed newydd" yr oedd amyl i drefn wedi bod ar dro. Hefor hen system (hen drefn) yr oedd y bechgyn yn mynd i weithio at y tad a cael ei gymeryd i mewn i'r "criw" a gwneud man ddyledswyddfa cyffredinol a pob aelod o'r criw
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 193
Trawsgrifiad	<p>yn cadw llygad arno ac yn ei awdurdodi a gan ei fod yn floatio rhwng y lan a'r twll yr oedd bywyd yn eithaf diddorol a cael dysgu pob agwedd : ond wrth gwrs nid oedd cyflog rheolaidd. Yr oedd ei "ymdrech" yn cael ei gynnwys yn y cynnyrch cyffredinol, a'r tad oedd yn elwa (os oedd ?), ond fel y tyfai yn hyn ac fwy profiadol yr oedd yn araf yn cymeryd ei le fel aelod sylweddol o'r criw, ac yn hawlio ei "rhan". Yr oedd llawer o fechgyn nad oedd ganddynt gysylltiad uniongyrchol yn y chwarel, ac yr oeddynt yn dibynnu ar drugaredd a caredigrwydd i gael ei cymeryd i fewn i griw, neu "bela", a begera " os gwelwch chwi dda gai glwt", a'r cyflog yn dibynnu ar "hynny bach na i hynny bach ga i".</p> <p>Yn 1916 dechreuwyd y drefn newydd i drafod yr hogia bach, y "prentisiaid fresh". A'r oruchwyliaeth yn trefnu i ofalu amdanynt (copi o notice Chwarel Penrhyn Prentisiaid W.D. Hobson, manylion yn gwahodd prentisiaid i'r drefn newydd 1916). Neilltuo shed neu gwalia yn arbennig iddynt, eu cadw hefo'i gilydd, ac Instructor yn gwyllo a'i rhoi ar</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C19, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 194
Trawsgrifiad	ben y ffordd, a rhoi cyflog wythnosol rheolaidd iddynt, cyflog bach iawn ydoedd (3/6 yr wythnos) ond yr oedd yn ddechreu, ac yn well na dim. Felly nid oedd y tad na'r teulu yn gyfrifol o gwbl am y bachgen, ond dod yw weld feallai rwan ac yn y man a holi yn ddirgel am ei hynt . Fel rheol dyn ar waith ysgafn, "light work" o

	ganlyniad i iechyd neu ddamwain fyddai y gofalwr fel rheol, ond yn <u>chwarelwr profiadol</u> , ac mi fyddai yn achlysurol yn ein hyfforddi syd i drin clwt a naddu etc. Ond hefo mintai o rhai nwyfus direidus a llawer o ddrwg weithredwyr yr oedd cymaint os fwy na allai ei wneud cadw rhyw fath o drefn. . Byddai ymladd, neu ddireidi, neu ddamwain yn rhyw ben yn barhaus a druan o Wm Roberts (Bryniau Terrace). Hefyd nid oedd “shed attendant” yno (y gwaith ddim digon i gyfiawnhau un ?) ac yr oedd y gofalwr yn gorfod bod yn beiriannydd i rhaddau ; cychwyn a stopio y peiriannau, ac atgyweirio y “belts” pan oeddynt yn torri. A gan fod Shed yr hogia bach yn wir “Cinderella” y gwaith
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 195
Trawsgrifiad	<p>nid oedd fawr o drefn ar “servicio” y byrddau llifio ac anamyl iawn y deuai fittar yno yw atgyweirio a byddant o fis i fis yn diriwio yn waeth a gwaeth a'r hogia yn ddifater a didrefn. Rhai byth yn “oelio” y byrddau llifio nac ei ymgeleddu, hefyd cast offs fyddai y llifiau, rhai bach ac mor fach nes yn tueddu i godi y clwt yn lle ei lifio, a’r rhwymau (belts) mewn cyflwr truenus. Nid wyf yn cofio gweld belt newydd yn dod i’r shed o gwbl, hen bytia a darnau wedi ei rhoi at ei gilydd. Cast off Shed Ponc Twrch fyddai y belts a’r llifia . Yr oedd y belts yn cael eu “ashio” (“joinio”) efo clamp a dwy bolt (pwrpasol) a nuts clamio. Gan nad oedd Shed Attendant Wm Robaich oedd yn gorfod trwsio y belt</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>

	neu yr hogia eu hunain a gan fod y belt yn amrhyw o ddarnau, yr oedd amrhyw o “joints” a gwendid, a’r clamps a’r powltia yn brin, ac gorfodaeth i ail ddefnyddio dro ar ôl tro
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 196
Trawsgrifiad	<p>y clamps a’r powltia. Cofiaf i mi gael braw er i mi fod yn ifanc a dibrofiad : ond yr oedd yn wrthyn i mi gweld Wm Robaich yn curo “nut” a bowltan hefo morthwyl chwarel yn lle ei throi a “spanner”. Ond tebyg ydi nad oedd “spanner” ar gael ac nad oedd edau ar y bowltan. Ond ar yr egwyddor yno ac “stop gap” “rough and ready” a chodi o ddefnydd ac amcan, yr ai y lle rhywfodd ymlaen. Gorchwyl enbyd oedd gwaith y gofalwr druan a pan oeddwn i yno yr oedd ganddo fab yn ein mysg ac un arall wedi gadael y flwyddyn cynt.</p> <p>Wedi cyrraedd y Shed (Ponc Level ochr chwith) yr oedd y rhai oedd yno eisoes yn casglu o’n hamgylch a rhyw “elfen” yn nabod hwn a llall, ac yn ein disgwyl byddai swyddog a’r Instructor yn ein dosbarthu ac yn ein rhoi i weithio hefo un “profiadol”? neu o leiaf bachgen ag oedd wedi bod yno am ychydig o leiaf o’n blaen.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 197
Trawsgrifiad	<p>Fel rheol yr oedd y rhai “profiadol ?” yma eisoes wedi cael gair hefo’r Instructor (neu dad a cysylltiad) i’r perwyl os oedd yn bosibl i gael y bachgen newydd i weithio hefo’i frawd, gefnder,cyfaill etc, ac os yn hwylus byddai yr awdurdodau yn caniatáu hynny. Felly mi fyddai “intake” newydd yn golygu gryn “change over”. Fe drefnwyd i mi fynd i weithio at “John Bach Bontwr” fy “nhefnder” ac bum hefo fo am rhai misoedd.</p> <p>Prydnhawn y diwrnod cyntaf cefais fy hysbysu mai No 77 oeddwn, ac erbyn hyn yr oedd y rhif olaf tua 80. Yr oedd tua 60 ohonnom yn y Shed (rhyw 20 wedi cael eu symud i’r twll (y rhai hynaf) mwy am hyn eto). Shed ydoedd wedi ei hamcanu i gymeryd 24 o chwarelwyr rhai feallai hefo Journeyman (Jermon) ac dim mwy na 30 i gyd. Y Shed yn ddau rhan (cyffelyb i shed C, H) a’r cwt motor yn y canol (photo) (page 423), chwe bwrdd llifio yn y ddau rhan (12 i gyd) a chwarelwyr mewn “gwal” yn y ddau ben i’r bwrdd ac yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 198
Trawsgrifiad	<p>eu defnyddio yn rhannol. Weithia mi fyddai un a Jermon ganddo, ac yn y shediau lle roeddynt yn ymdrin a cerrig caled fel yr ochr chwith (Ponc Level a Twrch) yr oedd y bwrdd llifio o rhaid yn “slow” iawn, ac nid oedd obaith i’r bwrdd gadw dau chwarelwr i fynd ac yn sicr os oedd gan un gaethwas felly yr oedd yn ofynnol ac yn rhaid i weithio rhan helaeth yn “oer” a thorri hefo “rhys”. Hefyd yr oedd llawer o’r “bastard” caled yma nad oedd bosibl ei llifio o gwbl ar fwrdd cyffredin.</p>

	(Fe adeiladwyd Shed hir arbennig (photo) yn Ponc Twrch a dim byrddau ynddi i'r pwrpas o weithio y cerryg caled yma (bastard caled)) Felly gellir amcanu syd le oedd yn Shed Ponc Leval, tri ugain ohonom (mwy neu lai) ac yn amyl tri “yn gweithio” yn pen y bwrdd a dau neu dri yn y pen arall. Pa obaith oedd gan y bwrdd i'w cadw i fynd pe bae yn newydd a cael pob sylw !
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 199
Trawsgrifiad	<p>Hefyd yr oedd y clytia yn fach ac o ansawdd sal yn amyl ac yn anhawdd yw “cloi” a'i “gosod” i lifio. Mewn “theory” pan oedd tri mewn wal yr oedd un i fod i ddarparu y clytiau, llifio etc, a'r llall i hollti a'r trydydd i naddu, ac newid gorchwyl yn eu tro.</p> <p>Cofiaf i'r diwrnod cyntaf fod yn ddiwedd, a llawer o “raggio” a “hambygio” ac ymladd. Yr oeddwn yn meddwl ei bod yn amser cinio pan oedd yn amser “panad naw” ! – Duw a'm helpo. Yr oeddym i gyd (rhai ychydig yn well, dibynnu ar faint y teulu a'r cefndir) wedi ein gwisgo a chymysgedd ofnadwy, rags, hen goatia rhai hen ac wedi eu troi heibio. Yr oedd cael hen coat yn drysor i'r chwarelwr. Anamyl iawn y byddai bachgen pan yn dechreu gweithio, yn feddiannol a trwsus melfaréd priodol. Hen drwsus brethyn fyddai fel arfer wedi cael ei fyrhau etc. Nes ymlaen ar ôl ychydig wythnosau ac wedi cael cyflog byddai <u>shawns</u> o gael trwsus “melfaréd balog fly”.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, Hanes Cymdeithasol

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 200
Trawsgrifiad	(Bela Ponc Lord) ac dyna brofiad nefolaidd – teimlo yn glyd, cynnes ac yn ddyn. Pan ddechreuais i yn y chwarel “make do” oedd hi nes daeth y llong ! i mewn a trwsus bach byr, uwch na fy mhengliniau i oedd gennyf am wythnosau – y trowsus oedd gennyf yn yr ysgol (a hwnnw ddigon tenau a llwm). Oherwydd posibilrwydd o damwain, anafu a natur “creulon” y lechan a’r gwaith, ni chaniateir i neb weithio a coesau noeth, a hynny yn ddeallaedig. Ac yr oeddwn (neu fy rhieni!) wedi canfod fod rhai (clota yn barhaus) yn mynd tros y broblem gan wisgo “bootees”, hen bootees milwyr rhyfel gyntaf, ac yr oeddym ni fel hogia y teulu wedi cael hen bar gan uncle Tom (brawd man) ar ôl crefu a swnian ag oedd wedi bod yn y fyddin. Rhyw fath o bandage hir kaki ydoedd tua 3”-4” o led ac efallai yn dair llath ac “tape” tua llathen wrth fodfedd yn terfynu un pen iddo (gwel lluniau) a lliw Kaki wrth gwrs
Nodiadau	Bootees – puttee/putties
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 201
Trawsgrifiad	Yr oeddych yn dechreu ei rhwymo dros top yr esgyd ac yn dod i fynny yn rhaddol gan gadw overlap ac yr oeddwn i yn gorfod cario ymlaen dros y pen glin nes cyrhaedd a dros y trwsus byr a terfynu hefo dwy neu dair tro o’r tape a tuckio y pen o dan ei hun a dyna syd euthum i’r chwarel am wythnosau os nad misoedd . Cofiaf mai nuisance glan oedd y “drefn” ac yn barhaus yn rhoi trafferth i mi. Yr oedd booties yn gweithio yn weddol

	<p>dda i'r un a a i'r drafferth yw rhoi yn iawn ac hefyd pan nad oedd (fel y bwriedir) yn anghenrheidiol mynd dros y "penglin". Yr oedd symudiad y penglin yn barhaus wrth gerdded a gweithio yn ei symud a dinoethi y goes. Hefyd yr oeddynt yn gwasgu ac yn afiach, ond nid oedd dewis na lle i gwyno, ond trugaredd oedd cael gwared a nhw.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 202
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd chwarelwyr yn y "twll" (rhannau cerrig rhywiog, "soft blue", a rhai bargeinion cerrig caled), pan yn "trin" yn cadw or naill du "cerrig man", clytiau o dan rhyw faint (o dan tua 14" o hyd/length) a pan fyddant wedi casglu llwyth 30cwts – 42 cwts yr oeddynt yn ei lwytho mewn wagen, rhoi ei number arno a'r gair "Boys". Yr oeddynt yn cael pris ychydig o dan pris "shed blocks" am danynt a'r pris yn gyffredinol trwy y chwarel a dim yn newid fel yr oedd yn bosibl i pris y shed blocks a'r rwbel newid o dan ddylanwad y gosod (quarr) misol. Yr oedd y "Boys Blocks" i fod o ansawdd sylweddol ac wedi eu trin yn briodol, ond y tuedd oedd rhoi heibio llawer o bethau amheus a diwerth. Yr oedd rhan yn cael eu taflu i mew i ganol y llwyth a y rhai gorau yn cael eu cadw yw rhoi ar y wyneb ac yn y lle amlwg (window dressing)</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 203
Trawsgrifiad	Dibyna yn hollol ar egwyddor y chwarelwyr, rhai yn onest iawn a chydymdeimlad a'r "hogia bach". Oherwydd y pellter amser, diffyg grym a threfn gan yr hogia, anamyl y byddai complaint yn dod yn ôl i'r fargen ac yr oedd pawb yn gwybod hynny. Yr oedd rhai llwythi da yn dod o dro i dro, ac mi fyddai yr hogia yn gwybod am danynt, nabod ac yn gyfarwydd a'r numbers etc. Rhai "barginion" a "joints", "traed gwastad" da yn agos at eu gilydd a cynnyrch da o "Boys Blocks" yn dod allan bron yn rheolaidd. Hefyd yr oedd cael "pen gwastad" neu weddol wastad ac yn enwedig os oeddynt yn weddol fresh yn fantais aruthrol, ac mi fyddai yna gystadleuaeth ennbyd am rhain – gan nad oedd angen eu llifio, ac mi roedd hynny yn "factor" fawr gan fod llifio yn fath broblem. Yr oedd rhai llwythi da a derbyniol yn dod o fargeinion "caled" (hard blue), penau da heb sbâr ac yn iach ac yn hawdd yw trin. Yr oedd y pen yn cadw yn well heb sychu (dylanwad
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 204
Trawsgrifiad	y tywydd) - na cerryg rhywiol (soft blue a purple). Y rhai yw gochel oedd "crych du" a cerrig caled diben. Hefyd yr oedd cerryg (blocks) trefnys a penau da ganddynt rhywiog yn broblem os oedd cen (layer) o spar caled (felspar) ar y pen (joint). Y delfrydol oedd "troed glas" fresh, gwelir digon o rhain yng ngloddia a tomennydd yr ardal, ac y maent yn rhagorol i hogi cylleth neu unrhyw erfyn arall. Yr oedd clwt pen spar (y spar weithiau ¼" neu rhagor o drwch) yn dinistrio awch y "cun" ac yn berygl i'r llygaid a'i lifio i ffwrdd oedd yr ateb goreu.

	Mi fyddai y llwythi yn dod hanner dwsin mwy neu lai ar y tro, ac mi fyddai y gofalwr yn gweiddi arnom, neu mi fyddai y gair wedi i ledaenu ar amrantiad, ac mi fyddai bron yr holl shed (yr oedd y term “Shed” yn cael ei arfer am aelodau y Shed)
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 205
Trawsgrifiad	yn syrthio arnynt fel locustiaid. Rhyw ddeugain i hanner cant yn ymosod yn wallgof, nifer dda ar ben y llwyth yn pigo a llichio. Pob “crew” yn hel pile, cocyn neu cocyna, dibyna ar shawns egni a “bullying”, mae yn rhyfedd na fuasai mwy o anafy er mi oedd llawer, pawb, yn osgoi y clytia sal, ac mi fyddai y “gofalwr” wedi cyrraedd ac yn llefaru am drefn, ac yn gorfodi pawb i fynd a rhan o clytiau “amheus” er cael llwyr wagio y “geni” (waggons), a dyma heddwch a rhai wedi llwyddo i gael sled neu rhywbeth ar olwynion yw cludo i’r wal, ar lleill gweddill o honom yn eu cario gan wneud amyl i shwrna. Wedi cael y cymysgaeth i’r wal, ymgiprys a ffraeo pwy oedd i gael hollti y clytiau gorau “fresh” yma, fel rheol “cryfa drechau” oedd yn penderfynu, ac ymosod ar unwaith ar y “stock” newydd. Nid oedd y reol o hollti naddu a gwatchiad bwrdd yn ein tro yn gweithredu o gwbwl. Byddai oriau a dyrnodia yn amyl yn mynd
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 206
Trawsgrifiad	<p>heibio heb i rhai ohonom gael gafael yn y “gear”, yn enwedig pan fyddai cerrig yn brin. Gan mai “man” fyddai y cerrig (blocks) naturiol man fyddai y cynnyrch (dressed slates) a gan mai dysgu yr oeddem a fawr o drefn na “skill” yr oedd y cynnyrch yn flêr, “tingam”,</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>tingam (exaggerated) angles off 90° ac yn gymmysg o rhan trwch ac ansawdd gyffredinol. Anamyl yr oeddym yn cael “carreg” (slate) dros 14” x 8” ac yr oedd y mwyafrif o dan hynny, a’r helyw yn mesur 10” x 8” (10 ¼ “ x 8 ¼”), 12” x 6”, 10” x 6”, 8” x 8”. Yn ddiweddarach fe ddaeth 14” x 4 ½” – 12” x 4 ½” – 9” x 4 ½”. Fe ddefnyddiwyd rhain fel “damp-course” pan yn adeiladu ac yr oeddynt yn boblogaidd iawn nes daeth y “bitumen strip” i gymeryd eu lle i rhaddau helaeth. Hefyd yr oedd tuedd gyffredinol i dorri cerryg (sglodion) pan yn naddu i lawr i 12” x 6” – neu 10” x 8” – pan y buasent yn hwyllys ildio “size” mwy – 14” x 8” neu 12” x 8” dyweder -</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 207
Trawsgrifiad	er boddloni rhyw “uchelgais” i gael “pile” fawr o un size a cael “show off” i’n “cyndogion” a boddloni rhyw reddf od. Yr oedd dau gan o 12” x 6” yn fwy “spectacular” na rhyw ddyrnaid o amrhyw sizes. Wrth gwrs yr

	<p>oeddym yn cael tafod am hyn, ond yr oedd yn anhawdd torri yr elfen. Nid oedd ein cyflog yn dibynnu ar faint na gwerth ein cynnyrch, diolch am hynny, ond os oedd rhai o honom yn llaesu dwylo yn ormodol yr oeddym yn cael cerydd a “bygythiadau”. Yn achlysurol yr oeddem yn “cyfri” cario ein cynnyrch allan i’r “clwt cyfri” ac ceishio efelychu trefn chwarelwyr profiadol ac ymgais i “peilio” y cerrig yn drefnys. “Carreg dro” ar ôl pob hanner cant (64 actual slates”) (10 mwrw a dwy, 32 actual) (mwrw – 3 slates) (chwarter cant 10 mwrw a dwy). Ni chaniateir i rhoi (neu cario allan) llai na chwarter cant (32 actual), felly feallai byddai y 10” x 8” dyweder yn ddaugant a chwarter (2 ¼)</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 208
Trawsgrifiad	<p>Byddai y “spar” (gweddill) yn cael eu gadael ar ôl tan y cyfriad nesa, ond mi fyddai llawer i “swopio” a “menthyca” ac weithiau “progio”. Ond anamyl y byddai hyn yn cymeryd lle hefo chwarelwyr mewn oed, ond yn shed yr hogia bach yr oedd trafodaeth parhaus a “brisk”. Diwedd “mis y chwarel” yr oedd rhaid cario allan pob carreg , er mwyn i cynnyrch y mis i bwrpas yr oruchwyliaeth ac hefyd er gweithio accounts y “crewiau” a’u cyflog am y mis. Hyn yn bwysig iawn i’r dynion mewn oed lle roedd pob carreg yn ychwanegu at y cyflog, ond i’r hogia nid oedd hyn mor bwysig. Eto yr oeddem gorfod cario allan yr un drefn ar patrwm.</p>

	Golyga hyn “stau”, er mwyn lleihau gwaith cyfri bore Sadwrn diwedd y mis. Byddem (dynion mewn oed) yn ymgeishio i gyfri dydd Mawrth neu Mercher (ar ôl dydd Mercher ni chaniateir i gyfri tan diwedd y mis bore Sadwrn. Wedi cyfri gosaf i’r olaf yma (Mawrth neu Mercher) byddai pawb wrthi
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 209
Trawsgrifiad	am ei oreu yn gweithio yn galed i geishio chwyddo y cynnyrch am y mis, ac hefyd yr oedd rhaid annely i “stau” – hynny yw, darfod pob size a gradd yn chwarter. Yr oedd y markers “slate Inspectors” pan yn checkio yn caniatáu gymeryd a rhoi i.e. darfod ¼ o 20” x 12” hefo 22” x 11” neu 20” x 10” gan eu bod yr un bris, neu 18” x 10” a 16” x 12” ac nifer o sizes a gradd eraill. Er y “rhyddid” yma yr oedd “stau” yn orchwyl yn enweig i “wastadhau” y graddau mawr, ac mi fyddai bron yn amhosibl heb “blocks” cerryg priodol, ac o ganlyniad mi fyddai “newid” a benthyca yn cymeryd lle yn achlysurol ymysg yr oedolion. Nid oedd yn bwysig i’r hogia bach efelychu y dynion i’r graddau hynny, a rhyw fath o “stau” oedd yn cymmeryd lle, heb fanylu na phryderu. Yr oedd yn cyfri yn amyl, cario y cerrig yn ein dwylo (chwarter ar y tro, rhai man) yn “direct” o’r wal i’r clwt cyfri
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 210
Trawsgrifiad	<p>os byddai “sled bach” ar gael. Byddem yn defnyddio hono a’r chwarters fel “bricks” o’i hamgylch, ac yn amyl yn chwalu a syrthio ar y daith fer o’r shed i’r clwt cyfri. Yr oedd ychyg “sledia bach” mewn cyflwr truenus a ragshod. Y coed oedd i fod ar y wyneb wedi diflannu ers amser yn “coed tan” ac ond olwynion a fram fregys ar ôl, a “crawia” ar y wyneb yn lle y coed, ond yr oedd yn well na cario, a cael “sport”.</p> <p>Nid oedd “loeswr” (arloeswr) dyn yn clirio rwbel) ar ein cyfer ac yr oedd yn ofynnol i ni glirio rwbel ein hunain. Nid oedd hyn fawr o broblem ac yr oedd yn “newid” a cael “hwyl”. Yr oedd ein cynnyrch yn fach, ein hymdrech yn ddirifol ac o ganlyniad cydmarol fach oedd yr rwbel : er mae yn debyg fod “computation” y shed yn ddifrifol os oedd hwnnw yn cael ei weithio allan gan rhywun am y shed gyfan. “Computation” oedd y gair mawr gan yr oruchwyliaeth a’r pwysau y cynnyrch mewn cyfartaledd i bwysau y “blocks” a fyddai yn mynd i</p>
Nodiadau	Y defnydd o ddull “Computation” yn arwydd o’r dulliau rheoli newydd yn y Chwarel ar ôl 1916
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 211
Trawsgrifiad	<p>shed am fis. Byddai cyfanswm pob size o gerrig (dressed slabs) yn cael eu gweithio allan i ganfod eu pwysau a’r cwbl yn cael ei addio yn gyfanswm a canfod percentage o gynnyrch a rwbel. Ac wrth gwrs byddai hyn yn check ar y cynnyrch a fyddai yn mynd dros y main machine, a byddai cwestiynau ac ymchwil os byddai llawer o wahaniaeth. Yr oedd computation pob shed yn cael ei anfon yn fanwl i’r swyddfa pob mis, a “legar” arbennig ar gyfer y gwaith, a cyfanswm pwysau pob size a gradd yn cael eu croniclo yn fanwyl. Yr oedd y drefn yma yn</p>

	<p>ateb unrhyw pwrpas. Yr oedd gan y swyddfa groniciad faint o “stock” oedd (i fod ?) yn mhob rhan o’r chwarel ac syd i drefnu y llwytho ar gyfer “orders”. Yr oedd y “computation” yn dangos cynnyrch y siediau, ac yr oedd y goruchwyliwr yn gallu gweld cynnydd neu ddirywiad ar y graph unigol (shed) a’r cyfanswm y gwaith, a byddai ymchwil, “chwip” a cerydd yn dilyn weithiau. Yr oedd graph y computation yn dadleni pa mor ddiwyd neu ddinistriol (malu) oedd natur shed arbennig ac hefyd natur ansawdd y cerryg blocks oedd yn cael e trafod yn y shed, a lluo o ffeithiau eraill i.e.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 212
Trawsgrifiad	<p>gallai y brif swyddfa gydmharu shed a shed a gwybod beth oedd natur y gweithwyr a dylanwad y swyddog.</p> <p>Ond diolch cyn belled ag y gwyddem ni, nid oedd “computation” yn Shed yr hogia bach, ac nid oeddem wedi clwad y gair na gwybod ei bwrpas. Gallaf feddwl fod y “computation” yn isel iawn oherwydd fod cymaint o sbwriel yn dod yno a diffyg trefn ac amodau.</p> <p>Byddem yn defnyddio “sled bach” i “loesi”. Yr oedd “pen y domen” bach “private” yn odre gogleddol i’r shed (yw gweld hwdydw) ac ond rhyw 50 o latheni o’r shed. Felly nid oedd yn bwysig pacio llwyth mawr (a pwy allai ar sled bach), crawio o gylch y sled bach hefo “sgolpins” a man grawia am rhyw chwe modfedd mwy neu lai, fel nyth, a llanw y canol a “rwbel man” (naddu) ac i ffwrdd a ni, dau neu dri o honnom, ac yn amyl cymdogion yn dod i gael hwyl a “diversion” bach</p>

	Cynllun a nodiadau Yr oedd “car bach” o wneuthuriad cryf, ond dim i gystadlu a car mawr (yw drafod nes ymlaen)
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 213
Trawsgrifiad	<p>ac yr oedd y car bach fel bron pob peth arall ar gyfer y gwaith yn cael eu gwneud yn y Felin Fawr. Yr oedd car bach a mawr wedi cael eu haddasu ar gyfer dadlwytho yn gyflym ac yn hwylus llwytho rwbel mewn “wageni” a dyma y ffordd gydnabyddiedig i drafod rwbel trwy y gwaith. Yr oedd car bach yn cael ei arfer lle nad oedd gwaith beunyddiol a “tonnage” mawr yn cael eu drafod, ac yn hwylus i lanw pantia yma ac acw</p> <p>Yr oedd rwbel shed yr hogia bach yn cael ei dipio i wagle (yw weld heddiw) ag oedd wedi dod i fod rhwng neu ar ben hen domen. Lle hwylus a digon o le am flynyddoedd lawer i’r pwrpas ma. Hen ŵr byr a’i gefn yn gam, Wm Jones mi gredaf oedd ei enw o’r Gerlan, hen ŵr glandeg a dawel ac i mi yr oedd yn edrych fel yr “hen ganfed”, ei “waith” o oedd ofalu am y “pen domen” fach yma, adgyweirio y “ffordd haearn” (rails), codi ac adeilady o dan y car bach, mystyn ymlaen pan oedd angen. Yn 1930 y cyflog i hen bobl (“old men”) am y gwaith yma oedd 4/8 y dydd, tebyg ei fod llawer llai yn 1920. Mi fyddai Wm Jones yn ofalys iawn o’r car bach a’i orchwyl yn gyffredinol , a’r hogia yn ddireidys a difeddwl yn dod am y car ar “full speed” hefo slediad o rwbel</p>
Nodiadau	Byddai y “car bach” yn cael ei ffurfio efo’r cledrau ar ben pellaf y domen
Casgliad	Ponc Leval

Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 214
Trawsgrifiad	<p>a Wm Jones a'i ddwylo ar i fynny yn gwaeddi arnom i arafy : mi fyddai yr "impact" mor ofnadwy weithiau nes symud y car bach , ac yn achlysurol mi rhoi y sled "somersault" ac i lawr y domen ac byddai row yn dilyn wrth gwrs, a gorfod i'r gofalwr drefny i gael criw a rhaff i'w thyny o waelod y domen i'r llwybr ac wedyn i fynny y llwybr gyda ymdrech yn ôl i'r shed. Yr oedd llwyth o rwbel arferol tua dwy dunell, uchel, yn "overbalancio" yn naturiol a bron yn ddiymdrech pan y syrthiai yr "olwynion blaen" i'r car a cael eu stopio. Fe godai y llwyth yn naturiol, a dyn profiadol yn gafael yn y bach (hook) neu "bawd" y wagan</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>a cymeryd mantais ar y "mountio" yma a ddigwyddai pan a yr olwynion blaen i gylch y "car", a'i dal i fynny nes llithra i llwyth allan ar amrantiad. Wedi i'r llwyth fynd yr oedd mwyafrif pwysau y</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 215

Trawsgrifiad	wagan wag yn y pen ôl, gyda'r canlyniad yr oedd yn syrthio yn ôl ar y rails gyda arweiniad a cymorth gan y "tipper" ac ar yr "impact" yr oedd yn rhoi plwc iddi allan. Er yn ymarfer o'r skill yr oedd yn waith caled a perygl yn enwedig ar ben y tommenydd mawr, a cerdded i ddilyn y waggan ar hyd "car mawr" yn nanedd y tywydd a dim gobaith am gysgod na dianc o effaith gwynt creulon y gogledd, eira a gwlaw, a haul tanbaid a'r llwch yn yr haf, a'r gontract yn caled a rhaid oedd mynd yn ddibaid trwy y dydd o fora tan nos. Ond i ni fel "belwrs bach" (Rybelwrs bach) "sport" oedd mynd a'r rwbél i ben y domen : cerydd weithiau a bygwth am ei difaterwch. Yn y shedia yr oedolion yr oedd "dyn drifio shed" (shed attendant) ei swyddogaeth oedd cychwyn y peiriannau yn y bore ac ar ôl cinio, a'i stopio diwedd y bore a'r hwyr. Hefyd oilio y "main shafts" motors etc ac hefyd hogi (rhoi awch) y llifia, rhoi ffordd (set) arnynt a torri (punchio) dannedd newydd pan oedd angen. Yr oedd hefyd yn gyfrifol am adgyweirio y belts (rhwymau), ordro a gosod rhai newydd pan fo angen, a llu o fan oruchwylion eraill yn ymwneud a peiriana a "dodrefn" y shed. Y fo oedd "handyman" y shed.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, Llifio
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 216
Trawsgrifiad	Ond yn shed yr hogia bach nid oedd y fath ofal a "gwasanaeth" ac o ganlyniad yr "Instructor" oedd gorfod cau pob bwlch dros dro, ac oherwydd pwysau gwaith yr oedd nifer o fylchau a rhaid heb eu cau. Pan oedd angen llif "newydd" neu yn fwy cywir "newid llif" ni fyddai hynny yn amyl gan y byddai yr helyw o honnom o ddifaterwch yn cario ymlaen a rhygnu hefo llif a'r dannedd bron wedi eu llwyr wisgo i ffwrdd, nes deuai amser y bod <u>rhaid</u> newid, neu y gofalwr yn ein gorfodi i wneud. Gan nad oedd "attendant" ganddom i rhoi sylw i'r llifia, yr oeddem yn gorfod mynd a'r lli i fynny i Shed Ponc Twrch a'r "attendant" yno oedd i ofaly am danom, a derbyniad "oer" a bygythiol a dweud y lleiaf oeddem yn ei gael ac yr oedd hyn yn ychwanegu at y duedd i

	beidio a newid lli. Well i mi beidio a enwi (yr oedd yn dod o Felin Hen – W Huws) y cyfaill ond gwelais yn ddiweddar (1971) yn Bangor a golwg da arno, mae rhaid ei fod yn tyny at ei 80. Pan gwelais aeth fy meddwl yn ôl i 1920 a cofio am y derbyniad anfrwdol a oedd yn ei rhoi i ni. Gallaf rwan ddeall ei agwedd : yr oedd yn gyfrifol am Shed oedd yn
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 217
Trawsgrifiad	gweithio cerryg caletaf y chwarel (Bastard caled) (yr haen fawr agosaf i'r Bronllwyd grit) ac yr oedd y byrddau llifio yn gweithio yn galed i'w trafod ac o ganlyniad yr oedd y dynion yn gorfod newid y llif ddwy waith a tair yn y dydd, a gwaith beunydd i rhoi sylw i'r llifia, a belts yn llithro oddiar y pulleys etc, felly yr oedd ganddo lond ei ddwyllaw heb i ni ychwanegu at ei waith, ond yr oedd yr oruchwyliaeth wedi trefnu felly a beth allem i wneud ? Nid oeddym yn gweld llif "newydd" nac un o faint cymhedrol (ganolog) o ran hynny, rhai bach iawn wedi gwisgo i lawr bron i'r asgwrn oeddem yn ei gael, "cast offs" Ponc Twrch ac a dweud y gwir yr oeddynt yn well at ein pwrpas ni na llif fawr, ond yr oedd "limit" pan gyrrhaeddant y cyflwr fel i fod yn rhy fach i lifio, ac yn tueddu i godi y clwt oddi ar y bwrdd llifio. Yr oedd yr ymweliad achlysurol a Shed Ponc Twrch yn fy nigeloni, cyffelyby y ddwy sied, shed ni yn Ponc Leval yn llwm, noeth a phob peth yn dryfflith drafflith. Er y llwch yn Shed Ponc Twrch (fel bron yn amhosibl gweld i ben draw y shed) a twrw y llifia, a pawb yn gweithio, sŵn yr holltwyr neu "dorri bwlch" a tharo efo y rhys bren, a'r naddwyr
Nodiadau	Sylwer y cyfeiriad at natur llychlyd y Shed – dyma achos clefyd silicosis
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20, Llifio

What Facet	57, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 218
Trawsgrifiad	<p>yn brysur hefo'r gyllath bach, eto yr oedd rhyw deimlad o drefn a pwrpas. Y walia hefo "byrddau cerrig" a crawia helaeth ar ei pennau yn terfynu rhwng gwal a gwal, ac yn rhoi "sense" o gludwch a'r hawl i "libart". Byddwn yn mynd yn ôl i Shed Ponc Leval lwm a digysur yn eithad eiddgeddus a digalon (to 218A) opposite</p> <p>Hefyd nid oedd gennym "cwt tan" (caban) yn Ponc Lefal. Yr oeddym gorfod mynd i fynny y llwybr un ponc i Twlldwndwr. Yr oedd cwt yno (yna heddyw ? photo) ac oedd wedi bod yn "gartref" a cyrchfa am flynyddoedd pan oedd y bonc yn cael ei gweithio yn ei hanterth cyn troad y ganrif, ond erbyn hyn wedi cael ei adael ac esgeuluso, ond yn gwneud yn iawn i ni. Nid oedd fawr o drefn os dim, er ein bod yn gorfod gwneud y tan a llanw y "fountain" a gofalu am ferw yn ei tro. Yn amyl mi fyddai y "system" yn torri i lawr, llawer o rhai blêr, difater, didrefn, adref yn sal neu wedi anafy : wedi anghofio, a pob math o rhesymau ac esgus, ac yn amyl tan isel wedi ei gychwyn yn hwyr a dim golwg na gobaith o ferw erbyn "paned naw" ac weithiau erbyn hanner dydd (amser cinio) (to 219</p>
Nodiadau	Fountain – y tecell neu "urn" ar gyfer berwi dwr
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Cynhyrchu llechi C20
What Facet	56, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 218 A (ychwanegiad 1974-5)

Trawsgrifiad	<p>Ie pan yn edrych yn ôl, mi fyddaf yn meddwl mangre mor ddigysur oedd Shed Ponc Leval. Yr oedd oddeutu 80 o belwrs bach ar lyfrau y gwaith yn 1920. Er ceisio ysgafnu peth ar y “conjestment yn Ponc Leval) yr oedd rhyw 20 o’r rhai hynaf yn cael eu gwasgaru yn gyplau (pairs) (247-8) i’r gwahanol Bonciau i ni gael profiad o weithio yn y twll. Y gwir ydoedd y bod yn rhaid gwneud rhywbeth, ysgafnu ar yr anhrefn a’r “overcrowding” ag oedd yn Ponc Leval. Tri ugain mwy neu lai yn gwae trwy ein gilydd o 7.30 yn y bore tan 5 o’r gloch yn hwyr, mewn shed fechan lwm i’r eithaf. Shed wedi ei chynllunio ar gyfer 24 o ddynion ac ychydig Jermyn yn gweithio yn drefnus – Criw (nifer) o rhai racsiog (raggs) yn fychan ar gyfartaledd o gorpholaeth . Prin yr oedd neb yn rhagori ar y naill a’r llall. “Dillad” carpiog “ail law” neu gwaddol Tad neu frawd. Yr oedd pob math o “ddillad” yn cael eu defnyddio, ac dim yn cael ei droi heibio (229-232). Trysor oedd i’r fam gael hen goat neu ddilledyn o unrhyw fath , ac ei gymhwyso heb ystyriaeth i “style” na patrwm, rhywbeth i guddio y noethni a ceisio cadw y gwres i mewn ac balchder ddim yn ein “vocabulary” ni. Oherwydd yr overcrowding yma a’r diffyg trefn ac ein bod rhwng 14 ac 16+- oed i gyd, yn ddiridys ac nwyfus ac fel ym mhob man yr oedd rhai eithriadol, yn barhaus yn “cau byhafio” ac yn achosi trwbwl, ac rhai “bullies” yn treshio a cam drin y rhai ieuengaf a gwan.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	52, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	218 (B)
Trawsgrifiad	<p>Tri ugain o honnom yn gwau trwy ein gilydd o fora Tan nos. Yr oedd rhaid gwneud rhywbeth rhai yn “ceisio” gweithio am ysbaid, y gweddill ohonom yn chwareu, herio a cwffio, rhywbeth i ladd amser (235-243). Mewn canlyniad i’r cerdded, rhedeg a’r gwau parhaus yr oedd y llawr ac oedd beunydd yn damp wedi ei fathru, fel run ieir mewn lle cyfyng. Y rwbel wedi ei fathru a’i wasgaru ac wedi ei ledaenu fel tail gan ieir (218E), y bras a’r man yn gymysg ac wedi lledu dros y lle hollti, dim rhyfedd fod y cynion byr yn mynd ar goll yn</p>

	<p>y fath anhrefn. Dim rhyfedd fod amrhyw yn amddifad o ger (tools) feallai pwt o gyn manholtt yn aros, benthycu a dwyn (steal) yn barhaus. Nifer helaeth ddim yn gofalu a cadw ei harfau yn rheolaidd, ambell un yn ceishio bod yn ofalus a trefnys yn y fath anialwch didrefn. Yn achlysurol yr oedd y gofalwr ac weithiau un o'r swyddogion yn pregethu ac ein bygwth (sack !) am yr anhrefn a diffyg arfa (tools) ac o ganlyniad byddai pethau yn gwella dros dro. Clirio y rwbel ac dadlenu y llawr am change. Ond buan iawn yr oeddem yn anghofio y cerydd a'r bygwth a pethau yn araf yn llithro i'r hen rigolau nes deuai storm eto. Yr oedd pob peth a ellir ei falurio neu ei losgi yn rhaddol mynd yn aberth eithriad ydoedd bod yn feddiannol ar "flocyn tin" cydmharol "respectable", a pwt o styllen gefn. Yn ychwanegol at yr arferiad o holtti darn o'r blocyn tin ne (ac) y styllan gefn i ddechrau y tan.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	218 (C)
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd math o "game" yn cael ei chware – sef tafly y pytia "cynion manholtt" o safle arbennig – sef sefyll a'ch dwy droed ar y "rail" ac ei hanelu (aim) at y "Blocyn Tin" gyda'r bwriad i'w cael i sticio yn y Blocyn (tebyg i Indians yn taflyd cyllith !). gellir dychmygu yr effaith ddamiol yr oedd hyn yn ei gael ar y Blocyn, ond pwy oedd yn malio !</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Yr oedd yr un game yn cael ei chwareu at y drysau : cylch yn cael ei marcio ar y drws ac anely at ganol y cylch yma : y pytia cynion yn gwibio trwy y gofod (space) ac yn berygl i bawb ag oedd mewn cyrhaedd.</p>

Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 108
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	218 (D)
Trawsgrifiad	<p>Wal yn Shed Ponc Leval</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Bron yn barhaus yn flêr a digysur 2) Cerryg (Blocks) yn dwmpath ar eu gilydd yn lle Blocyn Tin a “stôl” (stool) gerryg : darn o “sack” neu hen goat ar y Blocyn Tin 3) Pwt (os yn lwcus) o styllen gefn 4) 4) Pentwr o glytia (Blocks) eto yn lle traed o dan y “drafael” 5) Pwt o Bric Mesur 6) Rwbél yn ymestyn i bobman 7) Y llawr yn dragwyddol “damp” 8) Y celfi as wasgar ym mhob man 9) Dim terfyn o grawia destlys ar ei penau ac “bwrdd cerryg” rhwng y gwalia, rhoi sense o “breifacy” a “cludwch” (Slates of Wales Plt X A) 10) Y cynnyrch (make) yn bentyrchau man ar y llawr neu ar y rwbél, ac yn cael eu mathru ac kickio beunydd
Nodiadau	F.J. North, <u>The Slates of Wales</u> (Amgueddfa Genedlaethol Cymru 1946).
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	218 (E)
Trawsgrifiad	“Wal” “Belwrs bach”, Digysur a didrefn Shed Ponc Leval Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	218 (F)
Trawsgrifiad	Credaf i mi ddweud eisoes mae “eithriad” , a testun edmygedd oedd gweld “traval” barchus a teilwng a’r rhelyw o honnom yn edrych arnynt mewn rhyfeddod. Ambell i dad cydwybodol yn feddiannol ag un, gwaddol o’r dyddiau gynt, ac wedi ei chadw yn ofalys yn y “shed” neu beudai gartref , ac yn ei chario ar ei gefn i ponc Leval, i’r mab gael pob chwarae teg. (S of W, Plt X A). Trafal mewn cyflwr da, a thraed priodol pren iddi, dim twll anferth yn ei chanol wedi ei dreulio gan dreigladd amser, ac blynyddoedd o ymarfer y drafal (llafn) ei hun wedi ei anghori a’i sicrhau yn briodol yn y “llawr”, yn lle ei wedjo gan begia “ffordd haearn” etc (218E) ac yn rhyddhau ac siglo yn barhau. Y llafn mewn cyflwr da ac yn union, ddim wedi ei wneud fel bwa gan oesau o naddu.

	<p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Yr oedd y gof yn gallu rhoi clem o ddur (ashio neu ymdoddi) ar rhan yma, ac ei hadnewyddu i gyflwr da ac ymestyn ei hoes. Ond nid oedd y gofal a'r draul yma i ni yr "is werin" yn Ponc Lefal. Hefyd yr oedd yn arferiad i'r gof drin a rhoi clem ar y "gylleth bach", yr oedd hon yn treulio yn gydmharol gyflym oherwydd y gwaith caled diddiwedd, yn enwedig pan yn trafod yr "Hard Grey", yr haen (vein) galetaf ag oedd yn cael ei gweithio yn y Chwarel (neu unrhyw Chwarel)</p>
Nodiadau	F.J. North, <u>The Slates of Wales</u> (Amgueddfa Genedlaethol Cymru 1946).
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 218 (G)
Trawsgrifiad	<p>Yn cyfranu yn helaeth at ein digysur ydoedd y nifer o ddrysau ag oedd yn Shed Ponc Leval. Gan mai shed sengl ydoedd yr oedd 26 o ddrysau, drws i pob wal ac dau yn y canol (cwt motor) (236 a 428). Nid drysau bach cyffredin oeddynt ond drysau digon o faint i'r ffordd haearn (rail) (218H) ddod i pob wal (218 I 218J) ac yn caniatáu i slediad neu lwyth llawn o rwbel fynd trwyddynt. Yr oeddynt yn mesur 6'6" x 6' mwy neu lai. "Sliding doors" oeddynt simyl heb ddim "refinement". Tu allan i'r Shed yr oedd ffrâm (frame) tebyg i "goal posts" wedi ei sicrhau i'r wal, ac rail ar hyd y top a'r drws yn gorphwys ar ddau olwyn ag oedd yn rhedeg ar y "rail". Ar y gwaelod yr oedd (i fod) pren trwchus ac linars wedi ei hoelio i hwn (218J) i arwain y drws. Pan oedd rhain ar eu goreu ac yn newydd yr oedd y gwynt oer yn canfod ei ffordd i mewn yn eithaf rhwydd rhwng y pared a'r drws, ac hefyd top a gwaelod y drws. Nid oedd "gutters" ar y Shediau wrth gwrs ac yr oedd y dwr parhaus ag oedd yn arllwys oddi ar y to mawr yn cael ei effaith yn fuan ar y drysau a'r fframs, ac ymddygiad y</p>

	belwrs yn y caethiwed cyfyng yn ychwanegu at y dinistyr, ac o ganlyniad eithriad ydoedd cael drws cyfa ac yn gweithredu (operatio) yn foddhaol. Hefyd gan mai ni oedd Cinderella y gwaith eithriad ydoedd neb yn dod iw hadgyweirio. Yr oedd nifer o'r drysau fel pe buasent wedi cael eu bwyta gan lygod neu gwn, y guides ar y gwaelod wedi diflannu a'r drws yn cael ei arwain a'i sicrhau yn y gwaelod gan bilar neu gocyn o glytai diwerth. Oherwydd cyflwr cyfferdinol y drysau a'r fframs yr oedd y drysau beunydd yn dod oddiar y rail ac rhai yn siglo yn ôl ac blaen gan y gwynt fel plancad ar y lein ddillad.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, trin cerrig, llifio
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 218 (H)
Trawsgrifiad	Shed Ponc Leval. Yr oedd nifer o Shediau yn y Chwarel ar yr un cynllun Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, trin cerrig, llifio
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn

Tud	T 218 (J)
Trawsgrifiad	<p>ac yn syrthio ar ei wyneb, ac tebyg mai fel yna y caiff fod nes i'r gofalwr ei weld a cael nifer o honnom yw godi yn ôl. Yr oedd rhai drysau yn amddifad o ffrâm o gwbl, y tywydd wedi ei rhan ddiriwio, a'r gweddill wdi mynd yn aberth i'r cwt tan, a'r drws bratiog yn cael ei sicrhau yn ei le gan gocynau o glytia a "heurs ffordd" (darnau 4' – 8' o rails) yn pwyso arno. Gan fod rhan helaeth o'r drysau yn amddifad o'r "guides" ar y gwaelod ac fod y "rails" yn arwain i mewn, nid oedd dim i rwystro y dwr lifo i mewn i'r Shed. Mewn Shed lle yr oedd dynion profiadol a gofalus yn gweithio, yr oeddynt yn gofalu fod "baw cafn" wedi caledu yn ei le ac yn uwch nac arwynebedd tu allan fel ag i gadw'r dwr draw. .</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Ac ar ôl clirio y rails i ddod a slediad i mewn neu mynd a llwyth o rwbel allan etc, gofalu cau o amgylch y rails ac hefyd rhoi hen sachau neu "rags" ar y gwaelod ac y rhigolau fel ag i gadw y Wal mor glud ag oedd yn bosibl a cadw yr elfennau draw. Ond duw a'n helpo ni yn Ponc Lefal</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, trin cerrig, llifio, cludiant
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 218 (K)
Trawsgrifiad	<p>yr oeddem yn lwcus fod drws yno o gwbl beth bynnag ei gyflwr, ac neb yn gyfrifol a darbodydys i geishio cadw allan y gwynt a'r gwlaw ac o ganlyniad cyffredin ydoedd cael y dwr yn llifo i mewn fel afon ac rhan helaeth o'r Wal fel llyn chwiaid. Yn achlysurol o dan arweiniad a bygwth y gofalwr yr oeddem yn gwneud ymdrech i atal y llif ac i gael gwared o'r dyfroedd trwy guro ebill neu ddarn o haearn (rail) i'r llawr ac ei ysgwyd yn ôl a blaeni</p>

	<p>“lacio” y llawr caled, ac fel rheol yr oedd y dwr yn diflannu i’r domen ag oedd y Shed wedi ei hadeiladu arni. Yr oedd hyn yn arferiad cyffredinol trwy y Chwarel – i mewn ac allan ac yn ffordd rwydd i gael gwared a pyllau anferth o ddŵr, neu i gymeryd “ffoes” yn barhaus – llacio a chlirio ychydig yn y “ceg” yn achlysurol, a’r dwr yn gwneud ei ffordd trwy grombil yr hen rwbel i rhywle.</p> <p>Peth arall oedd yn cyfranogi yn helaeth at ein digysur oedd safle a gweithrediad y to. Yr oedd bron pob Shed yn y Chwarel wedi cael ei toi a’r llechi sala, neu rhywbeth nad oedd marchnad iddynt ar y pryd. Yr oedd nifer fawr wedi eu toi a “cerryg dwbwl” 13” x 7” neu 12” x 8” = 3rds. Dyma y maint a’r gradd isaf (ar y pryd) y gellir toi a hwy. Yn wir yn ddiweddarach fe ddefnyddiwyd 12 x 6 ac 10 x 8 etc i doi, ond yr oedd rhain o’r radd gyntaf (1st neu best) ac wrth gwrs yn dewach ac yn gorwedd yn well o lawer ar ei gilydd ac yn gwneud gwell gwaith. Y mae “table” cydnabyddiedig wedi ei weithio allan ac yn penderfynu y lleiafrif (minimum) gradient a ellir ei dderbyn i unrhyw faint (size) o lechi : lleiaf yn y byd ydyw hyd y lechan</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, trin cerrig, llifio
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 218 (L)
Trawsgrifiad	<p>mwyaf syth sydd rhaid i’r gradient fod er sicrhau fod y to yn gwrthsefyll gwlaw a gwyntoedd.</p> <p>Y mae yn amlwg fod yr awdurdodau wedi anwybyddu yr egwyddor yma er ychwanegu at yr elw (profit) ac wedi rhoi cludwch ! a cysur ! y gweithiwr naill ochr ac wedi toi amrhyw o’r Shediau yn cynnwys Ponc Lefal a’r defnydd “sala” oeddynt yn ei gynhyrchu. Yr oedd y Shed ar batrwm (plan) cyffredin – yr oedd nifer tebyg yn y Chwarel h.y yr oedd dau gradient i’r to, y rhan ganol yn sythach na’r ddwy asgell (wings).</p>

	<p>Cynllun a nodiadau</p> <p>,Yr oedd 52 o ffenestri ar y tro (y cwawl) eu hanner (26) ar y rhan canol (y rhan sythaf) a’r 26 gweddill uwch ben y “wings”. Yr oedd y 26 oedd ar y canol yn eithaf boddhaol ac prin yn gollwng dwr – ac os felly yr oedd y “drips” yn syrthio yng nghyffiniau y byrddau llifio ac ddim yn ein poeni rhyw lawer. Ond “duw a helpo” y ffenestri oedd ar yr asgell a gradient isel, ac yn union uwch ben y “wal”. Nifer o’r cwareli (panes) wedi ei tori gan yr amrhyw chwaraeon, pledu jackdaws etc etc diffyd atgyweirio a “Maintenance”, amyl i dramwyo (cerdded) ar y to, i glanhau eira, nol y bel (ball) ac oedd wedi cael ei dal ar ochr uchaf y ffenast.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, trin cerrig, llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 218(M)
Trawsgrifiad	<p>Ond achos penaf y gollwng diferion parhau ydoedd y “gradient” annigonol ac anhawdd oedd i lwyddo wneud “seal” boddhaol rhwng ffenestri fawr tua 6’ x 4’ (+-) ac gradient mor isel. Fodd bynnag, oherwydd y diffygion, neglect a’r cam-drin ganddom ni, yr oedd y dilyw yn syrthio arnom pan oedd yn gwlawio ac yn sicr pan yr ystormydd yn gyrru. Fel y ddynoliaeth yr oedd rhai ffenestri yn well na’i gilydd, ac yn sicr felly y rhai oedd ar yr ochr Gogleddol ac ddim yn gwynebu y prevailing winds o’r De (South)</p> <p>Back to 218</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval

Tags	Rheoli, trin cerrig, llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 219
Trawsgrifiad	neu dim glo, er i ni ddwyn a “progio” yn amyl. Hefyd i ychwanegu at y digysur mi fyddai llawer iawn o “bulling” ac malu cypanau, er fel rheol rhai heb glystiau fyddai rhain, cast off y cartref ond i ni yr oeddynt yn drysor. . Llawer a minnau yn fy nhro yn yfed o caead (lid) y tin bwyd pan nad oedd dim arall yw gael. Yr oedd bylchau bach sgwâr yma ac acw yn y waliau tu fewn i’r cwt tan (recesses) i gadw tyniau bwyd a cypanau (i’w gweld heddyw) – ond nid oedd neb yn cadw ei daclau yn rhain yn “cwt yr hogia bach”, gan yr oeddynt yn sicr o gael eu benthyg, neu eu dwyn, neu eu dryllio, ac byddai pawb fyddai yn meddy ar rhyw fath o gwpan dros dro yn ei “chadw” neu ei chuddio dan un o’r nifer “peniad” (lwmp o graig sal ag oedd wedi dod ar ben llwyth o rwbel rhyw dro, ac fel arfer wedi rowlio neu lithro i waelod y doman ac weithiau ymhellach. Y mae digon ohonynt yw gweld heddyw yn waelod y tommenydd, yr oedd rhain o faint sylweddol ac yn pwyso tua tunell mwy neu lai, ac yn amyl yr oeddynt wedi syrthio a gadael gwagle odditanynt, ac yn le hwylus i gyddio “gear” neu rhywbeth, ac yn ein hachos ni cyphanau o amrhyw liw a llun). Yr oedd rhai yn cuddio
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	56, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 220

Trawsgrifiad	ei cwpan mewn tyllau yn waelod y domen, neu ei cario hefo hwy yn ôl ac ymlaen a'i cuddio yn y wal. Fodd bynnag byr fyddai ei hoes. Er yr holl dreialon ac anghysur yr oeddem yn cael llawer o hwyl, ac yn anymwybodol o ddim gwell am wn i, ac yn ein tloidi ac carchar anghysur yr oeddem yn canu llawer yn y cwt. Yr oedde bron pob un wedi cael ein mhagu yn y cyffiniau, ac yn gyfyng ein cylch a'n profiad, er nad oeddem yn sylweddoli yr oeddem i gyd yn tlawd yn ôl safonau heddyw, er fod ein tadau a'n teulu yn gweithio yn galed iawn. Pawb bron yn gysylltiol a lle o addoliad, yr helyw yn ymneilltuwyr, a'r capel a'r chwarel oedd cefndir a sgwrs y cartref. Ychydig iawn o ddiddordebau oedd gennym tu allan i gylch y capel – Seiat, Band of Hope, cymanfa ganu, a'r Sul yn gyfan i'r capel. O ganlyniad canu emynau oedd grym y canu, yr un rhai yn cael ei canu yn ddibaid, ac "ail ganu" dro ar ôl tro, cydganu rhai tonnau fyddai yn boblogaidd ar y pryd, ac yn y cwt tan hefo to isal a ninnau yn cael "bloeddio" faint fynom, yr oeddym yn mynd i'r hwyl ac yn credu fod y canu yn fendigedig.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval, Crefydd
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	43, 46, 73, 96
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 221
Trawsgrifiad	Mi fyddaf hyd y dydd heddyw yn cysylltu cwt tan Twlldwndwr tua 1921 a'r don "Maesgwyn" (nid oeddwn yn gwybod ei henw yr amser honno, a codi y geiriau oddiwrth y naill a'r llall). "Wedi'r holl dreialon wedi cario'r dydd, Cwrdd ar fynydd Seion o mor felys fydd". Dyna oedd un o'r favourites, ac "ripitio" y ddwy linell yma llawer o weithiau : nid oedd y geiriau yn golygu dim i mi, na beth oedd yr ystyr a'r argymhelliad, a beth oedd na lle oedd mynydd Seion – neb yn poeni nac eisiau gwybod.

	<p>Nid oes gennyf gof o gael bwyd trefnys yn cwt Twlwdwndwr, oherwydd yr annhrefn a diffyg llonydd yr oedd nifer helaeth yn bwyta yn y shed : wedi i un o honnom (crew y tepot) fynd i fynny y llwybr i lanw y tepot a dwr poeth, pan oedd yw gael !</p> <p>Yr oedd ein mam neu chwaer neu rhywun arall wedi llanw ein tin bwyd fel arfer y noson cynt er arbed gwaith yn y bore. Yn enwedig os oedd dau neu dri a rhagor yn mynd i'r chwarel. Yr oedd torri bwyd a'i drefny yn orchwyl caled, ac yn y caledi yn ceishio cael rhyw fath o newid, er yn amyl nid oedd newid yw gael, a cofiaf i mi fynd am ddyrnodia ar yr un hen jam rhad nes i "gyfaill" yn y cwt (blynyddoedd wedi gadael Ponc Leval) ddweud rhywbeth a taly sylw a dweyd</p>
Nodiadau	Ton "Maesgwyn" : gw <u>Caneuon Ffydd</u> , ton rhif 633
Casgliad	Ponc Leval, Crefydd
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	43, 46, 56, 73, 96, 100
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 222
Trawsgrifiad	<p>"mae dy fam yn hir ar y diawl yn cael gwaelod y pot jam yna". Yr oedd y dynion hynaf, tua 1920 – cofiaf i fy nhaid ac fy nhad ar y dechrau, yr oeddynt yn defnyddio "cerpyn" i gario y bwyd. Yn ddiweddarach y daeth y tynia yn boblogaidd. Rhyw ddarn o "calico??" gwyn tua 2' x 2' a tua 18" o dape (tape) yn un gongl, ac yr oedd y bwyd yn cael ei lapio yn hwn a'i glymu a'r tape. Yr oedd blas odd ar y brechdana ar ôl bod yn gaedig fel hyn trwy y dydd, er hynny yr oedd yn arferiad yn yr ardal, a cofiad i ni fel plant fynd yn rheolaidd am ychydig o ffordd i gyfarfod fy nhaid neu nhad ac am y cyntaf i gael "bechdan spar", a credaf fod llawer o'r dynion yn cadw tamaid rhag shomi y plant. Yr oeddem ni yn eu bwyta yn awchus ac ei chlywed yn rhyfeddol o flasus. Pan oeddem "jermon" (Journeyman) byddem yn beggera brechdan neu "cacan spar" yn amyl dri o'r gloch, ac yr oedd hyn yn arferiad cyffredinol gan yr ifanc trwy y gwaith.</p>

	Nid oedd fawr o foethau neu “ddanteithion” yn y box. Bara menyn (neu margarine) feallai dipyn o gig (dydd Llun) tamaid o gaws, a pethau cyffredin a rhad
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 223
Trawsgrifiad	<p>neu cynnyrch llwm yr ardd, shallotts etc, berwdwr, triog a jam</p> <p>Yr oeddem hefyd yn mynd a te a siwgwr, neu botelaid bach o lefrith. Yr oedd y nifer oedd yn ymgynyll ac yn bwyta o’r un tepot yn gwahaniaethau o un person (anamyl oedd hyn yn digwydd, ond fel ym mhob man arall yr oedd ambell i gymeriad “ceidwadol” ac “od”, ac yn mynu bod ar ben ei hun) i tua 6. Anamyl y byddai y rhif yn fwy na chwech oherwydd fod y system yn torri i lawr. Fel rheol yr oedd y partner a’r Jermon neu y ddau bartner a’r Jermon yn bwyta hefo’i gilydd, a tebot i dri yn dal chwe panad. Yr oedd y tebot yn cael ei fesur yn ofalus, a pan fyddai yn ofynnol cael tebot newydd nid ei bris oedd bwysicaf ond faint o “baneidiau” a ddaliai. Weithiau yr oedd partner a Jermon pen y bwrdd hefyd yn y “tepot”, neu rhyw un o rhan arall o’r shed, a gallai chwech fod yn y “tepot” a’r tepot yn dal 9-10 panad, felly panad a hanner i bawb ac yn amyl y “caethweision” (Jermon) yn cael ond un banad. Fodd bynnag rhyw drefn lac fel hyn oedd yn bodoli yn y “lan” a’r “twll”, a cymdeithas bach yn casglu 9 o’r gloch ac hanner dydd ac am ychydig dri o’r gloch (ond dim te</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes Cymdeithasol, Rheoli

What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 224
Trawsgrifiad	<p>dri o'r gloch bechdan sych oedd hon a dim seiat) yr oedd hyn yn cael ei wahardd gan yr oruchwyliaeth. Yr oedd yn rhyfedd fel yr oedd rhyw gynhesrwydd a cysylltiad at ei gilydd yn y cylchoedd bach yma, y cylch yn nabod y naill a'r llall ac yn cadw yn glos at ei gilydd. Weithiau fel yn yr enwadau crefyddol yr oedd rhywun yn "torri allan" ac yn gadael i "depot" arall, am rheswm arbennig neu ddechreu "cylch" newydd. Y ddynoliaeth yn symud a newid, rhai yn gadael neu farw a bechgyn neu aelod newydd yn dod i fewn i'r Shed neu bonc, a'r cylch yn gorfod newid ei batrwm. Yr oedd y te a siwgwr yn cael ei gario mewn tin cyfaddas, tin a dau gauad iddo a partition yn y canol, a'r gair sugar ar un pen, a "tea" ar y pen arall.</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Os oedd dau berson mewn "tepot" yr oedd un yn dŵad a "pen te" (siwgwr a te) a'r llall yn dod a potelaid bach o lefrith. Hanner y te a'r siwgwr yn mynd i'r tebot 9 o'r gloch a'r gweddill amser cinio.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 225

Trawsgrifiad	Os oedd pump yn y “tepot” yr oedd dau “ben te” cyfa yn mynd i fewn 9 o’r gloch a’r ddau arall amser cinio. Hefyd yr oedd newid trosodd pwy oedd i ddod a llefrith, er yrn amyl rhywun oedd a tyddyn ganddo oedd yn dod a hwn. Fodd bynnag yr oedd cynllun yn rhaddol yn datblygu a’r “cylch” y tebot yn hapys. Y rhan amlaf tin heb “division” ynddo oedd yn cario y “pen te”, hen din mwstard bach a rhyw ddwy lwyed o de a tua pedair o siwgwr yn cael eu cymysgu hefoi gilydd ynddo (nid oedd pwrpas yw cadw ar wahân). Pan fyddai yn “amser gwneud te” byddai y Jermon yn rhoi y pente yn (siwgwr a’r te) y tepot (neu ddau fel oedd y cylch a’r galw) ac am y cwt tan. Aros ei dwrn yn y queue a llenwi y tepot, defnyddio y “peth troi”, darn o haearn a “loop” arno (fel procar main). Mi fyddai un neu ddau o honu nhw yn cael eu cadw yn “lings” y chain oedd yn honian y “fountain” uwch ben y Stove (tan), ond amser gwneud te yr oeddynt yn mynd o law i law, “ wyt ti wedi darford hefo peth troi”, “ga i y peth troi ar dy ôl di?”. Wedi troi y te yn ôl i’r wal mor gyflym ag oedd bosibl a tywallt hanner cynnwys y botal lefrith i mewn i’r tepot a’i droi hefo
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 226
Trawsgrifiad	<p>“pin sgwennu” neu pen “cun manholt”, y te siwgwr a’r llefrith yn y tepot a panad hyfryd fythgofiadwy. Weithiau yn eithafol o wan neu gryf ac ond lliw llefrith eto yn hynod o dda bob amser.</p> <p>Yn ôl eto i shed “Ponc Leval”. Yr oeddym ni yno yn ceishio cadw yr un patrwm a’r oedolion , “cylchoedd” neu ddau neu dri yn bwyta hefo eu gilydd. Ond ein bod yn anobeithiol o ddirfrefn, a’r “cylch” yn chwalu yn barhau, anghofio y pente neu ei golli, y botal lefrith wedi malu neu y tepot wedi “diflannu”, gyda’r canlyniad y byddem yn amyl heb “de” a dibynnu ar ddŵr oer. Yr wyf yn cofio ar un adeg yr oedd <u>dau</u> gwt tan yn Ponc Leval yn agos</p>

	<p>yw gilydd beth oedd pwrpas adeiladu y ddau mor agos nid wyf yn gwybod. Os wyf yn cofio yn iawn yr oeddynt ochr wrth ochr, neu gefn wrth gefn rhan hynny, ac bron ar y terfyn rhwng y “bonc” (twll) a’r “lan”. Tebyg mai pwrpas un oedd gefail neu rhywbeth ar y dechrau. Yr oedd yr uchaf o’r ddau yn cael ei ddefnyddio fel “cwt tan” i’r dynion a weithiai ar y bonc, a’r isaf (drws nesaf) yn cael ei ddefnyddio gan nifer yr “hogia bach”, mintai yn cwt Twlldwndwr fel eglurais</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 227
Trawsgrifiad	<p>a’r gweddill yma yn “gymdogion “ i’r dynion. Weithiai byddem yn cael achlysur i fynd fewn i cwt y dynion ar neges neu rhywbeth, a rhyfeddu at y trefn a’r glanweithdra (cydmharol !) . Cwt glan trefnus a than braf a’r fowntan (fountain) yn berwi yn galonnog, a cwt yr hogia yn flêr a digysur.</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Yr oedd cwt y dynion yn wag yn ystod oriau gweithio (os na fyddai y tywydd yn anffafriol neu anhwylder etc) pawb wrth ei waith. Y gofalwr am y dydd yn troi i fewn rŵan ac yn y man i rhoi sylw i’r tan neu rhoi dwr yn y fowntan. Ond am cwt yr hogia bach yr oedd “sdelcars” yn mynd yn ôl ac ymlaen yn wastad, er hynny ni fyddai drefn ar y tan na “berw” mewn pryd os o gwbwl. Un tro cofiaf i andros o ddrycin dorri allan. Pan yr oedd yn nesu at hanner dydd a dim gobaith o ferw yn cwt “ni”, a’r fowntan yn berwi yn ffyrnig yn drws nesaf, dyma rhai o’r hogia yn newid y ddwy fowntan. Ychydig amser</p>
Nodiadau	Sdelcars – rhywun fyddai yn stelcian, neu fysnesu

Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 228
Trawsgrifiad	<p>amser cyn i'r dynion ddod i lawr am eu cinio. Wrth gwrs yr oedd diffyg "berw" yn cwt trefnys yr oedolion yn drychineb ac yn adlewyrchu yn ddifrifol ar y "taniwr" am y dydd, ac anamyl iawn os o gwbl fyddai hyn yn digwydd. Yn wir yr oedd cystadleuaeth ac ymffrostio, fel rheol mi fyddai y fowntan yn berwi pan gyrrhaeddi y cwt peth cyntaf yn y bore er ni welais neb yn gwneud te tan 9 o'r gloch, ni allai neb fforddio yr amser, ond yn union am y fargen.</p> <p>Wedi i'r dynion ddod i'r cwt yr oedd syfrdandod ac methu deall pam oedd y fowntan ddim yn berwi, ac row 1st class yn dilyn, nes i rhywyn sylweddoli mae fowntan ddieithr oedd yno : ac wedi ymdrafod ac amheu aeth un ohonynt i cwt yr hogia bach, a gweld fod newid wedi bod. Llywydd y cwt (dynion) oedd brawd o Llanllechid un blin a cas ar ei oreu (ni fentraf ei enwi), wel ni allaf ddisgrifio ei dymer a'i fygythion, ac wrth gwrs fe "reportiodd" y drwg weithredwyr, fodd bynnag fe aeth yr ystorm honno heibio fel pob un arall.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 229

Trawsgrifiad	Yr oedd ein gwisg yn gyffredinol “garpiog”. Pawb yn dlawd, rhai yn fwy tlawd, natur y gwaith ddim yn teilyngu dillad twt a da, gwerth mawr ar hen coat neu trwsus. Yn wir, yr oedd hen coat yn drysor ac amrhyw o honnynt ond rags, dim llewis bron. Oherwydd natur y gwaith yr oedd dillad y dynion fel ninnau yn cael eu treulio yn ofnadwy, ac mi fyddai yn anhawdd cael hen ddillad ac i gadw pawb i fynd, mi fyddai yr hen ddillad mwyaf “ragshiog” yn cael eu trysori a’u cadw yn y cwt tan i gael “newid” ar dywydd drwg : ac fel rheol mi fyddai pawb yn feddiannol ar ddwy neu dair o “garpia”, oedd yn hwylus ac angenrheidiol pan oeddem wedi gwlychu neu anghen rhagor ar dywydd oer. Anamyl y byddai dim yn cael ei droi heibio. Oherwydd yr angen mawr am ddillad ar trael ofnadwy, nid oedd “balchder” yn bodoli, mi fyddai pawb yn ddiwahân yn gwisgo rhywbeth gan afael ynddo. Er rhaid dweyd, ar y cyfan yr oedd pawb yn eithaf balch syd i “fynd a dŵad” a rhoi heibio y “coat weithio” neu y sach, a gwaldio cymaint posibl o’r llwch cyn gadael am gartref. Ond yn y chwarel yr oedd pob math o rags ac “variety” – coatia soldiws, postman, coatia merched yn gyffredin, coatia “costume”, “coat stood” a “tails” iddynt a’r rhain
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 230
Trawsgrifiad	yn wyrdd neu “smydliw” gan henaint a gwisgo. Yr oedd rhai dynion a oedd yn feunyddiol yn gwneud gwaith arbennig o fudr, sef “attendants” yn waelod y “tank” (shaft) yn ddychryn i neb ond y cyfarwydd . Yr oedd yn un o rags a sach rhag yr oerni a’r gwlybaniaeth tragwyddol, ac hen het ar ei ben. Yr oeddynt fel bwgan brain yn wir, darn o ledr neu rhywbeth “gwydyn” ar ei gefn a pen ôl er arbed ei gorph a’r rags pan yn gorfod troi ei gefn i wthio y wagenni i’r tank. Yr oedd llu o orchwylion rhywbeth yn debyg, yn waelod a top y gelltydd, pendomen etc, llwythwrs ac amrhyw eraill. Amrhyw o’r gorchwylion wedi datblygu “technique” o “wisgo” i

	arbed y corph yn wyneb y gofyn arbennig. Cofiaf i dyllwr (driller) yn Ponc Lord, “Hughie nanws” o Rachub, pan fyddai yn gwlawio (nid gormod i weithio) mi fyddai yn gwisgo hen goat <u>goch</u> merch, a honno fel Post Office red. Yr oedd peth fel hyn yn led gyffredin a neb yn ei weld yn od. Ond gan fod i’r orchwyl fel “tyllwr” yn gofyn iddo symud i bob rhan o’r bonc, yr oedd yn hawdd ei nabod o bellter pan oedd ei angen, yn y llwch a’r caddug a gwlaw. O rhaid a “cynni” amrhywiol a gwael oedd ein
Nodiadau	Tank – tanciau neu shafftiau dwr e.e. Princess May
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 231
Trawsgrifiad	dillad ninnau yn Ponc Level, ac yn falch o rhywbeth ac mi fydda i yn meddwl rŵan cymaint o broblem oedd i’n rhieni i geishio ein gwisgo ni. Er fod y “byd” wedi newid a safonau yn llawer gwell mi fydda i hyd y dydd heddyw yn gwerthfawrogi a gofidio gweld coat neu ddilledyn yn cael eu droi heibio i’r bin neu yw losgi, a meddwl cymaint o werth fydda rhain wedi bod i ni yn yr hen amser. “Clocsha” (clogs) oedd rhan fwyaf o honnom ni yn wisgo yn Ponc Leval, ac pan oeddem yn blant cyn mynd i’r chwarel. Yr oedd clocshia yn llawer rhatach na pâr o sgidia mawr, tua 5/- - 7/6 y pâr (1920 ?) hefyd gallu clocshia gael eu gwneud o hen bar o sgidia os oedd y “cefna” ddigon da. Yr oedd y crydd yn torri yr hen “wadyn” i ffwrdd, ac hoelio y cefna i “groove” oedd yn wadyn y clogs. Felly yr oedd yn cael pâr o glogs am tua 2/6 – 3/- ac yr oeddynt yn gynnas iawn ond yn anystwyth. Nid wyf yn cofio gweld llawer o ddynion mewn oed yn gwisgo “clocshia”, yn enwedig chwarelwyr, tebyg eu bod yn anaddas i weithio ar y graig ac i raddau yn y shed neu wal, ond i ni fel hogia nid oedd hyn yn bwysig ac nid oedd dewis a da oedd cael rhywbeth am ein traed.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval

Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 232
Trawsgrifiad	<p>Byddai fy mam yn cael hen bar o sgidiau (dyn neu ddynas) a gorau yn y byd os oedd y size yn fawr i ganiatáu torri), gan gymydog neu un o'r teuly ac yn llawenhau. Wedi barnu a bodio yr oeddem yn mynd a'r sgidia i'r crydd ac yntau eto yn ei barnu yn fanwl, ac ninau yn ei wyllo gyda pryder a disgwyl y ddyfarniad. Yn amyl mi fyddai y cefnau rhy sal i wneud clocshia, gyda shiom a thrallod i'r teulu. Tua diwedd y rhyfel gyntaf (ac yn ystod y rhyfel) yr oedd hogia Pant bron i gyd yn gwisgo clocshia a rhai o'r genethod. Cofiaf fy unig chwaer fod hefo rhai pan oedd yn ifanc iawn. Yn rhaddol fe wellodd pethau – yr hogia yn tyfy ac mynd fwy balch, ychydig fwy o arian yn dod i fewn i'r tŷ, a blynyddoedd <u>cydmharol</u> lewyrchys yn dilyn terfyn y rhyfel (1914-18) ac yn rhaddol diflannodd y “clogs” i'r helyw, y clotaf yn parhau yw gwisgo ac amrhyw o labrwrws (labourerers) ar waith arbennig yn eu gwisgo yn barhaus.</p> <p>Er ein bod yn cael ein gwilio yn barhaus, cyn belled ag oedd yn bosibl i'r gofalwr wneud hynny, ond yr oedd yn amhosibl iddo fod ym mhob man ar unwaith, ac yr oedd gorfod rhoi rhyw</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	56, 61, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 233

Trawsgrifiad	<p>gymaint o'i amser yn ei swyddfa, ac byddai yr hogia yn ei wilied ac yn cymeryd mantais ar y cyfle a cael ei gefn. Er hynny yr oeddem mewn anfantais oherwydd lleoliad y Shed. Yr oedd ar "bonc" (gallery) nid y graig wrth gwrs (photo Shed P Leval) ac bron yn union wrth ei phen dwy bonc i fynny yr oedd swyddfa Ponc Twrch (photo ?) ar ymyl y domman, ac wedi ei gosod mewn lle delfrydol i gael golygfa o'r rhan helaeth o'r chwarel a'r ardal ac yn arbennig o ffafriol i weld a gwilio pop symudiad (birds eye view) oedd yn mynd ymlaen yn Shed Ponc Leval odditanym. Felly yr oedd bron yn amhosibl symud o amgylch ac allan a bod yn sicr nad oedd rhywyn yn y swyddfa yma yn eich gwilio, ac yr oedd yr hogia yn ymwybodol o hyn. Yn y swyddfa yma yr oedd "markiwr" (Slate Inspector) Ponc Twrch a "Stewart" y District ac yn achlysurol y "Setter", felly yr oedd yn ganolfan hwyllys i weled symudiadau amheus yr "fintai". Hefyd yr oedd y "Stewart" (Steward) yn swyddogol gyfrifol am y Shed uwchben y gofalwr, ac yn ymweld a'r Shed yn amyl, yn enwedig pan oedd trwbwl, "damwain" neu rhyw helynt ac i rhoi pregeth a cerydd i ni. Yn ychwanegol mi fyddai y "Setter" (gradd yn uwch eto) yn ymweld yn achlysurol ac yn ein ceryddu a bygwth a mi fyddai ei weld yn rhoi ofnad i ni.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 234
Trawsgrifiad	<p>Yn achlysurol iawn fe ddeuai y goruchwiliwr i'r Shed ond fel rheol yr oeddem wedi cael rhybudd o hyn neu mi oedd wedi cael ei weld yn cyfeirio am "Ochr Chwith" ymhell cyn iddo gyrraedd, a rhybydd wedi mynd fel tan trwy yr holl o "Ochr Chwith", neu mi oedd telephone "message" wedi dod yn wrthgefn iddo cyn gynted ag oedd wedi gadael ei swyddfa, ac yr oedd pawb yn barod ac yn "drefnys" ! hefo'r gwaith, ac felly ninnau hogia bach, pawb wrth ei orau er ceisho ymddangos yn ddiheig a diwid, ond anamyl y collai amser i ddod i mewn i</p>

	<p>weld y fath “rabble” a pethau llawer mwy pwysig ganddo i rhoi sylw iddynt. Ond ni all neb ddweyd, ac weithiau fe ddeuai i mewn, fodd bynnag yr oedd pob cam o’i eiddo yn cael eu gwilio.</p> <p>Fel awgrymais oherwydd y cefndir a’r gwilio yma oedd arnom, yr oedd ein chwaraeon a’n pleserau yn cael eu cyfyngy. Eto mae yn rhyfedd fel yr oeddem yn canfod llawer o “diversions” cyfreithlon ac anghyfreithlon yw gwneud. Pan oedd y tywydd yn oer iawn ac yn gwlawio yr oeddym i bob pwrpas yn cael ein cyfyngu i’r Shed, a’n gorwelion yn cael eu cyfyngu. Byddem yn chwareu cardia ar y “sly” yn enwedig</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 113
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 235
Trawsgrifiad	<p>amser cinio, er yr oedd ein cefndir “cartref a chapel” wedi cael cymaint argraff arnom fel bod chwareu cardia yn y blynyddoedd hynny i rhaddau yn ffiائد a pechadurus ac yn halogedig, ac o ganlyniad nid oeddem yn ymgymeryd a’r cardia yn frwdfrydig iawn. Yr oedd yn gefn ein meddwl mae pobl ddrwg a “gwehilion” cymdeithas oedd yn trin cardia, a credaf mai yn Ponc Leval y gwelais y “cardiau” cyntaf. Ambell i un yn feddiant ar “Cock” ledr ac ystwyth a bratiog. Y game favourite oedd “spwff”, games ymyl ac eto gallai ymarfer llawer o skill wrth ei chware. Gwobr yr enillydd oedd un “cigarette Woodbine”. Nid oedd lawer ohonom yn smokio, nid oedd yn arferiad mor boblogaidd i fechgyn ifanc y dyddiau hynny, ac ni allem fforddio yr arian. Yr oedd pkt Woodbine (5 o cigarettes) yn 2d., ac yr oeddem ofn ein rhieni, a parchus ofn dyfarniad yr ardal, yr “elfen” sala oedd yn smokio fel arfer.</p>

	Pan oeddym yn cael “cefn” yr Instructor byddem yn cael pleser yn chwareu pel “o ddrws i ddrws”. Yr oedd yr oll o Shediau y chwarel oddigerth dwy yn un o ddau batrwm. Y mae (y Shediau mwyaf) hefo pedwar drws mawr yn y
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 113, 96, 106
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 236
Trawsgrifiad	dau dalcen (Shed A, B, E & F) a’r gweddill y shediau llai hefo 12 neu 14 o ddrysau y ddwy ochr i’r shed (gellir gweld y ddau fath heddyw) i.e drws personol i bob wal, ac felly oedd Shed Ponc Leval (also 423) Cynllun a nodiadau Yr oedd y ddâu “grew” oedd yn gweithio y ddau ben i’r bwrdd llifio yn naturiol yn meddiannu y ddau ddrws i bwrpas o chware. Nid oedd bosibl kickio y bel oherwydd yr anhawsterau – “rails”, bwrdd llifio, clytai etc, a pel glwt fyddai fel arfer wedi ei gwneyd o rags gyda hen hosan neu lawes coat yn groen iddo, ac llichio y bel oeddem gan amcanu hitio y drws heibio ein gwrthwynebwr. Yr oeddem yn cael llawer o hwyl a cadw yn gynnes hefo’r gem rad yma
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 113, 106

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 237
Trawsgrifiad	Dal “jackdaws” oedd “diversion” arall yn enwedig amser cinio neu amser “panad naw” pan fyddai y Shed yn weddol wag a thawel. Mi fyddai yr adar yn enwedig ambell i un beiddgar yn mentro i mewn yn sydyn a codi tamaid wedi ei daflly yn bwrpasol yn lled agos i’r drws ac i ffwrdd yr un mor gyflym. Blynnyddoedd yn ddiweddarach yr oeddwn yn ystyried pa mor greulon oedd yr arferiad, ac mae yn rhyfedd ac y pryd nad oedd y peth yn croesi ein meddwl. Y mae yn od fel gall yr ifanc fod yn greulon ac anystyriol. Beth oeddem yn ei wneud oedd, ar ôl taflly “abwyd” am dro neu ddau, yr oedd gennym yn barod bob amser un neu dau o fachau wedi ei gwneud hefo pin cyffredin (bachyn). Yr oeddem yn rhoi y bachyn ynghanol lwmp o grystyn a rhyw lathen o linin (string) tenau yn glwm yn ofalys yn y pin ac darn o bapur yn glwm yn y pen arall fel cynffon. Er fod y jackdaws yn eithaf cyfrwys a gofalys weithiau yr oeddynt yn cythru yn sydyn i’r crystyn ai lyncu a’r pin wrth gwrs ac i ffwrdd ac o a hedfan o amgylch a’r papur yn hedfan tu cefn iddo. Wedi hedfan am dipyn a’r fintai yn cael hwyl wrth ei wyllo
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 113, 30397
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 238
Trawsgrifiad	mi ddiflannai i rhywle druan bach, ac un o honnom wedi ei weld eto yn ddiweddarach feallai, ond nid oedd fawr o gydymdeimlad a “jackdaw” gan ei fod mor gyfrwys a digywilydd ac yr oedd yn codi ffa yn ei gerddi a ninnau wedi clwad ein tadau yn ymosog yn wastad arno. Hefyd mi fyddem yn taflly bwyd at y drws a dipyn fwy i fewn i ddenu y jackdaws i mewn, a pan fyddai y Shed yn weddol dawel amser panad naw neu awr ginio a

	ninnau yn gwyllo, ac wedi gofaly cau pob drws ond yr un neu ddau lle yr oedd yr abwyd yr oedd siawns da y deuai yr adar i mewn ac un ohonom ag oedd yn cuddio yn ngysgod drws caedig yn rhuthro allan a mynd rhwng y jackdaws a'r drws agored a'i gau : a cythry cau pob drws arall oedd yn agored, a byddai gawedd yn mynd o un pen o'r Shed i'r llall, pawn yn efelychu y floedd gyntaf "Jackdaw" nid oedd angen egluro, pawb yn deall ac yn barod i'r "chase" a pledu y jackdaw druan cyn y byddai yn cael cyfle i aros am eiliad i gael ei wynt yn rhywle : mi fyddai cafod o gerryg yn byrlymu o'i gwmpas ac i ffwrdd ac o eto i fyny ac i lawr y Shed yn ôl a blaen nes oedd yn rhaid iddo stopio, ac cyn gynted ag
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 113, 30397
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 239
Trawsgrifiad	yr arhosai eto am eiliad dyma gawod eto. Yn amyl byddai y cerryg yn torri ffenestri a "poteli oel" (self lubricating) ar y "main shaft" ac byddai "row" yn dilyn. Hefyd mi fyddai y jackdaw yn amyl yn ein gwneud, rhyw un yn dod i mewn o'r tu allan yn anymwybodol o'r helpa ac yn agor drws ac fe ai y jackdaw allan fel "bwlat" neu weithiai o dan y drws. Cofiaf i ddyn du (eithriadol iawn oedd gweld dyn du yr amser honno yn ein hardal ni ac yn enwedig yn y chwarel) gael caniatâd i ddod o amgylch y gwaith i dynu lluniau "groups" ponciau a shediau. Credaf mai Mr Tunavo (?) oedd ei enw, o Fangor, ac ar ei daith fe ddaeth i Shed Ponc Leval a dyma rhywun yn gweiddi "Jackdaw cauwch drysa" a dyna y croeso a gafodd y cyfaill, ond ddim ei bledy.... yr oedd ei liw yn ennyn diddordeb, ac ei fusnes, a cafodd groeso. Wn i ddim faint o ffortiwn a wnaeth yr oedd wedi dod i lle llwm iawn.

	Pan fyddai y tywydd yn ffafriol mi fyddai yr helyw (awr ginio) yn chwaly i bob man, dan neu dri neu rhagor yn ymweld a'r gwahanol bonciau i weld tad neu frawd neu gyfaill, ymweld a "Red Lion" (y main dressing floor), gweld y pypia, shaftia, a rhywbeth o ddiddordeb. Chwareu ar y tomennydd ac yn y coed o gwmpas Afon Ogwen ac Braichmelyn draw ar
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 113, 30397, 61, 48
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 240
Trawsgrifiad	hyd y tommenydd i gyfeiriad Nant Ffrancon ac explorio ponciau nad oedd gweithio ynddynt. Yr oedd digon o scope i "drampio" a crwydro fel hyn. Ar ddyrnodiau braf yn yr haf mi fyddai tyrfa yn mynd i lawr i llyn Bont Ogwen neu llyn Dyntyr i drochi. Y "plymiwrs" a'r "nofiwrs" gorau fyddai yn mynd, ac nid oeddwn i yn un o rheini. Ar brydiau pan fyddai y tywydd yn boeth byddem ond mynd ychydig lathenni o'r shed, i "ben yr ymyl", ac eistedd ar fin y domen uwch ben yr eangder a'r twll, a gweld y ponciau i lawr i Princess May ac Alice ac eangder Twlldwndwr ac Red Lion i lawr am Felin Fawr ac ymhellach am Afon Menai a Sir Fon. Ond yn y chwarel yr oedd ein diddordeb ni ac yr oeddem yn gwilio pob symud a beth oedd yn mynd ymlaen yma ac acw. Gwilio y gof yn ponc "Lord" yn unioni "hurs ffordd" (rails) a'i "fate" yn tarro iddo (down at hyn eto), gwilio y tarro ac amcan faint oedd y sŵn yn gymeryd i'n cyrraedd ni. Gweld y Jerryems (aerial ropeways) yn codi cerrig melin anferth fel pe baent yn codi pluen o pellderoedd y twll, a gwilio amrhyw o bethau man diddorol, fel dynion yn paratoi i saethu un or gloch fel pryfed ar wyneb y ponciau, clwad canu yma ac acw
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol

What Facet	73, 113
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 241
Trawsgrifiad	rhyw gor yn ymarfer ar gyfer eisteddfod neu gyngherdd neu canu er mwyn y pleser. Er yr holl galedi yr oedd canu yn torri allan yma ac acw yn ddirybudd, a digon o gyfoeth o leishiau ym mhobman. Yn flynyddol yr oedd Eisteddfod Bethesda a'r cylch yn cael ei chynnal yn y neuadd gyhoeddus, ac yn y cyfnod hwnnw yr oedd brwdfrydedd mawr mewn eisteddfodau cyhoeddus a pethau o'r fath, ac ymysg y cystadleuthau yr oedd cystadleuaeth cyfyngedig i Shediau a Ponciau y Chwarel. Credaf y gallai mwy na un bonc ymuno a'i gilydd – fe ddibyna yr uniad ar faint oedd yn gweithio yn y ponciau. Yr oedd rhai ponciau a shediau mawr a llai gynol cor eu hunain. Credaf mai oddeutu 30 oedd nifer y cor, ponc neu Shed. Yr oedd ponciau a llai o weithwyr yn cael uno, ac felly oedd cor "Ponc Level" neu cor "Ochr Chwith". Gan fod Ponc Level tua canol y rhan o "Ochr Chwith" oedd yn cael ei gweithio yn 1920, yr oedd y Shed yn ganolfan hwylus i gyrchu ar gyfer ymarferiadau (practices) y cor. Yr oeddynt yn ymarfer mewn "wal" a'r arweinydd, Elis Griffith Gerlan (tad Mr Emrys Griffiths, clerk Cyngor Dinesig Bethesda ar hyn o bryd, Rhag 1971) yn sefyll ar ben bwrdd llifio. Yr wyf yn ei gweld y funyd yma, a gallwn enwi nifer fawr ohonynt, dynion a meibion ifanc a lleisiaf hyfryd ganddynt ac yn ei dillad gwaith ac wedi cael boreu caled ac wedi prysuro i fwya ei "cinio"??
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Level
Tags	Rheoli, Hanes cymdeithasol
What Facet	73, 45, 43
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 242

Trawsgrifiad	<p>Yr oedd yr achlysur yn adloniant rhad a diddorol i ni, ac yr oeddem yn cael pleser wrth eu gwranddo. Y “darnau” oedd yn boblogaidd a “mynd arnynt” yn y cyfnod hwnnw oedd “O mor ber”, “Cydgan y Pererinion”, “Martyrs”, “Comrades Song of Hope” a rhai cyffelyb. Wrth wrando ar y “practices” yma ac ymweld a’r cyngherddau ac eisteddfodau lleol deuthum yn gyfarwydd a’r “darnau” a gwybod y geiriau. Yr wyf yn cofio geiriau Comrades Song of Hope” yn gyffan hyd heddyw, a rhannau helaeth o’r lleill. Yr oedd yn syn syd yr oeddynt yn cael eu hyfforddi heb gymorth offeryn (piano) na dim, a neb yn gwybod am fodolaeth y gair “aquestics”, a beth oedd dylanwad Shed Ponc Leval ar y canu. Fodd bynnag yr oedda ni yn ei glywed yn fendigedig, ac edrach ymlaen i’r Eisteddfod am gystadleuaeth, lle y byddai dwsin mwy neu lai o gorau o’r chwarel yn cystadlu. Wedi yr ymarfer mi fyddai amrhyw yn tanio eu cetyrn ac ogleu “shag Amlwch” yn gryf yn y shed ar ôl iddynt fynd.</p> <p>Yn ystod yr awr ginio byddwn yn amyl yn chwareu “football” ac am gyfnod byr mi fuo nifer fach o honnom, yn sgil cyfaill : neu un o honnom yn cael y “treat” a chwareu a football iawn, nid y bel glwt gyffredin a parhaus.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 45, 43, 106
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 243
Trawsgrifiad	<p>Owen Hywel oedd ei pherchennog, mab i fferm yn yr ardal a chefnidir dipyn yn well (yn amarol) nar gweddill o honnom ac er brawf a syndod i ni fe ddaeth a’r football fechan i’r chwarel, dwy bonc yn is na Ponc Leval , yn llecyn gweddol wastad, gwaelod hen Incline (gwelir heddyw wedi ei newid) nad oedd fawr o faint ond gwell nac unman. Yr oedd yn agos a digon i ni “griw bach”. Weithiau fe a y football i lawr am lanau Afon Ogwen. “Cwt bach budr” oeddem yn galw y “pitch”, gan fod cwt bach yn waelod yr hen allt ac hwnnw yn ddiymgeledd i’r eithaf, “cachfa” hwyls ar “dywydd mawr”.</p>

	<p>Nid oedd llawer o gwffio yn mynd ymlaen, ac a ystyried yr amodau a'r amgylchiadau anffafriol ac fod cymaint o honnom mewn lle mor gyfyng, ac mewn oed (age) nwyfus y mae yn syn fod ein hymddygiad mor dda. Ond yn y cyfnod hwnnw yr oedd fath beth a "parchedig ofn" a dylanwad y cartref a'r capeli. Hefyd yr oeddem ofn yr oruchwyliaeth a'r posibilrwydd o gael "sack". Yn achlysurol pan fyddai neb o awdurdod o gwmpas fe fyddai dipyn o gamdrin yn mynd ymlaen "bulling" – "golwg bach" y rhai mwyaf yn dal rhai o honnom ac daffod ein trowsus a rhwbio ein "privates" hefo "oil" du waggeni, a gorchwyl fyddai ei gael i ffwrdd a cuddio y ffaith oddi wrth ein rhieni.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 61, 106, 95
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 244
Trawsgrifiad	<p>Nid oedd "tai bach" (toilets) o unrhyw fath yn Ponc Leval nac yn unman yn y chwarel o rhan hynny yn 1920. Ar ôl y rhyfel gyntaf fe ddechreuwyd ar y gwaith, a wedi i mi ddechreu gweithio yr oeddynt wrthi ar y gwaith yn Red Lion (main dressing floor) yn gosod y drains ac adeiladu y tai bach etc ar gyfer yr wyth shed ag oedd ar y llawr y pryd hynny. Dyma y cychwyn (down at hyn eto). Yr oedd pawb yn gorfod chwilio am "gilfach" neu "dwl" (hollow) neu rhywle arall lle y gallai rhan guddio ei pwrpas. Rhai yn "swil" a "cysetlyd" ac gwneud eu gorau i gyddio a'r lleill yn "malio dim" ac yn cyrcwyd yn olwg pawb. Yr oedd gan pob ponc a shed a rhan o'r gwaith ei "gachfa", fel arfer yn y twll. Y llecyna oedd yn cynnig eu hunain oedd y rhannau nad oedd gweithio yno ar y pryd – hen leval (tunnell) neu gwt wedi ei adael a diriwio. Yn y shediau y tomennydd oedd yn cynnig eu hunain, rhywle a phobman, a'r llefydd mwyaf od yn cael eu "dewis". Yn Ponc Lefal fel amrhyw o'r poncia</p>

	unigol (ochr chwith ac rhai o Ochr dde) canlyn ymlaen o'r Shed neu gwalia a dilyn y domen i gyfeiriad y Nant oedd yr aferiad. Gan fod yr arferiad yma wedi bod yn mynd ymlaen am beth amser
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73,57,61
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 245
Trawsgrifiad	yn y gorffennol, agos, yr oedd pob cilfach a phant a cysgod boulders (peniad) mawr wedi cael ei "halogi" i'r eithaf a golygfa "revolting" i fachgen ifanc oedd gweld y fath beth. Wedi llawer o arfer a'r tywydd wneud ei rhan, chwaly yr oedd yr olygfa ffaidd a dweud y lleiaf. Gan nad oedd amser yn pwysu arnaf i'r pwrpas yma, ar dywydd teg mi fyddwn yn cerdded bron i ben eithaf y domen (uwch ben hen adfeilion tŷ Hwfa Mon gynt) er mwynhau y newid a chael lladd dipyn o amser a diwrnod maith yn y Shed. Yn fy ymyl a'r chwith ar waelod y dyffryn y mae "Plas Penisarnant" a "Llyn Dunturs", lle poblogaidd gan hogia'r chwarel a'r cylch i ddrochi. Rhwng y llyn a'r domen gwelir "pyst" wedi eu hadeiladu o rwbel, dyma yr ychydig sydd yn aros o sylfaen yr hen cafna (troughs) ag oedd yn cario dwr i'r chwarel flynyddoedd yn ôl. Yn y "waterfalls" uwch ben y llyn gellir gweld yr ymgais i droi yr afon a bwlch yn y graig lle oedd y cafna yn cychwyn. Y mae y "rhododendron" ag oedd yn ngardd Hwfa Mon wedi tyfy yn wyllt ac yn anferth o faint ac eto yn parhau i flodeuo yn hyfryd yn eu tymor. Er cerdded i ben eithaf y domen ac ymhell o olg y Shed, gobaith gwan
Nodiadau	Hwfa Mon – Parch Rowland Williams, 1823-1905
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73,57,61

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 246
Trawsgrifiad	<p>oedd canfod “lle” hollol lan, mae yn amlwg fod nifer hefo’r un cynllyn a bwriad, ond gwir oedd mae pelled yr awn, llai oedd y “ffieidd-dra”</p> <p>Yn ôl notice W.D. Hobson, Gorph 1, 1916, yr oedd y trefniant yn dweud fod y bechgyn “am y chwe mis cyntaf dysgir hwynt i hollti a naddu o dan gyfarwyddyd dyn profiadol” etc. Yn ystod yr ail chwe mis, rhenir y bechgyn ym mhlith y creigwyr trwy y Chwarel er mwyn iddynt ddysgu egwyddorion gweithio ar y graig. Yn ystod y flwyddyn hon fe dderbynia pob prentis 3/6 yn yr wythnos oddiwrth Oruchwyliwr y chwareli etc.</p> <p>Er i mi ddod i Ponc Leval rhyw bedair blynedd ar ôl i’r cynllun uchod ddod i rym, erbyn 1920 nid oedd y cynllun yn gweithio fel y mae yn cael ei eirio, ac ni allaf ddwedyd pa mor gynar y torrodd i lawr. Er fod y cynllun yn ymddangos yn eithaf rhesymol a doeth y mae yn amlwg nad oedd yn ymarferol. Mae yn amlwg fod y trefniant yr “ail flwyddyn” i.e. “caiff y bachgen ei gysylltu fel cynorthwywr gyda Chwarelwr neu lech-wneuthurwr cyfrifol etc”</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 247
Trawsgrifiad	ddim yn ymarferol a feallai nad oedd y “llech-wneuthurwr” wedi ffafrio y cynllun a cydweithredu.

	<p>Fodd bynnag erbyn 1920 yr oedd y bechgyn am y flwyddyn gyntaf ac tua hanner yr ail flwyddyn fel “sardines” ac gorfod ymgodymu ac amgylchiadau anffafriol yn Ponc Leval. Ein cyflog am y flwyddyn gyntaf oedd 5/- yr wythnos, ac 7/6 am yr ail flwyddyn. Yr oeddem yn edrach ymlaen yn awchus am tua canol yr ail flwyddyn i gael mynd i’r “twll” i weithio. Ac o’r diwedd fe ddaeth y diwrnod hyfryd hwnnw ac ffarwelio ar gaethiwed Ponc Leval. Yr oeddem yn cael ein dosbarthu yn” gyplau” i’r gwahanol Bonciau. Yn ddiweddarach y sylweddolais fod yna rhyw fath o “gynllun”, ac ein bod yn cael ein hanfon i’r ponciau mwyaf cynhyrchiol ac amlochrog ei cynnyrch. Cefais i a cyfaill (cymydog wedi ei fagy yn fy ymyl, ac wedi chwareu hefo’n gilydd ers pan oeddem blant ac yn parhau felly) ein hanfon i Ponc “Rhysold” (Rushout). Yr oedd y chwarel i ni yn lle anferth ac rhan helaeth yn ddieithr. Wedi gweld a’n llygaid amrhyw o weithiau, o “ben yr ymyl” yn Ponc Leval a llefydd eraill yn eangder fel panorama on blaen, ond ychydig syniad lle oedd y lle a’r lle ac gwybod ond am ychydig o’r Ponciau na yr enwau.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Leval
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 248
Trawsgrifiad	<p>Yr oeddem ein dau wedi clywed am “Ponc Rhysold” ond fawr o syniad lle yr oedd. Holi yr hogia cyfarwydd. Erbyn bore Llun yr oeddem wedi cael digon o hyfforddiant a cynghorion gartref a gan eraill syd i ganfod ein ffordd i’r bonc ac syd i ymddwyn a gochel anafy a mynd i brofedigaeth, ac bod yn “barchus ac ymddwyn yn weddaidd”, ein rhybuddio mai ym mysg dynion y byddem yn cymysgu o hyn allan ac am wiliad ein hymddygiad gan y byddai pawb yn dal sylw arnom.</p>

	<p>Fe ddaeth y bore Llun ac aethom ein dau am ben tanc Lord (Lord waterbalance). Yr oedd bron bob un o'r hogia bach wedi bod i lawr ac i fynny "tanc" rhyw unwaith neu ddwywaith cyn cael mynd yn "swyddogol" fel hyn, ar rhyw esgus o fynd i weld ein tad neu neges bwysig yn ystod yr awr ginio. Y "cage" yn cyrraedd y top yn wag, ar ôl cludo "shwrna lawn" o ddynion i lawr, a'r "safety gate" yn cael ei chodi yn glir gan y tanc (cage) ei hun gyda clip, a'r bibell fawr yn cael ei throï yn "automatic" gan symudiad y cage yn barod i arllwys rhyw dunell i bedair o ddŵr mewn ychydig funudau, i'r tanc oedd yn gysylltiol a'r cage ac yn rhan o honno, yn rhai o'r "waterbalances" yr oedd y cage uwch ben y "tanc dwr" ac rhai hefo'r "cage"</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Cludiant
What Facet	73, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 249
Trawsgrifiad	<p>o dan y tanc dwr. Yr oedd Lord a'r cage ar ben y tanc dwr (photo)</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Rhyw ugain, mwy neu lai, o ddynion yn "gwar grymu" a gostwng eu pennau ac yn mynd i mewn i'r tank ac sefyll mor agos yw gilydd ag oedd yn bosibl, a ni ein dau yn cael ein cymellgan rhywun i'w ddilyn, ac ninau yn gwneud yn swel ac hyderus, gan fod y shiwrna yma yn orchwyl beunyddiol nad oedd ond cyfrwng i gyrraedd eu gwaith i'r helyw arferol, ac yr oedd rhai o'r dynion yn smockio yn hamddenol ac dweud yr un gair, ac eraill yn sgwrsio am hyn a llall. Ond i mi yr oedd yn brofiad arbennig ac yr oeddem yn gwilio pobpeth a gwranddo ar pob sŵn. Clwad y dwr yn byrlymu i'r tank uwch ein pennau. Y giât yn barod wedi ei chau, y dwr yn stopio</p>
Nodiadau	

Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli Cludiant
What Facet	73, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 250
Trawsgrifiad	a’r tank yn araf yn dechreu ar ei shiwrna ac yn dechrau cyflymu. Sylwi ar y gwaith coed, fframwaith y girders cryfion wedi eu anghori ar draws y shafts yn drefnys, a’r shaft ei hyn wedi ei hadeiladu a meini anferth, a’r “beams” anferth wedi eu hangori yn ddiogel a threfnys rhwng y meini, olion o waith cywrain caled a pherygl. Y walia a’r coed yn wlyb ac yn dyfery yn barhaus, dwr yn colli a dymchwel yn ddibaid o’r bibell ar y top. Er fod y guides yn cadw y tank ar lwybyr gwastad a syth, eto yr oedd ar adegau yn siglo o un ochr i’r llall. Fel yr oeddem yn mynd i lawr yr oedd goleu ddydd yn mynd yn llai a prin yr oeddem yn gally gweld y ffin rhwng yr “adeilad” a’r shaft yn y graig. Erbyn hyn yr oedd y tywyllwch yn cymeryd trosodd ac nid oedd yn bosibl gweld dim bron ond ein bod yn ymwybodol ein bod yn mynd i lawr i grombil y ddaear. Yn sydyn fe daethom i flach o oleuni, a’r tank ar ddiwedd ei shwrna, yn codi’r grât ac yn dod i orffwys, a’r fintai yn gwneud eu ffordd i gyfeiriad y bonc. Yr oedd gwaelod y shaft a’r lefal (tunnel) yn
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli Cludiant
What Facet	73, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 251

Trawsgrifiad	cael eu goleuo gan lampau olew, rhyw ddwy neu dair yn waelod y shaft ac un yma ac acw ar hyd y lefal. Goleu sal iawn ydoedd ac rhwng y lampau yn y tunnell yr oedd yn eithaf tywyll. Yr oedd yr awdurdodau wedi gwyn galchu cyffiniau gwaelod y shaft er ceishio gwellau pethau. Eto lle "grim" ydoedd i weithio ynddo, yr oedd gweithwyr gwaelod tank yn debycach i "fwgan brain" nac i ddynion, oherwydd y "draft" oer a'r gwlybanaeth parhaus yr oeddynt yn llwythog o hen ddillad (Rags) a sachau. Byddaf yn meddwl rwan syd oedd neb yn rhoi i fynny ar fath amodau am tua 35/- yr wythnos yn 1935, a gwthio yn galed. Eu gorchwyl ydoedd gwthio y wagenni a'r slediau llawn i'r tank, tynny rhai gwag allan, sylw cyffredinol ir operation y tank i.e gofaly am y safety gates, gwagio y dwr, cadw cysylltiad ar driver ar y top, trwy gyfrwng "signals" wrth guro hen lif gron (round saw). Gan fod nifer o'r tankiau yma ar llawr Red Lion, yr oedd swm curo y llif ar ben y tankiau yn ateb y dyn ar y gwaelod yn gyfarwydd, ac i glywed pan oedd y tywydd yn dawel o ardaloedd Braichmelyn a'r Gerlan. Yn ddiweddarach fe ddaeth y telephone ac bu taw ar swn curo y llifiau.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli Cludiant
What Facet	73, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 252
Trawsgrifiad	Hen lif gron wedi mynd yn rhy fach yw phwrpas gwreiddiol, digon o rhain ar gael, ac oeddynt yn hongian ar bet o chain mewn lle cyfagos a hwylus ac yn cael eu taro a daran o haearn ac oedd wedi ei gaboli gan yr arfer. Ni thrafferthais i ddeall "iaith" y signals ond mae yn amlwg fod y cynllun wedi gweithio yn ffafriol am flynyddoedd lawer, 80-100 mlynedd, nes cael eu goresgyn gan y "telephone". Trwy gyfrwng y curo amrhywiol, gallai y driver ar y top a'r gofalwr ar y gwaelod ddeall eu gilydd i'r dim, a gwybod mae "tank llawn" ynte "tank gwag" oedd i ddawd, a pryd i ollwng y dwr ar y gwaelod a llanw ar y top. Er enghraifft yr oedd yn bwysig i beidio a gwagio y dwr yn y gwaelod nes oedd llwyth llawn wedi cael eu harwain (gwthio) i'r cage. Er fod y

	water balances yn gweithio ar gynllun symyl iawn, eto yr oedd rhaid bod yn ofalys iawn a cael dealltwriaeth clir a rheolaidd rhwng y top a'r gwaelod, er osgoi damwyniau erchyll ag oedd yn digwydd yn achlysurol oherwydd camdealltwriaeth neu ddiffyg peiriannol. Y mae yn amlwg fod y llif (old circular saw) yn cael eu harfer yn effeithiol, er enghraifft gallai y driver <u>ar ôl i'r</u> tank gychwyn
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Cludiant
What Facet	73, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 254
Trawsgrifiad	<p>rhoi cnoc arbennig ar y llif i rhybuddio y gwaelod fod swyddog neu swyddogion etc ar ei ffordd i lawr, ac mi fyddai y genadwri wedi ei chario fel flachiad gan rhywun i'r bonc ymhell ar y blaen i'r oruchwyliaeth. Yn ddiweddarach bum mewn tanc liaws o weithiau, ac yn fuan ar ôl chychwyn i lawr <u>neu i fynny</u> mi fyddwn yn clywad y rhybydd yma ! Yr oeddym fel swyddogion i gyd yn gwybod am y rhybydd. Pan ddaeth y telephone yr oedd y ddau begwn yn gally siarad a'u gilydd, ac yn dweud yn glir pwy oedd ar ei taith i lawr neu i fynny, ac heb ddadlennu i'r swyddog(ion) fod dim wedi mynd ymlaen, er yr oeddwn yn casgly ac yn gwybod am y parodrwydd a threfn eu bod yn fy nisgwyl.</p> <p>Yr oedd yn arferiad gan yr attendant yn waelod a top y tank, ac o rhan hynny trwy y chwarel yn gyffredinol, pawb fyddai yn gorfod gwthio wagenni a sledeidiau yn feynyddiol, i wisgo barclod o ddefnydd cryf fel lledr, neu pulley belt wedi ei agor allan, a hwn yn hongian ar ei gefn a cael ei angori am ei ganol, er ceisio arbed ei gorph a'r dillad ! ac amddiffyn yn erbyn y llechfaen llym a garw.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout

Tags	Rheoli, Cludiant
What Facet	73, 76, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 255
Trawsgrifiad	<p>Fel rheol yr oedd dau attendant ar y top a'r gwaelod. Credaf fod gweithio yn waelod y tanc yn un o orchwyllion cletaf ac mwyaf annymunol yn y chwarel : draft a tamprwydd, a rhan dywyllwch parhaus, a'r gorwelion yn gyfyng. Cofiaf i mi yn ddiweddarach pan yn gweithio fel chwarelwr yn Ponc Lord ac yn y cyfnod hwnw yr oedd yn rhaid mynd i waelod y tanc i ddanfôn y slediad neu nol sled wag. Ac yn amyl yr oedd rhaid disgwyl eich twrn. Pan oeddwn yn aros ar y fainc ac ond Rap (Eos y Berth) yn disgwyl hefo mi, a Rap yn fy niddanu yn huawdl fel arfer ac yn tyny ar y pwt cetyn a'r baco shag (Amlwch) edrych o'i gwmpas a sylwi ar yr ugeiniau o olion tyllau byr "torri cefn" a "fforsio" ym mhob man, a'r gwyn galchu wedi ei lwydo a'i faeddu gan wlybanaeth etc, olion o ymdrech a gwaith caled rhyw rhai. Rap yn dweud "mi fydda i yn meddwl mai lle debyg i waelod tanc ydi uffarn" medda fo gan ychwanegu ei rhesymau fel llif yr afon.</p> <p>O dro i dro byddem ein dau yn mynd i lawr yn y tanc cyntaf, ac yn mwynhau y profiad, er yr oedd nifer or chwarelwyr profiadol</p>
Nodiadau	Ap Eos y Berth – "Yr Ap" neu "Rap" i drigolion Dyffryn Ogwen – gw CADAIR EISTEDDFOD Y RHOS, RHOSHIRWAUN 1909 - CASGLU'R CADEIRIAU
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Cludiant
What Facet	73, 76, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn

Tud	T 256
Trawsgrifiad	yn osgoi y tanc cyntaf am rhesymau arbennig. Ymhlith y nifer a deithiai i lawr yn y tanc cyntaf yr oedd y gofalwr y gwaelod, a cyn dyfodiad y golau trydan a hwnnw yn cael eu rheoli o'r top yn hwyls yr oedd cynnwys y tanc cyntaf yn cyrhaedd y gwaelod i dywyllwch fel y fagddu. Anodd credu fod y fath dywyllwch. Gwnâi y gofalwr ei ffordd tuag at y lamp agosaf yn olau matchan ac wedyn goleuo yr un neu ddwy cyfagos. Nid oedd yn rhoi sylw i lampia y leval (tunnell) hyd yn ddiweddarach, gan fod ganddo orchwyl yn disgwyl am ei sylw, gwagio y dwr yn y gwaelod ac ymateb i signals (cnoc y llif) er cael gweddill y dynion i lawr mor fuan ac oedd yn bosibl, ac erbyn hyn tebyg fod swyddog yn disgwyl am fynd i lawr. Profiad rhyfedd oedd cerdded o waelod y tanc yn y bore (cyn i'r lampiau egwan y leval gael eu gluo) yn llinell fel defaid ac yn fuan gadael pob effaith o oleu lampia gwaelod y tanc, a'r tywyllwch yn cau am danom fel plancad. Yr oedd y ffordd haiarn (rails) (ochr chwith pan yn mynd o waelod y tanc am y bonc) wedi cael eu palmanty rhwng y rails, a crawia (rough slate slabs).
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Cludiant
What Facet	73, 76, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 257
Trawsgrifiad	yr holl ffordd o waelod y tanc nes dod bron ohoni. Yr oedd y llinell o ddynion yn cerdded o'r tywyllwch dudew yma heb fath o arweiniad, na math o "niwl na than", ond dilyn y palmant llechi yma dan eu traed, neb yn dweud gair, ambell i flach yn dod allan o getyn neu cigarette yn fflamio ac yn symud nol ac blaen yn y caddug. Sŵn y sgidia mawr yn arswydys yn y distawrwydd llethol, yr oedd agor neu cal llygad yn gwneud dim gwahaniaeth, a rhywfodd yr oedd mwy dymunol eu cau. Pawb yn cael eu harwain gan deimlad y troed, a gwilio a gwirio ein camau os oedd tuedd i adael y palmant, a cael y droed ar lecyn marw. Er y tywyllwch yr

	<p>oedd y llinell yn symud yn eithaf cyflym, yr oedd y profiad yn beth dyddiol i nifer ac wedi hen gynefino. Shiwrna cydmharol fyr ydoedd ond anamyl yr oedd gwaelod tanc a'r bonc mewn llinell union, ac o ganlyniad y gallech weld llygedyn o olau dydd o waelod y tanc i gyfeiriad y bonc i'n harwain, am rhesymau daearyddol etc yr oedd y miners wedi troi i'r dde neu yr aswy, ac o ganlyniad yr oed y leval fel "bwa" neu waeth</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Cludiant
What Facet	73, 76, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 258
Trawsgrifiad	<p>Felly am gyfnod byr oedd yn ymddangos fel oes yr oeddem yn ymlwybro fel deillion. Yr oeddem ni hogia bach yn mwynhau y profiad yn ddibendraw a cael digon o ofal a cynghor. Pawb yn eithriadol o ofalys a caredig.</p> <p>Wedi cyrhaedd y bonc (Lord) a ceishio osgoi y dwr oedd yn arllwys i lawr yn "geg y leval", cerdded rhyw gan llath, a dod i leval fer arall oedd yn arwain i ponc Rhushout (Rhysold), a'r ponciau yn ymddangos o'n blaenau or bonc isaf Alice ar ein chwith, ac o lawr yn y gwaelod i fynny fel grishiau enbyd i "Crimea" y bonc uchaf. 22 ohonynt a pob un o 60-80' o ddyfnder. Hefyd draw i gyfeiriad ochr dde Twlldwndwr ac ymlaen i Ponc Gefnan yn uchel ar y Fronllwyd. Toriad (faults) daearol anferth yn rhedeg o'r gogledd i'r de am gannoedd o latheni ac wedi dadseilio yr "Ochr Chwith", ac wedi achosi falls mawr ac wedi torri ar ffurf (continuity) y ponciau a gadael un dyfn mawr. Hwnw yn ei dro yn dangos rhedfa yr haenau gyda lliwiau hyfryd o gymysg gwyrdd a glas. Hefyd y "pyst gweithfaen" (Intrusive Volcanic dykes) yn rhedeg fel llinellau ar draws rhan amlaf yr haen lechfaen.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Cludiant, Creigio

What Facet	73, 76, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 259
Trawsgrifiad	Ar fore braf yn yr haf ,i fyddai math o hesg (haze) yn gorwedd yn llonydd ar rhan isaf y twll, a phob man yn dawel ond sŵn traed y gweithwyr yn ymlwybro am y cwt tan i gadw ei tin bwyd etc ac newid i'r hen goat garplog. Yr oedd mwg yn codi o'r cytiau yma ac acw yn pob ponc. Yr oedd y gofalwr am y dydd neu y taniwr wedi dŵad yn fora er sicrhau fod tan da a croesawgar yn derbyn y dynion 7.30. Yr oedd rhaid cael "berw" erbyn panad naw, felly yr oedd pob gofal yn cael eu gymeryd y diwrnod cynt gan y rhai ac oedd i ofaly am y tan a'r dwr y diwrnod canlynol. Wedi gofaly am danwydd, "oilwaste", ac digon o ddŵr yn y fowntan ar bwcedi yn llawn o ddŵr. Bron ym mhob ponc yr oedd rhai dynion, un neu ddau yn mynnu bod y rhai cyntaf i gyrrhaedd y bonc yn y bore, ac yr oedd "cystadleuaeth" rhwng ponc a ponc ac cwt arbennig am fynny fod y cyntaf i gael mwg trwy y corn pob bore. Gallwn enwi nifer o honynt ac yn eu nabod yn dda. Yr oeddynt yn gadael cartref rhwng 5 a 6 o'r gloch a cerdded bob cam i lawr y grishau, a'r ystolion (yn y gaeaf mewn tywyllwch)
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 260
Trawsgrifiad	gan nad oedd tanc yw gael cyn caniad (7.30). Un o'r cymeriadau yma oedd ewythr i mi, "R.H." fel y gelwir trwy y gwaith a'r ardal, Robert Huw Wms o Cilfodan (mab i Huw Panthwfa), cymeriad eithriadol o gymwynasgar a

	<p>caedig, ond yr oedd yn “brogiwr” dihafael. Yr oedd rhai yn dweud yn gellweirus fod cysylltiad rhwng y codi bore yma a mynd yn y tywyllwch am elfen o “brogio”. Fodd bynnag yr oedd cynnyrch y progio yn eithaf diniwad, coed tan a nialwch diwerth, gallaf dystio.</p> <p>Os digwyddai i un or gweithwyr eraill gyrhaedd y cwt ou blaenau nhw, am rhyw reswm a gwneud y tan, mi fyddant wedi suro a pwdy hefo pawb am y dydd, a dim gair yw gael. Yr oedd yr helyw o aelodau y cwt yn deall hyn ac yn cymeryd mantais ar y “chwilen” yma, a chwarae yw dwylo, gan fel y dywedais ddarparu yn drwyadl y noson cynt a dibynnu ar y cyfeillion yma a cael arbed codi yn fuan.</p> <p>Yn rhai cytiau yr oedd gofalwr penodedig yn gwneud y gwaith yn ddyddiol, dyn “fesul dydd” – tyllwr neu fforddoliwr (platelayer_ etc ar gyflog yn gymharol isel a dim gobaith am “settlo mawr”. Yr oedd pawb yn talu 2d yr wythnos (pres cwt tan) am y gwasanaeth, ac yr oedd o yn gofalu am ddŵr a coed a tanio a golchi y cwt yn wythnosol. Erbyn fy</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 261
Trawsgrifiad	amser i yr oedd glo yn cael ei gyflenwi gan yr oruchwyliaeth yn ddidal, ac wagan yn dod yn rheolaidd ac yn cael ei gadw mewn cwt ar dalcan y cwt. Mewn ponciau eraill (ac yr oedd rhain yn y mwyafrif) y drefn oedd i bob criw “dau bardnar” neu “bardnar a Jyrmon” i ofaly am y cwt am ddiwrnod yn eu tro, gan ddechreu o’r fargen uchaf yn y bonc, a gweithio yn rheolaidd i lawr ac wedyn ail ddechreu. Yr oedd y ddwy drefn yn cymeryd mantais ar “chwilen” y codwyr bore, ac yr oedd rhai hynny yn barod iawn, ond i bob peth fod yn barod a

	<p>hwyls. Eu hymfforst fyddai cael tan braf ar “corn” yn goch ar fowntan yn berwi pan ddeuai yr helyw i’r cwt yn y bore cyntaf. Er fod nifer o’r gwethwyr wedi cychwyn yn fore, rhai wedi dod ar y trên bach o Fangor ac eisoes wedi cerdded o Glanadda ac ar ôl taith y trên cerdded o’r Felin fawr i eithafoedd y chwarel yn ddanedd pob tywydd, rhai eraill o Lanllechid a phellach, a nifer fawr (bron pawb) o Rachu ac ardaloedd cyffelyb cylchynol. A’r oes honno nid oedd ond cerdded am dani. Rhai o’r genhedlaeth ieuengaf yn feddiannol ar feik (bicycle).</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 262
Trawsgrifiad	<p>Ar ôl codi mor fore ac gwyneby y shiwrna faith ac mwy na thebyg wedi cael brechwast digon llwm, welais i neb erioed yn mynd ati i wneud paned o de ar ôl cyrhaedd, er y gallai yr helyw wneud efo un i adgyfnerthu a cynhesu tipyn cyn dechreu ar y gwaith caled a garw (dyna y ffaswin heddyw mewn swyddfa gyffyrddys ac wedi cyrraedd gyda pob cysur at y 9 o’r gloch). Yr oedd yr amodau mor galed, nid oedd amser yw golli, ond newid i’r carpiaw ac ymlaen i’r fargen (mwy am hyn eto). Mi fyddai yn arferiad a gweddaidd i ddiolch bob tro i’r taniwr am ei waith, a pawb fel rheol yn fwy na pharod i wneud hyn, a cael arbed codi yn fore. Yr oedd digon o ymdrech i gyrhaedd erbyn caniad (7.30) i’r lliaws o honnom. Yn achlysurol mi fyddai “row” yn datblygu, y taniwr wedi cael trafferth gan nad oedd y rhai ag oedd i fod i ofaly ddim wedi gwneud ei gwaith, ac am rhesymau amlwg mi fyddai digon o farnu a cheondemio ar y “cyfryw rhai” gan y gweddill (gwaelod tudalen 258) (wedi mynd ar ôl sgwarnog unwaith eto).</p> <p>Dyna ni yn cyrhaedd cwt tan Ponc Rhysold</p>

Nodiadau	Sylwer y defnydd o “cwt tan” : dyma ymadrodd Chwarel y Penrhyn ar gyfer yr adeilad a elwid yn “caban” mewn chwareli eraill, ee Dinorwig
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 263
Trawsgrifiad	yn fuan ar ôl dod allan or leval bach sydd yn cysylltu Ponc Lord a Ponc Rushout (Rhysold), cael croeso gan hwn a llall a phawb yn eithriadol o garedig, dangos i ni lle i gadw ein bwyd a’n pen te, a dangos i ni lle i eistedd yn y cwt. Fel rheol mi fyddai pob cwt tan yn eithaf llawn. Yr oedd y llecyn lle yr oedd y cwt wedi cael ei ddewis yn ofalys, credaf nad oedd yn hawdd dewis llecyn i’w cwt, gan nad oedd yn ymarferol i’r cwt fod yn rhy bell i weithwyr y bonc. Eto yr oedd yn ofynnol iddo fod mewn lle rhesymol o ddiogel ac os yn bosibl cael ei gysgodi, neu ddigon pell o wyneb y bonc lle nad oedd datblygu ers rhai blynyddoedd nac yn union wrth ei ben. Llecyna wedi dod “i’r pared” neu “post gwenithfaen”. Anodd oedd cael llecyn delfrydol bob tro ac yn dod i fynny a’r holl amodau. Oherwydd yr anhawsterau a’r perygl yr oedd pob cwt tan (photo) mor fach ag oedd yn bosibl, ac wedi ei adeilady yn gryf, un ffenestr fechan a darn o haearn mawr (photo) y tŷ allan iddo ac yn cael
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn

Tud	T 264
Trawsgrifiad	<p>ei lithro i orchuddio y ffenestr pan fyddai saethu “blasting) fel shutter trwchus. Ni fyddai y shutter yn cael ei dynu ar draws y ffenestr bob amser, ond pan fyddai y cwt mewn lle perygl a saethu yn y cyffiniau agos.</p> <p>Yn barwydydd y cwt yr oedd tyllau (recesses) sgwâr, rhyw dri neu bedwar tua 2’ x 1’ x 1’ i gadw cypanau a tyniau bwyd etc. Hefyd yr oedd y lintar fenast yn cael eu harfer i’w pwrpas yma. Meinciau pren o amgylch y cwt yn terfyny wrth y drws , y to yn goed cryfion, tebyg i’w “gwalia”, ond fod y coed yn glos wrth ei gilydd, fel “sardines”, er sicrhau cryfder cymaint ag oedd yn bosibl, crawiau trwchus yn “overlapio” ei gilydd ar y coed a rwbel ar ben rhain. Yr oedd “portico” ar ei ochr ac hon yn gysgod i’r drws ac yn gongl (bagal) i gadw y glo. Heolion neu “dogs” y ffordd haearn wedi eu curo i’r coed yma ac acw ac yn canol o amgylch y Stove, er hongian y cotiau gweithio, a’i sychu yn barod i’r diwrnod dilynol. Fel rheol yr oedd pawb a threfn yn feddiannol ar fwy nag un “goat” rags weithia. Pan oeddem yn cael coat “newydd” (newydd i’r chwarel)</p>
Nodiadau	Saethu – defnyddio ffrwydron
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73, 52
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 265
Trawsgrifiad	<p>Taeth neb erioed a coat gwir newydd i’r chwarel – ni allai neb fforddio y fath wastraff. Hefyd buasai yn hollol anaddas ac allan o le. Fel rheol coat wedi dod i lawr yn y byd ydoedd. Yr oedd rhaid cael rhywbeth a mi fyddai y coat gyda’r nos gorfod mynd, neu prynu un ail-law ar sgwâr Caernarvon neu Fangor neu gael un gan gymydog. Yr oedd llawer o ddillad “army” neu rhyw adran o’r lluoedd arfog yn dderbyniol iawn gan eu bod o ansawdd cryf ac yn gynnas, hefyd dillad postman neu Railwayman, a hyd yn oed coat costume neu “coat fawr” merch, <u>rhywbeth</u> yn dderbyniol, ac neb yn cywilyddio ac dim sylw yn cael ei rhoi i’r eithafion mwyaf.</p>

	Oherwydd natur y gwaith a thraul ar ddillad, yr oedd pob rags yn cael eu cadw ai trysori, a cyndyn fyddai neb o dafly dim heibio. Da fyddai cael coat sych a cynnes pa mor garkiog a fyddai ar ôl gwlychu un neu ragor arall. Oherwydd yr arferiad yma yr oedd pob cwt tan yn orlawn o hen ddillad, a rhan helaeth yn hongian fel coedwig o gylch y Stove, pawb yn feddiannol ac yn nabod eu "hoelion" a gwybod lle i rhoi a cael y goat. Gan dreigladd amser yr oedd cymysgaeth wedi casglu, ac nifer dda o'r gwir rags heb berchennog, gweithwyr wedi gadael, neu symud etc, ac rhai ond wedi ei gadael gan eu perchenog heb drafferthu eu taflyd – ac yn gyndyn o wneud hynny
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73, 52
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 265 A
Trawsgrifiad	Cwt Tan (Twll) Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn

Tud	T 266
Trawsgrifiad	<p>gan ei fod yn groes i'r graen.</p> <p>Yr oedd gwragedd a mamau yr ardal yn taflyd y bai ar y cytiau y chwarel, ac mae oddi yno yr oedd chwain yn dod , a hawdd deall hynny. Yr oedd yn lle ffafriol iawn yw magu. Yn achlysurol mi fyddai Llywydd y cwt yn penderfyni fod "clearance" i fod a phob peth yw dafly allan os nad oedd perchenog iddynt, ac fod yn rhesymol yw cadw. Mewn canlyniad yr oedd tomen anferth wedi ei casgly o flaen y cwt yw llosgi. Cofiaf i ddyn hel rags gael caniatâd o dro i dro i ddod o amgylch y cytiau, a cynhaeaf bendigedig oedd iddo. Mi fyddai y cwt yn edrych yn llwm ar ôl yr ymosodiad. Mewn ponc fawr yr oedd mwy nag un cwt tan, a rhai cytiau yn fwy nag eraill, dibyna ar nifer y gweithwyr oedd yn y cylch. Yn fynych yr oedd rhai ponciau wedi diriwio a llai o weithwyr, ac o ganlyniad yr oedd y cwt yn gydmharol helaeth ar gyfer y gweddill oedd yn aros. Ond yn gyffredin, cyfyng oedd yr amodau yn y cwt tan, ac yn amyl ond lle i eistedd yn glos wrth ein gilydd a pawb yn hawlio ei le arferol (at hyn eto)</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73, 52
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 267
Trawsgrifiad	<p>a pawb yn mynd am ei le arferol fel gwartheg mewn beudy.</p> <p>(Unwaith eto ein dyfodiad ni i cwt Rhysold)</p>

	Yr oedd yr amgylchedd a'r "set up" yn hollol ddieithr i ni. Y dynion bron i gyd yn estroniaid, rhyw led nabod ambell i un. Yr oeddem yn naturiol yn teimlo yn swil a chwithig, ac ddim yn gwybod beth i wneud na lle i fynd, ond sylwi nad oedd neb yn colli amser. Pawb yn symud trwy ei gilydd, yn newid i'r coatiau etc, a gadael gynted ag oedd yn bosibl am y fargen. Sgwrshio diddan, tynny coes parhaus, a phawb yn cymmeryd diddordeb a dweyd rhywbeth wrthym, holi beth oedd ein henwau, a pwy oedd ein teulu etc a lle oedd ein tadau yn gweithio. Yr oeddem yn rhyfeddu at lanweithdra a threfn cydmharol y cwt a cwt yr hogia bach yn Twlldwndwr. Yr oedd hwn yn gydmharol fel y "Savoy hotel", y llawr yn lan a tan cysurus ar phowntan yn berwi ac awyrgylch gyffredinol gysurus iddo, ac dim o'r diffyg trefn, y malurio ag oeddem ni wedi arfer iddo, ac yr oeddem yn gwerthfawrogi hyn
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	Dim rhif
Trawsgrifiad	Rushout Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 268
Trawsgrifiad	Ar archeb or dynion dyma ninnau yn mynd allan a gwneud ein ffordd i fyny'r bonc i gyfeiriad yr "Agor". Yr oedd fel byd newydd i ni, a llu o bethau i gymeryd ein sylw ar bob llaw, gweld i lawr i'r ponciau oddi tanom, ac i gyfeiriad rwb (fall) Edward ac Alice, a sylwi ar y dynion yn ymlwybro yw mangre yn y rwb, neu ir bargeinion ar y graig solat, rhai wedi dechreu gweithio a sŵn wageni yn dechreu symud ac morthwylion ac arfau eraill yn cael eu harfer. Y twll anferth yn deffro, a sŵn yn dod o bob cyfeiriad. Os gellir cydmharu rhyw adran o waith y chwarelwr fel gwaith dymunol, y cyfnod yma yn Rhysold oedd y cyfnod mwyaf nefolaidd i mi tra bum yn y chwarel. Yr oedd y newid yn enbyd, allan o amodau caeth didrefn, noeth a creulon Shed Ponc Leval, i rhyddid a "cysur" ponc Rhysold. Yma ar y bonc yr oeddem yn cael crwydro yma ac acw, chwareu, a cael sgwrs efo hwn a llall, casglu llawnder o hen gelfi, cynion brashollt, pirim a cowjan wedi eu troi heibio, a cael pleser di ben draw yn ceishio trin "trawseni" neu "bilar"
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 269
Trawsgrifiad	a oedd wedi ei gadael yma ac acw yn hen fargeinion a man dommenydd, fawr o werth ynddynt, ond yr oedden ni yn cael pleser ac cael ymarfer tori ffoes a pileru, a cael rhyw foddhad anesboniadwy wrth weld y torriad yn cymeryd lle. Yma ac acw yr oedd darn o raff creigiwr wedi ei gadael ai throi heibio ac yr oeddem yn ymddyfyrro wrth anghori un o rhain yn gydhmarol isel ar y clogwyn neu domen a cael dynwared y dynion yn dringo a clymu ein hunain ar y rhaff, er yr oeddem yn cael digon o rhybudd i fod yn ofalys ac yr oedd rhywun ai

	lygaid arnom yn barhaus er ein diogelwch. Y pwrpas o ein hanfon am gyfnod i'r twll oedd i ni ddod yn hyddysg yng ngwaith y creigiwr a cael ymarfer, ac y set up cyffredinol. Hefyd fe ddisgwyliid i'r dynion ein rhoi ar ben y ffordd a throi heibio o dro i dro drawsiau neu bilar fychan a fyddai yn addas i gael clytia (blocks) ohonynt a fyddai yn gymhws yw hanfon i shed yr hogia bach yn Ponc Leval. Nid oedd check na math o orfodaeth arnom i anfon dim, a credaf i dipyn o wythnosau
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 270
Trawsgrifiad	fynd heibio cyn y diwrnod mawr ddod ac i ni gael y gorchwyl balch o lwytho "llwyth" (tua tunnell) a ysgrifenny "Boys" arno, (ddim am mae boys oedd yn gyfrifol am dano ond am nag i'r "boys" yr oedd i fynd). Er ein bod wedi bod yn eithaf beirniadol o "lwythi" rhai eraill pan oddem yn gweithio yn y Shed, yn enwedig llwythi a ddeuai oddi wrth hogia bach, rwan pan oeddem yr ochr arall, yr oedd clytia digon sal ac amheus yn cael eu cynnwys yn y llwyth yn enwedig yn grombil bol y waggan ac o'r golwg. Yn wir yr oedd y tuedd yma yn gyffredinol trwy y gwaith a pob oed. Yr oedd y gyfundrefn yn hyrwyddo y pechod yma hefyd i ni fel "belwrs bach", yr oeddem yn awyddus ac yn ymforsio i gael ein number yn account y "machine", ac fod rhyw gymaint o gynnyrch yn cael ei droi allan, ac nad oedd ein tymor yn y twll yn hollol ddigynnyrch a dibwrpas. # Ar ein ffordd i fynny ac i lawr y bonc yn ôl ac blaen i'r cwt etc yr oeddem yn sylwi ar y dynion yn y "bonc isa" ("bonc isa" – y bonc gyntaf odditanom ac nid y bonc isaf wreiddiol)
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 271
Trawsgrifiad	yn y rwb (fall) ochr draw, yr un neu ddau yn eu llecyn arbennig, a'r ffordd haearn (rail) wedi bylchu i fewn i droed y domen yma ac acw gan y dygyn weithio dyddiol ac beunydd i geishio clirio y "fall" anferth, ar dynion ym ymddangos fel pryfaid ar ochr y domen. Ond nid clirio y "fall" oedd y pwrpas ond cloddio, yn ddiidwedd ac heb fath o gynllyn ond gobeithio y buasai plūg, pillar neu drawsan yn ymddangos. Yr oedd yr oruchwyliaeth yn gwybod yn bur dda fod y "fall" wedi digwydd o ganlyniad y (fault) sglont fawr a'r post gwenithfaen sydd yn rhedeg mwy neu lai o'r gogledd i'r de ar wyneb "ochr chwith", ac fod ymysg y spwriel a gwenithfaen fod craig rywiog dda wedi cael ei dymchwel. Pan mae miloedd o dynelli o graig yn dod i lawr fel hyn yn gymysg a direol, y mae percentage uchel o'r "fall" wedi ei falurio yn spwriel a llaid, ac wrth gwrs y graig fwyaf rhywiog a cynyrchiol sydd yn dioeddef fwyaf, a'r gwenithfawen diwerth yn dal y dinystr yn well o lawer, er hynny ystyrier fod rhai falls yn werth ei gweithio
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio, cludiant
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 272
Trawsgrifiad	a'i clirio. Yn rhannau o odre y falls yr oedd yma ac acw ddynion yn gwneud dim ond "loesi, tynnu a chario", labrws di greft, ai gorchwyl oedd clirio y spwriel o ddydd i ddydd. Yn achlysurol yr oedd rhain yn dod ar draws trawsan neu blyg da, ac mi fyddai y stiward (stewart) yn trefnu fod chwarelwyr profiadol cyfagos yn dod yno

	<p>yw drafod. Gwaith caled oedd loesi yn y “rwb”, y spwriel i bob pwrpas yn fan, a gorfod trysori a throi heibio pob lwmp neu grawan fach, er “cau tin” neu grawio y llwyth. Ac roedd rhaid codi 10-14 tons neu rhagor (dibyna ar y pris a’r “gosodiad”) i ennill 35/- - £2 yr wythnos (1930-40). Yr oedd rhaid cario ymlaen yn galed a beunydd, er gyrhaedd y nod a gweithio bron ym mhob tywydd. Yn achlysurol mi fyddai amgylchiadau yn anffafriol, y domen yn “rhedeg” (gweithio), tywydd eithriadol, gwlaw dibaid, eira, wagenni yn araf etc. Er gwneyd y diffyg i fynny yr oedd yn ofynnol i ymdrechu fwy (os oedd yn bosibl) er dod i fynny a’r gofyn, ac i osgoi bygwth “sack”.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio, cludiant
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 273
Trawsgrifiad	<p>Yn amyl byddai y chwarelwyr yn cloddio a chlirio am ddyrnodiau (a rhagor weithiau) i geishio mynd at ddarn o graig addawol, ag oedd wedi rhan ddatguddio ei hun. Wrth glirio yr oedd tameidiau llai yn dod i’r amlwg yn achlysurol er eu calonogi. Digalon fyddai dod i’r gwaith yn y bore (yn enwedig ar ôl glaw neu rhew) a sylwi fod gwyneb y domen (fall) wedi newid dros nos, cannoedd os nad miloedd o dunnelli wedi dod i lawr ac wedi claddu popeth. Eto yr oedd gobaith fod rhai “cerrig” wedi dod i lawr. Er yr oedd yr oruchwyliaeth ac yn sicr y chwarelwyr yn gwybod yn lled dda beth oedd ansawdd a natur y graig uwch ben a beth ellir ei ddisgwyl, os ond graig sal a ddeuai i lawr feallai byddai tynged y “fall” hwnw wedi ei benderfynu a dim rhagor o gloddio. Mi fyddai yr oruchwyliaeth ar gweithwyr yn gwybod yn dda os oedd rhagor yn bygwth dod i lawr, gan byddai tameidiau bach yn syrthio i lawr yn barhaus (“y rwb yn gweithio”) ac mi fyddai pawb yn gwilio pob symudiad ac arwydd (ac yr oeddynt yn awdurdod ar hyn)</p>
Nodiadau	

Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 274
Trawsgrifiad	Yr oedd yr oruchwyliaeth yn rhoi sylw manwl ac yn archwilio pob fall yn rheolaidd, yn enwedig “falls” (rwb) lle yr oedd cloddio ar y godre. Yn amyl mi fyddai hollt (agen) fawr yn cymeryd lle ym mhen y “rwb” a tameidiau yn syrthio yn achlysurol oddiar y wyneb. Mi fyddai yr arwyddion yma ac eraill yn rhoi rhybydd fod symudiad ar dro, ac mi fyddai sylw arbennig yn cael ei rhoi i’r fangre. Un o orchwylion beunyddiol y “Stewart” ydoedd gwilio yr agen (split) a mesur ei lled, a gwilio pa mor gyflym yr oedd yn agor. Weithiau ar ôl agor yn gydmharol gyflym, fe settlai pethau i lawr, a dim chwaneg o lledu feallai am fisoedd a rhagor. Ar y dechreu yr arferiad fyddai tafly darn o graig i geg yr agen (yma ac acw) a’i gwyllo yn suddo i lawr yn rhaddol. Os byddai pethau yn cyflymu ac arwyddion fod fall yn imminent a posibilrwydd i’r gweithwyr fod mewn perygl, mi fyddai gorchymyn fod pawb ag oedd mewn cyrhaedd i glirio i ffwrdd. Mi fyddai yn arferiad gan y gweithwyr ag oedd yn cloddio yn odre y rwb, i godi’r ffordd haearn a symud ei celfi o
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio, cludiant
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 275

Trawsgrifiad	odre y rwb bron bob nos cyn mynd gartref, gan y byddai posibilrwydd i fall “local” ddod unrhyw amser, a claddu y celfi a’r rails etc, yn enwedig ar ôl amser o “gloddio ymlaen”. Fel y gwelir heddyw, yr oedd darnau helaeth o graig, cannoedd o dynelli, yn sefyll yn fygythiol a styfnig ar pen y rwb, a gan brofiad ac ymddygiad falls yn y gorffennol, gallant fod bron yn yr unfan heb ymddangos fod fawr o symudiad, eto gallasant ddod i lawr a miloedd o dunelli gyda hwynt, ar amrantiad bron. Yn achlysurol mi fyddai pethau mor amheus ac ansicir, a pawb ofn damwain erchyll, a’r canlyniad fyddai trefny i greigwyr profiadol fynd i fynny trwy Ochr Chwith ac ar hyd y ponciau gyda celfi pwrpasol ac rhaffau. Ac gyda rhaffau mawr yr oeddynt yn gweu eu ffordd yn ofalys i ddanedd ac o dan darnau enbyd bygythiol, a gwthio “charges” (gelignite) cryfion i dyllau ac holltau ffafriol yn odrau y creigiau bygythiol (fel rheol ar pnawn Sadwrn neu gyda'r nos (yn yr haf) byddai y gorchwyl perygl yma yn cymeryd lle). Yr oedd yn ofynnol cymeryd gofal mawr, a tanio fuse hir, yn ddigon o faint i ganiatáu i’r creigwyr
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 276
Trawsgrifiad	ffoi i ddiogelwch ac hefyd codi y rhaffau a oedd wedi ei trosi trwy yr anhawsterau a’r dryswch. Yn amyl ni fyddai fawr o effaith gan y “saethu”, oherwydd fod maint y creigiau mor anferth a’r soddwl wedi setlo yn eithaf cadarn. Ond hwyr neu hwyrach mi fyddant yn gorchfygu neu mi fyddai effaith y saethu yn disodli y creigiau ac fe ddaethant i lawr yn pwysau ei hunain mewn diwrnod neu ddau

	<p>Yr oedd nifer yn gweithio yn ochr y rwb, rhan fwyaf yn ddieithr i mi, er yr oeddwn yn nabod rhai yn dda. Daniel Jones Bontuchaf a'i fab (No 165), Griffith Parry Gerlan a'i fab Willie Parry (292), sylwi arnynt yn cloddio a cael "cerrig" da o'r rwb, a cynyrch rhyfeddol o le ag oedd yn ymddangos yn bur anobeithiol.</p> <p>Yn ôl unwaith eto ar ôl crwydro i Ponc Rhysold (# 270). Yr oeddem bron methu amgyffred a dygymod a'r rhyddid a bywyd diddorol y bonc, digon o ddiddordebau a pethau dymunol i gymeryd ein sylw, neb yn gyru arnym, ac yr oeddem yn mwynhau yr awyr agored a cymdeithas a cysur y cwt pan oedd y tywydd yn anffafriol. "Holiday" hyfryd oedd ein</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 277
Trawsgrifiad	<p>arhosiad yn Rhysold. Yr wythnos gyntaf a rhan helaeth o'r ail, nid oedd y Stewart, Lanthon (Melanthon Wms o Tregarth) yn gwybod am ein bodolaeth, ac o ganlyniad yr oeddem i rhaddhau fel amddifaid ac yn ben rhydd, ond fod yr helyw o'r gweithwyr yn cymeryd diddordeb ynom yn llac ac heb gyfrifoldeb, a phawb yn dra caredig. . Fel ym mhob rhan o'r chwarel yr oedd rhai "wags" direidys yw cael, ac yr oedd Rhysold yn gyfoethog mewn rhai cyffelyb. Un neu ddau yn arbenigwyr ar y "grefft", yr oeddem ni ein dau fel clai yn ddwylo rhain ac mae yn amlwg eu bod wedi cael llawer o hwyl hefo ni a rhai eraill. Yn ddiweddarach ac wedi i mi heneiddio y daethum i adnabod striwiau rhain, ac yn rhyfedd ymhen rhyw ddeg mlynedd yr oeddwn yn goruchwilio un o honynt, ac yn ôl adnod " ni thry yr Ethiop ei groen etc" yr oedd yn parhau hyd y diwedd yn ddiridys. Jack Robaich Sling, partner Guto Huws Pantglas, a'r ddau yn gweithio yn nganol yr "agor". Y bore cyntaf ac wedi i</p>

	mi gael “look round” dyma Jack Robaich, “Robaich” i ni, yn dweud wrthym mai fo oedd i ofaly am danom ac mae
Nodiadau	Cyfeiriad at “yr Ethiop” ; gw Jeremeia 13, adnod 23
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 280 (sic)
Trawsgrifiad	iddo fo yr oeddem i ufuddhau ac ymateb, ac i ni yn achlysurol roddi cynorthwy iddo fo a’i bardnar, ac os y gwelwn ddyn a golwg awdurdodol a trwshiadus a cap a pig gloew ganddo yn dod i fynny y bonc am i mi fynd i guddio yn y “cwt mochall ffiars” cyfagos. Fel rheol yr oedd o wedi gweld y dyn cap a pig ym mhell o’n blaenau ni, ac yn rhoi rhybudd i ni fynd o’r golwg. Nid wyf yn cofio ei esgys dros i ni fynd i guddio. Wedi i’r perygl fynd heibio yr oeddem yn dod allan fel dwy wningen ac yn ymbleseru yn gyffredinol neu “helpu” codi llwyth etc yn fargan y ddau wag. Wrth gwrs nid oedd y drefn yma i fynd ymlaen yn ddi-ddiwedd, gan fod peirianwaith yr oruchwiliaeth yn dadlenu lle yr oeddem a pwy oedd yn gyfrifol i gadw ein hamser a’n cyfarwyddo. Hefyd yr oedd perygl pob amser i’r Stewart fod yn gyffiniau yr Agor amser saethu, ac byddai gorfod llechu yn “cwt mochall ffiars”, ac mae yn amlwg fod Jack Robaich yn ymwybodol o’r perygl yma . Fodd bynnag tua canol yr ail wythnos daeth Lanthon Wiliam i chwilio am danom ac ein cael yn llechu. Wedi ein holi dipyn ac ein rhoi “ar ben y ffordd” aeth ymlaen ac
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 287 (sic)
Trawsgrifiad	dyna ddiwedd ar game Jack Robaich, ond buom yn gysylltiol a bargan Jack Robaich hyd ein ymadawiad gan fod y ddau bardnar yn hwyliog a charedig. Yr oeddem yn ein tro yn ymweld a pawb bron, ymdroi mwy yn fargen rhai na'r lleill. Yr oeddem yn naturiol yn closhio at y rhai oedd yn garedig ac yn rhoi croeso i ni. Yn ddiweddarach deallais for yr helyw yn tynnu ein coesau ac yn ein holi yn barhaus a ninnau yn ddiniwad ac fel clai yn eu dwylaw. Yr oedd rwb (fall) (A Plan Rhushout) anferth ochr chwith wedi torri ac ysgubo rhan helaeth o'r bonc fel nifer o bonciau eraill. Yn gweithio yn y rwb ym mhen eithaf y bonc (A) yr oedd Huw Hughes (Hughie Bach Grishiau Cochion) yn gweithio ar ben ei hun ac ar y cyfan yr oedd yn cael cerrig da, ambell i garreg dda yn dod i'r golwg yn ganol y baw man. Rhaid osgoi ac nid oes bwrpas enwi pawb. Yr oedd un arwr arbennig i ni, y fo oedd ein duw a'n delw ar y bonc – William Griffith (Willie Bach) No 108 o Rachub. Yr oedd yn bardnar hefo'i dad (Wm Griffith eto) ond nid oedd ei dad yn gweithio
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 288
Trawsgrifiad	tra yr oeddem ni yn Rhysold, credaf ei fod gartref yn sal. Tebyg mai 30-35 oedd oed Willie Griffiths pan oeddem ni yn Rhysold, ac yn anterth ei nerth. Yr oedd fel gweddill o'r teulu yn weithwyr eithriadol o ddiwyd a caled, o gorph grymus ac adloniadol ei wedd ai olwg, ac yr oeddwn yn rhan ei addoli yn dawel, ac yr oedd yn garedig wrthym. Yr oedd yn gweithio mewn bargaen ochr uchaf (B) ac yn agos i'r "post gwenithfaen". Clogwyn da solat a traed (joints) a cefna (pillaring joints) hwylys. Ond gan fod y fargen ayn agos i'r post gwenithfaen ac

	<p>yn enwedig y rhannau agosaf at y pyst, yr oedd yr aflwydd a geir yn ddifeth mewn y fath amgylchiadau yn codi ei ben i.e. “lassia”, ac nid oedd yn bosibl eu gweld. Gwyddom fod hollt (cleavage) wedi dod i’r lechfaen gan ddylanwad pwysau a gwres. Pan geir post gwenithfaen (fel hwn yn Rhysold) yn rhedeg mwy neu lai yn groes i orweddiad (neu gyfeiriad) yr hollt, yr oedd gwres a “pressure” y post wedi creu holltau ar draws yr hollt gwreiddiol, gyda’r effaith fod cerrig ac oedd wedi ei trin yn dda ac yn edrach yn holl iach, pan yn hollti yn y shediau yn lafnau tenau, yr oeddynt yn</p>
Nodiadau	Lassia – “laces”
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 289
Trawsgrifiad	<p>gwahanu fel pencils ac yn hollol ddiwerth a gwaith digalon oedd gweithio y fath fargen. Wrth gwrs yr oedd rhannau pellaf oddi wrth y gwenithfaen yn cynnwys cerrig da, ambell i “lace” yn ymddangos. Yr oedd y “laces” yma yn un o aflwydd pennaf y chwarel. Anamyl y ceir pilleriad ond mewn clogwyn o’r fath, bron yn ddifeth yr oedd y pileriad yn cael ei dynu i wendid un o’r laces yma, os oedd un yn agos. Ac yr oedd y creigiwr yn gwybod yn bur dda ac yn gyfarwydd i’r eithaf a pob modfedd o’r fargen a beth oedd ansawdd y cynnyrch : ond yr oedd y contract a’r drefn yn ei orfodi yw hanfon, er yn amyl yr oeddynt yn cael eu “condemnio” gan swyddogion y shediau wedi iddynt ddod i’r lan, a’r creigiwr ond yn cael pris rwbel am danynt yn amyl. Yr oedd cerrig a “laces” ynddynt yn hollti yn foddhaol, ond pan yn eu naddu (dressing) yr oeddynt yn gwahanu yn “strips” ac yn hollol ddiwerth (credaf y gellir sgwennu llyfr am laces). Yr oedd rhai “laces” yn fwy “cydiol” nar lleill, a gyda gofal fe ellir ei naddu, ac yr oedd amrhyw o rhain yn cael eu cymeryd trosodd o dro i dro</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout

Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 290
Trawsgrifiad	<p>gan y Markers yn ddjarwybod, ac yn mynd cyn belled a Port Penrhyn neu stackiau y prynwr cyn i'r gwendid ymddangos ac iddynt chwalu. Yr oedd cynnyrch o'r fath yn destun "rows" parhaus. Nid oedd clogwyn o'r fath yn hollol ddiwerth, gan fod y cynnyrch yn <u>ddefnyddiol iawn</u> i adeilady, er gwneud lintels, postiau gratiau, pontydd yn y caeau, palmant etc etc, a gwelir digon o'r cynnyrch ym mhob man yn yr ardal fel pileri yn derfyn ar caeau ac gerddi etc. Sylwer nad oes "ochr bileriad" i rhain, a gan dreigladd amser y mae "lasia" yn amlwg ynddynt. Yr oedd gweithwyr bargeinion o'r fath yn cael pris arbennig am "pileri" ar gyfer adeilady a cau tir etc. Yr oedd nifer fawr o honynt yn cael ei defnyddio i bwrpas Ystad y Penrhyn a gan contractors y Sir, a tyddynwyr y cylch.</p> <p>Lassia oedd aflwydd bargan Willie Griffiths. Hefyd yr oedd yn fargen eithriadol o wlyb, dwr naturiol yn torri allan trwy y traed a'r cefna (joints) ac yn rhedeg ar y wyneb yn barhaus, ac yn enwedig yn y gaeaf ac ar ôl cyfnod gwlyb, hyd yn oed yn misoedd yr haf, a'r tywydd yn ffafrio, yr oedd yn "le gwlyb"</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73, 120
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 291

Trawsgrifiad	ac Willie Griffith yn barhaus yn wlyb. Yr oedd fel amrhyw eraill yn gwisgo “London Yorks” (“Yorks”) ar cetyn yn cael ei gadw dros dro (yn enwedig pan oedd yn gweithio ar y clogwyn) yn yr Yorks. Yr oedd yr arferiad yma yn gyffredin gan y creigwyr ac labrwrws yn gyffredinol. Gan ein bod erby hyn wedi “dyrchafy” o fyd yr hogia bach neu y prentisiaid, ac yn cymysgu yn feunyddiol gyda “dynion”, yr oeddem yn ceisho eu dynwared. Cael gafael ar hen raff clogwyn, rhai wedi eu condemnio ac ddim yn addas yw defnyddio gan y creigwyr. Yr oeddem yn rhedeg un o rhain i lawr tommen mewn hen fargen, ac wedi ei hangori yn dynwared y creigwyr ac yn dringo i fynny ac lawr a clymu ein hunain arni yn y ffordd gydnabyddiedig (darlyn), a cael pleser di ben draw. Hefyd “trin”, rhai darnau addawol ag oedd yn y domen. Hefyd pan oeddem yn cael cefn y dynion yr oeddem yn ceishio dringo eu rhaffau hwy, llwyddo yn weddol mewn llecyn hawdd. Ni fuom yn hir cyn dynwared y creigwyr, a gwisgo Yorks.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73, 52
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 292
Trawsgrifiad	Yr oedd “Yorks” addas a pwrpasol yw cael, ac amrhyw yn eu gwisgo – strapia lledr, gyda “bwcwl” ; eraill, darn o (gorden) llinyn, go gryf, ac dyma oedd gennym ni. Cofiaf i mi fod yn swil iawn am beth amser pan yn eu gwisgo, ac mae yn amlwg fod y dynion mewn oed yn cael llawer o hwyl am ein penau, ac nid oeddem yn mentro eu gwisgo tu allan i ffiniau y bonc. Cofiaf y teimlad rhyfedd a gogoneddys pan y gwisgais “Yorks” y tro cyntaf, rhyw deimlad o ysgafnder. Y mae trowsus melfaréd yn drwchus a beichus ar sgwydda cydmharol wan, ac mae y “tynny” ar Codi yn diflannu i bob pwrpas a rhyddhad cyffredinol yw gael gyda cymorth y “Yorks”.

	Yn gweithio yn y post gwenithfaen ar yr ochr orllewinol or agor (C) yr oedd John Evans, “Jack Carreg Fedwen”, yn “tynu a chario”. Ymosod yn barhau a diorphwys ar y post gwenithfaen caled yna. Y tyllwyr o dro i dro a phan oedd angen yn tyllu “twll mawr” mewn lle ffafriol ac yn eu lanw a gelignite a cael tommen i lawr.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73, 52
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 293
Trawsgrifiad	<p>Gan fod y gwenithfaen mor galed, yr oedd bron yn amhosibl ei falurio a gordd (sledge hammer), ac yr oedd yn ofynnol malurio y darnau mawr a gelignite, neu eu codi os oedd modd yn gorphorol gyda y craen trithroed, fel “peniad” ar ben y llwyth rwbel.</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Digon o rhain (rhai anferth) yw gweld yn droed y tommenydd. Yn yr hen amser pan yr oedd yn ofynnol i dylly “gyda llaw”, yr oedd ymdrech arbennig yn cael ei wneud i godi rhain gyda y craen ar sled neu wagen. Y mae rhai anferth yw gweld ar lawr a godre tommenydd Ochr Chwith heddyw.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio, cludiant
What Facet	73, 76

Location description	
Tud	T 294
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd patrwm od yn y post gwenithfaen, ac ni ddeallais erioed beth oedd yr esboniad, ac ni chynigiodd neb esboniad i mi. Sylwais fod y gwenithfaen gwyrdd mwy neu lai fel wyau anferth (tri neu bedwar i ddyfn ponc) ac wedi ei wae rhyngddynt, ac trwyddynt fel gweithienneau, i lai raddau, yr oedd quartz a Felzpar caled.</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Profiad syfrdanol i mi (yn enwedig ar y dechrau) ydoedd llechu yn y cwt pan oedd “saethu” yn mynd ymlaen. Yr oeddem wedi hen gynefino a clywed y saethu o hirbell, ond peth arall oedd bod yn ei ganol. Yr oedd y ffaith fod y dynion profiadol yn ddifater ac wedi hen galedy</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73, 86
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 295
Trawsgrifiad	<p>(Nov 1972) gan brofiad maith.</p> <p>Pan oedd “tanniad” arbennig yn agos i’r cwt tan neu “cwt mochaf ffiars” a shiawns i ddarnau or graig gael eu hyrddio ir cyfeiriad, yr oedd y swyddog yn ein rhybuddio i beidio a mynd i’r cwt dros dro. Er hynny yr oedd rhai or gweithwyr yn rhyfygu ac yn anwybyddu y rhybudd ac mentro mochaf mewn lle amheus, yn amyl er osgoi cerdded ychydig pellach, rhag colli amser. Yn ysbyty y chwarel (yn y waiting room) ymysg llyniau eraill yr oedd</p>

	darlun wedi ei dynny tu fewn i cwt tan ar ôl i ddarn o graig yn pwysu tua tunell gael ei thafly gan daniad (saethu) ac fe syrthiodd trwy ganol y to gan dorri y cerrig tewion ar coed trwchus fel “matches”. Fe ddywedir fod y cwt yn llawn o ddynion ar y pryd, ac yn wyrthiol ni anafwyd neb. Yr oedd y darlyn yma yn gyffredin yn yr ardal tua troad y ganrif, a thebyg ei fod ar gael eto yn yr amgueddfa yn Caernarfon
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 296
Trawsgrifiad	Yr oedd Ponc Rhysold ((Rushout) yn nefoedd i ni a diddordebau diddiwedd, pawb yn garedig, dim cyfrifoldeb nac ymateb i oruchwiliaeth gaeth a parhaus. Y stewart yn ymddangos ddwywaith yn y dydd (Melancthon Williams) dyn caredig o Tregarth. Gan brofiad fy hun yn ddiweddarach, y mae yn amlwg fod ganddo fwy na llond ei ddwyllaw yn ei orchwyl beunyddiol, ac o ganlyniad nid oedd ond yn ein cyfarch yn fyr a caredig, ac feallai cynghori byr ar beidio mynd i berygl. Nid oedd neb yn ein poeni ar gwestiwn o ymdrech a chynnyrch, er i fodloni ein cydwybod yr oeddym yn ceishio “crafy” llwyth (tua 15 cwts, 20 cwts) o glytiau bach “boys” ar gyfer yr hogia bach oedd yn y “gaethglyd” yn Ponc Leval. A gan ein bod yn clywed gan y prentisiaid eraill oedd yn gyplau gwasgaredig yma ac acw eu bod wedi anfon hyn a hyn o lwythi, yr oeddem ninnau yn ceishio “tynny y gwinedd or blew” a gwneud rhyw fath o ymdrech i ddangos ein bod ar dir y rhai byw, ac hefyd yn gefn ein meddwl yr oedd rhyw awgrym fod cronicliad yn cael ei wneyd
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	73
What	Rheoli, Creigio

Facet	
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 297
Trawsgrifiad	yn y peirianwaith yn rhywle ? ac feallai y buasai “dydd o brysur bwyso” yn ymddangos ac ninnau gorfod ymateb am y seگردod nefolaidd . O ganlyniad yr oeddem yn casglu rhyw llwythyn rŵan ac yn y man, peth o gynnyrch ein hunain wedi ei casglu ai trin o hen dommenydd a bargeinion segur, ar gweddill wrth feğera o fargan i fargan. Er ceishio cael llwyth yr oeddem gyda cydwybod euog yn tafly clytiau digon amheus i fol y wagan ac or golwg, a chadw y rhai goreu a shapus i gau tin etc ac i fod ar top y llwyth. Wrth gwrs yr oedd hyn yn arferiad cyffredinol yn y chwarel ac felly ninnau yn dilyn y shampl a dechreu yn ifanc. Teimlad o “pride” rhoi ein Number a “Boys” ar y clytiau yma ac acw a mynd a fo i waelod y tanc, a ffarwelio ac o, a dod yn ôl yn teimlo ein bod wedi gwneud ein dyledswydd. Yr oedd y “llwyth” yn cymeryd dipyn o amser ar ei daith, cael ei shuntio yma ac acw yn Red Lion, a disgwyl am “run” cyn mynd i lawr y “cutting” am Ochr Chwith ac or diwedd yn
Nodiadau	Red Lion – prif bonc y chwarel
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio, Cludiant
What Facet	73, 76
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 298
Trawsgrifiad	cyrhaedd Ponc Leval ynghyd a rhai eraill. Yr oedd pellter ac gofod mawr rhwng shed Ponc Leval a “Rhysold” ac o ganlyniad nid oedd fawr o berygl i “complaints” ddod yn ôl i ni, ac i ni orfod ateb am ein anonestrwydd. Ac yr oeddem yn gwybod gan brofiad, fod y caethweision yn Ponc Leval wedi hen arfer ar spwriel eithaf ac felly nad oedd fawr o berygl.

	Yr oedd cymeriadau diddorol yn Rhysold, a bargeinion a gweithwyr amrhywiol. Wedi gadael borgen Willie Griffiths ger y post gwenithfaen a symud i'r dde a cilio yn araf oddiwrth effaith ddamiol y "post" ac ir "agor", yr oedd tair neu bedair o fargeinion rhywiog da (best soft blue). Troi i lawr ac yn fuan dod eto i'r post gwenithfaen. Yn fuan wedyn dod i'r weithian glas caled ac wedyn y coch caled. Yn amlwg fod rhan helaeth o'r rhan isaf y bonc wedi cael ei gadael yn segyr (oherwydd natur y faen) ers peth amser, ond yn parhau i gael eu defnyddio fel "gachfa".
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 299
Trawsgrifiad	O geg y "leval" (tunnel) ac pashio y cwt tan i fynny i gyfeiriad yr Agor, hynny ydi ochr dde y bonc (ac wrth gwrs y mae hyn yn wir am yr holl ochr dde y chwarel) – y mae y traed (Joints) ai cyfeiriad yn "chwithig", ac o ganlyniad y mae y graig yn llawer anoddach yw gweithio ac angen mwy o lafyr a "skill", ac hefyd yn withian galed (ond mewn rhai manau) Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 300
Trawsgrifiad	<p>Cross section o fargen ar yr Ochr dde</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Yr unig ffordd lwyddiannus i drafod y graig oedd i falurio os oedd rhaid y rhan isaf “bonun” fel oedd y fargen yn tafly dros ei throed. Ac yn dilyn rhyddau darnau or glogwyn gan ddechreu o’r gwaelod a gweithio i fynny. Ar yr ochr dde i’r chwarel [<i>camgymeriad efallai : ai ochr chwith a olygir ?</i>] (ir gwrthwyneb y mae pethau a gellir gweithio y graig o’r top yn naturiol, ar “traed” yn hwylus)</p> <p>Yn yr Agorydd fel y mae y gair yn awgrymu y mae yr amgylchiadau yn wahanol eto, ac yn gofyn ymrafael a llafyr mawr. Torri i mewn yn y canol, a “bwyta” or ddwy</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 301
Trawsgrifiad	ochr a bargeinion yn rhaddol yn dilyn ar y ddwy ochr.

	<p>Fe weithid un o'r bargeinion ar ochr dde Rhysold gan Owen Williams Gwernydd ai fab William. Byddwn yn rhyfeddu at y gweithio caled sgilgar a dygyn, y ffordd yr oeddynt yn trafod clogwyn caled a'r "traed" o chwithig, a'r joints yn slip (pena slip). Y cerrig yn galed a solat a gorfod "stepio" y ffosydd bob amser cyn pileru, ar joints yn amyl ac o ganlyniad nid oedd hyd yw gael. Clytia (blocks) yn tueddu i fod yn fan oedd y cynyrch, ac eithriad oedd cael digon o hyd i gael "pillar" (clytia "dau hyd" neu rhagor)</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 302
Trawsgrifiad	<p>Yn y fargen yma y gwelais y "las dair cainc" fel y gelwir am y tro cyntaf. Yn y chwarel yn gyffredinol fe gyfeirir at veins gwyrdd etc fel "lashia", ac hefyd fel lashia y cyfeiriwyd at y man "hollta" a geir yn groes i'r hollt (cleavage) priodol. Effaith ddamiol a niweidiol gwres a gwasgfa y post gwenithfaen (dyke) (290). Yr oedd nodwedd od ac anghyffredin ynglŷn a'r las dair cainc, a thua canol rhwng yr ail a'r drydydd "las" (vein) ac ymlaen yr oedd hollt rhagorol ac ansawdd rhywiog i'r faen. Ond yn ôl yr oedd y ddwy las ac ymlaen yn galed ac afrywiog – ac yn galed iawn</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>

	Yn ddiweddarach cefais gyfle maith i werthfawrogi y ffaith yma trwy ymdrafod ar math yma o “garreg”, pan yn gweithio yn y shed ac eu
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 303
Trawsgrifiad	<p>dosbarthu am flynyddoedd</p> <p>Gwelir y “las” (Dair cainc) ac nifer eraill ar hyd a lled yr ardal, yn y pileri sydd yn terfynu gerddi a caeau etc. Yr oedd llawer math o’r lasha yma yw cael yn y chwarel, y rhan fwyaf yn y faen galed. Yr oedd y chwarelwyr yn gyfarwydd ar cwbl, ac yn sicr felly y rhai oedd yn eu bargaen neu cyffinia hwy. Yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhy frau yw man hollti yn foddhaol at gynhyrchu llechi toi. Dyna pam y ceir y math faen yn bileri terfyn neu lintels etc. Rhai yn hollti yn weddol hawdd at gynnyrchu 2nd neu 3rd (3-4 llechen ir fodfedd) ond yn amyl yr oedd y “las” yn cynrychu “cink”, ac o ganlyniad nid oedd y llechi yn cael eu derbyn gan yr Inspector yn rhwydd iawn</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 304
Trawsgrifiad	<p>Yn yr haenau goreu a rhywiog yr oedd haenau ac lashiau (coloured veins not laces) y gellir eu hollti yn rhwydd, ac yr oedd dosbarth (clas) iddynt ac fe gelwir yn “striped”. Yn ddiweddarach fe ddiplannodd y dosbarth yma, ac yr oedd y striped yn cael eu cynnwys hefo y “mottled” neu “green and wrinkled”. Y mae llawer o dai yn yr ardal a’r cerrig yma arnynt, ac y mae yn gwneud to hyfryd (Cae’r Wern etc). Oherwydd eu bod yn llai niferys na glas cyffredin, y maent yn costio mwy ac gofyn mawr amdanynt. Fe gyfyngir y lliw gwyrdd fel rheol at doi eglwysi newydd ac adgyweirio hen rhai, ac eithriadol y ceir ar do tŷ cyffredin, er y mae un neu ddau yn yr ardal.</p> <p>Yr oeddem yn gwybod nad oedd ein harosiad nefolaidd yn Rhysold i bara yn hir, rhyw ychydig o fisoedd, ac o herwydd melysdra a naws hyfryd yr amgylchedd mewn cydmhariaeth i gaethiwed didrefn Ponc Leval yr oedd ein</p>
Nodiadau	Cae’r Wern, Lon y Wern, Tregarth : cartref W.J. Roberts
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 305
Trawsgrifiad	<p>gwyliau fel petae yn hedfan, “fel gwynt ar afon neu llif ar draeth”. Ac yr oeddem yn rhag weld y dydd y buasem yn gorfod ffarwelio ar ein “hawddfyd”. Er yr oeddem ar lawer i ystyr yn edrych ymlaen i’r newid, gan ei fod yn golygu ein bod yn dod i bentymor y prentisiaeth gyntaf, ac i derfyn y ddwy flynedd gyntaf yn y chwarel, ac ar ôl hyn buasem yn cael ein hanfon i dechreu ar bedair blynedd fel “Jermon” (Journeyman).</p>

	Golyga hyn ein bod yn gweithio hefo chwarelwr profiadol yn y Shedia. I bob pwrpas fel caethwas iddo, yn benaf ein gorchwyl fyddai naddy y llechi, ar chwarelwr yn hollti. Hefyd yr oeddem yn gorfod gwneud pob gorchwyl cynorthwyol ac isradd, o godi'r belt, llnau cafn, llnau dan bwrdd ar wal, gwneud te, etc, cynorthwyo i "gyfri" (cario y llechi i'r clwt cyfrif), nol y sledeidiau (blocks), tendiad i'r bwrdd llifio, mynd a llwythi rwbel allan. Fodd bynnag, golyga ein bod yn gaeth i oruchwylion trwy y dydd, eto yn cael lot o hwyl a tynny coes (y mae yn amlwg fy mod wedi camu tros 306-308)
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 309
Trawsgrifiad	Er y rhagolygon o'r gaethglyd yma, a sicrwydd o waith caled iawn am bedair blynedd cyn cyrhaedd ugain oed pan y buasem yn cael ein cydnabod ar ôl chwe mlynedd o brentisiaeth yn chwarelwyr profiadol, a cael "number" a gweithio i ni ein hunain, yr oedd rhai abwyd <ul style="list-style-type: none"> 1) Gadael y safle "iselradd" o "Boys apprentice" a dyrchafy i ris uwch ar yr ystôl 2) Cael codiad sylweddol (yn ôl y safonau) yn ein cyflog 3) Gobaith ?? o "gydnabyddiaeth" gan y chwarelwr ar ddiwrnod Sadwrn setlo Hefyd fel yr oedd yr amser yn agoshau yr oeddem yn sharad a dyfaly yn barhaus i pa Shed ac at pwy y buasem yn cael ein hanfon. Gan fod tad "Wil Phil" fy mhardnar yn gweithio yn un o'r Shediau (Huw Bach Pant "Banjar") nid oedd gwestiwn ble y buasai o yn cael ei symud. Os oedd tad neu frawd, ewythr etc yn gweithio mewn lle addas, a pob peth yn ffarfriol, yr oedd yr oruchwyliaeth yn cydweithredy ac yn ceishio symyd y
Nodiadau	Banjar – arweinydd band pres
Casgliad	Ponc Rushout

Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 310
Trawsgrifiad	bachgen at ei dad neu gysylltiad agos, er mwyn lles y bachgen a'r gwaith. Yn amyl nid oedd hyn yn bosibl ar symyd mor symyl, gan fod y tad etc feallai yn gweithio yn y twll ac ni chymhellid i brentis ifanc fynd i weithio i'r twll, heb cael profiad o weithio yn y lan yn gyntaf (y Dressing Sheds). Yr oedd hyn yn cael ei ystyried yn anghenrheidiol er lles dyfodol y bachgen #. Fel yr oedd yn digwydd yn amyl yr oedd damwain yn digwydd i'r creigiwr (Rockman), henaint, neu ei iechyd yn ei wneud yn anaddas at waith creigiwr, ac yr oedd yn cael "transfer" ir Shediau. Felly yr oedd yn holl bwysig fod "prentis" wedi cael rhai blynyddoedd o leiaf yn y "lan" i ddysgu hollti a naddu yn effeithiol, a bod yn gyfarwydd ar "system". I fynny i oddeutu 1930 byddai creigwyr oherwydd henaint neu ddamwain etc yn gorfod gwneud cais i gael dod i'r lan i weithio, a llawer o rhain gan eu bod wedi bod yn gweithio o dan yr "hen drefn", erioed
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout, Cynhyrchu llechi C19, Cynhyrchu llechi C20
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 311
Trawsgrifiad	wedi gwneud prentisiaeth ffurfiol a cydnabyddiedig. (Daeth y cynllun prentishiaeth i fod yn Gorph 1916) wedi dechreu yn ifanc ac yn gysylltiol a "Group" y teuly a gwneud pob math o ddyledsdydd cynorthwyol i'r

	<p>“Group”. Heb cael fawr o gyfle feallai i ddysgu man hollti a naddy yn iawn, a gan mai ar y dechreu “cyllath bach” oedd yr erfyn at naddu i lawer o fareginion. Yr oedd yr Injan naddu (treadle) ac yn sicr yr “Injan droi” yn ddieithr iddynt ac ychydig brofiad o dressio oeddynt wedi ei gael yn y blynyddoedd cynnar wedi llwyr ddiflannu. Trist fyddai gweld “hoelion wyth” y graig, ai henwau yn adnabyddus trwy y Chwarel fel creigwyr sgilgar ac medrys, oherwydd henaint etc yn gorfod dod yn ôl i’r lan, a ceishio codymu a tecnic ac amodau dieithr a hwythau wedi pashio yr oed i addasu eu hunain i amodau newydd.</p> <p>Yr oedd gwaith y “Lan” a’r “Twill” yn wahanol iawn, ac nid yn hawdd yr oedd yn bosibl cael dyn i newid or naill ir llall. Fel rheol yr oedd bachgen wedi terfyny ei brentishiaeth ac yn ugain oed</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout, Cynhyrchu llechi C19, Cynhyrchu llechi C20
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 312
Trawsgrifiad	<p>yn cael “wal” yn y shediau i weithio ar ben ei hun, neu a Jermon, neu dau bardnar. Ar y llaw arall yr oedd yn cael ei anfon i’r Twll at dad neu berthynas, cyfaill neu estron. Nid oedd yr oruchwyliaeth yn gorfodi y naill neu’r llall : ond yr oeddynt yn cymell ac anog cymaint ag oedd yn bosibl i fynd i weithio ar y graig, prinder dynion twll oedd fel arfer, oherwydd “wastage” (henaint anafy etc). Yr oedd natur beryglys gwaith y creigwyr yn cadw llawer draw. Yr oedd rhai prentisiaid yn gweithio ynglwm a partner yn y “twill”, fel arfer prentisiaid rhwng 18-20 wedi cael cyfnod yn y lan, ac yn awyddus i fynd at eu Tad neu frawd yn amyl. Yr oedd y “system” yn eithaf “flexible”.</p>

	Unwaith wedi i fachgen fynd i weithio i'r lan neu twll, nid yn hawdd yr oeddynt yn barod i newid, wedi ymarfer ar naill neu y llall ac wedi setlo i'r drefn. Yr oedd "manteision" ac anfanteision yn y
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 313
Trawsgrifiad	<p>naill a'r llall, a chan dreigladd amser yr oedd y dyn yn "moldio" ei hun fel "dyn twll" neu "dyn lan" ac ystyrier fel crefft neu orchwyl hollol wahanol.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Yn y lan yr oedd cludwch a cysgod (cydmharol) y wal (gwalia) ac yn sicr y Shed. Yr oedd y gwaith yn llawer llai peryglus. Dim gweithio ar y clogwyn, yn amyl yn hongian mewn rhaff yn ddanedd y tywydd. Natur y gwaith ar brydiau yn galetach, feallai "bargen" sal, neu bargen yn rhaddol yn datblygu yn sal, a diflas oedd gweithio mwy neu lai fel labrws ond symud rwbwl rhan helaeth o'r amser 2) Yn y "twll" yr oedd llai neu ddim o'r aflwydd niweidiol y "llwch", ag oedd fel niwl yn y shediau yn barhaus. Yr oedd rhyw scence o rhyddid, a pleser o weithio y fargen, a trin y plygion, pileru a bras hollti yn waith diddorol a pleserus. Problem newydd yn codi pob dydd, pob "plug" neu "trawsan" yn wahanol ac yn newydd.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 314
Trawsgrifiad	Gwaith amrhywiol o ddydd i ddydd, tyllu ar wyneb y graig, saethu, codi bonun, loesi, defnyddio craen (crane) trithroed, llwytho slediad, mynd a'r slediad i waelod y tank, mynd i'r lan i'r "storws powdwr" i nol explosives ("powdwr du" (granules) neu gelignite, weithiau y ddau). Felly yr oedd digon o amrywiaeth yn y gwaith, a gwaith digon pleserus (ond caled) oedd gweithio "bargen" dda. Hefyd yr oedd mwy o "hwyl" a "cymdeithas" ynglŷn a'r gwaith. Yn y "twll" yr oedd dynion y "cylch" yn cyfarfod i fochal ffeiers bron bob awr, rhyw ddwsin mwy neu lai o gymdogion mewn cytiau yma ac acw ar y bonc. Rhiw le i lechu oedd y cytiau mochall ffeiers (digon yw gweld ar y ponciau heddyw) ac dim lle i aros. Adeilad bach cryf yn amyl yng ngesial y graig, ac dwy fainc o bob ochr iddo, a rhyw lathen neu lai o "passage" yn y canol, a porticol bach cryf. Byddai rhain yn cael eu harfer yn rheolaidd i fochal cawod etc.
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	Heb rif
Trawsgrifiad	Cynllun a nodiadau Yr oedd nifer o'r cytiau yma fel y gwelir heddyw yn "free standing" mewn llefydd dethol : ac eraill yn swatio yn cysgod y graig lle nad oedd gweithio agos
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout

Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 315
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd mynd i'r cwt bron pob awr yn atalnodi y gwaith caled, ac man cyfarfod a rheolaidd. Tannio cetyn a sgwrs flasus, tynny coes parhaus, a hwyl diddiwedd a trafod parhaus ar bob pwnc, yn enwedig crefydd, ac amser lecsiwn, a pethau cyffrous a digwyddiadau yr ardal etc. Hefyd yn y twll oherwydd natur y gwaith, yr oedd pawb yn cyrchu i'r "cwt tan" naw o'r gloch i gael paned, ac wrth gwrs i dreulio yr awr ginio. Yno yr oedd dwr poeth a cynhesrwydd, a deiliaid y bonc i gyd yn cyrchu yno, a hwyl a cymdeithas hapys, pawb a'i stori, ac yn sharad ar draws eu gilydd, ac ysbryd hwyliog a caredig bob amser yn teyrnasu. Nid wyf yn cofio i mi erioed weld neb yn ymgecru a ffraeo. Yr oedd y bywyd cymdeithasol clos a cyfeillgar yma yn ychwanegu lawer at y "tynfa" i weithio yn y twll, ac unwaith wedi cael blas ar y "drefn" nid hawdd oedd newid, ond o rhaid.</p> <p>Hefyd oherwydd fod y cynllyn o daly am y gwaith o fis i fis yn hollol wahanol ar</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 316
Trawsgrifiad	hyn a geir yn y Lan, nid oedd cymaint o gynnen rhwng y gweithwyr.

	<p>Yr oedd y “gosod” yn dod pob mis (mis chwarel 4 wythnos) ac er yn achlysurol yr oedd eithriadau (gosod = pris am y blocks ar rwbel yn cael ei benderfynu gan y “Stewart gosod” am y mis dilynol ac yn cael ei “estimatio” ar gynnyrch y gorphenol (misoedd blaenorol) ac rhagolygon y fargen) yn achwyn ac yn eiddigeddus ac edliw fod hwn a hwn (cymydog feallai) yn cael gwell pris (gosod) am weithio bargaen well ? Ond buan iawn yr oedd y “storm in a tea cup” yn pashio heibio a pawb yn hapys etc. Yn y lan yr oedd yr amgylchiadau yn wahanol. Nid oedd fath beth a cyfarfod yn y cwt mochall ffiars ar cwt tan. Wrth gwrs yr oedd cwt tan yn y Lan, ond eithriadau oedd yn ei fynychu yn rheolaidd. Yr helyw yn bwyta yn y “wal” wedi i’r jermon fynd i’w cwt naw o’r gloch ac amser cinio i “wneud y te”. Weithiau yr oedd rhai yn mynd i’r cwt i eistedd pan oeddynt “heb gerrig”, ond cymdeithas lac ac amrhywiol oedd</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio, trin cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 317
Trawsgrifiad	<p>mewn cydmhariaeth ar ffyddloniaid beunyddiol a geir yn cytia y “twll”.</p> <p>Er fod mwy o nifer o weithwyr yn gweithio rhwng barwydydd cyfyng y shed, mewn ystyriaeth ar gwasgar ar hyd y bonc. Yr oedd “familiarity breeds contempt” yn amlwg yn yr awyrgylch, pawb yn brysur yn cynhyrchu llechi, ac yn gwilio pob symudiad or cyd ddynion – ac yn sylwi yn fanwl ar ansawdd ac nifer y sledeidiau (blocks) oedd eu cydweithwyr yn eu cael, ac yn amyl yn rhoi hyn i lawr i “ffafriaeth” gan y swyddog. Pawb yn ystyried ei hun yn well neu o leiaf gystal ai gymydog. Yn eu tyb hwy nid oedd skill ac ymdrech yn gweithredy (fe ddown at hyn eto). Oherwydd y “system” ddoniol yr oedd yr awyrgylch yn y lan yn cynhyrchu mwy o</p>

	eiddigedd ac atgasedd, ac o ganlyniad yr oedd y gafatrach rhwng dyn a dyn yn llai caredig a “teuluol” na mewn cydmariaeth ir hun a geir yn awyrgylch hapus y “twll”. Felly fe ddown i’r dyfarniad mae dau fyd gwahanol oedd y “lan” a’r “Twill”
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, creigio, trin cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 318
Trawsgrifiad	<p>ac llawer i ddweyd dros ac yn erbyn y ddau “fyd”</p> <p>Wedi rhedeg ar ôl y sgwrnog yma a crwydro eto awn yn ôl i tudalen 310 #</p> <p>Nid oedd fy “nhad” William Roberts Tŷ Cerrig yn gweithio yn y “lan” ac felly nid oedd cwestiwn i mi gael mynd ato fo i weithio. Nid wyf yn cofio iddo gymeryd ond y lleiaf o ddiddordeb yn fy ngyrfa yn y Chwarel, nac i ddod i fy ngweld o gwbl pan oeddwn yn “bela” ac nes ymlaen, ac yr oedd ymweliad achlysurol yw ddisgwyl o dro i dro (er embarrassment ar y tro i’r bachgen) gan dad neu rhywun cyfagos, er dangos diddordeb, ac i holi ynglŷn a datblygiad a lles y bachgen, yn enwedig i gael sgwrs hefo swyddog oedd yn gyfrifol am drefny y “transfers” pan oedd terfyn prentishiaeth (neu bela) yn agoshau, a cael cydweithrediad ynglŷn a dyfodol y bachgen.</p> <p>Os nad oedd tad neu aelod arall or teulu yn barod, ac hefyd bod lle (vacancy) priodol, yr oedd trefny yn cael ei wneud yn ddiarwybod i’r bachgen. Bum yn ddiweddarach yn gyfrifol am</p>
Nodiadau	Sylwer y defnydd o “nhad” : nid oedd W.J. Roberts yn credu mai ei dad cyfreithiol, sef “William Roberts Tŷ Cerrig”, oedd ei dad mewn gwirionedd

Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 319
Trawsgrifiad	adran y prentishaid am rhai blynyddoedd a gwybod yn dda fod pob ymdrech ac ystyriaeth yn cael ei gymeryd yn y cefndir – ac os oedd yn bosibl a pob peth yn ffafriol yr oedd ymgais yn cael ei wneud i'r bachgen gael ei gysyllty a cymydog, neu yn amyl iawn ac aelod o'r capel neu eglwys yr oedd yn ei fynychu. Yn y cyfnod hwnnw tua 1920-1930 yr oedd bron pob bachgen yn mynychu lle o addoliad yn welodd rheolaidd. Ac er yr holl ymgiprys yr oedd yna glosrwydd a rhyw fath o berthynas teuluol rhwng yr aelodau ai gilydd. Yr aelodau yn cymeryd diddordeb yn hunt y naill a'r llall, a gwybod am brofedigaethau a gwaeledd yr holl aelodau. Ac o ganlyniad yr oedd yr aelodau yn nabod eu gilydd yn dda a rhyw serch a cydymdeimlad "teuluaid" yn bodoli. Oherwydd hyn, os na ellir trefny i brentis gael eu symud at un or teulu, yr ail ystyriaeth oedd – os yn bosibl, ei symud i weithio at aelod or eglwys neu gapel yr oedd yn ei fynychu ac os oedd hyn yn bosibl, fel rheol yr
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 96
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 320

Trawsgrifiad	<p>oedd y “transfer” yn ddieithriad yn llwyddiannus a pawb yn hapys. Yr oedd y bachgen yn settlo i lawr a cartrefy yn hapus hefod dyn yr oedd yn ei adnabod, a cael mwy o ystyriaeth a chydymdeimlad, a llawer o angen hyn ar ddechrau y tymor pan yn dysgu ac yn mynd trwy y “teething troubles”..</p> <p>Yn anffortunus yr oedd nifer o fechgyn nad oedd ganddynt “gysylltiadau” o gwbl yn y chwarel : rhai bechgyn amddifad, a dod, neu wedi dod i’r ardal yn gydmharol ddiweddar ar tad ddim yn y chwarel, ac oherwydd prinder gwaith yr oedd rhai yn dod o Fangor, a dim cysylltiad o gwbl na cefndir chwarelyddol. Er hynny yr oedd pob ymdrech yn cael ei wneud yw settlo mor ffafriol ag oedd yn bosibl. Yn rhyfedd iawn datblygodd rhai o’r bechgyn yma, nad oedd ganddynt gefndir na traddodiad chwarelyddol, yn grefftwyr rhagorol.</p> <p>Wedi darfod y dwy flynedd gyntaf (bela) ac rwan yn cael ein symud i'r Shed fel jermon <u>bach</u>.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 321
Trawsgrifiad	<p>“Jermon bach” oedd Jermon ar ei flwyddyn gyntaf neu ail. Yr oeddem yn cael ein hanfon i’r Shediau oedd yn gweithio y dosbarth caletaf neu anoddaf – Hard Blue, Hard Red, crych du, etc. (eglwyrn y dosbarthiadau yma yn fwy manwl nes ymlaen). Yn y Shediau yma yr oedd pris y bunt (poundage) yn naturiol yn fwy, gan eu bod yn llawer mwy anodd i gynnyrchu gwerth punt o lechi nag yr oedd yn y Shediau oedd yn trafod y Best blue (glas rhywiog). Yr oedd y tal am gant o lechi (pan yn gwahaniaethu yn ôl maint a dosbarth) yn wastad trwy y chwarel, y “poundage” oedd yn gwahaniaethu. Yn y shediau “caled” a crych du yr oedd y “poundage” yn uchel ! (mewn cydmariaeth). Oherwydd fod y cynnyrch yn gydmharol yn llai, ar gweithio yn arafach, yr oedd</p>

	cynnyrch mis o llechi yn llawer llai nar cynnyrch a geid mewn mis yn y Shediau goreu. Felly yr oedd Jermon bach fel rheol yn cael ei gysylltu a chwarelwyr yn un or dosbarth isaf yma, ac ar ôl tua
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 322
Trawsgrifiad	<p>dwy flynedd o brofiad a cryfhau? mewn corph a cyrhaedd tua 18 oed yr oedd yn cael transfer i'r Shediau lle yr oedd yr haenau goreu yn cael eu gweithio. O ganlyniad pris y bunt yn isel a gorfod cynnyrchu llawer mwy o lechi i geishio gwneud cyflog : ac o ganlyniad yr oedd y "pace" yn llawer cyflymach ac angen mwy o ynni a profiad, naddu bron yn ddi stop, o " ganiad" tan "ganiad", oddigerth rhoi sylw i chores eraill anghenrheidiol.</p> <p>Fe lithrodd ein dyddiau olaf ni yn Rhysold yn gyflym. Yr oedd fy mhardner Will Phil yn gwybod ei fod yn mynd at ei dad i # Shed Balaclava (Shed J) ar yr oeddwn i yn dyfaly lle y buaswn yn cael fy anfon. Rhyw ddiwrnod neu ddau cyn diwedd y mis (mis chwarel) 4 wythnos) cefais wybod rhywfodd, yn swyddogol neu stori nid wyf yn cofio, fy mod i fynd i weithio gyda Robat David "Waen" (Robert David Pritchard Gwaengwiall) ac yr oeddwn yn teimlo yn eithaf hapys ynglŷn a'r trefniant ac er braidd yn ofnys syd y buaswn yn gallu ymwneyd ar gwaith</p>
Nodiadau	
Casgliad	Ponc Rushout
Tags	Rheoli
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 323
Trawsgrifiad	<p>ond yr oedd pawb gorfod dechreu, ac ymgodymu ar anhawsterau, ac buaswn yn gwneud fy ngoreu. Yr oeddwn yn gyfarwydd a fy narpar partner newydd, a gwybod ei fod ef ai wraig yn gyfeillion mynwesol a fy rhieni, a gwybod eu bod yn gyd aelodau a ni yn Treflys, au gweld yn y gwasanaeth bron yn rheolaidd (oherwydd y pellter a rhwymedigaeth gwaith beunyddiol y fferm nid oedd yn hawdd iddynt ddod yn rheolaidd, er eu bod yn bresennol bron yn ddifeth yn cyfarfod yr hwyr. Yr oeddwn yn eithaf cyfarwydd a Gwaengwiail. Pan oeddwn blentyn yn yr ysgol yr oeddwn yn amyl yn gorfod mynd bob cam o Pant i Gwaengwiail i nol llaeth enwyn, llond pisar mawr am geiniog, ac weithiau mi fyddai Mrs Pritchard wedi rhoi lwmp bach o fenyn fresh i nofio ar dop y llaeth fel anrheg i mam, a cofiad hyd heddiw pa mor falch fyddai fy mam wedi agor y pisar a canfod y trysor.</p> <p>Gwr tal cryf oedd Robart David eithriadol</p>
Nodiadau	Treflys – un o gapeli'r Annibynwyr, bellach wedi ei ddymchwel, rhwng Bethesda a Gerlan
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	56, 60, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 324
Trawsgrifiad	o hynaws a hawddgar, a gwen ar ei wyneb yn barhaus, gwrid ar ei ruddiau, ac edrych yn iach. Yr oedd yn barhaus yn crwydro y mynyddoedd gan mae ffarm ddefaid i bob pwrpas oedd Gwaungwiail yn odref Cwm Penllafar

	<p style="text-align: center;">SHED SINC BACH(C)</p> <p># Felly pan ddaeth bore Llun fe es yn eithaf hapys am Shed Sinc Bach (Shed C). Reportio yn gyntaf ir swyddog a cael dipyn o “gynghorion” or “drefn”, ac wedyn i’r wal at fy mhardnar newydd, ac ar ôl ysbaid dechreu gweithio, Clirio a cael pethau i drefn, yn rhaddol dod i nabod gweithwyr eraill yn y Shed, yn enwedig y prentishiaid a rhai oeddwn yn gyfeillgar a hwy, ac yn fuan iawn yr oeddwn yn teimlo yn eithaf cartrefol.</p> <p>Y “bwgan” oedd syd y buaswn yn gally trin yr Injan naddu, ac hefyd naddu y “cerrig” caled yma (hard blue, glas caled, oedd yn cael eu gweithio yn y Shed), heb “faly” a gwneud gwastraff a colled, ar ôl ymdrech fy mhardnar yn eu trin au hollti. Yr oedd</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol, Trin Cerrig
What Facet	60, 73, 83
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 325
Trawsgrifiad	y ffaith yma yn pwysu dipyn ar fy meddwl. Hefyd yr oeddwn yn gwybod nad oeddwn wedi cael llawer o gyfle a profiad hefo “Injan” yn enwedig “cerrig” caled ac o faint sylweddol. Un peth oedd hanner chware a naddu cerrig man rhywiog 8” x 8” i fynny i tua 12” x 8” ac eithriad i fynny i 16” x 8” ac gorfod ateb i neb am fethiant, neu werth isel radd yn shed y belwrs bach. Problem a gorchwyl gwahanol oedd naddu cerrig caled o faint sylweddol (feallai ac yn achlysurol i fynny i 24” x 14”) a rhai tew – 2nd a 3rd quality. Y ffaith oedd ein bod gorfod dechreu o’r newydd, ddim yn glir iawn am y dosbarthiadau nar sizes, hefyd yr oeddem yn ymwybodol

	fod y “system” yn galed ar pres yn isel – ac o ganlyniad na allai neb fforddio cael wast (waste) dianghenrhaid. Yr oedd rhaid naddu yn gynnil a “malu” cyn lleied ag oedd yn bosibl er mwyn cael yr eithaf o bob sgloden a clwt. Yr oedd “cerrig” caled yn llawn mwy tueddol i “faly” a conla yn torri allan na cerrig rhywiog (glas goreu etc).
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 326
Trawsgrifiad	Golyga hyn naddu i lawr etc ar size yn mynd yn llai (a llai o werth yn dilyn). Yn y Shediau caled yr oedd llifio yn broblem, a gorfod angori y clytiau i’r bwrdd llifio, a’i wedgio yn ofalys, ac eto yn cael trafferth, y llif yn stopio yn amyl a gorfod “gwatchiad belt” i geishio cynorthwyo y peiriant i lifio. Neu o leiaf i attal y “belt” rhag llithro oddi ar y troell “pulley”. Yr oedd hyn yn digwydd yn amyl, a golyga hyn fynd i nol yr ystôl ai gwau yn drafferthus trwy y shed trey y “waliau” as osgoi y peiriannau a pob anhawster, ac or diwedd cyrhaedd y wal i’w gosod i fynny. Hysbysu gofalwr y Shed (Shed attendant a hogiwr llifia etc) a cael yntau i stopio y peiriannau, rhwymo y belt ar y pulley hefod cadwyn priodol a cael yr attendant i gychwyn y peiriant yn araf nes i’r belt fynd yn ôl iw le. Gan fod pawb yn cael i drafferth yma yn eu tro (rhaf yn amlach nac a ddylid o herwydd blerwch a didrefn diffyg yn angori y clytiau neu newid y llif)
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Trin Cerrig, Llifio, Rheoli
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 327
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd y peiriannau yn amyl ar “stop” ac hyn yn arafy y gwaith ar cynnyrch. Hefyd er mwyn cynorthwyol y byrddau llifio araf ac helbylus yma, yr oedd bron pawb yn feddiannol ar “rhys” (gordd fawr bren) ac ei harfer i “dorri” clytiau. Credaf i mi egluro syd oedd hyn yn cael ei wneud yn flaenorol – torri bwlch ar dalcen y clwt neu bilar, ei droi rownd ac ei rhoi ar ei ochr a tharo yn gryf ar yr ochr gwrtherbyn ar torriad</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Nid bob amser yr oedd hyn yn bosibl. Oherwydd “shap” neu ochr anaddas i daro, hefyd yr oedd ansawdd y “cerrig” yn cyfrif ac rhai yn nodweddol fel “torwrs” da neu sal.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Llifio, Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 328
Trawsgrifiad	<p>Ond os oedd yn bosibl yr oedd pob chwarelwr a allai (rhai ddim yn feddiannol ar ddawn neu oedran a nerth yn ei lluddo rhag gallu “torri”) yn “torri” cymaint ag a allai, gan fod “pen” torriad yn hollol fresh, ac heb ei effeithio gan “llog” y llif, ac yn hawdd i hollti os nad oedd y pen fel “danedd llif”. Yr oedd hyn yn digwydd weithiau, dibynnu ar ansawdd y faen ac sgil y torrwr</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>

	Hefyd yr oedd pawb yn y Shediau caled ac “bastad” (hard grey) yn gweithio (hollti) cymaint ac y gallent yn “oer” yn enwedig clytiau man os oedd pen ffafriol ar y clwt. Cyn dyfodiad y byrddau llifio nid oedd ffordd arall ac yr oedd rhai o’r hen chwarelwyr yn fedrys iawn yn y grefft, ond yr oedd y byrddau llifio
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Llifio, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 329
Trawsgrifiad	<p>yn prysur gladdu y ddawn yma, yn enwedig yn y Shediau goreu (glas, rhywiog etc) lle yr oedd llifio yn rhwydd a neb yn feddiannol ar “rhys erbyn hyn, 1930. Wrth gwrs cyn dyfodiad y byrddau llifio ar sheds, yr oedd holl gynnyrch yn cael eu “gweithio” yn oer, ac o ganlyniad yr oedd y creigwyr yn “trin” (subdivide) (breaking down ?) yn ofalys er rhoi pob cynorthwy a hwylusdod yw partneriaid yn y wal (gwalia agored) i dorri a thrin y clytiau hefo cyn lleied o drafferth ac oedd yn bosibl. Yn rhyfedd y faen rhywiog “feddal”, Best Blue, red, a crych du oedd y torrwrws sala. Cleta oedd y faen (oddigerth yr eithaf “hard grey”) goreu yn y byd yr oeddynt yn torri.</p> <p>Fe ddywedir (a gellir deall hynny) fod miloedd o dunelli or haenau goreu wedi gorfod mynd drost y domen, oherwydd nad oedd bosibl eu trin au torri i lawr yn sglodion, a gan nad oedd byrddau llifio yw trafod. Gellir deall fod pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi hyn, plygio a trin sgilgar etc</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Llifio, Trin cerrig, Rheoli
What	73

Facet	
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 330
Trawsgrifiad	<p>a'r grefft ar ei goreu. Er hynny "hyd yma y cerddi" oedd yn amyl. Yr oedd achos arall am y "waste" yma i.e. yr oedd y chwarel yn ei hanterth ac yn gweithio y haenau goreu tua troad y ganrif, ac o ganlyniad yr oedd digon o "raw material" yw gael, "bargeinion fel tresal" medda nhw, a gallech ddewis "plyg" i unrhyw size fel yr oedd yr angen. Felly yn y bargeinion da yma, nid oeddynt ym ymboeni a trafferthu yn ormodol a darn o graig oedd yn mynd i arafy eu cynnyrch.</p> <p>Yr oedd yr hen chwarelwyr yn y "lan" (slate dressers) yn enwedig rhai , yn gally man hollti bron rhywbeth, "pen slip" ddim yn fwgan yn enwedig os oedd yn "fresh", ac yr oeddynt yn gally hollti o <u>ochr</u> y clwt, neu o leiaf ddechreu, ac wedyn arwain yr hollt yn ofalys a sgilgar ar hyd "pen" dishap neu cyfarfod a'r pen isaf.</p> <p>Oherwydd yr anhawster yn llifio (1) caletwch y faen (2) y bwrdd yn araf, nid oedd yn bosibl ir bwrdd llifio gadw i fynny a gofynion y rhai oedd yn dibynnu arno</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Llifio, Trin Cerrig, Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 331
Trawsgrifiad	felly yr oedd yn anghenrheidiol i weithio cymaint ag oedd bosibl yn "oer". Yr oedd dau fath o Shediau yn y chwarel, "Shediau" sengl a "Shediau dwbwl"

	<p><u>Yr wyf yn sylweddoli fy mod eisoes wedi trafod y matter yma – page 48-52 – ac wedi egluro y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o Shediau))</u></p> <p>Gan mai Shed sengl oedd Shed Sinc Bach C yr oedd rhaid tynnu yr eithaf o bob clwt a sgloden (undressed slate). Felly oherwydd diffyg profiad yr oeddem fel Jermon bach yn eithaf “nervous” pan yn ceishio naddu y dyddiau cyntaf, ac ofn gwneud ac achosi colled in partner, ac yn ymwybodol fod ei lygaid arnom yn barhaus.</p> <p>I ychwanegu at ein problem, yr oedd pob Injan naddu yn gwahaniaethu rhyw gymaint, a pob un a’i “chastia”, ac o ganlyniad yr oedd peth amser yn pasio heibio cyn ein bod yn dod yn gyfarwydd ar peiriant a gwybod faint i dradio etc. Dibyna hyn ar gyflwr cyffredinol y peiriant. Trael enbyd wedi bod (ac yn parhau) arnynt</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 332
Trawsgrifiad	cyflwr y “springs” etc. Yr oedd ambell i beiriant yn “ysgafn” ac yn gweithio yn rhwydd ac rheolaidd, ac eraill yn “drwm” ac yn symud gyda “jerks”. Well yr oedd yn rhaid dod yn gyfarwydd au “castia” ac yr oedd hyn yn cymeryd amser, ac ar ôl dipyn i beth yr oeddem wedi dod i ddeall ein gilydd a’r naddu a’r cynnyrch yn gwella. Pan yn “Jermon bach” anamyl yr oeddem yn cael cynnig holhti o gwbl, dibyna hyn ar natur ac agwedd y partner. Pan oedd “cerrig” (Blocks) yn brin ac ond rhai “man” ar ôl, feallai y caethem holhti a naddu rhain, ond anamyl yr oedd cyfle i holhti o gwbl.

	Fel i mi ddweyd yr oedd Robert David yn wŵr hynaws caredig ei natur, ac yn bartnar delfrydol. Gan ein fod yn ffarmio (tyddyn) defaid, yr oedd llawer oi amser ai sylw yn cael ei rhoi ir ffarm, ac nid oeddwn yn sicr pryn ynte y chwarel ynte y fferm oedd yn cael y flaenoriaeth ganddo. Oherwydd y ffaith yma, yr oedd bywyd ac
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73, 83
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 333
Trawsgrifiad	<p>fy arhosiad fel Jermon yn fwy esmwyth a diddorol, gan fod sylw i faterion a gorchwylion y fferm yn ei gadw gartref , heb rhybydd weithiau. Ac yn enwedig tymor cynhauaf gwair, ac hel a golchi defaid, Buwch yn cael llo etc yn ei gadw gartref yn ddirybudd am ddiwrnod mwy neu lai, defaid yn crwydro a colli ar y mynyddoedd, damweiniau etc.</p> <p>Amser gwair a hel defaid yr oedd rheswm iddo fod gartref am rhai wythnosau. Er fod R David yn un or dynion mwyaf hawddgar yn y chwarel i weithio hefo fo, eto yr oedd blas anochel cael bod yn feistr arna fy hun, neb i ymateb iddo, rhyddid perffaith a gweithio fel y mynwn i gynllyn fy hun. Yn lle bod yn “gaethwas” a gwneud dim ond naddu ar gorchwilion iselradd, yr oeddwn yn cael gweithio system fy hun, a cael holhti a naddu bob yn ail, trafod a trin y clytau etc. Os byddai arwyddion y byddai fy mhardnar gartref am wythnos neu rhagor, ag mi</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73, 83

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 334
Trawsgrifiad	fyddai hyn yn bosibl, tymor y gwair, mi ffai y swyddog yn dweud wrthyf am i mi gadw cynnyrch fy hun ar wahân. A'r diwrnod y byddai fy mhardnar yn ail ddechreu gweithio mi fyddwn yn gwneud (crewyn) "account" o fy nghynnyrch ai cario allan i'r "clwt cyfri" (stock) ac yr oedd y swyddfa yn agor "account" yn fy enw am y cynnyrch yn annibynnol am ein cynnyrch fel "partner a Jermon" am y gweddi o'r mis. Yn naturiol yr oedd hyn yn "stimulant" i mi beidio colli amser (Duw am helpio fi) a gwneud fy ngoreu, gan fod fy ngyflog yn gydmharol isel, nid oedd eishiau llawer o gynnyrch i "goverio" fy isrif (day rate), ac o ganlyniad yr oedd ychydig "extra" yn gasgly, ac byddwyn yn cael yr "arian trosodd" yma allan y Sadwrn settlo dilynol. Ni fyddai ond 10/- mwy neu lai ond i mi y cyfnod hwnw yr oedd yn drysor, ac wedi cael rhyddid am ysbaid i.e Yr oedd gwerth y llechi yr oeddwn wedi ei gynhyrchu ar ben fy hun plus poundage
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73, 83
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 335
Trawsgrifiad	y chydig yn fwy na fy "flat rate" am y cyfnod. Gwn o brofiad (diweddarach) nad oedd y swyddogion, yn enwedig rhai, yn barod i drafferthu i wneyd "separate account" fel hyn, golyga ychwaneg o waith ! Ond diolch yr oedd rhai gweithwyr cydwybodol yn y Shed yn eu cymell i wneud hyn er tegwch a'r bachgen (cofiaf yn dda am un neu ddau)

	<p>Pan deuai achlysur i mi weithio ar ben fy hun (yr oedd prentisiaid eraill yn cael yr un profiad yn achlysurol : gwaeledd – damwain etc – ond yr oedd gwell shiawns o lawer ir cyfle ddod os oedd y partner yn ffarmio). Yr oedd y swyddog oedd yn gyfrifol am y Shed, ac hefyd am ddsbarthu y sledieidiau blocks, yn tueddy i “ddumpio” llwythi man (sizes bach) ir caethwas oedd heb bartner, yr oedd yn le rhagorol i gael gwared o blocks iselradd fyddai yn amhoblogaidd gan y gweithwyr profiadol. Ar y pryd yr oeddwn yn feirniadol iawn o hyn, ond yn ddiweddarach ac yn gorfod</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73, 83
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 336
Trawsgrifiad	<p>gwneyd y gwaith amhoblogaidd yma o ddsbarthu cerrig, yr oeddwn yn cael agwedd arall ar bethau. Yr oedd y “gosodiad” “contract” mor galed, fel nad oedd dim “margin”, ac yr oedd digon o gegau yn disgwyl yn awchus am rhywbeth sylweddol i geishio gwneud cyflog. Ac wrth gwrs nid oedd y swyddog yn gally fforddio i wastraffy ei “raw material” ar fechgyn dibrofiad a dim pwysau teuly arno. Hefyd yr oedd y swyddog yn gorfod ateb am holl gynnyrch y Shed, ac o ganlyniad yr oedd am geisio cael yr eithaf allan or cerrig yr a i mewn i’r Shed.</p> <p>Hefyd yr oedd rheswm arall cadarn (er yr oeddwn or farn fod hwn yn cael ei gam arfer, o dan esgus). Yr oedd y swyddog yn ystyried mai prentis dibrofiad oeddwn ac yn gweithio ar ben fy hun, ac y buasai shawns i mi anafy wrth drafod clytiau gweddol ei maint au trafod or shed ir bwrdd llifio etc. Oherwydd y rhesymau yma, i bob pwrpas cerrig man yr oeddwn yn eu weithio, ac er gweithio yn galed ac didor</p>
Nodiadau	

Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 337
Trawsgrifiad	<p>nid oedd yn bosibl gwneud elw mawr (neu elw o gwbl). Cefais cynghor gan chwarelwr profiadol a caredig – am i mi benderfynu hollti a naddu pedwar “cocun” bob dydd, ac buaswn yn sicr o wneud cyflog “bach” del, dim gwahaniaeth faint fyddai size cyfartaledd y sglodion, ac yr oedd yn yn gynghor da. Ceishiais ei gadw yn ddiweddarach yn fy ngyrfa ac yr oedd y cynllun yn gweithio.</p> <p>“Cocun” = ar gyfartaledd tua wyth o “clytiau” wedi ei hollti yn sglodion yn barod iw naddu</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>In practice a “cocun” is not as tidy as this. The splitter has no time to spare and just through them on top of each other, and certainly in the lower classes where there would be failures and half-slates etc.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 338

Trawsgrifiad	<p>“Yr oedd rhagor rhwng partner a partner a Jermon a Jermon mewn gogoniant”. Rhai o’r partneriaid yn chwarelwyr eithriadol o fedrys a gweithgar, a rhai fel arall, fel y ddynoliaeth. Yn gyffredinol yr oeddynt yn gwahaniaethu yn enbyd mewn gally a cymeriad, ac haelioni, ac yr oedd y diweddaf yma yn bwysig iawn yn ein golwg ni fel “jermions” a buan iawn yr oeddem yn gwybod maint yr haulioni yma, ac yn dweud wrth y naill a’r llall, a “cenedlaethau” o jermions blaenorol wedi lledaen graddus yr haelioni. Felly yr oeddem yn gwybod mwy neu lai beth i ddisgwyl.</p> <p>Gan mai ar “day rate” yr oeddem, ar partner ar “piece work”, nid oedd hawl gennym i ddisgwyl na chael ond cyflog gwastad yr wythnos (am wythnos lawn). Os oeddem ein dau wedi cynyrchu mewn mis mwy o gynnyrch na cyfanswm ein cyflog ein dau am fis, yr oedd y partner yn cael y gweddill ar ben gyflog wythnosol allan Sadwrn settlo mawr</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 339
Trawsgrifiad	<p>ac eithriad oedd ddim yn gwneud hyn. Rhai yn cael ond ychydig ac eraill yn cael arian sylweddol - dibyna wrth gwrs ar amrhyw “factors”, “cerrig” oedd wedi ei dderbyn, ei allu fel chwarelwr, ei weithgarwch, tywydd etc. Yr oedd yn arferiad i <u>bron</u> i pob partner rhoi “cildwrn” ir jermon Sadwrn settlo mawr (gan fod y caethwas wedi cyfrannu yn helaeth at yr ymdrech, er yn amyl nid oedd yn cael ei gydnabod yn deilwng os o gwbl gan rhai, na hawl ganddo ond derbyn y dynged yn dawel)</p>

	Rhaid deall tua 1922-1924 fod y cyfnod yn galed, y telerau yn gaeth, ac fod pawb bron ai ddannedd ar y maen ac o'r llaw i'r genau, teuluoedd mawr, bywyd yn galed, ac o ganlyniad oherwydd y gofynion oedd ar benau teuluoedd, yr oedd pob ceiniog yn cyfri ac o ganlyniad yr oedd safle y caethwas yn drist. Yr oedd rhai o'r partneriaid yn fwy egwyddorol nar lleill, ac yn fwy haul																		
Nodiadau																			
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24																		
Tags	Rheoli, Trin Cerrig																		
What Facet	73																		
Location description	Chwarel y Penrhyn																		
Tud	T 340																		
Trawsgrifiad	<p>Sadwrn settlo mawr, ac fel i mi ddwedyd buan iawn yr oedd yr hogia yn gwybod lle a beth i ddisgwyl fel "cydnabyddiaeth" :</p> <p><u>Figyrau dychmygol simpl i ddangos yr egwyddor</u></p> <table style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 60%;">Slates produced (value)</td> <td style="width: 20%; text-align: right;">£4-0-0</td> <td style="width: 20%;"></td> </tr> <tr> <td>@ £3 poundage per £1</td> <td></td> <td style="text-align: right;">= £16-0-0</td> </tr> <tr> <td>Partners wage 4 weeks @ £2</td> <td style="text-align: right;">= £8-0-0</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Jyman wage 4 weeks @ 15/-</td> <td style="text-align: right;">= £3-0-0</td> <td></td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td style="text-align: right;"><u>= £11-0-0</u></td> </tr> <tr> <td>Balance due</td> <td></td> <td style="text-align: right;">= £5-0-0</td> </tr> </table>	Slates produced (value)	£4-0-0		@ £3 poundage per £1		= £16-0-0	Partners wage 4 weeks @ £2	= £8-0-0		Jyman wage 4 weeks @ 15/-	= £3-0-0				<u>= £11-0-0</u>	Balance due		= £5-0-0
Slates produced (value)	£4-0-0																		
@ £3 poundage per £1		= £16-0-0																	
Partners wage 4 weeks @ £2	= £8-0-0																		
Jyman wage 4 weeks @ 15/-	= £3-0-0																		
		<u>= £11-0-0</u>																	
Balance due		= £5-0-0																	

	<p>Current weeks pay, Partner and Jyman = £2-15-0 (less Insurance etc of course) = £7-15-0</p> <p>The Jyman would probably receive a total of £1-5-0 (extra 10/-). It was pure charity, and entirely up to the partner</p> <p>Yr oedd yn cael ei ddweddyd nad oedd bod yn grefyddol yn dylanwady dim ar yr “haelioni”, ac fod dynion oedd yn flaenllaw yn yr eglwysi ar capeli yn llai yn eu cydnabyddiaeth diwrnod settlo mawr</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 96
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 341
Trawsgrifiad	<p>na dynion “ofer” yr ardal, ond nid oedd fy mhrofiad i yn cadarnhau hyn. Yr oedd rhai haul a cwta yn pob gradd, ac yr oedd pawb yn barod i feirniady y dyn cydwybodol ag oedd yn edrach ar ôl ei deuly ac yn cyfranny at yr achosion etc, ac yn barod iawn i glodfori yr eithriad difater eraill.</p> <p>Yr oedd bron pob “partner” yn cydnabod i <u>raddau</u> y jermon “settlo mawr” (dibyna hyn ar lawer i ffactor – mis da neu sal, egwyddor a pwysau teuluaid y partner, pa mor ymdrechgar oedd y Jermon etc). Er dal gafael yn y caethwas yr oedd rhaid, neu yn “bolisi” ei gydnabod rhag iddo anesmwytho a codi adain. Yr oedd teuly, cysylltiadau ar swyddogion yn gwybod i pa rhaddau oedd cydnabyddiaeth bron pawb o’r partneriaid , ac o</p>

	ganlyniad os oedd bachgen oedd ddim yn cael ei gydnabod am ei ymdrech, yn enwedig fel yr oedd yn magu profiad ac ei gyfraniad yn eangy o fis i fis, ac o ganlyniad yn cyfrannu yn
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 60
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 342
Trawsgrifiad	<p>sylweddol at arian y partner.</p> <p>Yr oedd symudiad (tu cefn i'r llen) cydrhwng y "tad" ar oruchwyliaeth etc i gael transfer o'r bachgen at bardnar mwy hynaws a "haul", neu "drefny" i wneud lle gwag hefor teulu. Hefyd yr oedd soundings yn cael ei gwneud gan ddarpar "bardnar" i ddenu neu byrswadio Jermon da i symyd. Oherwydd dylanwadau o'r fath a'r competition, yr oedd yn bwysig i gydnabod caethwas er ei gadw, os oedd o werth. Yr oedd dylanwadau i'r gwrthwyneb yn gweithio, pan oedd Jermon yn ddiymdrech ac achosi trafferth ni fyddai y partner yn hir cyn ceishio cael gwared ac o, ac yr oedd cymeriad hwnnw eisoes ar led, ac anhawdd fyddai cael lle iddo.</p> <p>Fel oedd Jermon yn cryfhau ac magu profiad, yr oedd yn sicr yn bolisi a proposition i gadw un, gan fod Jermon profiadol bron cystal (cystal mewn rhai engraffftiau) a'r partner, ac yr oedd y ddau yn gallu cynyrchu bron cymaint ddwywaith ag un partner, ac o</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What	73

Facet	
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 343
Trawsgrifiad	<p>ganlyniad yn ychwanegu yn sylweddol at gyflog y partner.</p> <p>Yr oedd gweithio fel “partner a jermon” (neu ddau bardnar) yn technic gwahanol iawn i weithio ar “ben eich hun”. Yr oedd dau yn gally trafod y clytiau, eu rhoi ar bwrdd llifio etc, cyfri, amrhyw ddyledswyddda lle yr oedd dau yn llawer mwy effeithiol nac un. Rhaid cydnabod fod y partner pan oedd yn gweithio hefo jermon yn gorfod gweithio yn galetach a “cadw i fynd”. Pan oedd dau yn segur neu “laesu dwylo” yr oedd y step yn ôl ar dylanwad ar y cynnyrch yn fwy amlwg na pan fyddai un yn segur (o ddewis neu rhaid). Felly yr oedd pob ymdrech yn cael ei wneud er “cadw i fynd” ac yr oedd yn holl bwysig fod y ddau yn cydweithio yn dda. O ganlyniad yr oedd ar gyfartaledd cyflog “partner” ag oedd yn gweithio gyda Jermon yn sylweddol uwch na ar gyfartaledd “partner” yn gweithio ar ben ei hun. Yr oedd eithriadau. Yn Shed C (Sinc Bach), rhyw 6-8 o Jermons</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 344
Trawsgrifiad	oedd yn gweithio, felly yr oedd oddeutu tri chwarter y Shed yn gweithio ar ben ei hunain. Y dynion ieuengaf i ganol oed, ac yn ei llawn nerth, fel rheol oedd yn cymeryd Jermon. Yr oeddynt fel rheol yn gyflym a chwim yn eu gwaith, ac yn gally cadw i fynny ar caethwas a cael cymaint ag a allant o honno, ac gan eu bod yn ieuengach

	<p>yn feddyliol hefyd, yr oeddynt yn gally trafod y jermon “nwyfys” a deall eu ffyrdd (y mae darlun yn fy meddiant o Group Shed C wedi ei gymeryd tua 1923, ac y mae y jermions ynddo yn gryno ynghyd ag un neu ddau gyfaill o Shed cyfagos.</p> <p>Credaf i mi ddwedyd fod tua tri chwarter y dynion yn y Shed yn gweithio “ar ben ei hunain”, amrhyw ohonynt yn mynd ymlaen mewn oed ac rhwng 60 a 70 mwy neu lai, ac rhai hynaf yn waddol o’r hen drefn, ac erioed wedi addasu ei hunain i’r cynllyn newydd o weithio yn bardnar a Jermon. Y mae yn amlwg fod y dynion hynaf yma yn dewis yr annibyniaeth a cael gweithio o ddydd i ddydd ar ei speed tawel naturiol, heb</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24, Cynhyrchu llechi C19
Tags	Rheoli, Trin cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 345
Trawsgrifiad	<p>ruthro a cyfrifoldeb ychwanegol y Jermon. Yr oedd y cyflog yn llai ond yr oedd bywyd yn dawelach ac hapusach. Yr oedd y plant wedi tyfy a gadael, gofynion yn llai, ac ei nerth ai gallu hwythau yn llai. Eto yr oeddynt yn cario ymlaen yn ddiwid ac yr oedd yn ofynnol gwneud ymdrech, gan fod y “gosodiad” yn galed. Yr oedd yn ofynnol gwneud hyn ac hyn o gynnyrch i “coverio” yr isrif. (ffigyrau simyl dychmygol)</p> <p><u>Months contract</u> 4 weeks pay (min) at £2 per week = £8-0-0 Value of slates (to cover min) produced in a month £2 @ a poundage of £3 per £1 = £8-0-0</p>

	<p>Balance Due = nil</p> <p>Ar y ffigyrau dychmygol yma yr oedd rhaid cynyrchu gwerth £2 i wneyd "isrif", ac yr oedd yn eithaf ymdrech i gyrhaedd yr hicin yma gan rhai yn enwedig fel oedd y nerth yn pallu ar raw material yn salw. Gydag eithriad yr oedd yr helyw yn crafu isrif ac rhai yn gwneyd ychydig sylweddol</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 346
Trawsgrifiad	<p>trosodd o dro i dro. Dibyna gwerth y cynnyrch ar amrhyw i factor : ansawdd y cerrig, ymdrech, skill etc. Ar y cyfan yr oedd yr helyw o honnynt yn eithaf hapys os yr oeddant yn gally coverio yr isrif ac goreu yn y byd os oedd ychydig ychwaneg (balance due) o dro i dro. Er mwyn heddwch ymysg ei braidd a tawelwch meddwl iddynt, yr oedd y swyddog yn gally "cynorthwyo" yn ei ddull o ddsbarthu y sledeidiau (blocks) ac er mwyn heddwch iddo ei hun, gan y byddai yn ofynnol iddo ymateb i'r swyddfa (manager) am feddiant <u>parhaus</u> ei ddeiliad. Felly, yr oedd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio cadw pen pawb uwch ben y dwr. Wrth gwrs yr oedd "limit" i pa rhaddau ag oedd yn ddiogel i "gynorthwyo" ac yr oedd rhaid ir swyddog symud yn gyfrwys a gofaly, rhag dangos "evidence" o ffafriaeth at y naill a'r llall, neu buan yr oedd hyn yn cael ei ddwedyd. Yr oedd y contract mor galed fel os oedd tystiolaeth fod un yn cael ffafriaeth yr</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin cerrig

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 347
Trawsgrifiad	<p>oedd y gweddill yn dioddef, ac yn naturiol nid oedd neb yn barod i ddioddef yn wirfoddol. . Yr oedd amser yn dod pan yr oedd gweithwyr wedi cyrraedd oed, ac nerth corph yn pally, ac o ganlyniad yn gweld y “goleu coch” ac na allai ddod i fynny a “limit” (min wage) lleiafrif cyflog, ac yr oedd y swyddog yn rhagweld yr safle yn dod yn rhaddol. Ac felly er mwyn heddwch meddwl yr oedd yr oruchwyliaeth yn trefny hefo’r gweithiwr arbennig iddo gael ei symyd i weithio “allan o contract”, dim isrif gwastad wythnosol etc, ond cael mewn mis arian am gynnyrch y mis, a cael “sub” allan yn wythnosol (<u>fe ddof at y matter yma nes ymlaen ac egluro mwy trwadi</u>)</p> <p>Value of slates produced for the month £1-10-0 @ a poundage of £3 = £6-0-0 “Sub” @ £1-5-0 for 4 weeks = £5-0-0 Balance Due = £1-0-0 Sub for the current wk = £1-5-0 Total wage (settlo mawr) = £2-5-0</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 348

Trawsgrifiad	Yn y cyfnod hwnw yr oedd pension y wladwriaeth yn fychan iawn, ac dim suplement na dim i ddod o unman, felly yr oedd rhaid ymdrechu i gario ymlaen, ac gan fod y nerth yn pally ac er mwyn heddwch meddyliol yr oedd amrhyw yn eu tro yn cael ei gwasgu yn rhaddol i fynd i weithio fel "pensioniers" fel y gelwid. Yr oedd rhai eithriadau o weithwyr yn mynd "ymlaen mewn oed" yn gorfod cadw Jermon, wedi cyfarfod a damwain ac yn rhan gloff etc neu rheswm corphorol arall, neu erioed wedi meistroli yr Injan dradio, ac o ganlyniad yn gorfod cadw Jermon er mwyn y naddu. Cofiaf am un yn dda, Wm Henry Jones Penybryn. Yn Shed Sinc Bach yr oedd un yn naddu hefo'r gyllath bach, Richard Hughes o'r Gerlan wedi ei anafy yn ddrwg "shell shock) yn y rhyfel 1914-1918 ac yn gloff iawn, ac yr oedd yr awdurdodau wedi symyd yr Injan a gwneud lle i'r drafal a byddwn yn cael pleser yn ei wilio o dro i dro yn naddu yn feistrolgar ar gyllath bach.
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73, 117
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 349
Trawsgrifiad	<p>Ychydig iawn o chwarelwyr profiadol oedd ar y "main dressing floor" "Red Lion" yn naddu ar gyllath bach ac felly yr oedd yn eithaf novelty. Gwr eithriadol o hawddgar a doniol oedd R Hughes ac yn tynu coes yn barhaus a thebyg ei fod yn cael llawer o hwyl hefo y jermens dibrofiad yma. Cofiaf hyd heddyw am ei gynghorion i mi ynglŷn a pysgota. Yr oedd yn feistr ar y greft. Yn eu mysg yr oedd un cynghor arbennig, 1st law of fishing = keep out of sight 2nd Keep out of sight 3rd Keep out of sight ac mi fyddaf yn cofio am ei gynghorion pan y byddaf ar lan yr afon.</p> <p>Yn pen arall ir bwrdd llifio ac wrth gwrs yn "rhanog" yn y bwrdd yr oedd dyn bychan o gorpholaeth ac yn tueddu i fod yn flin ei dymer, neu felly yr oeddwn i yn meddwl ac yn ei farnu, ac dim llawer o amynedd hefo ni</p>

	yn hogia ifanc nwyfus yma. Pan oedd fy mhardner (R D Pritchard) adref yn y gwair etc mi fyddai Wm Williams Gornal (tad Elvet Wms Postman) dyna enw iawn yr hen wŷr (i mi) yn cymeryd trosodd y bwrdd llifio i raddau, ac ddim yn
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 350
Trawsgrifiad	caniatáu i mi gael fy iawnderau ; neu felly yr oeddwn yn ei gollfarnu ar y pryd. Tebyg ei fod yn cymeryd y cyfle i wneud i fynny ei gyflog prin, ond nid oeddwn i yn ystyried hynny ar y pryd. Bron yn ddifeth ddwy waith yn y dydd ganol y bore ar pawns, yr oedd yn goleu kannwyll ar y stôl sglodion, ac yn mynd trwy y gorchwyl o lapio ei fysedd a bandages (clytiau), a pwrpas y gannwyll oedd i feddalu (neu doddi) y “cwr crydd” (math o pitch). Nid wyf yn cofio yn iawn y “performance” ond credaf ei fod yn rhedeg y gwrdd cruidd rhwng haenau y “bandage”, er unoli a cryfhau y cyfryw ac hefyd iw sealio ar y diwedd. Pwrpas y rhwymau yma oedd i atal i’r bysedd “wisgo i’r gwaed”, ac i “fendio” y briwiau ? Pan y byddai Wm Williams yn ganol y gorchwyl mi fyddwn i yn tafly peli bach, fel marblis, o faw cafn (damp slate dust) at y gannwyll. Gwn na ddylaswn wneud peth fel hyn, ond nid oedd fawr o shiawns iddo gael ei anafy, ac finnau yn ddireidys, ac gan nad oedd ei olwg feallai yn llawn, nag ei symudiadau, nid oedd yn sylweddoli, yn enwedig
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73, 57

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 351
Trawsgrifiad	pan oedd yn troi ei gefn ar y gannwyll, ac yn amyl mi fyddai y gannwyll yn diflanny ar draws y wal i'r lle rwbil. Erbyn hyn yr oeddwn yn brysur a diniwed yn hollti neu naddu ai wyllo ac un llygad. Tebyg ei fod yn amheu o lle oedd yr ymosodiad yn dod, ond nid oedd yn sicr, gan fod bachgen cyfagos wrthi hefyd o dro i dro, a triciau or fath yn bethau beunyddiol trwy y chwarel. Pan oeddwn yn ieuanc iawn mi fyddwn o rhaid yn gorfod trwsio esgidiau fy hun – lle sal oedd gennyf a gweithio yn oleu kannwyll mewn shed oer, mi fyddwn yn trwshio gwadnau (rhyw fath) fy sgidiau ac rhai fy mrodyr yn achlysurol, ac yn rheolaidd yn gosod pedolau a clemia, gan nad oedd y gorchwyl yma yn gofyn am waith gywrain. Hefyd rhoi clemiau a pedolau ar clogsia, dyma beth oeddem yn ei wisgo bob dydd ac yn enwedig yn y gaeaf, clogsia wedi eu gwneud allan o hen gefna sgidiau. Yr oedd parau o wadna clogsia o bob size yn hongian yn rhesi tu allan i'r shopa sgidiau yn Bethesda.
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 52, 61
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 352
Trawsgrifiad	Ac yr oedd bron pob crydd yn barod i wneud clogsia o hen bar o sgidiau, os oedd y cefnau mewn cyflwr addas, am 1/6 – 2/- a dyna bar rhad yn lle sgidiau newydd 5/- - 7/6. Yr oeddwn pan yn ifanc iawn wedi gwneyd “tray” a “divisions” ynddo i gadw fy hoelion etc ar gyfer trwsio ysgidiau. Cofiaf iddo fod yn ddigon “rough” ac o bren box cyffredin ond yr oedd yn ateb ei bwrpas.

	I ddod yn ôl at y “gwrdd crydd”, credaf mai math o “pitch” oedd hwn, feallai wedi ei gymysgu ? a rhywbeth ?? Yr oedd yn gyffredin iawn yn yr ardal ar chwarel, yn enwedig ymysg yr henoed. Pan oedd angen trwsio cefnau sgidia chwarel neu clogs, yr oedd y crydd yn ei gwneud ai law, pwyth am bwyth. Nid oedd yn ymarferol y dyddiau hynny i wneud y fath orchwyl a peiriant – os oedd un ar gael ? Yr oedd yn defnyddio “eda grydd”, llinyn main cryf a gwrdd crydd (pitch ?) wedi ei weithio iddo ar ôl ei feddalu . Yr oedd hwn yn rhedeg trwy y tyllau yn weddol rhwdd oherwydd “lubricant” y gwrdd crydd – ac hefyd yr oedd yn sefyll i
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	52, 61
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 353
Trawsgrifiad	fynny i wisgo caled ar gwlybanaeth. Oherwydd caletwch y cyfnod yr oedd yr helyw or dynion, yn enwedig y rhai darbodyd yn ceishio trwsio cymaint ag oedd yn bosibl ar esgidiau etc y teulu er arbed arian. . Gellir prynu pob math o hoelion lledr, clemiau, pedolau yn y shopau crydd ac yr oedd mynd mawr arnynt, a pawb bron yn gyfarwydd ar gwahanol fath o hoelion, “sizes” y clemia, etc. Hefyd yr oedd yn bosibl cael “edau grydd”, ac yr oedd y crydd yn gofaly fod digon o rhain yn barod yn coils ar fachyn. Yr oedd yn ei gwneud ei hun yn ystod y dydd mewn cyfnod o egwyl. Rhyw lathen or llinyn main yma ac “gwrdd grydd” wedi ei weithio i mewn iddo ac ar ei flaen fel ac yn lle nodwydd yr oedd dwy i dair modfedd o “gut” ? cryf stiff. Credaf mai rhawn o wddf mochyn ydoedd, fodd bynnag yr oedd wedi ei uno yn symyl a cywrain i ben yr edau. Feallai mai y “pitch” oedd yn ei rhan ddal yn ei le. Yr “edau grydd” yma oedd yn
Nodiadau	

Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	52, 61
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 354
Trawsgrifiad	<p>cael ei ddefnyddio gennym i drwsio “cefnau” y sgidiau ar clogs. Yr oedd yn ofynnol i ddefnyddio “beniawud” (bradawl) main i wneud y tyllau, ac wedyn arwain yr “edau” hefor nodwydd barod yma. Credaf mai ceiniog neu ddwy oedd hyn o “eda grydd”</p> <p>(Y gwrdd crydd wedi bod yn achos i grwydro eto)</p> <p>Yr oedd bron pawb ag oedd yn naddu yn gyson yn gorfod gwisgo “menyg” home made, wedi ei tori allan o gefnau hen sgidiau, leggins etc. Pethau crude oeddynt (yn ddiweddarach fe ddaeth rhai pwrpasol a ellir ei <u>prynu</u> yn y chwarel, darn o ledr fel tafod a slor torriad ynddo i rhoi y bysedd trwodd</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol, Rheoli
What Facet	52, 61, 73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 355
Trawsgrifiad	<p>Am rhyw rheswm yr oedd rhai (lleiafrif o bell ffordd) ddim yn gorfod gwisgo menyg, ac er yr holl naddu cyson bob dydd nid oedd blaenau y bysedd yn “gwisgo ir gwaed”. Yr oedd yn cael ei ddwedyd = os oedd ganddoch chi groen a ansawdd caled fod mwy o duedd i “wisgo ir gwaed”, ac os oedd y croen yn feddal ac “pliable” anamyl yr oedd trwbwl. Yr oeddwn i yn ffortunus ac ni oedd yn ofynnol i mi wisgo menyg erioed : nuisance oeddynt ac yn achosi anhawster i godi y sglodion oddi ar y “cocun”. Ond ir mwyafrif nid oedd dewis. Yn ddiweddar fe ddaeth “Industrial Gloves” , ac yn mynd trost y llaw i gyd fel menig cyffredin ond o ansawdd cryf (a crude). Y llwythwrs etc oedd yn gwisgo rhai cyffelyb.</p> <p>Credaf i mi ddwedyd eisoes fod fy mhardner, Robert Defi, yn amyl gorfod aros gartref, tymor y gwair a hel defaid (tua ochr yr Aryg ac i fynny am Afon Wenoedd ei “gynefin” ac yr oedd yn awdurdod ar y cyffinie – Cwm Afon Gasseg a Cwm pen Llafar.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol, Rheoli
What Facet	57, 73, 83
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 356
Trawsgrifiad	<p>Yn amyl yr oedd yn dod at ei waith ac yn anesmwyth oherwydd ansicrwydd y tywydd – ac dealltwriaeth rhwng cymdogion a bugeiliaid eraill. Ond yr oedd dealltwriaeth rhyngddo ai wraig, ac ffordd symyl ac effeithiol iddi anfon cenad iddo i ddod gartref ar unwaith, os oedd trefniant ar dro i “hel” neu i drin y gwair. O waelod clwt cyfri Rhysold (clwt cyfri ni) ac yn agos i’r gwaith llwch (Fullersite) yr oedd yn bosibl i weld Gwaungwiall (nid oedd yn bosibl ei weld tu allan ir Shed, yr oedd Braichmelyn rhyngddom). Os oedd Mrs Pritchard am iw gwr</p>

	<p>fynd gartref, yr oedd yn rhoi cyfnas ? (sheet) wen ar y lein ddillad fel “signal”. Deallaf fod y cynllun yma yn cael ei ddefnyddio gan amrhyw. Os oedd amheuaeth neu bosibilrwydd ir signal ymddangos, gan welliant y tywydd etc, mi fyddwn yn cael fy anfon i lawr at y “gwaith llwch” rŵan ac yn y man, ac yn amyl y byddwn yn mynd yn ôl ir wal yn eithaf hapys i gario y neges, nid fy mod yn casáu gweithio a Robert Defi, anodd oedd cael dyn mwy caredig a hawddgar – ond fod mwy o rhyddid ac yn fistar arno fy hyn, ac pan yr oedd yn gadael fel hyn ar fyr rhybydd, yr oedd gwaddol o’r cerrig sylweddol yn cael eu gadael. Er mi fyddwn yn cael fy nghyngori i beidio a ceishio trafod y clytiau mawr goreu, ac mi fyddwn yn cario allan y gorchymyn ac yn llifio rhai dethol au rhoiheibio yn drefnys nes deuai fy mhardner yn nol, a gweithio clytiau man ac amheus yn y cyfamser, os na fyddai gartref am gyfnod sylweddol.</p> <p>Pan oeddwn yn gweithio ar ben fy hun, yr oeddwn yn sylweddoli a profi y nuisance llwyr oedd y belt yn dod oddiar y pulley (326). Hyn yn digwydd yn barhaus yn y Shediau caled</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol, Rheoli, Llifio
What Facet	73, 83
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 357
Trawsgrifiad	<p>oherwydd natur galed y faen ac yr oedd rhaid rhuthro a gadael popeth i rhoi plwc ir belt at helpu drost yr anhawster, cyn iddo lithro i ffwrdd yn gyfangwbwl oddi ar y troell (pulley) (326) ar trwbwl a colli amser yn dilyn yw rhoi yn ôl.</p> <p>Yn amyl yr oedd y caethwas yn gorfod “gwatches belt” yn barhaus pan yn llifio ambell i glwt neu glytia, ac fel rheol yr oedd y llif yn troi yn effeithiol nes y deuai i “high point”, neu rhan sal, ac yna stopio. Ac dyna rhoi plwc</p>

	<p>ir belt, effaith hyn oedd “tynhau” y belt dros dro, ac iddo gydio yn well yn y driving pulley. I gario allan y gorchwyl diflas hyn yr oedd yn ofynnol i sefyll <u>tu fewn ir guards</u>, ar yr oedd hyn yn berygl ac yn hollol anghyfreithlon, ond yr oedd pawb yn ei dro yn gorfod gwneud. Yn achlysurol yr oedd y swyddog yn “dweud y drefn” (er diogelwch ei hun) ond yn gwybod y problemau</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Llifio
What Facet	73, 57
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 358
Trawsgrifiad	<p>Pan oedd fy mhardner gartref, yr oeddwn yn cael mwy o ben rhyddid. A pan yn eistedd yn hollti a gorfod gollwn pobpeth i rhuthro am y belt, sylwais pan oedd y “fast” pulley ar llif yn stopio fod y “loose” pulley yn dal i fynd ymlaen am beth amser. Pwrpas y loose pulley oedd i alluogi i stopio y llif, pan oedd angen newid y lli neu llau cafn etc... yr oedd yn bosibl i symud y belt or naill ir llall gyda cymorth “lever” a’r belt guide.</p> <p>Fe darwyd yn fy mhen i wneud peth hollol anghyfreithlon a perygl, ond yr oeddwn yn tanio isho gweld a fuasai y cynllun yn gweithio. Cefais afael ar ddarn tua llathen o raff gweddol gryf, a pan oedd y belt i lawr, fe rhwmais spoke y pulley llawn i spoke y gwag gan adael tua 2’ o slack. Wedi codir belt, yr oedd y pulley gwag yn cael ei dynu ymlaen gan y llawn, yn lle llusgo yn araf gan friction, neu ddim o gwbl. Pan oedd y llif yn dod i anhawster high point ac yn stopio, yr oedd y pulley gwag yn mynd ymlaen, ac wedi dod i derfyn y slack yn rhoi plwc i’r</p>

	llawn ymlaen, ac fe weithiodd yr “idea” am amser yn llwyddiannus iawn.. Yr oeddwn ofn i neb sylwi rhag i mi gael cerydd ac feallai “sack”, ac yr oedd yn ofynnol tynu y rhaff bob nos rhag ofn i fy mhardnar ddod at ei waith diwrnod dilynol a canfod y “gwallgofrwydd”. O’r diwedd fe dorodd y cadwyn gan yr amyl blwc, ac mi fuodd un darn yn glwm am un pulley am flynyddoedd. Ac blynyddoedd yn ddiweddarach pan oeddwn yn swyddog ar y Shed byddwn weithiau yn sylwi ar y darn
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 359
Trawsgrifiad	rhaff ac yn cael fy adgoffa o’r “experiment”. Hawdd fyddai cynllunio peth priodol at y pwrpas yma, ond wrth gwrs nid oedd y llif i fod i stopio mewn <u>egwyddor</u> . Un or diffygion ymarferol y plan oedd – nad oedd yn bosibl defnyddio y loose pulley i stopio y bwrdd, ond yr oedd ffordd gydnabyddiedig i wneud hyn, trwy gael y belt lawr yn fwriadol, rhoi darn o faen galed o flaen y llif, a buan iawn y stopiai y bwrdd ar belt yn llithro i lawr. Ac dyma yr oeddwn gorfod ei wneud pan oedd angen newid llif etc. Ond ni fu y cynllyn yn hir ar dro, gan fy mod ofn y canlyniadau, ond yr oedd yn gweithio Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Llifio

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 360
Trawsgrifiad	Yr oedd y "lan" yn rhagori ar y twll yn y darpariaeth o "toilets". Yn 19323 ac am amser ar ôl hynny nid oedd tai bach o gwbl yn y Twll, ac yr oedd yn rhaid mynd i unrhyw cuddfan ffaidd ag oedd yn cynyg ei hun. Yn fuan ar ôl y rhyfel gyntaf fe aethpwyd ati i wneud "scheme sewage" yn Red Llon (main dressing floor). Yn y Twll yr oedd anhawsterau, ac nid oedd yn bosibl trefny sewage drainage priodol. Yn ddiweddarach fe drefnwyd i gael "earth closets". Hefyd yr oedd nifer y gweithwyr mewn ponc yn gydmharol fach, tua 20-80 ? Ond yn y Lan (Red Lion) yr oedd y Shediau yn sefydlog a gradients etc hwyllys ac oddeutu 500 yn gweithio ar y llawr, ac felly fe aethpwyd ati, ac mae y tai bach yno heddyw. Ychydig iawn a ddefnyddiais i arnynt, yn enwedig y blynyddoedd cyntaf, ac yr oedd tystiolaeth fod amrhyw eraill ddim yn eu defnyddio, ac yn dewis cerdded ymhellach i'r gachfa neu "gwalia" gwag. Y bwgan yn eu herbyn i ni hogia ifanc swil ydoedd y ffaith nad oedd drysau individual ar y tai bach ac eich bod yn gorfod eistedd yn wÿdd pawb, ac nid oedd yn beth dymunol i edrych ar res o ddynion hefo trowsusau melfaréd i lawr dros eu traed, ac yr oedd yr olygfa yn wrthun i mi, ac ond pan oeddwn yn Desperate neu y tywydd yn ddianhuol y byddwn yn eu mynychu. Yn rhyfedd yr oedd arferiad rheolaidd yn fy ngymell i fynd gartref can gadael yn y bore, neu amser cinio pan oedd digon o amser i grwydro i'r coed a cael lle glan, neu wedi dod gartref gyda'r nos. Dyma yr unig le a welais heb ddrysau ar y tai bach. Bum yn y lluoedd arfog ac amyl i waith etc, ac dyma yr unig eithriad i gael toilets "cyhoeddus" yn wir,
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 57

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 361
Trawsgrifiad	<p>tebyg nad oedd yr oruchwyliaeth ddim yn ystyried fod chwarelwr cyffredin yn teilyngu “privacy”, nad oedd yn hawdd i neb dreulio a colli amser yn fwy nag y dylai yn y tŷ bach. O dan yr un to ond yn wynebu cyfeiriad arall, yr oedd toilets yr “officials”. Yr oedd rhain yn fwy “gogoneddus” a drysau i gau a privacy priodol ir “dyledswydd”. Yn ddiweddarach cefais y fraint o ddefnyddio rhain.</p> <p>Yn y Shediau ag oedd yn gweithio y faen galed a crych du, a’r greys, yr oedd yn arferiad i gyfri (gwneud crewyn a cario y cerrig allan ir clwt cyfri) dair gwaith mewn mis chwarel (4 wythnos). Yn y Shediau “goreu” glas goreu rhywiog, yr oedd y cynnyrch yn lawer mwy ac yr oedd yn ofynnol i “gyfri” yn wythnosol neu amlach. Nid oedd rheol na deddf bendant am hyn, ac yr oedd y chwarelwr yn cael mwy neu lai rhyddid i cyfri pan oedd yn hapys iddynt, neu pan oedd amgylchiadau yn ffafriol. Yn achlysurol mi fyddai y swyddog yn anog rhai i “gyfri” gan fod prinder “cerrig” yn y clytiau cyfrif i’r llwythwrs (slate loaders) ac weithiau pan fyddai “deman” urgent am size a quality arbennig. Ond yn gyffredinol yr oedd pawb at ei rhyddid. Oherwydd y stock oedd yn casglu o ddydd i ddydd, yr oedd yn dydd yn dod pan oedd rhaid cyfri er mwyn hwylysdod a cael “lle i droi”. Mi fyddai y chwarelwyr yn cyfri yn amyl “allan o adeg” pan fyddai blocks yn brin, ac yn hytrach nac segura dal ar y cyfle i “gyfri”. Ond fel rheol yn y shediau “isaf” mi fyddai yr helyw yn amcanu i “gyfri” ar ôl gweithio yn agos i bythefnos (tua hanner y mis), cyfri tua dydd lau neu Gwener o flaen Sadwrn settlo (y mis cynt).</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol, Cyfri llechi
What Facet	73, 57
Location description	Chwarel y Penrhyn

Tud	T 362
Trawsgrifiad	Wedi gweithio yn agos i ganol y mis, yr oedd cymysgaeth dda o stock wedi casglu, ac yr oedd yn fwy neu lai yn rhaid eu clirio allan. Hefyd yr oedd y chwarelwyr yn cael amcan syd oedd “pethau yn shapio” ac beth oedd y “rhagolygon”. Wrth gwrs oherwydd “repetition” a profiad dyddiol ac o fis i fis yr oeddynt yn gally ac yn gwybod beth oedd y sefyllfa o ddydd i ddydd. Eto yr oedd yn rhaid cyfri rhywdro ac yr oedd rhyw deimlad o sicrwydd a boddhad wedi gwneud a gwybod sicrwydd y sefyllfa ac fod talp o’r mis wedi ei sicrhau : a cael yr “wal” yn lan a clir eto i gario ymlaen. Hefyd yr oedd y tywydd, glaw, eira etc yn dictatio yn amyl ac yn torri ar draws cynllun i gyfri ar patrwm arferol, hefyd amgylchiadau cyffredinol y Shed. Anhawsterau, traffic congestion lleol, llwythwrs yn y clwt cyfri (page 3). Ar ôl cyfri tua canol y mis, fel rheol yr oeddem yn “cario ymlaen “ tan y pedwerydd dydd Mawrth neu dydd Mercher yn y mis (Dydd Mawrth neu Mercher “diwedd mis”) wedi gweithio 7-8 diwrnod ac yn cyfri eto am yr ail waith a hyn yn ein gadael hefo 2 neu dri diwrnod i weithio tan ddiwedd y mis, yr oedd gan pawb amcan dda lle yr oedd yn sefyll ac beth oedd y rhagolygon, neu foddi, ac os yn ddiogel segura a peidio gwneud ymdrech , ond y llygad wasanaeth angenrheidiol. Yr oedd ail rheswm pan yn cyfri dydd Mercher cyn diwedd y mis - er gadael cyn lleied o waith ag oedd yn bosibl ar gyfer bore Sadwrn diwedd mis, er yr oedd pawb (ond y rhai oedd yn boddi below minimum) wrthi fel lladd nadroedd er ceishio ennill y geiniog eithaf.
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 363
Trawsgrifiad	Yr oedd <u>y</u> chydig eithriadau heblaw y rhai oedd below minimum) yn “gorwedd ar y rhwyfau” ac yn cael amser hamddenol braf – glanhau o dam y bwrdd llifio etc, stwna cyffredinol, a llifio cocyn yn barod at y mis dilynol,

	<p>ac fel rheol yr un rhai fyddai yr ychydig yma : ac ond “cyfriad” bach ganddynt at Sadwrn diwedd y mis. Yr oedd yr ychydig ffortunus yma yn weithwyr eithriadol a diwid (ac feallai yn achlysurol yn “lwcus”). Fel i mi ddwedyd “cyfriad” bach oedd ganddynt ar gyfer bore Sadwrn olaf, ond “token” fel pe tae. Yr oedd yn ofynnol trosglwyddo rhyw gymaint o gynnyrch i fynny er cyfiawnhau y gweithio y tri diwrnod olaf ac er llygad wasanaeth. Er fod y swyddog yn hen gyfarwydd ar arferiad, ac yn nabod ei ddeiliaid yn dda, ac yn gwybod am habits ac nodweddion y cwbwl. Ac siarad yn gyffredinol yr oedd yr un patrwm mwy neu lai yn cael ei ail adrodd o fis i fis. Yr helyw wrthi fel lladd nadroedd tan y fynydd olaf, nifer fach (fel rheol yr un rhai) o dan ei isrif a gweld dim pwrpas i ymdrech. Ac ychydig eraill wedi cyrhaedd yr hicin ac amser wrth gefn ganddynt, yn achos o genfigen parhaus, ac gan yr helyw yr oedd ei ffawd ffafriol yn cael ei briodoli i ffafriaeth neu “etholedig rhai” y swyddogaeth yn fwy nag i ddiwidrwydd ymdrech ac medr. Gan fod rhain yn gally yn hamddenol i lanhau , oilio, llifio etc yn barod at y mis dilynol, yr oeddynt ar y blaen ac yn dechreu peth cyntaf bore Llun a cynyrch da wrth eu traed erbyn nos Lun ac hyn yn symbyliad i “danio” trwy y mis, tra yr oedd yr helyw</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 364
Trawsgrifiad	<p>yn cymeryd eu “gwynt atynt” ar ôl ymdrech diwedd y mis, clirio, glanhau, gweithio yr “account” etc ar diwrnod i rhaddau yn llithro, heb fawr o gynnyrch. Yn wir yr oedd y rhai diymdrech yn gadael yr wythnos dechreu mis lithro heb fawr o ymdrech. Yr oedd y patrwm rhywbeth yn debyg pob mis, a pawb yn gyfarwydd a ymddygiad y naill ar llall, ac yn sicr felly yr oedd y swyddog yn gyfarwydd au harferion a beth i ddisgwyl. Yr oedd yn caen ei ddwedyd yn enwedig gan y “cloffion” a’r “methiedig” fod gan y swyddogion eu “hetholedig rhai” yn pob shed (</p>

	<p>ar twll hefyd) er gosod “nome” neu hicyn, ac eu bod “trwy cynllwyn” yn gofaly fod rhai yn gally gwneud cyflog yn weddol hwylus, ac trwy hyn yn tyny o dan draed unrhyw ddadl oedd gan y cloffion fod y telerau yn afresymol. Y rhai oedd yn segura a lleusu dwylo ddechreu mis oedd y rhai oedd yn gorfod ymysgwyd a tynny y gwinedd o’r blew fel oedd y mis yn llithro o dan eu dwylaw.</p> <p>Pwrpas cyfri rhyw dridia cyn diwedd y mis oedd i adael cyn lleied ag oedd yn bosibl (er yr ymdrech anarferol) o waith at bore Sadwrn diwedd y mis. Pump diwrnod a hanner oedd wythnos gwaith, hanner diwrnod bore Sadwrn 7.30 tan 12 o’r gloch (yn yr haf), 8 tan 12 yn y gaeaf.</p> <p>Bore Sadwrn diwedd y mis yr oedd y “shedmen” i gyd yn cael mynd gartref cyn gynted ag yr oeddynt wedi dar fod cyfri a cael “marcio y crewyn”, felly y gellir deall pam yr oedd pawb yn amcanu i fod hefo cyn lleied o waith ag oedd yn bosibl, ac i rhaddau wedi cefny ar y “contract” y cyfnod cyn hyn (Mercher blaenorol). Cyn cyfri diwedd y mis, yr oedd yn ofynnol i “stau”, hynny ydyw dar fod pob maint a dosbarth yn gant, ½ neu ¼.</p>
Nodiadau	“stau” – talfyriad o “gwastadhau”, efallai
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 365
Trawsgrifiad	<p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Yr oedd y patrwm yma o weithio trwy y shediau yn gyffredinol yn y Chwarel, oddigerth fod Cyfri yn amlach yn y Shediau ag oedd yn gweithio yr haenau gorau a cynyrch yn hawddach ac yn fwy</p>

Nodiadau													
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24												
Tags	Rheoli, cyfri llechi												
What Facet	73												
Location description	Chwarel y Penrhyn												
Tud	T 366												
Trawsgrifiad	<p>Nid oedd yn ofynnol i “stau” pan yn cyfri ganol y mis, ac nid oedd bwrpas. Yr arferiad oedd i gario allan pob size i lawr i ¼ cant (ni chaniateir llai na hynny ar y crewyn oherwydd y buasai yr “accounting” yn gymhleth) a gadael y gweddill at y cyfriad dilynol, ond diwedd yr mis yr oedd yn ofynnol gan yr oruchwyliaeth fod pob carreg yn cael ei chario allan, er gallu gweithio “computation” a cynnyrch y mis dros yr holl waith. Hefyd yr oedd y gweithwyr yn awyddus i gael cymaint ag oedd yn bosibl iw “account” ac o ganlyniad yn ceisio gwneud i fynny pob “darn” (llai na ¼ -= 32 slates) yn chwarter cyfan. Felly yn ychwanegol at yr ymdrech arbennig ddiwedd mis, yr oedd y gorchwyl o “stau” yn cymlethu pethau. Yn amyl yr oedd sglodion yn cael eu naddy i lawr ac mwy o waste nac a fuasai yn “naturiol”, er darford rhyw size arbennig yn ¼. Yn amyl yr oedd llechi wedi ei naddu i faint yn cael eu torri i lawr, ac lot o gyfnewid (barter) rhwng wal ac wal, ac “menthyca”. Er yn ddiweddar yr oedd stau wedi mynd yn llac ac rhwydd, a sizes yn cael eu cymysgu ; hynny yw, ychydig o nifer a sizes yn gwneud ¼ ar average</p> <table border="0" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th style="text-align: center;"><u>Size</u></th> <th style="text-align: center;"><u>M (mwrw – tair llechen)</u></th> <th style="text-align: center;"><u>Actual</u></th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td style="text-align: center;">14 x 12</td> <td style="text-align: center;">4</td> <td style="text-align: center;">12 =</td> </tr> <tr> <td style="text-align: center;">14 x 8</td> <td style="text-align: center;">3 + 2</td> <td style="text-align: center;">11 =</td> </tr> <tr> <td style="text-align: center;">12 x 8</td> <td style="text-align: center;">3</td> <td style="text-align: center;">9 =</td> </tr> </tbody> </table>	<u>Size</u>	<u>M (mwrw – tair llechen)</u>	<u>Actual</u>	14 x 12	4	12 =	14 x 8	3 + 2	11 =	12 x 8	3	9 =
<u>Size</u>	<u>M (mwrw – tair llechen)</u>	<u>Actual</u>											
14 x 12	4	12 =											
14 x 8	3 + 2	11 =											
12 x 8	3	9 =											

	<p style="text-align: center;">----- ¼ = 14 x 10 ar y crewyn</p> <p>Yn swyddogol nid oedd y cymysgu yma i fod : ond yr oedd y rheolau caeth yn llacio fel ym mhob man. Yr oedd rhai gweithwyr yn stau yn fwy gonest a trwadol nar lleill, yn enwedig y rhai hynaf - wedi arfer i'r drefn gaeth y gorffennol. I rhaddau bach fe ganiateir "darfod chwarter" a size arall <u>ganol mis</u>, ond yr oedd yn ofynnol i'r cymysgiad fod or</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 367
Trawsgrifiad	<p>un pris y cant, er enghraifft yr oedd 22 x 11, 20 x 12, a 20 x 10 = 2/3 y cant (best), felly gellir darfod ¼ prin o un ar size arall. Yr oedd amrhyw or sizes ac pris cyfartal arnynt, o 16 x 12 ac 18 x 10 – 16 x 8 ac 14 x 12 etc</p> <p>Pan oedd y cymysgu yn llithro i eithafion (ac yn enwedig gan rhai), yr oedd yn anhawdd i'r Marciwr checkio a cadw track ar bethau, ac mwy o "scope" i dwyllo. Ond yr oedd y swyddog yn eithaf gofalus ac yn adnabod ei ddeiliaid yn bur dda ac yn gwybod yn lle i gymeryd gofal arbennig. Ond nid oedd hyn yn hawdd yn amyl, oherwydd pwysau gwaith a llu o anhawsterau e.g ar ddiwedd y mis, yn arbennig, yr oedd bron pawb allan yn y clwt cyfrif yr un pryd, ar lle yn draed moch gan ddynton yn gwau trwy eu gilydd, a traffic ac feallai tywydd anffafriol. Ac tywydd neu beidio yr oedd rhaid cyfri diwedd y mis, gwynt a gwlaw neu eira, ac yn achlysurol mi</p>

	<p>fyddai “cerrig” y rhai cyntaf i gyfri wedi cael eu claddu o dan y “peilia” ac anodd iawn oedd “checkio”. Ond yn wir ychydig iawn oedd ac amheuaeth yn eu cylch ac yr oedd ffordd i drafod rhain.</p> <p>Credaf i mi ddweyd (364) fod y Shedmen bore Sadwrn diwedd y mis yn cael mynd gartref wedi iddynt gyfri a marcio. (Rhaid cofio nid “concession” neu rhyddid gan yr oruchwiliaeth oedd hyn, ond nid oedd bwrpas eu cadw yno ar or terfynu y gwaith am y mis) . Ond fe ddatblygodd yr awch yma i gael diwrnod neu rhan helaeth sylweddol dydd Sadwrn yn rhydd i gael gweithio yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 368
Trawsgrifiad	<p>yr ardd, neu bysgota, sylw i’r tyddyn etc. Ac yn araf fe ddaeth patrwm answyddogol i’r cyfri h.y yr oedd amrhyw o’r Shedmen yn enwedig y rhai oedd am gael y day off, neu i rhoi sylw i rhyw orchwyl ac y rhai ieuengaf/anturiaethus yn codi yn eithriadol o fore, dyweder 4-5 o’r gloch, ac yn mynd at eu gwaith a cyfri pan oedd y lle yn gydmharol dawel . Ond yr oedd yn ofynnol i’r jermon neu y partner arall fynd at ei waith at 7.30 er cael marcio y crewyn. Yr oedd llawer o’r partneriaid neu Jermon yn barod iawn i fynd at eu gwaith fel arfer 7.30 ac ond i “farcio” ac wedi cael arbed y cyfri, yn enwedig os oedd dim arbenning yn galw arnynt. Ac os oeddynt yn ffortunos i gael marcio ar unwaith yr oeddynt ar eu ffordd gartref yn fuan iawn. Felly ar fore diwedd y mis yr oedd trafndiaeth gartref ac i’r gwaith yn afreolaidd yma. Oherwydd y posibilrwydd o ddamweinia ac yr oedd yn “breach of trespass” i fod yn y chwarel ar amser afresymol, eto yr oeddynt yn cau eu llygaid i rhaddau helaeth. Hawdd iawn oedd gwybod pwy oedd y rhai blaenaf, oherwydd fod ei cynnyrch ar y blaen yn y clwt cyfri, ac fel rheol yr un rhai oedd y “troseddwyr” a pawb yn gyfarwydd au harferion.</p>

	I fynd yn ôl unwaith eto ar ôl crwydro i Shed Sinc Bach. Yn amyl yr oedd nifer or Jermyn s yn cynllunio au gilydd i aros ar ôl nos Wener diwedd y mis, ac wedi cael eu cyflog yn swatio yn dawel yn y Shed (nid oedd yn ddiogel mynd i'r cwt tan gan fod hwn yn trap ac nid oedd yn hawdd dianc ac ymgolli fel yn ngymlethder y Shediau etc)
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 369
Trawsgrifiad	Wedi swatio am spell a specian rŵan ac yn y man trwy gilfachau y drysau, or diwedd yr oedd distawrwydd yn teyrnasu i rhaddau ac yn lle fod y chwarel yn ferw o ddynion yn gwau trwy eu gilydd, mynd am eu cyflog, neu wedi ei gael a pawb yn prysuro am gartref. Profiad oedd ac angyffredin oedd sylweddoli y distawrwydd annaturiol yma. Wedi arfer o ddydd i ddydd a pob munyd sŵn peiriannau, celfi llaw, traffic ac symudiad dynion yn ôl ac blaen yn barhaus. Aros eto am dipyn ac ofn mentro allan fel hepil o wningod ifanc yn gwrando a gwyllo yn barhaus, ambell i weithiwr unigol yn ymlwybro yn ddiweddar tua chartre, wedi bod yn gwneud rhyw waith arbennig neu "saethu" feallai. Ac weithiau ambell i swyddog, wedi aros ar ôl am ychydig i ddarfod ei "weekly sheets" etc. Yr oedd rhain yn cael sylw a gwilio yn arbennig, a gofaly nad oedd symud nes yr oeddynt wedi cilio or golwg. Hefyd ambell i clerch neu ofalwr yn gadael y swyddfa etc. Yr oedd y "straglar" yma yn dal arnom ond rhaid bod yn amyneddgar. Or diwedd dyma heddwch, ac mentro allan hefo'r slediad, helpy ein gilydd i gael rhain ir clwt cyfri, a ceisio shiarad yn ddistaw. I be wn i ddim, gan fod y "cerrig" yn clepian ar eu gilydd pan oedd y sled yn cael eu hysgwyd wrth fynd tros y rails anwastad a crude a sŵn byddarol gan yr orymdaith yn distawrwydd llethol y gwaith. Yr oeddym yn teimlo yn fwy hapus wrth glywed sŵn cyffelyb yn

	dod o wahanol gyfeiriadau yn Red Lion, ac yn amlwg fod amrhyw eraill “wrthi”, ac mae nid ni yn unig oedd y drwg weithredwyr ac felly ymlacio a cario ymlaen yn fwy hyderus. Weithiau yr
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 370
Trawsgrifiad	oedd scare a pawb yn diflany i rhyw guddfan – rhywun wedi gweld swyddog ar ei ffordd gartref ar ôl “daliad go hwyr”. Llechu eto am dipyn ac mentro allan yn araf. Un tro cawsom wir ofn (yr oeddem yn sylweddoli y bod yn bosibilrwydd cael “sack”, neu o leiaf cael ein galw ir swyddfa, a cael cerydd a rhybudd gan y goruchwiliwr – ac yr oedd hyn yn real ac oeddwm wir ofn y canlyniadau arnom). Pan oeddem wrthi yn brysur, ac amser wedi mynd ymlaen i raddau a llai neu ddim scares, dyma sylweddoli fod nifer dda wedi codi o rhywle, ac yn ymgasgly yn wyllt ac afreolaidd ac yn rhedeg fel defaid ar ochr mynydd pan yn cael eu dal gan gi, a pawb yn cyfeirio am loches y cutting ar tommenydd ac neb yn dweud dim, dim cyfle ond dianc fel adar o flaen storm. Yr oedd y cynwrf yn ddigon o ddychryn ac nid oedd anghen eglurhad, ond cael adain ar amrantiad a diflanu hefor lleill. Yr oedd y ffordd oeddynt yn gyfeirio yn awgrymu lle oedd y “gelyn”. Wedi cyrhaedd rhyw bant yn nghanol y tommenydd a sylweddoli fod pawb wedi cael lloches, neu ymgolli i rhywle, ac wedi cael ein gwynt atant, dyma gael eglurhad gan un o flaenwyr y “scare” mai Dafydd Dafis y rheolwr oedd wedi bod yn gweithio yn ddiweddar yn ei swyddfa ac yn ôl ei arfer yn cerdded gartref trwy Red Lion am “Brynderwen”. Yr oedd ei enw yn arswyd trwy y gwaith ar ardal, yn enwedig i ni y prentisiaid. Yr oedd yn gyfnod eithriadol o galed a dim gwaith arall yn y cyffiniau a pawb yn ddibynnol ar y Chwarel, felly yr oeddem ofn “cael sack”. Hefyd yr oedd yn gyfnod pan oedd “parch” yn cael ei rhoddi i
Nodiadau	

Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 371
Trawsgrifiad	<p>weinidog, person plwyf, polismon, ysgol feistr, athrawon, blaenoriaid etc, a parch ac ofn arbennig i swyddogion y Chwarel ac yn enwedig ir “rheolwr”, oherwydd ei safle ar grym oedd yn ei ddwyllaw.</p> <p>Yr oedd Dafydd Dafis fel y gelwir yn gyffredin (yn ei gefn) trwy y chwarel yn ŵr eithriadol mewn llawer i ystyr... fel yr hen type o Ysgol feistr grymus haearnaidd troad y ganrif, a pawb ei ofn yn cynnwys yr holl swyddogion o’r lleiaf i’r mwyaf, a prin yr ai neb yw weld yn wirfoddol ar unrhyw achos.</p> <p>Yr oedd ganddo enw anghyffredin (feallai ddim mor anghyffredin yn y cyfnod hwnw !) : D.D. Davies – David David Davies (Yr oedd blaenor yn Treflys tua 1950 ai enw David David Evans Glanrafon) ac yr oedd dau enw run fath yn lled gyffredin ond nid wyf yn gwybod am neb yn cael tri fel D.D. Davies. Hefyd yr oedd yn ddyn mawr tua dwy lath neu rhagor o daldra, ac yn rhymys mewn “frame” fawr ac yn tueddu i fod yn dew a boliog, ac yn gwisgo yn ôl ffasiwn y cyfnod (Bowler hat) het galed. Ar y pryd nid oeddwn mewn safle neu ddigon hen yw farnu nac i wybod dim am dano fel goruchwiliwr ond ir graddau ei ofni ai ochel. Deallais yn ddiweddarach ei fod yn oruchwiliwr dihafael ac yn rheoli yn ddoeth hefo llaw haiarn, ei fod yn chwarelwr eithriadol o dda, ac yn nabod a deall y graig. Yn y cyfnod hwnnw (1928 ?) ac am rhai blynyddoedd ar ôl hynny nes yn agoshau at ei ymddeol yr oedd pob mis yn “gosod” (setting) yn Dist No 1 ac 2 (y ddau ddistrict isaf ar rhannau oreu o’r Chwarel).</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24

Tags	Rheoli, cyfri llechi, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 60
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 372
Trawsgrifiad	<p>David Davies oedd yr unig oruchwiliwr i mi gofio yn gosod yn bersonol, yn sicr fo oedd yr olaf. Y stiwardiaid gosod oedd yn gwneyd y gwaith yn gyffredinol, dyna eu prif swyddogaeth a goruchwilio ei Dosbarth.</p> <p>Yr oedd yn cerdded at ei waith pob boreu a gartref ddiwedd y dydd. Yn y bore yr oedd arfer galw yn y Felin Fawr i rhoi llygad ar bethau, ac wedyn gwneud ei ffordd i fynny Allt Felin, galw yn machine Pen yr Allt i gael gweld faint o gynnyrch oedd wedi pasio trwodd etc ac wedyn gwneud ei ffordd i fynny Red Lion am y swyddfa a pawb yn ei weled o loches ffafriol a diogel.</p> <p>Y prydawn yr oeddem ni wedi aros ar ôl i “gyfri”, ar ei ffordd gartref oedd. Wedi bod yn gweithio yn ôl ei arfer ar ôl “caniad” a cael dipyn o heddwch mae yn debyg wedi pawb fynd, ac mae yn amlwg fod y drwg weithredwyr ag oedd yn “gweithredu” yn agos i’r brif swyddfa wedi ei weld yn gadael gyda braw, ac yn diflany cyn belled ac y gallent oi olwg ai lwybr, ac fel yr oeddynt yn ffoi yn wallgof ychwaneg yn eu dilyn ar amrantiad heb ofyn cwestiwn, nes cyrhaedd lloches y “domen” (rubbish tips). Er hynny yr oedd rhai mewn lle ffafriol i wyllo ei gerddediad ac er ein syndod fe aeth ymlaen ar ei union am gartref. Fe dreiglodd dipyn o amser yn llechu cyn i ni fentro allan ar ôl y “scare” ond yn araf fe fentrom yn ôl a cario ymlaen ar cyfri. Anodd credu na chlywodd a gweld peth o’r “stampede” ac yr oeddem yn ofni y canlyniadau a beth fuasai yn ei haros y dydd Llundain.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 373
Trawsgrifiad	<p>ond nid wyf yn cofio i ddim ddigwydd. Yn achlysurol mi fyddai y swyddogion yn rhybuddio a bygwth, ac eithriadau yn cael ei dwyn i gyfri, ac mi fyddai yr arferiad yn “marw i lawr” dros dro.</p> <p>Hefyd mi fyddai rhai o honnom yn cymeryd yn ein penau, yn enwedig os oeddem am rhyw reswm eishiau diwrnod rhydd Sadwrn diwedd mis i fynd yn ôl i’r chwarel yn hwyr yn y nos, neu weithiau gyda’r nos, i gyfri. Cymeryd yn ein penau ar stryd fawr Bethesda neu yn y “shop chips”, ac wedi trafod a trefny mynd gartref ac newid yn ôl i’r dillad gwaith a gofaly fod ganddom “torch” neu “lantar”. Yr oedd ein rhieni yn gwrthwynebu yn enbyd y cynllyn yma oherwydd y posibilrwydd o anafu – ac, feallai, neb ar gael in cynorthwyo ac i rhoi triniaeth pe bae damwain yn digwydd. Y mae gwaith y chwarel yn berygl ir eithaf ganol dydd, ac yn ystod oriau gweithio yr oedd llawnder o gymorth a sylw yw gael, a “first aid post” yn mhobman ac ysbyty gerllaw. Ond yn y tywyllwch yr oedd pob peth in herbyn. Fodd bynnag, mynd yr oeddem, ar waethaf ymbil ein rhieni. Cyfarfod ein gilydd (tri neu bedwar) ar y ffordd, a gwneud ein ffordd i fynny yr A5 i gyfeiriad Pont y twr. Teimlo yn euog pan oedd rhywun yn ein pasio a craffy yn dawel . Yn amyl ambell i un neu ddau oedd ar ei ffordd gartref or chwarel oedd wedi bod yn cyfri oeddynt. Os oeddem yn eu nabod cael seiat fyr i gael gwybod syd oedd pethau, a oedd perygl swyddogion etc o amgylch. Wedi sicrhau fod pob peth yn iawn ymlaen a ni</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 374
Trawsgrifiad	<p>ac wedi croesi Pont twr ac i fynny “Grisiau ddol” trwy y coed ac heibio yr Ysbyty. Nid oedd neb i ddod i’n cyfarfod eto, ond rhai fel ni yn mynd yn ôl nes ymlaen, neu gywylwyr y pypiau (pumps) , ac yr oedd posibilrwydd o swyddog ymddangos, er yr oedd y dosbarth yma ddim am ymlwybro ir fath le ac yn wirfoddol yn y tywyllwch. Ond yr oedd sibrd fod rhai yn eu tro yn gorfod ymddangos er rhoi terfyn neu arafu yr afreiad tros dro, ac yr oeddem pob tro yn anesmwyth ac yn sylweddoli y posibilrwydd o gael ein “dal” . .</p> <p>Hefyd yr oedd y torch neu lusern ar sŵn byddarol yn arweinydd da i rhywyn, ac yr oeddem yn ymwybodol y gallai swyddog ddod yn y tywyllwch at ein hysgwydd heb drafferth ac ein dal yn “red handed”. Wrth gwrs nid oeddem yn defnyddio goleu o gwbl ar ein ffordd rhag dadlenu ein presenoldeb, ac wedi gadael goleu cyhoeddys olaf yn Pont y twr yr oeddem ac mynd trwy Parc Brynllwyd ac tywyllwch dudew y Chwarel. Mae yn rhyfedd fel yr oeddem yn arfer ar tywyllwch, ac rhyw fath o “reflection” golau cyhoeddus ardal Bethesda yn torri ar y caddug dudew. Wedi cyrhaedd y Shed yr oeddem rhyw fydr weld, ond tŷ fewn yr oedd fel bol buwch ac yr oedd yn rhaid defnyddio y torch neu lamp. Lle rhyfedd oedd y Shed yn y tywyllwch ar unigedd, cysgodion mawr ym mhobman, a tawelwch llethol, a pob sŵn yn rhoi brawf i ni. Y drysau yn gwichian wrth gael ei siglo gan y gwynt, a llawer i fan sŵn na allem ei esbonio, ac ddim yn amlwg yn nwndwr gwaith dyddiol. Nid oedd yn hawdd cario y cerryg ac ymlwybro trwy yr anhawsderau, yr oedd ddigon</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn

Tud	T 375
Trawsgrifiad	<p>o orchwyl yn y dydd, eto yr oeddem yn gyfarwydd ar amgylchedd a gwybod y gorchwyl. Ac yr oedd gennym amcan maint y gorchwyl, ac colli dim amser ond dechreu llwytho ar y sled bach ac wedi cael llwyth gwneud ein ffordd am y clwt cyfri. Yr oedd rhaid cymeryd gofal arbennig nad oedd rhwystrau ar y ffordd haearn (rails) ac fod y tafodau (finger points) yn iawn. Trychineb fyddai i'r sled "fynd ar lawr" (gadael y rails) gan nad oedd fawr o obaith cael cymorth yw chodi yn ôl, fel ar ddiwrnod gwaith. Cefais y profiad annymunol yma unwaith neu ddwywaith hefo "sled growd" (sled haearn fawr) ac nid oedd obaith i mi ei chael yn ôl ar yr "haearn" fu hun, ac dim i wneud ond ei dadlwytho yn rhanog i "sled bach". Yr oedd trychineb o'r fath yn ein tafly yn ôl. Weithiau yr oedd cymorth yw gael, yr oedd rhai o'r Group wedi darfod heb fawr o helynt ac wedyn yn gwneud eu ffordd at y rhai oedd hen ddarfod, ac buan iawn yr oeddem i gyd ar ein ffordd gartref, a teimlo hefyd ein bod wedi cyflawni rhyw orchwyl o dan anhawsterau, ac etto rhyw euogrwydd. Ond yr oedd y Sadwrn dilynol yn rhydd ar ei hyd, a dim angen codi yn fore, a cael mynd i le a fynom.</p> <p>Yn achlysurol pan yn cyfri yn y nos fel hyn yr oedd sŵn yn dod o wahanol gyfeiriadau yn Red Lion, a'r sŵn yw glywed yn eglur iawn yn y distawrwydd, ac yr oedd yn amlwg fod rhai eraill yn cario allan yr un gorchwyl ac o ganlyniad nid oeddem yn teimlo mor ofnys ac euog. Cofiaf i mi un tro ar noson braf o haf a cyrhaedd y gwaith pan</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 376

Trawsgrifiad	<p>y tywyllwch yn cymeryd trosodd, glywed sŵn od (ac yr oedd pob sŵn yn cael ei “amplifio” ac effaith “carreg atal” oherwydd maint a lleoliad y twll enfawr) ac methu deall beth yr oedd ar y dechrau. Yr oedd yn debyg iawn i sŵn Injan dyllu (drilling machine) yn y pellter. Yn achlysurol yr oedd yn stopio, ac ar ôl ychydig ail ddechreu, a sylweddolais mai troellwr ydoedd (y “Night Jar”). Yr oeddwn wedi clywed y sŵn anghyffredin yma droeon o fy nghartref yn Pant ar hwyr ddydd haf ar awel yn ffafriol. Yr oedd yn dod o Braichmelyn tua hanner milltir i ffwrdd, fwy nac unwaith yr aethum ir cyffinie uwch ben creigiau “Shion a Shian” a cuddio yn lloches y creigiau i aros y dydd i ddarfod. Ac bron yn ddifeth fe welais y troellwr yn gwibio yn ôl ac blaen yn isel uwch ben y llwyni ar creigiau ac yn achlysurol yn gorffwys ac yn dechreu ar ei gan rhyfedd undonog. Ond yn yr eangder ac unigedd y Chwarel yr oedd ei gan yn aneuarol braidd.</p> <p>Yr oedd un peth arall yn achlysurol yn torri ar y tawelwch ac yn ein sobri i dawelwch. Sŵn enbyd Tank Princess May yn troi. Yn ystod y dydd nid oedd neb yn sylwi nad yn ymwybodol or sŵn, ond yn nhawelwch llethol y nos yr oedd yn enbyd. Y pwrpas oedd i godi neu i rhoi i lawr y pumpmen etc. Yr oedd sŵn y levars yn cael eu symud ar dwr yn arllwys ir tank a gwichian y guides etc yn adsain trwy y tywyllwch.</p> <p>Wrth gwrs yr oedd yr helyw yn cyfri yn y dull cyfreithlon, dod i’r chwarel at “ganiad” neu rhyw awr mwy neu lai yn gynharach. Cyfri yn oleu dydd a digon o gymorth yw gael.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi, cludiant
What Facet	73, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 377

Trawsgrifiad	<p>Cael “marcio” y crewyn ac gartref eto rhwng wyth a naw. Fel ym mhob man yr oedd llusgwrs rheolaidd, ond yr oedd pawb wedi clirio erbyn deg o’r gloch oddigerth y swyddogion. Fel rheol yr oeddynt hwy yn “gweithio ymlaen” gan fod llawer o waith yw wneyd ddiwedd mis, ac ymlaen i ganol yr wythnos ddilynol i gau pen pethau a cael yr accounts i’r swyddfa.</p> <p>Yr oedd yn arferiad cyffredinol yn yr ardal (athebyg yn holl ardaloedd y chwareli) ir gweithiwr rhoddi ei gyflog yn gyfan ir wraig, ac yn cael yn ôl ychydig sylltau ar gyfer ei “beint” neu faco, os oedd yn gally fforddio rhain. Y rhai cydwybodol ddim yn gwario o gwbl ar “oferedd” ond y rhaid – taly undeb, clwb claf, cymdeithas y nurses etc). Yr oeddynt yn eu cledi gorfod cynal pob “achos” er ceishio rhoi cymorth ir naill ar llall pan oedd cledi, a cynni teuluaid neu gymdeithasol. Oherwydd caledi a phrinder arian y cyfnod, yr oedd yr arferiad o drosglwyddo y cyflog yn gyfan ir wraig yn beth naturiol ac nid oedd neb yn meddwl dim ymgengach. Pan yn hynach y deuthum i sylweddoli fod gweithwyr mewn diwidiannau eraill ac rhannau eraill or wlad yn rhoi swm arbennig ir wraig at fwys etc y teuly, ac yn cadw y gweddill iddo ei hun. Oherwydd y cyflog isel nid oedd fawr o “scope” i dwyllo y wraig, ac yr oedd yn gwybd beth oedd tal gwastad wythnosol (isrif). Dydd Sadwrn settlo mawr yr oedd yna shiawns or wraig gael ei thwylo, gan y gallai y gwr ei chamarwain ar gynnyrch y mis gynt, ac yr oedd yn cael ei ddweyd fod rhai yn cadw “celc” (CELC) yn ddjarwybod ar wraig,</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, cyfri llechi, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 61, 96, 123
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 378
Trawsgrifiad	yn enwedig rhai a dim pwysau teulu arnynt. Wedi cael mis gweddol dda yr oedd yn demtasiwn ir gwr gadw ychydig sylltau yn ddirgel ar gyfer “diwrnod glawog”, ac ar ôl gweithio yn galed am fis yr oedd yn teimlo y dylai

	<p>ac ei fod yn haeddu cael rhyw gymaint atdal am ei “ymdrech”, ond oherwydd yr amgylchiadau caled nid oed scope nac bwriad i dwyllo rhyw lawer.</p> <p>Wedi settlo i lawr yn Shed Sinc Bach a rhai misoedd yn llithro heibio yn araf, fe ddaeth in clystiau fod rhai Jermons yn “taly am eu bwyd”. Ar y dechreu yn ein diniweidrwydd nid oeddem yn glir iawn beth a olygai. Yn rhaddol daethom i ddeall fod rhyw ychydig, yn enwedig y rhai hynaf, wedi dod i ddealltwriaeth au rhieni (y fam) ac nad oeddynt mwyach yn trosglwyddo eu cyflog yn llawn yw mam : ond taly swm arbennig “am eu bwyd”. Yr oedd y swm yn gwahaniaethu o dy i dy, ac yn cael ei benderfynu rhwng y rhieni ar mab. Fe ddibyna y swm a gytunir arno ar sefyllfa ariannol y teulu, eu gofyniadau etc ac wrth gwrs ar faint oedd y mab yn ei ennill ac y gallai ei fforddio. Golygai “taly am ei fwyd” “full board and lodging” ac fod y mab yn gyfrifol prynu ei ddillad a taly gofynion allanol, undeb, cwt tan, Nurs, etc ac ei bres pocad. Pan ddaeth in clustiau fod fath drefniant yn bod, cawsom fraw, wedi gweld ein tadau a bron pob gweithiwr yn ddifeth yn trosglwyddo y cyflog yn gyflawn ir fam, ar bechgyn yn dilyn y shampl heb gwestiynu ac ddim yn gwybod am ffordd arall. . Hefyd yr oeddem yn sylweddoli fod y gyfathrach annwyl a dibynol ar y fam yn cael ei dorri, ac fod y perthynas yn pellhau, y cam cyntaf i dorri</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	73, 61, 96, 123
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 379
Trawsgrifiad	y cysylltiad annwyl a gadael y nyth, ac yn ei gadael yn fwy estronol yn ein tynged ar aelwyd. Hefyd buasai yn rhaid gofaly am y dillad a mam wedi gwneud y gorchwyl hyd yma. Oherwydd y cyflog isel y flwyddyn gyntaf ar ail fel Jermon (3ydd a 4ydd yn y chwarel) 16/- ac 21/- yr wythnos (feallai llai, ffigyrau o gof) nid oedd yn

	<p>hawdd iawn i Jermons bach daly am eu bwyd ac yr oedd yr arferiad yn fwy amlwg ym mysg y Jermyns mawr (5th and 6th year) 30/- + 37/- yr wythnos. Gallai rhain rhoi swm sylweddol (yn ôl amodau y cyfnod) yw rhieni am eu bwyd. Felly, oherwydd ein bod yn ifanc ac fel plant i bob pwrpas ac yn ddibynnol iawn ar ein mam, ychydig iawn iawn or Jermyns bach oedd yn dod i delerau i “daly am eu bwyd”. Yr oedd ambell i eithriad sef (1) plentyn olaf y teuly ar gweddill i gyd yn gweithio (2) unig blentyn (3) teuly cydmharol gefnog. Yn amyl yr oedd y dosbarth olaf yn amaethwyr, cadw siop, neu rhywbeth ymgenach na’r Chwarel a cyflog y mab ddim y gwneud fawr o wahaniaeth ir “budget”. Yr oedd yn cael ei ddweyd hyd yn oed pan oeddem yn “bela” (1st a 2nd year) fod ambell i un ddim yn gorfod trosglwyddo dim ceiniog yw fam a cael cadw y cwbl fel arian pocad. Er ein bod ar rhyw ystyr yn eiddgeddus or cyfryw rhai yr oeddem methu deall fod yn bosibl ir fath beth fod , mewn ardal mor galed ei amgylchiadau. Cofiaf yn dda am un yn arbennig (ond ni allaf ei enwi) cofiaf iddo ddod a “football” ledr iawn i Ponc Leval i gael game amser cinio. Yr oedd hon dipyn mwy urddasol nar pel glwt.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	73, 61, 83, , 113
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 380
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd eu dillad yn well, eu bwyd, au holl osgo yn ymgenach na rhelyw o honnom. Rhyw un neu ddau yn disgleirio yn well na’r cyffredin allan o tua cant, y gweddill bron ar un level, yn glawd a llwm.</p> <p>Wedi graddio o’r “shediau isaf” (Jermon bach) ac cael ein symud yn ein tro am hamser i’r shediau uchaf 3rd and 4th year fel Jermon (5th a 6th yn y chwarel) yr oedd y cyflog yn gwella ac ninnau yn rhaddol yn gadael y “stage” plant ac yn rhaddol yn neshau at derfyn ein gyrfa fel Jermon ac ar ôl hynny yn cael y full rate ac ein cydnabod fel chwarelwr profiadol, ac yn feistr a gweithio i ni ein hunain a therfyn ar y caethwasiaeth (chadal</p>

Rap). Credaf i mi ddweud (379) fod y trefniant o “daly am ei fwyd” yn naturiol yn fwy cyffredin ymysg y Jermyns hynaf (5th and 6th years). Eto yn y lleiafrif o bell ffordd. Yr oedd rhai bechgyn o deyluoedd a oedd llai o bwysau arnynt yn hyrwyddo y mab yn rhaddol i “daly a ei fwyd” er rhoi rhyw fath o gychwyn iddo o “scence” o gyfrifoldeb ac iddo gael cyfle os oedd yn ddoeth i gasgly dipyn o arian at briodi etc.

Ffigyrau dychmygol, eto yn agos at y gwir, nid oedd trefn bendant

	<u>Cyflog</u>	<u>Talu am fwyd</u>	<u>Gweddill i gadw</u>
Flwyddyn gyntaf fel Jermon	16/-	10/-	6/-
2nd	21/-	14/-	7/-
3rd	30/-	20/-	10/-
4th	37/-	24/-	13/-

Yr oedd safle cyffredinol y teulu ac angen yn penderfynny pa gyfraniad oedd cyflog y bachgen i fod (378). Gan mai y Chwarel oedd yr unig ddiwydiant sylweddol yn yr ardal a bron yr holl ddyinion yn gweithio yno

Nodiadau	Rap – Ap Eos y Berth
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, hanes cymdeithasol
What Facet	73, 61
Location description	Chwarel y Penrhyn

Tud	T 381
Trawsgrifiad	<p>ac ond ychydig oedd yn gallu fforddio !! trwy ymdrech ac aberth eithriadol i fynd ymlaen mewn addysg. Yr oedd yn broblem cadw mab yn yr Ysgol Ganolraddol - taly fees hyn ac acw, talu am lyfrau etc, ac wrth gwrs colli ennillion fuasai y mab yn eu henill yn y chwarel. Felly y drefn oedd i pawb bron fynd ir chwarel cyn gynted ac y gallai.</p> <p>Yr oedd y rhan fwyaf o deyluoedd yr ardal ar tad ar <u>cwbwl</u> o’r meibion yn gweithio yn y chwarel. Peth cyffredin oedd tad a 4 neu 5 o feibion yn y chwarel, mwy neu lai, ac fel rheol yr oedd rhain yn cydweithio fel pardneriaid neu bardnar a Jermon (Tad a mab, neu ddau frawd). Felly yr oedd gwerth ariannol eu hymdrech yn mynd yn ôl ir un aelwyd. Wrth gwrs yr oedd y meibion hynaf yn eu tro yn gadael y nyth a priodi ond yr oedd cyfnod o flynyddoedd pan oedd pawb bron yn dod ac arian i fewn ar teulu mewn stad o “affluent” cydmharol. Mewn achosion fel yma yr oedd yn rhwydd i bechgyn ieuengaf yn y teulu gael talu “am eu bwyd” ar delerau ffafriol. Hefyd yr oedd yn weddol rhwydd i lawer o “unig blentyn” gael taly am ei fwyd. Yn amyl yr oedd eisoes wedi eu “pampro”, gofynion yr aelwyd yn llai a’r cefndir <u>mewn cydmhariaeth</u> yn fwy cefnog.</p> <p>Yr oedd eithriadau ir gwrthwyneb, fel ein cartref ni – pump brawd ac un chwaer (nifer cyffredin teuluoedd y cyfnod). Yr oedd fy mrawd hynaf yn yr Ysgol Ganolraddol ac yn fy nhro fe lwyddais innau yn yr arholiad i fynd ir “County School”</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	62, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 382

Trawsgrifiad	<p>ac dechreuais ar fy ngyrfa yno. Golyga hyn fod dau o honnom yn yr Ysgol Ganolraddol a pedwar o blant llai gartref, ac ond fy nhad yn gweithio. Tua'r cyfnod hwnnw, taly yn fisol oeddynt yn y chwarel (nid oedd isrif (fixed) wythnosol o gwbl) a cofiaf i fy nhad ddod adref Sadwrn settlo mawr hefo ond £4 am waith mis, a hyn bron yn rheolaidd (sovereigns aur oeddynt wrth gwrs). Gellir ystyried pa mor galed oedd cael dau ben llinyn yn ngyd ac nid rhyfedd fod teulyoedd ymdrechgar a gonest yn rhedeg i ddyled. Teyrnged iddynt ydi nac am fwyd a dillad yr oedd eu dyled bron yn ddieithriad ac nid pethau ofer. Er y gweithio caled a byw yn onest ac ymdrechgar yr oedd bron pawb mewn dyled.</p> <p>Wedi i mi fod yn yr Ysgol Ganolraddol am dros ddwy flynedd ac rŵan yn neshau at fy 14 oed, yr oedd brawd gosaf i mi wedi passio yr arholiad ir "County". Yn anffortunus yr oedd o wedi cael helynt am flynyddoedd hefoi lygaid (eyes), cael triniaeth, ymweld a meddyg yr ysgol etc, ac yn ôl a blaen yn barhaus ac mam yn cael trafferth parhaus ac gofidio yn ei gylch. Pe buasai yn holiach mi fuasai problem yn codi h.y. mi fuasai yn amhosibl cadw <u>tri</u> o honnom yn yr Ysgol Gan Radd. Hefyd yr oedd yn amlwg na fuasai o byth yn mynd trwy y medical i fynd i weithio yn y chwarel. Felly y penderfyniad rhesymol a logic oedd, gan fy mod i yn neshau at fy 14 oed oedd cael gwaith i mi yn y Chwarel, i gynorthwyo y ddau o bobty i mi i "fynd ymlaen " ac felly y bu. Fe adewais yr ysgol ar ddiwedd term y Nadolig (Pasg) a dechreu yn y Chwarel Ebrill 20, 1920</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	61, 62, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 383
Trawsgrifiad	Yr oedd y pedwerydd brawd yn ieuengac o tua 5-6 mlynedd na fi ac felly nid oedd obaith iddo fo ddod i ennill am rhai blynyddoedd. Pan ddaeth i'r amser fe ddaeth yntau i'r chwarel, ond yn ffortunus ni fy yn gweithio ai

	<p>ddwylaw ond am yn agos i flwyddyn. Fe lwyddodd mewn arholiad am swydd fel clarc (clerk) yn y brif swyddfa a cael amodau fel swyddog</p> <p>Yr wyf wedi rhoi croniclad blêr o fy ochr fy hyn gan fy mod yn cofio ac yn gyfarwydd ar ffeithiau. Yr oedd amrhiw o deulyoedd yn yr ardal mewn amgylchiadau mwy neu lai cyffelyb, rhai ar mwyafrif or plant yn genethod a dim shiawns iddynt fynd i'r chwarel, ond shop neu "gweini" (domestic servant) am tua 2/6 mwy neu lai yr wythnos au bwyd a lodgins.</p> <p>Pan oedd amgylchiadau yn gwasgu nid oedd fawr o obaith ir bachgen gael "talu am ei fwyd", ac yr oedd y gwasgu gartref yn ei orfodi i dderbyn ei ffawd a cario ymlaen yn ddirwgnach i gynorthwyo y teulu. Nifer fawr yn cario ymlaen ac yn rhoi eu holl gyflog, hyd cyrhaedd ugain oed ac erbyn hyn wedi cefny ar caethwasiaeth fel Jermon, ac o hyn allan yn cael eu cydnabod yn chwarelwr profiadol, wedi bwrw prentisiaeth ac yn cael "wal" yn y Lan. Neu ei gysylltu a creigwir mewn bargain yn y Twll. Yr oedd nifer helaeth yn trosglwyddo eu holl gyflog yw mam (oddigerth feallai cadw ychydig o gydnabyddiaeth settlo mawr) a hithau yn trosglwyddo ychydig yn ôl fel pres poced ac at fan ofynion – hyd yn oed ar ôl mynd heibio yr 20 oed os oedd pwysau y teulu yn galw.</p> <p>Fe rhois i fy holl gyflog bron i fy mam</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol, rheoli
What Facet	61, 62, 73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 384

Trawsgrifiad	<p>yn cynnwys settlo mawr hyd cyrhaedd 23-24 oed, ac ar ôl hynny yn cydnabod yn hael, pan y gorfododd fy mam i mi “dalw am fy mwyd” ac am lawer i flwyddyn yr oeddwn yn ychwanegol yn dod i’r adwy pan oedd angen arbennig, “rent” etc, a rhoddi llafur diddiwedd yn yr ardd helaeth - ac at wella ac eangu y tŷ etc, a thaly am yr holl nwyddau at y gwaith. Yn rhaddol fe ddaeth y plant ieuengaf i weithio yn eu tro a fy chwaer cartref yn helpu fy mam, ac amodau a cyflog i <u>rhaddau</u> wedi gwella yn y chwarel, a bywyd yn fwy esmwyth o ganlyniad ar yr aelwyd.</p> <p>Pan yn Jermon bach ac yn ennill oddeutu £1 yr wythnos y flwyddyn gyntaf a 24/3 yr ail flwyddyn, yr oeddem yn cael yn ôl gan ein mam 1/- i 2/- yr wythnos o bres poced. Rhai yn cael mwy ac y lleill yn derbyn llai. Y “pres poced” yn codi fel yr oedd y cyflog yn codi. Or arian yma yr oedd rhaid taly i ofalwr y cwt tan 2d yr wythnos, talu undeb tua 6d pob pythefnos (3d pan yn bela), 3d yr wythnos at gronfa Ysbyty, hefyd cyfraniad at “gweinyddesau” a nifer o alwadu eraill, ceisio rhoi ychydig geiniogau yn clwb (savings) trip Ysgol Sul y capel neu eglwys, felly gellir casglu nad oedd fawr yn weddill at “oferedd”. Er hynny yr oedd bron pawb o honnom yn ei tro wedi trio smocio (ysmygu !) cyn belled ag oedd yr arian yn caniatáu, ac wrth gwrs y math rhataf oedd yn ein cyrhaedd, paced pump o Woodbine am ddwy geiniog, sigarette fach deneu ydoedd mewn amlen o bapyr tenau pen agored, dim silver paper ar crandrydd a geir heddiw</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	57, 61, 73, 96, 123

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 385
Trawsgrifiad	<p>Ir helyw un neu ddau baced (neu ddim o gwbl) a allem fforddio mewn wythnos, a beggera a gofyn am stwmp neu “wiff” ymysg ein cyfeillion</p> <p>Erbyn y cyfnod yma (1923-24) yr oedd adyniad enbyd wedi dod i’r ardal. “Living Pictures” rheolaidd yn y Neuadd gyhoeddus, nos Lun, Iau a nos Sadwrn. Yn ddiweddarach yr oedd programme bob nos (ond y Sul) ac newid dwywaith yr wythnos. Ond ar y dechreu yr oedd programmes gwahanol y dair noson Llun, Iau a Sadwrn. Cofiaf yr apêl danllyd yr oedd yn ei gael arnom, ac yr oedd yn rhaid “bugeilio” ein pres poced yn ofalys a ceishio cadw 3d ar gyfer nos Lun o leiaf, ac os yn ffodys a chyntreifiol feallai yn gally fforddio i fynd nos Iau. Ar y dechreu yr oedd tri pris i fynd i fewn, credaf mai 6d oedd y rhataf, 3d i blant, ac fel rheol yr oedd ni Jermyn bach yn cael mynd heibio am 3d. Dibyna hyn ar garedigrwydd y person oedd yn “hel y ticedi”, yn amyl person local ydoedd, ac yn ystyried ein safle mae’n debyg. Tebyg fod y pris am yr ail sedd tua 1/- ac ir ychydig etholedig y pris uchaf 1/6. Feallai mai oherwydd yr arferiad or dethol (segregation !) yma mewn cyngherddau, dramâu etc ag oedd yn boblogaidd iawn yn y cyfnod hwnnw, fe ddilynwyd y patrwm o “ddethol” gan berchnogion y Living Pictures ac o ganlyniad am beth amser yr oedd y rhai cefnog ac yn taly y pris uchaf (ychydig iawn oedd eu nifer : hanner dwsin mwy neu lai ac yn fuan fe wnaed i ffwrdd ar dosbarth ar drefn) yn eistedd yn barchus yn y seddau agosaf ir screen. Yr ail ddosbarth tuar canol, nifer dda o’r oedolion yn y dosbarth yma, a’r belwrs bach a Jermyns ar rabble yn y “tŷ ôl” ar y feincia. Yr oedd y dosbarth cyntaf ar ail yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109

Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 386
Trawsgrifiad	<p>cael eistedd ar gadair caled ac anesmwyth, gallaf eich sicrhau, ond yn ymgenach nar feinciau digefn ac amhersonol. Ni fy y perchenogion yn hir cyn sylweddoli fod y drefn yn chwithig, ac fe fabwysiadwyd y cynllun ag oedd yn gydnabyddiedig mewn llefydd eraill (mwy gwar !) ac mae eistedd ymhell oddiwrth y screen oedd y lle delfrydol, ac felly mae yn gefn y neuadd y dylai y rhai “cefnog” fod, ar rabble yn y blaen, ac felly y bu. Ac ar noson “living pictures” yr oedd y feinciau yn y blaen ar werin eithaf yn anghyffyrddus a chlor. Er yn wir oherwydd yr adyniad ar diddordeb tanlyd yn y ffilm, nid oeddem yn ymwybodol ar anghysur corphorol ac yn chwerthin a bloeddio yn ddireol fel anwariaid, ac ar ein traed an aml. Yr oedd y cynwrf ar ofn o golli eiliad or ffilm yn ein cadw yno hyd y fynydd olaf, ac nid allai neb fforddio y munudau gwerthfawr i fynd i’r Tŷ bach. Fel rheol yr oedd pawb wedi anelu i fynd i’r Tŷ bach yn Lonpab cyn mynd i mewn, er sicrhau na fyddai tarddu ar y programme. Er hynny y mae yn amlwg fod rhai gan eu brys i fynd i mewn, ac hefyd yn cael eu corddi ir eithafion gan yr “Hooded Terror” neu “chase” danlyd trwy gymylau o lwch gan y cowboys, neu train yn wallgof heb ddriver yn cyflymu i drychineb ofnadwy, ai cyrff hwythau o ganlyniad wedi ei gynhyrfu. Ar canlyniad oedd piso mor araf ag oedd yn bosib yn y fan ar lle. Wedi terfyn y programme a canu “God Save the King” yr oedd y goleu yn dadlenu olion o “afon” bach yma ac acw.</p> <p>Yn ychwanegu at y bedlam twrw yr oedd Arthur Alun yn dyrnu y piano yn yr ochr ar y llawr o flaen y stage. Yn feistr ar ei waith ac yn chwarae yn effeithiol a byddarol</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109, 57

Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 387
Trawsgrifiad	<p>pan oedd ymladd, chase etc, ac yn newid ei “dactics” fel i danio, neu dawelu, i gyd fynd ar ffilm . Byddwn yn ei edmygu a tafly llygad arno weithiau a sylwi nad oedd yn edrych ar y piano (ei ddwyllaw nar gerddoriaeth) o gwbl, ac yn gwilio a mwynhau y ffilm fel ninnau.</p> <p>Am gyfnod helaeth yr oedd programme pob nos (ond y Sul) ac newid ddwy waith neu dair pob wythnos. Gallaf gydymdeimlo ar chwaraeuwr y piano yn gorfod gwilio neu ddilin o leiaf yr un programme am dair noson yn ddilynol. Y mae yr awch wedi mynd ar ôl gweld y ffilm unwaith. Silent oedd y films wrth gwrs. Yr oedd y rhan fwyaf o honnom (wel pawb) yn shiarad dim ond Cymraeg Pesda, ac anamyl yn gally darford darllen yr ysgrifen pan oedd yn “faith” ar helyw yn cynnwys nifer or oedolion yn cyd-ddarllen ond dim mewn “amser” - rhai yn llusgo mwy na’r lleill, yn rhan uchel fel adnod. Hefyd mi fyddai rhai cymeriadau yn dod yn rheolaidd hefo eu gilydd, ac mae yn amlwg fod un o’r pâr yn llai “diwylliedig “ nar llall, ac ddim yn gally dilyn yr ysgrifen o gwbl, ar cyfaill neu gyfeilles yn ceishio egluro ac rhoi amlinelliad or story (running commentary !) a thori i mewn bron yn ddibaid i egluro rhyw ystyr. Yr oedd y “distraction” yn eithaf diflas a rhai bygythion yn cael eu dweud. Ar y llaw arall yr oedd llawer o sbort yw gael gwranddo ac un glyst ar y cam esbonio.</p> <p>Y drefn oedd film o “News” gyntaf, Pathe Gazette yn cael ei ddilyn gan “Comic” byr. Harold Lloyd (WinKles ?) Charlie Chaplin etc rhain yn cael croeso byddarol. Wedyn y Serial, episode yn cael ei dangos yn wythnosol ac yn cael ei</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109

Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 388
Trawsgrifiad	<p>ddilyn gan y film fawr 4 neu 5 part (reel)</p> <p>Yn ddifeth yr oedd y Serial yn terfyny mewn man cyffrous, rhywbeth arswydus anochel yn digwydd ac arwr neu heroine ac yr oedd yn rhaid bod yn bresennol yr wythnos ddilynol i weld beth oedd yn mynd i ddigwydd a pa wyrth oedd yn mynd iw hachub, ond yn ddifeth yr oedd gwyrth yn digwydd ar arwr(es) yn dod allan o gryfanga marwolaeth sicr. Er ein bod yn cael ein twyllo yn wythnosol yr oeddem yn cal ein tanio yn wythnosol hefyd, ac yn trin a trafod yr amgylchiad trychinebu am yr wythnos bron yn y chwarel ar capel etc. Rhaid cofio bod torriad yn y programme rhwng pob "Reel". Wedi News yr oedd "stop" ar golau cyffredin yn dod ymlaen ac aros ir operator newid reel. Fel rheol yr oedd oedi ac anhawster, "hitch", feallai film a'i phen i lawr neu nol ymlaen. Pan fyddai hyn yn digwydd mi fyddai "whistlo" a "hurray" byddarol, settlo i lawr eto ac tra fwynhau "comic". Wedi hen orffen y golau eto yn dod ymlaen ac felly hyd ddiwedd y programme, "stop" ac goleu rhwng pob Reel, ac ar ddiwedd y Reel yr oedd End of Part 1 (etc). Aros yn ddiamynedd i'r golau fynd allan a gwrando ar y projector yn gwneud sŵn. Twllwch dudew am eiliadau wedi i'r golau cyffredinol fynd allan ac ysbaid cyn ir llen gael eu goleuo gan y projector, ac felly ymlaen. Y films ag oedd yn cael y croeso mwyaf oedd Cowboys & Indians (neu Westerns), nid oedd "dramas" a film neu story gymhleth yn cael fawr o groeso, gan eu bod yn anoddach yw dilyn, ac llai o "action" . Anamyl yr aed trwy programme cyfan, heb y film yn torri, feallai fwy nac unwaith, a golyga ailgychwyn a cael pen llinin, dipyn o aros diflas a swynllyd</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109

Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 389
Trawsgrifiad	<p>Rhaid cofio nad oedd trydan yn yr ardal y cyfnod hwnnw. Nwy oedd yn goleuo y Neuadd yn arferol fel llefydd eraill. Ond oherwydd nad oedd yn bosibl rhoi goleuadau nwy ON ac OFF ar amrantiad ac hefyd oherwydd fod rhaid cael trydan i oleuo'r projector yr oedd y perchennog (Mr Lloyd ?) wedi gosod peiriant cynhyrchu trydan (generator) yn un or antirooms (o dan y llwyfan) ac wedi trefny temporary lighting yn y neuadd. Yn achlysurol mi fyddai rhywbeth yn digwydd i'r peiriant cynhyrchu, ac pob peth wrth gwrs yn "stopio" a "Blewin" (Wm Lewis ?) un o labrws Mr Lloyd yn cyflymu i lawr y passage, ymysg bloeddio "Blewin" ac whistlo ac yn diflany trwy y drws ar ochr dde ir llwyfan. Ar ôl disgwyl, fel rheol yr oedd golau yn dod eto a programme yn mynd yn ei flaen. Ond weithiau yr oedd y "fault" tŷ draw i first aid ac dawn yn gosgorddion ac ar ôl aros maith swllyd, Mr Lloyd yn annerch or llwyfan nad oedd yn bosibl cario mlaen oherwydd "break down" yn y peiriant, ac i bawb gael ei docyn yn ôl ar y ffordd allan. Ar rhyw ystyr yr oeddwn yn llawenhau pan fyddai hyn yn digwydd, oherwydd ein bod wedi cael rhan helaeth o'r programme ar excitement am ddim, ac rhagolygon am noson arall yn ddidal.</p> <p>Ar y dechreu ac am rhai blynyddoedd yr oedd "cwt" y projector ar y llawr ac bron yn ganol y neuadd a phan yr oedd rhai diweddar yn dod i fewn yr oedd eu pennau yn mynd rhwng y projector ar screen, ac yn achosi cysgod a penau enfawr yn symud ar draws y llun ymysg bloeddio a "protest".</p>
Nodiadau	Neuadd – Neuadd Gyhoeddus Bethesda, Neuadd Ogwen bellach
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109
Location description	Bethesda, Gwynedd

Tud	T 390
Trawsgrifiad	Cynllun a nodiadau
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 391
Trawsgrifiad	<p>Yn ddiweddarach fe symudwyd neu adeiladwyd “cwt projector” newydd o concrete (tebyg mai gorfod oherwydd deddf diogelwch) uwch ben safle lle yr oedd yr hen “Booking Office”. Trwy hyn fe gafwyd neuadd fwy ar projector yn tafly uwch ben y gynulleidfa. Erbyn y cyfnod yma yr oedd trydan cyffredin yn yr ardal ac diwedd ar y generator mympwyol. Hefyd yr oedd dau projector a rheini yn gweithio yn hollol automatic ac yn dawel ac yn weindio y film yn ôl etc. Yn y dyddiau cyntaf yr oedd yr operator yn troi y peiriant ai law, ac yn sicr yr oedd yn waith diflas a blinedig, ac o ganlyniad yr oedd dau neu dri yn cymeryd trosodd. Hefyd wedi darfod un reel yr oedd un or caethweision (labrws lleol) yn weindio y film yn ôl ar stand addas ir pwrpas. Ac ar ein ffordd allan ar ôl, neu tra oedd “God Save the King” yn cael ei “chanu”, yr oeddem yn gweld y film olaf yn cael ei thrafod yn benderfynol a gwyllt.</p> <p>Yr ad-dyniad mwyaf syfrdanol a bron tragwyddol ei ddylanwad ar ieuenctid (ac rhai hyn i raddau) yr ardal oedd dyfodiad a theyrnasiaeth yr byth gofiadwy <u>Hooded Terror</u>. Hwn oedd y “villain” yn y serial “House of hate”. Pearl White oedd yr arwyres : fe geishiaf gofio enw yr arwr eto ? Yr wyf yn hollol sicr ac argyhoeddedig na chaf ddim arall fyw o sylw ac argraff ar yr ardal. Er nad oeddwn ddigon hen i gofio diwygiad 1906 ? (cefais fy ngeni y flwyddyn honno) ond digon agos i glywed y straeon ar profiadau ar dylanwad enbyd a</p>

	gafodd ar y gymdogaeth, gallaf yn sicr dweud na chafodd y diwygiad ddim byd tebyg ar gafael ar dylanwad a gafodd yr “House of Hate”
Nodiadau	Diwygiad – Diwygiad crefyddol 1904-1905 Pearl White a Hooded Terror The House of Hate (1918) MUBI
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 392
Trawsgrifiad	<p>ar Hooded Terror ar ardal Bethesda. Yr oedd Cymanfa bregethu, Sasiwn a Cymanfaoedd Canu, Cyngherddau Amrywiaethol, Dramâu, Hoelion wyth yr enwadau ar holl addyniadau eraill ym mhell yn y cefndir mewn cydmhariaeth ar effaith danlyd a gafodd yr “Hooded Terror”. Dyma destun brwdfrydig a llosgawl ymysg yr ieuainc yn pob cwt a phob man arall yn y chwarel. Y neuadd yn orlawn ar nos Lun i weld yr arwr gwrthiol. Er na villain ydoedd, yr oedd yn gally gwneyd pob math o gampau, ac osgoi pob gwrthwynebiad a thrafod pob amgylchedd. Dod o gryfangau angau, rhedeg a llamu ar benau adeiladau, gwau trwy beiriannau cymhleth. Gallai hwn ddweud gyda hyder fel y salmydd “ Pe gweryllai llu yn ein herbyn, nid ofna fy nghalon. Pe cyfodai cad im herbyn yn hyn mi fyddaf hyderys”. Pearl White oedd gwrthrych ei stranciau ac ymosodiadau a hithau trwy rhyw wyrth bron yn ddifeth , trwy gymorth yr arwr (hero) ar yr eiliad olaf yn cael dihangfa wyrthiol. Yn rheolaidd yr oedd y trychineb anochel yn digwydd ar ddiwedd y reel. “Next episode will be shown next week”, a phawb wedi cael eu corddi am wythnos eto. Yr oedd yr “Hooded Terror” yn gwisgo “gown laes” at ei draed ar hood dros ei ben ac ond ei ddwy lygad iw gweld. Yn eithriadol o chwim a “nimble” ac yn symud yn barhaus bron trwy rhyw “tunnels” a trap doors a secret passages etc. Ar brydiau yr oedd ganddo osgorddion a rhain mewn hoods ac yn ychwanegu at gymlethder pethau. Wedi ei weld unwaith a clywed yn wastad am ei</p>

	stranciau ymysg ein gilydd yn y chwarel, ac Ysgol Sul, yr oedd rhaid troi pob carreg i fod yn bresennol y nos Lun dilynol i ein tanio unwaith eto.
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 96, 109
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 393
Trawsgrifiad	<p>Os oeddem yn gweithio yn y chwarel, yr oedd i fynny i ni i budgetio ein pres pocad, a gyda gofal yn trefny ein gwario ! gallem gadw 3d at y wledd. Ond i rhai oedd yn yr ysgol ac yn enwedig Ysgol Ganolraddol yr oedd yn galed. Nifer at yr un oed a ni a fawr o obaith am geiniog ond beggera yn daer ar y fam nad oedd ganddi ddim yw sbario. Cofiaf i fy mrawd gosaf i mi wneud pob ymdrech i “grafy” 3d, hel crwyn tatws o dy i dy ac mynd a nhw i fferm gyfagos gan obeithio cael ceiniog am danynt. Cynnig gwneud negeseuon i hwn a llall, neu arddio. Rhywbeth er codi 3d, neu rhan or 3d, wedi wranglio 1d neu 2d yr oedd gobaith wedyn i fynd trost pen fy mam am y gweddill, neu “fegera” gen i.</p> <p>Yr oedd o ac amrhyw eraill bron yn benderfynol o fynd i mewn , taly neu beidio, stelcian yn ymyl y drws a gwilio yn ddyfal ir person yn y “booking Office” droi ei chefn am eiliad, ac heibio ar amrantiad. Feallai llwyddo, neu fethiant, dim yw golli ond cael ein hyrddio allan, os yn aflwyddiannus. Yr oedd rhaid gorchfygy yr ail rwystyr, sef y person yn casgly y ticedi, os oedd nifer dda ar eu ffordd i mewn yr oedd gobaith yw osgoi, trwy wau ynghanol yr oedolion. Ffordd arall i fynd i mewn oedd trwy gynnig hen dicad. Oherwydd “cancelio” programmes a dro i dro - oherwydd diffyg ar y peiriant etc yr oedd “traffic” brwyd mewn hen dicatedi, a beggerio a prynu yn rhad, ac mentro i fewn hefo tocyn or fath gyda gobaith ofnys ac hyder weithiau yr oedd</p>

	llwyddiant, tro arall shiom. Yr oedd o ac nifer eraill o rhai cyffelyb wedi “taro” ar gynllyn anghyffredin ac anturiaethus i gael mynediad. Yr oedd dau ddrws EXIT ar ochr chwith ir neuadd (350) yn agor i strydoedd
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 394
Trawsgrifiad	<p>cefn ac ar ddiwedd y rhaglen gellid mynd allan trwy rhain ac trwy “entry” ir Stryd Fawr. Nid oedd y drysau yma yn cael ei hagor ond ar ddiwedd rhaglen. Yn enwedig ar noson “pictures”, nid oedd yn bosibl eu hagor or tŷ allan, ond gan y safety bar tu fewn.</p> <p>Bum fy hun nifer o weithiau yn aros yn ddiflas ar y grishiau llechi tŷ allan ir drysau yma, ymysg nifer arall, pan fyddai cyngherdd neu ddrama etc yn mynd ymlaen, ac yn gwrando ar y chwerthin ar hwyl, ac yn y diwedd blino a gwneyd ein ffordd gartref neu i shiop chips os oedd ceiniog ar gael. Yr oedd fy mrawd ac nifer oi gyfeillion tŷ allan ar nos Lun cyn ir rhaglen ddechreu, ac dyma un yn tarro ar gynllun, ag oedd shiawns i lwyddo. Ymysg y trueiniaid oedd ar y grishiau dyma cael cyfri faint o arian oedd ganddynt rhyngddynt, rhai hefo ceiniog ar llall a dima ar helyw efo dim, ond fel rheol gallant gasgly 3d ceiniog. Ar cynllun oedd i fy mrawd fynd i mewn yn gyfreithlon ac eistedd mor agos ac y gallai ir EXIT drws canol (350) ac eistedd yn barchus nes byddai y goleu yn mynd “off” ar ffilm yn dechreu. Ar amrantiad yr oedd yn codi fel bwlat o wn ac yn rhuthro at y drws. Yn erbyn y “safety bar” ar dau ddrws yn agor yn ddireol a gwyllt ar fintai oedd yn disgwyl tu allan yn rhuthro fel bytheiaid or passage tywyll, ac yn ceishio chwaly i rhywle fel ieir dall, syrthio yn erbyn hwn a llall, cael eu bygwth ai “dyrnu”, rhai yn llwyddo i gael sedd wag a ceishio settlo yn ddieuog, lleill yn cael eu hyrddio yma ac acw, yr holl gynhwrf ar perfformiad yn cymeryd ond ychydig eiliadau</p>

Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 395
Trawsgrifiad	<p>hyd nes ir awdurdodau sylweddoli, a cael cyfle i rhoi y goleu cyffredinol ymlaen, ac nifer helaeth or drwg weithredwyr yn parhau i grwydro yn euog ac yn gwneud eu ffordd am y drws ymysg bygythiadau ac erlid. Yn naturiol yr achwynwyr mwyaf oedd y gynulleidfa – “the poor will starve the poor”. Yr oeddynt wedi talu yn anrhydeddus am fynd i mewn, ac wedi settlo lawr yn gyfforddus i wyllo y programme, ac dyma darddy ar ei pleser gan y drysau yn burstio yn agored, sŵn byddarol, y gwynt oer yn dod i fewn, ruffians direol yn rhuthro i fewn, syrthio ar ei traws, sathru ei traed, ffilm yn stopio ar goleu yn dod ymlaen. Gellir deall eu gwrthwynebiad ir tarddu afreolaidd, ac gyd ag eithriad yr oeddynt yn fwy na parod i ddangos allan y troseddwyr . Ond fel yn mhob man yr oedd nifer fach a “sense of humour” ac fawr lai na edmygy y fenter ar cynllyn, ac yn gwneud lle a cysgodi rhai, ac fel rheol yr oedd ¼ - 1/3 or nifer yn llwyddo.</p> <p>Fe lwyddodd y cynllun yma i rhaddau am beth amser, or diwedd fe fy gwilio ar y drws, ac o ganlyniad dyma ddiwedd . Ond nid oedd hyn yn attal datblygu scheme arall, er enghaifft ceishio dod i mewn yn ddirgel trwy ddrws yr anteroom os oedd eiliad o gyfle.</p> <p>Yn wir yr oedd y brwdfrydedd tanllyd penderfynol i weld yr “Hooded Terror” yn cynhyrchu pob dyfais i fynd i mewn , ac yr oedd torri i mewn ir neuadd yn cystadly yn deg a ymdrech a phenderfyniad y carcharorion i dorri allan o Colditz. Cofiaf i John fy nghefnder a finau pan oeddem yn bela y cyfnod hwnnw ac tra oedem yn Jermons bach nid oeddwn yn newid gyda'r nos</p>

Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 396
Trawsgrifiad	<p>os na oeddem ynmynd ir capel neu gyngherdd. Ond i chwarae o amgylch Pant ac i fynd i'r pictures yr oeddem yn aros yn ein dillad "mynd a dŵad". Rhyw lyfiad o folchi a rhoi sgidiau sgafnach, a "crafat" i guddio y gwddf blêr, feallai raincoat neu "dopcoat" ailorau yn cuddio y gweddill, a dyna ni yn teimlo yn barchus. Oherwydd y tywyllwch yn y pictures a natur y gynulleidfa, nid oedd angen fel i fynd ir seiat etc, ac os oedd y dillad "mynd a dŵad", yn enwedig y trowsus mewn cyflwr gweddol, nid oedd awydd na phwrpas i newid, ac yr oedd trowsus melfaréd yn gynnas ac yn sefyll i fynny ir kickio pel glwt, crwydro caeau a gerddi, dros cloddia, etc.</p> <p>Ie, yr oedd John a finau wedi dod ar draws dau docyn 1/6 yr un mi gredaf, nid wyf yn cofio yn iawn. Fodd bynnag, tocynnau y seddau <u>goreu</u> oeddynt. Rhwyf yn meddwl mai eu codi oddi ar y llawr yn "entrance" y neuadd a wnaethom, buom ein dau yn syllu arnynt ac eu "examio" yn fanwl. Wedi sicrhau ein hunain eu bod yn "genuine" , dyma fentro i fewn ar unwaith a pob man yn oleu ac amser da cyn ein rhaglen ddechrau. Ychydig iawn oedd yn y neuadd . Aethom heibio y "dyn hel ticedi" yn ddidramgwydd ac eistedd fel "lordiaid" yn y seddau goreu (yn flaen y neuadd) ac ond y ni yno, ac yn aros yn ddiamynedd ir rhaglen ddechreu. Wrth gwrs buasai yn ddoeth ar ein rhan pe buasem wedi aros nes buasai y rhaglen ar ddechreu, neu wedi dechreu, ac mwy o lawer o gynulleidfa a diogelwch y tywyllwch. Ond yn ein diniweidrwydd ac annoethineb aethom i mewn yn ddioded yn y tawelwch ar goleuni, ac eistedd yn y lle goreu yn wisg belwrs bach y chwarel. Yr oedd yn hollol amlwg i bawb nad oeddem yma yn gyfreithlon.</p>

Ni fuom yno yn hir cyn i Mr Lloyd ddod atom, er ein braw, ac gofyn i ni lle oeddem wedi cael y tocynnau gan nad oeddynt wedi gwerthu yr un tocyn or pris uchaf. Nid wyf yn cofio ein hateb, tebyg ein bod wedi dychryn gormod, ac feallai ond hanner ei ddeall. Cawsom ein marchio yn ddiseremoni i ddrws y Neuadd a cofiaf byth ei ddywediad "Run for your life", ac nid wyf yn credu i ni stopio nes cyrhaedd y "Bull".

Ar nos Iau yr oedd serial arall, "The mystery of the seven pearls", ond chafodd hwn mwy na 'run serial arall y gafael gafodd "The House of Hate". Adyniad tanllyd arall oedd "cowboys", yn enwedig Tom Mix, yr oedd hwn ai gyffelyb yn cael croeso brwdfrydig.

Pleser arall i felysu bywyd oedd ymweld bron bob nos ar "Amusements". Yr oedd rhain yn dod bron yn rheolaidd pob gaeaf ir ardal, ac yn aros am rhai wythnosau fel oedd y cefnogaeth. Yr oeddynt fel rheol yn ymsefydly, ar ôl tymor y ffeiriau, mewn cae ddim ymhell on tŷ ni, ac ar fin y ffordd fawr yn ngwr uchaf stryd fawr Bethesda, a pobl ifanc yr ardal yn enwedig bechgyn y Chwarel yn tyru yno bob nos, yn enwedig Nos Wener a Nos Sadwrn. Llwm fyddai y cefnogaeth nos Fawrth a nos Iau, ac am gyfnodau nid oeddynt yn agor ond nos Lun, Gwener ac Sadwrn. "Simon and Tugoo" oedd yr enw, ac byddai sŵn y peiriant (mechanical organ) yw glywed trwy yr ardal ar golau trydan yw weld yn adlewyrchu drost y dyffryn. Nid oedd yr holl set up yn fawr, ond yr oedd yn rhywle i fynd ac i dreulio awr neu ddwy. Ar nos Wener ac Sadwrn yr oedd dipyn o "activity"

Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 109, 55
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 398

Trawsgrifiad	<p>ac yn enwedig ar ôl ir Tafarnau gau. Wrth gwrs yr oeddem yn nabod pawb, ac yn gwybod lle yr oedd yn debygol i gael “excitement” ac feallai “fight”, rhai wedi meddwi yn herio eu gilydd ar y “Try your Strength” etc, ar ordd fawr yn cael ei chodi yn uchel ac yn tarro y target ar gloch efallai yn canu. Hefyd cyplau o dan ddylanwad y ddiod yn mynd ar y swings ac yn sefyll ar eu traed ac gyrru yn wallgof, a thyrfa wedi ymgynyll yn hyrwyddo a phorthi . Ar swings yn cael eu gyru yn wallgof ir entrych nes oedd y dynion au penau i lawr ar holl set up yn cael ei siglo fel cawell. Or diwedd yr oedd y gofalwr yn rhoi y brake ymlaen ac arafy y gwallgofiaid.</p> <p>Byddwn yn cael pleser yn gwilio y Traction Engine anferth ac hardd, wedi ei phaentio yn hardd a llawer rhan yn sgleinio, ac wedi ei gaboli ir eithaf. Byddwn yn edrych arni gyda edmygedd ac yn gwilio pob symudiad, ei gweld yn gweithio mor rheolaidd ac diymdrech, ac belt hir yn cysyllty y fly-wheel ar “Generator” ar y blaen, ac o dan hwn y “control panel”, switches ar meters etc. Teimlo yn eiddigeddus or cyfaill oedd yn edrych ar ei hol. Yn y cyfnod hwnnw (tua 1922) yr oedd y Merry-go-Round yn cael ei gyrru gan ager, ac steam Engine bach addas, hon eto wdi ei chaboli ir eithaf, ac yn destyn sylw ac edmygedd parhaus. Yr oedd yr organ yn rhan or Merry-go-Round, yn y lle diogel yn y canol, ac yn cael ei gyrru gan felt or Injan ager. Yr oedd yr organ yn cael sylw arbennig hefyd, a pleser diddiwedd oedd sylwi a gwrando ar y “music” yn cael ei chware trosodd a throsodd ac ninnau wedi dod yn hen</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 55
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 399
Trawsgrifiad	gyfarwydd a hwynt. Yr wyf yn cofio rhai hyd heddiw. Sylwi a gweld y dynion bach yn symud eu penau a tharo cloch bach yr un amser, a cael cip ar y cefn lle yr oedd “drum” a reil fawr o bapur tyllog yn symud yn araf ac yn

	<p>diflanu i'r crombil. Yn ddiweddarach fe wnaed i ffwrdd ar injan ager y Merry-go-Round (a diflanwyd lot or chymeriad) ac fe gyrwyd a thrydan . Hefyd fe symudwyd yr organ , ac hon o hyn ymlaen yn “free standing” ar lorry, heb gysylltiad ar Merry-go-Round. Ac felly yn rhaddol fe wnaed i ffwrdd ar ager fel grym, oddigerth y “Traction Engine” oedd yn cynhyrchu trydan at bob pwrpas. Er ein gofid a colled enbyd fe wnaed i ffwrdd yn ddiweddarach ar “Traction Engine” ac yn ei lle fe ddaeth y “Diesel Engine” ddigymeriad, a collodd yr Amusements eu hadyniad.</p> <p>Yr oeddwn hefyd yn mynychu bron pob cyngherdd dramâu etc, a cyfarfodydd plant. Yr oedd pob capel yn cynnal Cyngerdd y Plant ar ddiwedd tymor y gaeaf, er ceishio codi elw at y Gwibdaith yn yr haf. Yr oedd y cyngherdd yn cael ei gynnal gan blant y Gobeithlu or lleiaf i'r mwyaf, nifer yn adrodd ar lleill yn canu, rhai duets ac “action songs” etc ac fel rheol ar y diwedd yr oedd “Dadl” (drama fer).</p> <p>Yr oedd pob un yn cael ei cefnogi yn deilwng a gryn gystadleuaeth rhwng y capeli – yn enwedig “cymdogion” ac enwad arall. Yr oedd yn lei i fynd ar noson waith ac yn torri dipyn ar chware yn groeslon Pant a crwydro cyffredin a llifio coed etc. Rhan helaeth or gynulleidfa oedd plant ac pobl ifanc a rhain i gyd yn y lloft (gallery) ar oedolion yn y llawr.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes cymdeithasol
What Facet	61, 55, 43, 46, 49, 96
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 400
Trawsgrifiad	6d fyddai tocyn, 3d i blant, ac mi fyddai yr elw o £5 i £7. Nid oedd drafferth cael mynd i mewn am ddim fel yn y “Cinema”, oedi digon o gwmpas y drws ac fel rheol wedi i'r cyngherdd ddechreu, yr oeddem yn cael ein

	<p>hebrwng i mewn gyda shiars i “fyhafio”. Hefyd yr oedd cymdogion “diblant” wedi prynu ticad at yr “achos” yn eu trosglwyddo i ni am fynd a negas etc.</p> <p>Yr oedd cyngherddau “uwchraddol” yn cael eu cynnal yma ac acw yn y capeli, ac hefyd yn y Neuadd, er codi cyllid at yr achos, er ceishio lleihau y ddyled, neu gostiau eraill. Yr oedd rhain ar rhaddau uwch, ac arbenigwyr lleol yn cymeryd rhan, weithiau cor neu barti o ardal gyfagos. Yr oedd mynediad i mewn yn 2/6 a 1/- feallai ac allan on cyrhaedd, ac eto yr oeddem yn llwyddo bron yn ddifeth i fynd i mewn. Wrth gwrs dynion lleol oedd y gwylwyr ac yn sicr yn ein lled nabad ac yn gyfarwydd ar drefn. Or diwedd feallai i gael gwared a ni or drws, yr oeddem yn cael ein gadael i mewn, eto gyda “warning”.</p> <p>Cofiaf yn dda y rhagleni neu byrdwn cynhwys y cwbl. Rhaid bodloni ar enwi rhai. Y cor meibion yn canu : “Pererinion”, “Milwyr y Groes” , “O Mor Ber”, “Comrades Song of Hope”, datganiad or olaf yn cael derbyniad byddarol, er na welais erioed y geiriau mewn print yr wyf yn eu cofio heddyw heb drafferth. Unawdai a deuawdau bron yn ddieithriad yn ymwneyd a thrais a gormest ein cenedl. “Y Marchog”, “ Y ddau arwr”, “Y ddau wladgarwr”, “Gwys ir gad” a llu eraill. Adroddwr profiadol yn adrodd darn dagreuol pryddglwyfys yn ymwneud a trychineb, neu safle difrifol ar yr aelwyd, diflasdod oedd yr adroddiadau hyn i ni ieuenctid. Ond mwy diflas oedd araith y llywydd, ond yr oedd yn beth doeth yw gael gan ei fod fel rheol</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 96, 43, 46
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 401

Trawsgrifiad	<p>yn rhoi cyfraniad sylweddol at yr achos, ac fel rheol yr oedd yn ŵr blaenllaw yn yr ardal, cadeirydd y Cyngor, Ysgol feistr, etc. Byrdwn yr anerchiad oedd seboni a canmol y datganwyr, neu yr achos a pwrpas y cyngherdd. Ar nos Sul am gyfnod pur faith, yr oedd Cyngherddau yn cael eu cynal yn y neuadd am 8 o'r gloch or hwyr. "Sacred concerts" y gelwid, nid oedd cyngherddau cyffredin yn cael eu goddef ar y Sul oherwydd eu bod yn groes i arferiad ac egwyddor y Sul. Felly, er cyfiawnhau eu cynnal, cawsant y "lebal" "Sacred". Yn wir yr oedd y Rhaglen yn eithaf dethol a priodol i'r Sul, ac nid oedd dim ac arlliw o hwyl neu sport yn cael ei ddatganu etc. Nid oedd anghen tal am fynd i fewn, ond fod "silver collection" a pawb yn crafy 6d neu dair ceiniog wen. Llawer mwy yn amlwg yn rhoi "copars". Yr oedd pwrpas y Cyngherddau yma yn deilwng iawn, ac elw yn mynd at Gronfa y Nurses. Y mae yn amlwg nad oedd gwasanaeth y gweinyddesau yn cael ei gwbl noddi gan y Wladwriaeth ar Sir, ac fod rhaid rhoi cefnogaeth a cymorth lleol fel hyn. Fodd bynnag, yr oedd yn le eithaf diddorol i fynd ar Nos Sul a cael adloniant rhad a hwyl. Talentau lleol oedd yn cadw y rhaglen i fynd, ac yr oeddem yn eu hadwaen i gyd, ac wedi hen gyfarwyddo ar eitemau a bron yn sicr yn gally rhag weld testyn y gan etc. Yn yr holl gyngherddau dramâu etc yr oedd adyniad cryf arall, y genethod at ein hoed yn cael sylw.</p> <p>Yn y cyfnod hwnw yr oedd "Darlith" yn led boblogaidd ac nifer or addoldai yn eu tro er ceishio codi arian yn ddiraffferth yn cael rhywun oedd yn adnabyddys ac yn enwog</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	43, 46, 61, 96, 57
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 402
Trawsgrifiad	fel darlithydd i ddod i draddodi Darlith ar noson waith yn y capel. Swllt fyddai tocyn ac 6d i'r plant – neu daly wrth y drws. Cofiaf am enw William Jones Aber oedd yn adnabyddus fel darlithydd. Er fy mod yn ifanc yr wyf

	<p>yn cofio nad oedd fawr o sylwedd ynddynt, ac yr oedd poblogrwydd y darlithydd yn dibynnu ar faint o chwerthin a sport oedd y gynulleidfa yn eu cael . Y ddarlith wedi ei gwau rhwng stryon doniol. Fodd bynnag codi arian yn ddiraffferth oedd y pwrpas ac wedi taly £1 neu rhagor ir darlithydd a printio tocynnau, feallai fod £10 o elw, yr oedd hyn yn sylweddol y cyfnod hwnnw.</p> <p>Hefyd yr oedd dramâu yn boblogaidd iawn ac un neu ddau o gwmnïau lleol yn ei llwyfany. Yr oedd cwmni drama neu ddau yn rheolaidd yn yr ardal am flynyddoedd lawer – er engraifft Cwmni John Jones Pant, ac ar eu sodla Cwmni Hughie Corbri etc. Cofiaf ir cyntaf pan oeddwn i blentyn yn perfformio am flynyddoedd y ddrama “Y ferch o Gefnhydafa” ac yr oedd galw mawr am danynt yn yr ardaloedd cyfagos – Caergybi, Portmadoc, Stiniog etc. Pan oeddynt yn perfformio oddi cartref yr oeddynt yn symyd fel circas, gan eu bod gorfod mynd ar “sceneri” a rhai dodrefn a dillad efo nhw. Ac yr oedd yr aelodau “cast” tua 30 o rif ac “hangers on”, gwragedd a labrws etc, ac yr oedd yn ofynnol llogi dwy motor coach, ansicr eu hwyl, i fynd ar fintai . Prin oedd yr un mudiad yn gwneud elw am eu perfformiad , erbyn eu bwydo hefyd, ond yr oeddynt yn cael llawer o hwyl. Cofiaf i fy nhad ddweyd fod y “coaches” wedi “chwythu eu plwc” ar ganol allt Crimea, ar noson arw yn y gauaf. Mae yn amlwg ar ôl gorphwys ac oeri yr aethant yn eu blaen, ond profiad ofnadwy oedd gorfod aros yn yr unigeddau uchel, ac ond gwacter tyfn tywyll yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	48, 49, 61, 77
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 403
Trawsgrifiad	ymestyn oddi tanynt ir pellter, heb wal na ffin ar y ffordd, ond mynydd moel.

	<p>Yr oedd fy “nhad” yn aelod o’r cwmni ac fo oedd y “patriarch”. Yr wyf yn cofio gweld y ddrama yn y Neuadd ac nid oedd yn ymddangos ond am ychydig funudau. Yr oedd nifer helaeth or cwmni ac ond “darnau” bach ganddynt, ond dyma ffaswin y cyfnod ymysg y werin. Yr oedd darlyn or cwmni yn ein cartref ni. Y mae wedi mynd ar ddifancoll ond credaf fod rhai ar gael yn yr ardal o hyd..</p> <p>Yn ddiweddaraf ar ôl y rhyfel (1914-18) y mae yn amlwg fe wnaeth John Jones Pant (Tŷ maes) ddrama ei hun o dan y teitl “O’r Gerlan i’r gad”, ac mi fy mynd mawr ar hon ar hyd a lled yr ardaloedd. Yr oedd nifer o gwmnïau yma ac acw yn yr ardaloedd cyfagos, ac rhain yn ymddangos yn y Neuadd o dro i dro. Yn eu tro fe daeth cwmni drama Hugh Corbri (capal Llan : Peniel ?). Credaf ei fod o wedi cynhyrchu rhai dramâu ei hun, ac yr oeddynt hwythau yn ymddangos yn y Neuadd yn amyl. Fel rheol yr oedd y lle yn orlawn, ac elw at achos arbennig. I sicrhau gwir lwyddiant a derbyniad i ddrama yr oedd rhaid cael saethu. Cofiaf pistol ir pwrpas gan fy nhad – yr oedd yn hollol ddiogel ond fod ganddo glec a flach ofnadwy, ac yr oedd hynny yn ddigon ac yn sicr o gael derbyniad. Yr oeddem yn gwybod fod “saethu” i ddod , ac yn edrach ymlaen ir achlysur.</p> <p>Nid oedd llawer o anhawster”smugglio” i fewn ir dramâu, gwilwyr lleol eto fel arfer, ac eu calon yn meddaly or diwedd, a i gael gwared a ni yn ymrafeilio ger y “giât fawr”.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	48, 49, 61, 117
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 404
Trawsgrifiad	Yr oedd gweithrediadau y capal yn mynd a llawer on hamser wrth gwrs. Yr oedd bron pawb yn gysylltiol a chapal neu eglwys, ac yn ôl arfer y cyfnod yr oeddem yn mynychu y “cyrddau” heb rwgnach ac yn naturiol yr

	<p>oedd pawb yn mynd ac peth od fyddai i ni beidio. Yr oedd ein cyfeillion i gyd yn mynychu cyfarfodydd y capal neu eglwys . Y mwyafrif ohonom yn ymneilltuwyr ac nifer dda on “mates” agosaf yn aelodau or un capel, sef Trefyls, Gerlan. Felly yr oeddem yn cael cadw yn ein cylch a cael cwmni ein gilydd a lot o hwyl ym mywyd y capel.</p> <p>Yr oeddem pawb or plant ar yr aelwyd yn mynd i’r capel dair gwaith y Sul, ac weithiau yn amlach os oedd rhywbeth arbennig. Nid oedd yr ystyriaeth i beidio a mynd yn croesi ein meddwl. Yr oeddem yn mynd i’r capel mor rheolaidd ac yr oeddem yn mynd i’r Ysgol ddyddiol, dim cwestiwn o beidio mynd o gwbl, ac ychydig iawn yr ydwyf yn gofio i ni fod yn sal, ac nid wyf yn cofio i ddim llai na “tymestl” ein cadw gartref. Yr oedd ein cartref yn fychan, un ystafell fyw gweddol eang ! ac dwy shiambar, ac yr oedd yn rhaid cael gwared a ni “oddi ar y ffordd” iddi gael cario ymlaen hefo gwaith a gwneud cinio ar ein cyfer wedi i ni ddod gartref.</p> <p>Yn ystod yr wythnos yr oedd Seiat neu Gyfarfod Gweddi, Band of Hope, feallai Cymdeithas, ac rhwng yr holl weithrediadau y capel ac adyniadau “allanol” yr oedd digon i fynd an bryd, a bywyd yn eithaf llawn a prysur a diddorol. Yn flynyddol yr oedd Cymanfa ganu y plant yn cael ei chynnal yn Bethesda a Bangor bob yn ail. Yr oedd yn arfer i practicio a cael cyrddau Canu ac rhyrsials er dod yn gyfarwydd</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 96
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 405
Trawsgrifiad	ar tonnay newydd (rhai). [Hefyd yn y cymanfaoedd canu yma yr oeddem y cael ein gwobrwyo. Fel rheol Tystysgrif “grand” an henw arno ar dosbarth yr oeddem wedi bod yn fuddigol ynddo, darlyn o SR ar un gongl

	<p>iddo ac Tany Marian ar y gongl arall. Nid oedd gennym syniad pwy oedd y naill nar llall ac neb wedi trafferthy i egluro i ni pwy oeddynt ! - na pam oedd ei darluniau ar y Tystysgrifau. Yr oeddem yn gwybod ymlaen llaw os oeddem wedi llwyddo, o rhan hynny prin oedd neb yn methu gan fod dosbarth ar gyfer y cryf ar gwan. Yn cyfarfod y prydnhawn yr oedd y gwobr wuo, a cael ei atalnodi trwy ganu emynau y plant. Wedi galw ein henwau (yn ein tro) yr oeddem yn mynd i'r llwyfan, ac sefyll yn rheng i ddisgwyl galw ein henw yn bersonol ac wedyn derbyn y Tystysgrif, a mam yn gweny ac ymchwyddo yn ei sedd. Cofiaf i gymaint or Tystysgrifau yma fod yn ein cartref, digon i bapuro y tŷ bron, ac mam wedi ei "fframio" ym mhob man, pedair a chwech mewn Group mewn ffrâm mawr] leave out (this was before my Quarry days)</p> <p>Yr oeddem pan yn blant yn cael ein trethu an blino yn flynyddol gan arholiadau ysgrythyrol. Dysgu strybed o adnodau a cael arholiad. Wedi mynd heibo oed arbennig (11-12) yr oedd yr arholiad yn ysgrifenedig ; yr oedd hon yn fwgan mawr i ni, ond er taer erfyn nid oedd yn bosibl eu hosgoi. Ond wedi mynd i weithio ir chwarel, yr oedd ein rhieni yn ildio yn rhaddolond anfoddlawn, ac hyd y diwedd yn ymbil arnom i drïo yr arholiad gan edliw fod hwn a hwn yn gwneyd.</p>
Nodiadau	SR – Parch Samuel Roberts Tany Marian – Parch Edward Stephen
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 96
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 406
Trawsgrifiad	Ond ar ôl dechreu gweithio yn y chwarel yr oeddem yn teimlo ein bod wedi mynd heibio cyfnod "plant", ac ein bod ar drothwy bod yn ddyinion, a dyna ddiwedd ar y gaethglyd "arholiadau".

	<p>Yn y cyfnod pan oeddem “Jermyns” yr oedd Cymanfa Annibynwyr y Sir yn cael ei chynnal yn y pavilion yn Caernarvon bob 5 neu 3 blynedd, a brwdfrydedd a darpharu mawr ar ei chyfer. Yn ychwanegol i’r Service dyddiol yr oedd trains special yn rhedeg o Fethesda i Caernarvon. Yr oedd tri cyfarfod, bore, pnawn a’r hwyr, yn cael eu cynnal yn y pavilion anferth a’r lle wedi ei drefnu yn briodol ar gyfer yr wyl, orchestra fawr a grand piano etc, ac oddeutu 5 i 8 mill o bobl yn ymgynnull i ganu emynau dethol dan arweiniad rhai fel Dr Caradoc Roberts. Oherwydd maint yr adeilad ac nifer y bobl, yr oeddem yn cael llwyr rhyddhad oddiwrth llyffeithair ein rhieni, a cael ymgolli yn braf a gwneyd fel y mynom, er ein bod yn cael ein rhybuddio i bresenoli ein hunain yn y tri cyfarfod. Er cael gweld y “setup” ac nad oedd fawr o adyniad gwell, yr oeddem fel arfer yn mynychu cyfarfod y bore, ac yn bodloni ein cydwybod, ac ateb cwestiynau ein rhieni. Ond ar ol cael cinio – tatws a pys poeth a cig oer yn “Ceiliog pheasant” neu lefydd bwyta cyffelyb cyfagos am tua 6D- 1/- a phob man yn orlawn a gwthio i gael lle mewn ystafell fach – wedi ymborthi “off” a ni am y castell, talu ceiniog neu ddwy am fynd i mewn. Yr oedd yn amlwg fod nifer o blant a pobl ifanc tebyg i ni ar un bwriad. Nid oeddem yn gwybod dim am hanes y Castell, na pwy oedd wedi ei adeilady ac i beth, ac nid oedd cwestiynau o’r fath yn croesi ein meddyliau. Y ffaith oedd ei fod yn guddfan a lloches diddorol i grwydro ac</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 96, 110, 77, 92
Location description	Caernarfon ; Bethesda, Gwynedd
Tud	T 407
Trawsgrifiad	“explorio.”. Tyrau, passages tywyll, grishiau, celloedd a dungeons, lle anferth i’r hogia gael crwydro yn ddiidwedd. Gwneud ein ffordd fel anwariaid rhan rhedeg i fyny grishiau troellog i ben y twr uchaf, ac edrych ar y wlad yn y pellter ac o danom sgwar Caernarfon a pobl yn gwau yn ol a blaen, a teimlo yn hollol ddiogel na fuasai

	<p>ein rhieni na David Evans yn ein gweld. Gweld twr arall yn y pellter a ceisho gwneud ein ffordd trwy grishiau a passages cymleth ei ei gyrhaedd, rhedeg yn ol ac blaen fel bytheiaid i lawr i'r gwaelodion cyn belled ag oedd bosibl i'r dungeons. Meddwl am y trueiniaid carcharorion a oedd o bosibl wedi bod yma. Gweld twr neu durau eraill a trio cyrchu iddynt, sylwi fod nifer a rhai cyffelyb i ni yn crwydro yn wyllt a direol yma a thraw, gweld penanau yn ymddangos yn rhigolau y walia neu ar ben y tyrau. Erbyn diwedd y pawns yr oeddem o rhaid wedi arafy, ac yn teimlo yn flinedig ac wedi cael llond bol ar y castell, ac dim eishiau ei weld am ysbaid eto, ac allan a ni yn flinedig a llwglyd. Cael rhyw fath o luniaeth rhad mae yn debyg ac gwneud ein ffordd yn barod iawn am y Pavilion at gyfarfod yr hwyr i gael gorphwys a mwynhau yr "entertainment", ac i rhywun oedd yn ein nabod i dystio bod ni yno. Hefyd ar ol mynd gartref yr oedd yn ofynol i gyfrany ychydig yn ein canmoliaeth o bethau arbennig y cyfarfod. Yr oedd cyfarfodydd pregethu yn boblogaidd iawn yn y dauddegau a hoelion wyth yr enwadau yn dod yn eu tro i'r ardal. Cyfarfodydd yn cael eu trefnu bob nos am wythnos ac yn aml mewn mwy nac un capel, a'r addoldai yn llawn. Rhaid ond enwi 3 neu 4, Jubilee Young, John Thomas Blaenwaen, M.P Morgan Blaenannerch, Phyllip Jones, Elvet Lewis , etc etc</p>
Nodiadau	David Evans – blaenor yn Treflys (A), Bethesda, y plant yn ei ofni'n fawr
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 92, 110, 96
Location description	Caernarfon ; Bethesda, Gwynedd
Tud	T 408
Trawsgrifiad	Oherwydd ein bod yn ifanc feallai nad oeddem yn cymeryd diddordeb na ymgais i ddilyn y bregeth yn ddiwinyddol. Ond yr oedd y torfeydd yn dylifo iddynt a rhaniad yn y 4 ardal a'r chwareli, ac yr oedd canu da ac

	<p>hwyliog, yr oedd cynesrwydd, cysgod a golau ac yr oedd yn entertainment rhad ac rhywle i fynd ac yr oedd yn newid o grwydro y caeau etc yn gyffiniau Pant.</p> <p>Yr oedd cyfarfod pregethu yn ein capel ni yn flynyddol. Yr oedd yr enwad Annibynwyr yn yr ardal yn trefnu ei cymanfa bregethu ar y Pasg : dechrau nos Sadwrn a thrwy y Sul a'r dydd Llun. Yn raddol fe wnaed i ffwrdd a'r cyfarfodydd dydd Llun. Yr oedd 5 neu 6 o addoldai yr enwad yn y Gymanfa, a thaflen yn cael ei thynnu allan. Yr oedd yr hoelion with oedd wedi eu gwadd gan y gwahanol gapeli yn pregethu yn y gwahanol gapeli yn ol y trefniant, ond eu bod yn pregethu nos Sul y Pasg yn y capel oedd wedi eu gwahodd. Felly yr oedd yn bosib clywed 5 neu 6 o'r "hoelion wyth" yn ystod y Gymanfa, pregethwyr mawr fel Elved Lewis, D.J. Lewis Tumble, Gwilym Rees Halifax etc.</p> <p>Nid oedd obaith osgoi y cyfarfodydd arbennig yma. Feallai y cawsem faddeuant ac osgoi cyfarfod pnawn a nos Lun. Yr oeddent yn wahanol i cyfarfodydd wythnosol undonog ni, yr oedd llawer mwy o gymhelliad : ac nos Sul mi fyddai y capel yn llawn, ac yr oedd yn newid gweld wynebaw dieithr a'r llofft yn llawn yn lle yn hollol wag. Hefyd yr oedd "rheswm" i berswadio ein rhieni i ni gael treat a cael mynd i eistedd i'r llofft, yn lle bod yn garcharorion yn ein sedd arferol y Sul cyffredin. Ar ol taer erfyn weithiau yr oedd ein rhieni yn ildio wedi sicrhau fod hwn a hwn yn cael mynd</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	96
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 409

Trawsgrifiad	<p>a sicrwydd y buasem yn “byhafio”. Fel rheol yr oeddem yn dewis lle ar yr ymyl, ac o ganlyniad yr oedd lygad pawb arnom, ac yr oeddem yn ofni rhai. Weithiau yr oeddem yn dewis y sedd uchaf uwch ben y clock, neu y buarth. Nid oedd ein rhieni yn ffafrio y dewis yma, gan ein bod o’r golwg a cael mwy o rhyddid.</p> <p>Yr oedd holl eglwysi Methodistiaid Calviniaidd y cylch a rhai enwadau eraill yn cau ar wyl y Pasg ac yn uno ac annibynwyr felly yr oedd cynulliad graenus ac newydd yn lle yr hen wynebau undonog. Sulgwyn yr oedd trefniadaeth cyffelyb gan y Methodistiaid Calviniaidd, ac annibynwyr a rhai eraill yn cau am y Sul ac yn rhoi cefnogaeth yw Cymanfa hwy. Yr oedd Cymanfa’r Sulgwyn yn nefolaidd i ni, oherwydd ein bod yn cael crwydro i unrhyw un o’r capeli, er fe ddisgwylir i ni fynychu capel Y Gerlan gan eu bod yn gymdogion a ni. Ond yr oedd ein rhieni yn eithaf hapus os oeddem yn mynychu rhywle. Hefyd nid oedd gorfodaeth i fynychu oedfa Nos Sadwrn, ac feallai y gallem “ddogio” pnawn Sul a chware truant. Nid oedd neb i wrthbrofi ! Yn ychwanegol yr oeddem yn cael dewis ein sedd a crwydro i entrych y llofft. Gan ein bod yn byw yn Pant yr oedd capel mawr hardd a graenus “Jerusalem” yn fwy hwylus na’r “Gerlan” ac yno y mae Organ hardd a’r gynulleidfa ddim mor werinol a Treflys, ac yr oedd yn bleser mynd yno o glywed M.P. Morgan, Blaenannerch, ac rhai cyffelyb ar fore braf o Sulgwyn.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	96
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 410
Trawsgrifiad	<p>Hefyd yr oedd eisteddfodau yn frith yn yr ardal. , rhai man yn cael eu cynnal gan yr eglwysi i gylch yr eglwys, ac hefyd Eisteddfod y Plant ar gŵyl Dewi yn capel mawr Bethesda, ac yn ddiweddarach (ac yn parhau hyd heddyw) Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Yn ffortunus nid oedd y ddawn ganddom fel teuly na rhelyw on cyfeillion (mates) i ganu neu adrodd na gwneud dim yn gyhoeddus. Felly yr oeddem yn cael gwaredigaeth or byrdwn i</p>

	<p>fynd ar y llwyfan. Ond yn ein tro yr oeddem yn gorfod cystadly ar y traethawd neu ysgrifennu stori etc, ond yr oedd hyn yn well nac mynd ar y “stage”. Yr oedd mam am i ni gefnogi y Steddfod. Cofiaf i mi pan yn ifanc iawn i mi “dorri i lawr” ac methy mynd ymlaen yn canu rhyw bennill. Mae yn amlwg fy mod yn rhy ifanc i fod yn swil nac i wrthod, ac fod fy mam yn credu fy mod yn arbenigwr. Cefais lonydd ar ôl hynny.</p> <p>Yr oedd nifer o bethau eraill yn dod yn achlysurol i felysu bywyd : sef Ffeiriau blynyddol y cylch, a Circus, ai Bostock & Wombwell yn dod yn flynyddol gyda ei anifeiliaid rheibys a gwyllt. Gwibdaith yr ysgol Sul, mabolgampau etc. a rhwng popeth yr oedd bywyd yn llawn ac diddorol a pawb ar y wyneb yn eithaf hapys er yr holl weithio caled ac cyni. Nid oedd teledy yw gael ar diwifr yn dechreu ymddangos yn egwan a didrefn. Ond credaf fod pawb yn hapusach hebddynt. Yr oedd yr unigolyn ar ardal yn cynnyrchu ei adloniant eu hunain a pawb yn iachach yn feddyliol a corphorol mi gredaf.</p>
Nodiadau	Bostock and Wombwell – gw WAR CIRCUS: BOSTOCKS (English/Italian) — La Bonche Circus Research
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	45, 108, 55
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 411
Trawsgrifiad	<p>Ar ôl y maith grwydro direol yma, fe awn yn ôl i Shed Sinc Bach</p> <p>Ar ôl treulio rhyw 2 i 3 mis yn ymarfer yn nervous a “cael y pwythau ar y gweill”, yr oeddem yn settlo i lawr ac o ddydd i ddydd yn dod i ddeall y gwaith yn well, ac i adnabod ein partner ai ffordd o weithio a trafod pethau. Ac fel rheol yn raddol yr oeddem yn dod yn gyfeillion mynwesol ar naill yn gwybod beth i ddisgwyl oddiwrth y</p>

	<p>llall. Ac fel rheol yr oedd cyd dynu da, heb orfod trafod ac egluro pob peth, ar naill fel y llall yn gwybod ei waith . Wrth gwrs y partner oedd y “boss” ac yfe oedd yn gyfrifol am drefny a barnu beth oedd oreu i wneud - syd i drin a lle i lifio “clwt” neu “billar” etc, ei air o oedd yn derfynol. Yn rhaddol yr oedd mwy o ffydd yn cael ei rhoddi ar y Jermon, ac nid oedd angen cael dyfarniad y partner, ond yn achlysurol yr oedd rhyw berthynas agos yn magu rhwng partner a Jermon. Pan yn Jermon bach, yr oedd dylanwad y partner yn fawr iawn arno, ac yn ddjarwybod yr oedd y bachgen yn mynd i efelychu y partner ar hyd ei oes. Ei ddyll o weithio a trin cerrig etc, hefyd yr oedd yn bwysig fod y partner yn ddyn caredig ac ei iaith yn lan etc (ac eithriad nad oedd ddim) gan fod y bachgen wrth ei benelin trwy y dydd a pob dydd. Nid rhyfedd fod y bechgyn hyd heddyw yn cofio hefo pwy y buont yn Jermon, ac yn cyfeirio a shiarad yn deyrngarol am y “partneriaid” fel tad neu frawd. Ac hefyd y partneriaid yn cofio am y bechgyn a fuont yn gyfrifol ai “magu” i fod yn chwarelwyr a chyfeillion. Ac yr oedd math o berthynas yn parhau ar hyd eu hoes.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 412
Trawsgrifiad	<p>Fe aeth y misoedd heibio yn gyflym ac ninnau yn rhaddol yn cael ein traed o danom, ac yn cynyddu mewn oed a profiad. . Y gwaith ddim yn fwgan, ac wedi dod yn hollol gyfarwydd ar “routine” o ddydd i ddydd, ac yn gally trafod heb drafferth yr helyw or problemau yn nglyn ar gwaith. Yr oedd y partner wrth law bob amser i rhoi ei ddedfryd, a nifer o rai eraill yn garedig a parod i rhoi eu cymorth ac barn. Yn fuan iawn yr oeddem yn meistrolï yr “injan dradlio” ac nabod ei “chastiau”, ac yn gally cystadly ac rhywun ac ofni neb ar Injan ein hunan. Y mae carreg caled (hard blue – red etc) yn llawer anoddach yw naddu (a hollti wrth gwrs) na cherrig rhywiog (Soft Blue, Red etc) ac yr oedd graddai yn yr holl haenau. Yr oedd rhagor rhwng “bargen” a “bargen mewn</p>

	<p>gogoniant”, a hyd yn oed rhannau yn y “fargen” yn gwahaniaethu. Yn yr haenau rhywiog credaf fod llai o wahaniaeth rhwng y ddau eithaf h.y. y gwir rhywiog (soft blue) ar rhywiog oedd yn tueddu i fod yn galed a sharp. Yn yr haen galed yr oedd mwy o wahaniaeth rhwng y caled garw ar caled eithaf (ymylu ar fod fel “bastard” (hard greys ochr chwith) ac mwy o rhaddau rhwng y ddau begwn. Y caled gorau yn llifio, hollti ac naddu yn eithaf rhwydd, bron fel y rhywiog, yn enwedig y rhywiog cletaf a sharp, ond y caled salaf yn anhawdd iawn yw drafod. Yn Shed Sinc Bach yr oeddem yn cael profiad or cwbl (hard blue) yn eu tro, slediad or rhai gorau yn cael croeso ac yn bleser yw gweithio, ond slediad or rhai cletaf yn wir draul ac gofyn amynedd a medyr. Caletaf oedd y sglodion, anoddach oeddynt yw naddu, yr oeddynt yn “sharp a gwyllt”, ac yn gofyn llawer o amynedd yw trafod ac o ganlyniad mwy o “breakages”. Ond erbyn hyn ni all neb ein barnu, a gallem eu trafod cystal ac neb arall</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 413
Trawsgrifiad	<p>Pan oeddwn yn gweithio yn Shed C (Sinc Bach), yr oedd yn gweithio yno ar y pryd ddyn or Gerlan, Jeremiah Williams, ac ei hobby oedd tynnu llyniau (photography) ac un amser cinio fe gymerodd ddarlun o nifer o honnom ac y mae y darlun ar gael gennyf, ac yn dod a llawer o atgofion i mi.</p> <p>Yn fuan iawn yr oedd y ddwy flynedd gyntaf fel Jermon bach yn dirwin i ben, ac yr oeddem yn gwybod am y trefniant ac y buasem yn cael “transfer” i Shed arall i weithio yn galetach a cynhyrchu mwy. Nid oedd rheol gaeth ynglŷn ar ddwy flynedd, na hyd yn oed transfers, ond yn gyffredinol dyna y drefn. Os oedd bachgen wedi bod yn gweithio fel Jermaon bach gyda ei dad, ac yn gytûn, yr oedd os yn dewis yn cael aros hefo’i dad (</p>

	perthynas neu gymydog etc), nid oedd gorfodaeth i symyd. Gan nad oedd cysylltiad teuluoedd rhyngo fi a fy mhardner (R David Pritchard) nid oedd rheswm dros fy nhadw fi. Hefyd yr oedd Jermon yr 3ydd or 4ydd flwyddyn ai gyflod yn “gydmharol” uwch yn dipyn o draul ar y partner mewn shed fel Sinc Bach. Nid oedd yr adnoddau ar cerrig etc yn gyfryw fel ag i gynnyrch yr “extra” tuag at gyflog uwch y Jermon. Gwell oedd cael gwared ar Jermon drud ! – er ei holl brofiad ai rhagoriaethau, ac mentro Jermon bach newydd rhad eto, a dyna oedd y drefn. Fel ar ddechrau ein gyrfa fel Jermon yr oedd “planio” yn cymeryd lle yn ein cefnau, ac ymhell cyn i ni wybod y ffaith, y mae yn amlwg fod trafod a thrin yn cymeryd lle (fel y daethum i wybod flynyddoedd yn ddiweddarach) ac fod y tad neu “ofalwr” yn cael ei gysyllty. Fel ar y dechrau os oedd tad neu frawd etc hynach yn gweithio yn y Shediau goreu (A,F,B etc) ac fod awydd a posibl gwneud “Transfer”
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 414
Trawsgrifiad	<p>hwyls yr oedd yn naturiol ir caethwas gael ei symud at un or teuly etc. Yn amyl nid oedd yn bosibl trefny y moves, tebyg fod y tad etc eisoes hefo “Jermon mawr” neu bardner ac anodd gwneud symudiadau addas, ac o ganlyniad yr oedd rhaid ir Jermon gael ei fittio i mewn dros dro.</p> <p>Hefyd yr oedd llawer o Jermyns ar ôl treulio dwy flynedd yn y Shediau fel Jermon bach, yn dewis mynd i weithio ir “twll”. Os oedd y tad neu frawd yn gweithio ar y graig, a lle gwag (neu lle gwag yn cael ei drefny) ac awydd gan y bachgen i fynd i weithio ir twll, ar teulu yn foddllawn, pob peth yn iawn, ac hefyd os oedd y bachgen o gorph gweddol gryf.</p>

	<p>A shiarad yn gyffredinol nid oedd y teuluoedd yn ffafriol i fachgen fynd i “weithio ir twll rhy ifanc”. Yr oedd yn bwysig iddo gael profiad a gwybod y drefn yn y “lan” rhag ofn iddo orfod syrthio yn ôl pan yn hyn neu ar ôl cael ei anafy, neu iechyd ddim yn addas at waith y twll. Hefyd yr oedd yr holl ardal (yn enwedig y mamau) yn ymwybodol fod gwaith y twll yn fey perygl, felly yr oedd tuedd ir Jermons gael ei cymell i aros yn y Shediau er yr holl lwch ar man ? ddamweiniau, nar posibilrwydd o ddamwain fawr y twll, ar hazard beunyddiol. Hefyd yr oedd creithiau ac atgofion y gorphenol yn fyw iawn yn yr ardal. Oddeutu 400 ?? wedi eu lladd yn y chwarel yn y ganrif olaf. Yr oedd atgofion o rhai blynyddoedd du iawn, 6-8 wedi colli eu bywyd wrth weithio yn galed ar y graig, ac i fynny i 1920-30 nid oedd damwain angheuol yn anghyffredin. Oherwydd mesurau mwy caeth ynglŷn a diogelwch yr oedd damweiniau “mawr” yn lleihau. Ond mewn gwaith fel y Chwarel nid oes yn bosibl eu llwyr ddiddymu.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 415
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd amrhyw o deuluoedd ynyr ardal ar tad, brawd neu daid wedi colli ei fywyd yn y chwarel. Ac nid oedd iawndal na dim ar gyfer y teuly (teulu fel Caradog Pritchard) ac wrth gwrs yr oedd caledi mawr yn dilyn pan oedd y tad yn cael ei gipio ar amrantiad oddi ar yr aelwyd, er fod yr ardal yn ei thlodi cyffredinol yn gwneyd eu gorau yw cynorthwyo. Yr oedd atgofion or gorffennol trychinebus o caledi ar ffaith fod y perygl yn “real” ac yn bresennol o ddydd i ddydd yn atal ir teuluoedd, yn enwedig y mamau, i gytuno yn rhwydd ir bechgyn fynd i weithio ir twll.</p>

	<p>Er hynny yr oedd amrhyw yn dewis mynd i “weithio ir twll”, ac unwaith wedi mynd yr oedd bron yn amhosibl ac cael i newid a dod yn ôl i’r lan, os nad oedd effaith damwain neu iechyd yn eu gorfodi. Yr oedd llawer iw ddweyd dros gweithio yn y twll. Yr oedd gweithio yn yr awyr agored iachach, y gwaith yn gyffredinol yn fwy amrywiaethol a diddorol, a mwy o hwyl. Felly yr oedd y “manteision” yma yn gor bwysu y perygl, ac amrhyw yn dewis mynd ir twll, gan fod mwy o her ac antur ynglŷn ar gwaith.</p> <p>Fel yr oedd fy nwy flynedd i yn tynny at y terfyn yn Shed Sinc Bach, yr oeddwn yn dyfaly beth fyddai fy ffawd ac at bwy fuaswn yn cael fy anfon. Yr oedd y dyfarniad yn bwysig iawn i mi – a fyddai y dyfodol bardnar yn hawddgar neu annymunol, pa fath o weithiwr a chwarelwr a fyddai, ac yn bwysig iawn pa mor haul a fyddai setlo mawr.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 416
Trawsgrifiad	Yr oedd fy “nhad” ar y pryd yn gweithio yn “y twll”, Ponc Lord, hefo Henry Williams (Harry Nantgraen), aelod arall yn Treflys. Ac nid oedd gwestiwn o gwbl nac ystyriaeth y buaswn yn mynd i weithio ir Twll. Tra yr oeddwn yn gweithio fel Jermon bach yn Shed Sinc Bach am y ddwy flynedd nid oes gennyf gof o fy “nhad” yn dod i ymweld a mi o gwbl, nac i holi fy hynt a cael gwybod syd yr oeddwn yn dod ymlaen . Feallai ei fod yn holi yn ddirgel yn fy nghefn, nid wyf yn gwybod. Fe barhaodd yr ymddygiad estronol a pell yma tra fûm yn gweithio yn y Chwarel. Yn ffortunus nid oeddwn yn ymwybodol or ffaith. Yr oeddwn yn ifanc a digon o waith a phethau i fynd a fy mryd. Yn ddiweddarach ac wrth edrych yn ôl yr wyf yn sylweddoli fod oerfelgarwch a cagendor yn bod nad oedd yn arferol mewn perthynas iach a naturiol.

	<p>Feallai fod fy “Nhad” wedi cael seiat ar swyddogion oedd yn goruchwilio y Shediau ac yn gyfrifol am y trefnu. Yr wyf yn gwybod i sicrwydd oddiwrth profiad diweddarach fy hun fod gryn bwysu a mesur a chynngori yn cael ei wneud, hefo neu heb farn y teuly (Tad neu frawd yn gyffredin). Nid oedd dim yn cael ei wneud yn fyrbwyl, ac yr oedd pob ystyriaeth yn cael ei rhoddi, er lles y bachgen, ac yr oedd y transfer yn cael eu mesur a phwysu yn ofalys h.y A fyddai y bachgen ar partner yn debyg o gyddynu a cydweithio yn llwyddiannus, natur y naill ar llall etc.</p> <p>Wedi i Jermon bach fod yn y Lan am rhai misoedd ac wedi cael ei “draed o dano”, ac yn fwy felly fel yr oedd ei ddwy flynedd yn dirwyn i ben, yr oedd ei gymeriad fel chwarelwr, gweithgarwch etc wedi ymledeuny i’r “shediau goreu” cyfagos. Ac ymhell cyn ei amser ddod i ben</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 417
Trawsgrifiad	<p>yr oedd “prospective” partners ai llygad arno. Ac ir gwrthwyneb wrth gwrs – ac dim diddordeb ond gochel bachgen nad allai “dynny ei bwysau” ac achosi trwbwl. Yr oedd yr oruchwyliaeth yn cael gryn anhawster gyda rhai Jermions yw “ffitio i mewn”, ac mewn “case extreme” yr oedd y Tad, brawd neu un o’r teuly gorfod ei gymeryd. Fel rheol yr oedd y rhai yma fel yr oeddynt yn cael profiad ac mynd yn hyn yn settlo i lawr.</p> <p>Yn eu tro yr oedd “Jermyns mawr” (18-20 oed) 3ydd ar 4ydd flwyddyn fel Jermon yn dod i ddiwedd eu gyrfa yn y shediau goreu ac pan yn 20 oed yn cael ei ystyried ar level partner, ac wedi darfod eu prentisiaeth 6</p>

	<p>blynedd (2 yn bela a 4 yn Jermon) ac rŵan yn teilyngu “wal” ei hunain, neu yn bardnar at bardnar arall, neu ddewis mynd ir Twll fel creigiwr at dad brawd neu estron. Nid oedd rhain yn cael eu cydnabod yn “bardneriaid” nac yn ceal eu symud hyd nes yr oeddynt yn 20 oed. Felly yr oedd llefydd gwag yn cael eu achosi yn “fympwyol”, ar ddiwedd mis chwarel dilynol ir oed 20. Nid oedd y rheol o “symud” (transfer) mor gaeth ynglŷn a symyd fel jermon o Shed i Shed, neu i’r Twll o rhan hynny. Ac o ganlyniad yr oedd yn bosibl i Jermon bach gael ei symyd i un or Shediau goreu rhai misoedd cyn ir ddwy flynedd ddod i ben.</p> <p>Fel oedd “Jermon mawr” yn neshau at ei 20 oed, neu lle gwag oherwydd marwolaeth, neu rheswm arall, yr oedd ymholiadau yn cael ei gwneud a peth “wire pulling”, er ceishio cymell a trefny i sicrhau cael jermon bach oedd ai amser yn dirwin i ben yn y Shediau bach. Trwy ddirgel ffyrdd yr oedd y Jermyns hefyd yn aroglu fod symudiadau ar dro</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 418
Trawsgrifiad	<p>ond fel rheol yr oeddynt hwy drueiniaid tŷ allan ac yn caer fawr o ddylanwad ar y briodas oedd yn cael ei threfny. Fel i mi ddweud nid oedd gennyf berthynas agos yn gweithio yn y Shediau. Ac fel oedd fy nwy flynedd yn diwrin i ben yn Shed Sinc Bach ac rhyw ddau fis cyn hynny, cefais wybod fy mod yn cael transfer i Shed Lord (B), shed drws nesaf pe tai, ac o ganlyniad yr oeddwn yn eithaf cyfarwydd ar swyddog oedd yn ei goruchwylio, nifer helaeth or gweithwyr yn enwedig y rhai ieuengaf, math o gerrig oedd yn cael eu gweithio, etc. Deallais fy mod i fynd i weithio at William Parry Gerlan, a phan ges gyfle pnawn Gwener diwedd y mis fe es draw yw weld, ar gynghor a cymhelliad fy mhardner Robert David, er cael “torri yr oer” a dod yw adnabod.</p>

	<p>Yr oeddem fel Jermons Bach yn gwybod yn eithaf da fod symud o Shed bach i Shed fawr yn gam fawr, ac na fuasai y gwaith mor hamddenol !!(relative). Hefyd peth diflas oedd ffarwelio ac “hen bardner” hawddgar, ac oeddwn wedi dod yw adnabod mor dda am ddwy flynedd, ac ein dau wedi dod i ddeall y naill a’r llall ar system. Fel ym mhob symudiad nid oeddwn yn edrych ymlaen ir dydd cyntaf, dyfaly beth fyddai yr anhawsterau, a syd y buaswn yn gwneud a beth fyddai ymddygiad fy mhardner newydd tuag ataf. Pan glywais fy mod yn cael symud at Wm Parry Gerlan, cefais rhyw gymaint o “relief”, gan o leiaf yr oeddwn yn ei adnabod yn weddol dda, ac nad oedd yn estron hollol fel ag oedd yn bosibl. Yr oedd Wm. Parry eto yn aelod ffyddlon yn Treflys, fel Robert David Pritchard, yn wir yr oedd yn fwy selog, gan nad oedd ganddo dyddyn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 419
Trawsgrifiad	<p>ac yn byw yn llawer nes ir capel, eithriad oedd iddo golli y bore ar hwyr. Felly yr oeddwn wedi dod yw adnabod yn dda, er mai yn debyg oherwydd y gwahaniaeth yn yr oed erioed wedi cael sgwrs. Yr oedd y ddau deily yn gyfeillion ac yn adnabod eu gilydd yn dda iawn.</p> <p>Fel yn yr amser y cefais fy symyd at R.D. Pritchard mae yn amlwg fod y “grym a’r cynllunio” tu cefn i’r llen wedi trefny i mi fynd i weithio at W Parry am amrhyw o rhesymau, ac yn cynnwys y ffaith ein bod yn adnabod ei gilydd trwy Treflys ac buasai y briodas yn rhesymol i lwyddo. Hefyd y mae yn sicr fod Wm Parry wedi holi ac yn gwybod llawer mwy am danaf, nag a dybiwn, yr oedd yn eithaf cyfarwydd a mi fel person ac yn gwybod y cefndir ac nabod y teily yn dda</p>

	<p>----- SHED B</p> <p>Fe ddaeth bore Llun dechreu mis ac yn lle mynd heibio Shed Lord ac am Shed Sinc Bach i fy ngynefin arferol lle yr oeddwn wedi cartrefy, a gwybod am y drefn, ac lluo o gyfeillion, a perthynas cynhesol cydrhyngddynt, fe es i mewn i Shed Lord. Yr oeddwn yn adnabod y gwynebau i gyd, yn enwedig y Jermyns, ond yr oeddwn yn teimlo rhyw oerfel a pob man yn od o dieithr, a theimlo fod pawb yn edrych arnaf, rhai o'r dynion hynaf yn fy holi.</p> <p>Fel ym mhob Shed arall yr oedd y gweithwyr yn groups o 6-12 yma ac acw yn man shiarad, neu drafod rhyw fater – pel droed, capel, etc etc. Disgwyl caniad, ac am rhai munudau ar ôl ir gloch fynd (7.30 yn yr haf). Rhai yn arfer dod yw gwaith yn fore, a cael sgwrs a smoke wedi cyrhaedd. Y “groups” yn cynhyddu mewn rhif fel yr oedd caniad yn neshau. Fel ym mhob man arall yr oedd llusgwrs, ac yn cyrhaedd yn afreolaidd a hwyr.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24 ; Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 420
Trawsgrifiad	<p>Hanner awr wedi saith yr oedd sŵn “rhuo” gan yr electric motors ar peiriannau yn dechreu troi, llwch yn cael ei ysgwyd oddi ar y belts, a sŵn byddarol y llifiau. Yr oedd hwn yn arwydd fod pawb i ddechreu gweithio, ac yn rhaddol yr oedd y “groups” yn chwalu, a pawb yn mynd am ei wal ei hun, yn gyndyn yn dechreu ymlacio, cael y gear allan, a dechreu gweithio.</p> <p>Yr oedd cryn gwahaniaeth yn gynllyn Shed bach a shed fawr, neu Shed sengl a Shed ddwbwl. Yr oedd y nifer helaeth yn y Chwarel yn Shediau sengl, ac ond pedair o shediau dwbwl.</p>

	<p>Yn lle fod berdd llifio yn cael ei rhanu rhwng dwy “wal”, yr oedd bwrdd ar gyfer pob wal, ac yn ychwanegol yr oeddynt yn llifioyn llawer cyflymach a distwr. Yr oedd yr holl “pace” yn Shed ddwbwl, ac yn arbennig os oedd cerrig rhywiog yn cael ei gweithio, yn llawer cyflymach, ac ar ôl spel o ddwy flynedd yn Shed Sinc Bach gydai ffordd gydmharol hamddenol, yr oeddwn yn teimlo fod pob peth yn mynd fel “cath i gythraul”. Yr oedd un shed ddwbwl yn gweithio “cerrig caled”, sef Shed (E), Sebastopol. Yma yr oedd y byrddau llifio yn gweithio yn gydmharol araf, ond yr oedd bwrdd ar gyfer pob wal, mantais fawr. Yn Shed Lord yr oedd ar gyfartaledd oed yn llawer is nac yn Shed Sinc Bach. Yno fel y credaf i mi ddweyd yr oedd yr helyw yn ddynion wedi mynd heibio eu goreu, ac wedi arafy. Ond yma yr oedd bron pawb ar ei anterth, dynion rhwng 40 – 20 oed , a pawb yn gweithio fel “lladd nadroedd” , cystadly a dim amser yw golli. Yr oedd 28 o walia ac oddeutu hanner rhain yn cynnwys dau bardner. Y gweddill yn cynnwys pardner a Jermon mawr, nid oedd “wal” o gwbl ac ond un</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 421
Trawsgrifiad	<p>yn gweithio ynnddi, ond wrth gwrs pan oedd gwaeledd neu achos arall, dros dro. Yr oedd yr oruchwyliaeth yn gofaly fod y Shed yn “fully occupied” er cadw y cynnyrch i fyny. Hefyd yr oedd gryn gystadleuaeth i sicrhau wal yn y shediau yma. Yn achlysurol yr oedd un mynd yn wag oherwydd rhyw reswm ac yr oedd pwyso ac mesur (ac wire pulling ?) cyn iddi gael ei gosod. Yr oedd rhai gweithwyr wedi bod yn yr un wal am flynyddoedd lawer.</p>

	<p>Oherwydd fod y gweithwyr yn ieuengach, yr oedd nifer a “pwysau tad” arnynt, ac yn weithgar a llawn yni, yr oedd y pace yn ddiarbed.</p> <p>Yr oedd yr holl beiriannau yn symyd yn llawer cyflymach, llifio y clytiau yn llawer rhwyddach, dim anghen “cloi” a “gwatchiad belt”, a dim son am yr belt ddod i lawr.</p> <p>Fel rheol yn Shed Sinc bach (ac yn gyffredinol hefor cerrig caled) un clwt (block) a allem lifio ar y tro, a gryn drafferth hefo un yn amyl, ond yn y Shediau rhywiog yr oedd yn bosibl llifio “byrddiad” bron yn rheolaidd, ac o ganlyniad yr oedd yr holltwr yn cael ei gadw i fynd yn ddifeth. Fel rheol y Jermon oedd gorfod talu sylw ir bwrdd llifio, os nad oedd y clytiau neu pileri yn gofyn am fwy nac un yw trafod. Wedi iddynt gael ei llifio ei orchwyl o oedd eu tynny i lawr ai cario yn barod ir holltwr, hefyd cario y “wast” ar rwbel, symyd y bwrdd ymlaen ar gyfer byrddaid eto, cael cymorth gan ei bardnar os oedd rhaid. Newid y llif pan oedd angen glanhau y cafn o dan y llif a’i lanw a dwfr. Yn ffortunus yr oedd y llif yn parhau i lifio am ddyrnodiau, nes oedd dim dannedd arni hi bron, dipyn yn wahanol i Shed C. Yno hefor cerrig caled yr oedd yn ofynnol newid llif</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 422
Trawsgrifiad	ddwy waith neu dair yn y dydd yn amyl. Yn ychwanegol at y gorchwylion yma ac rhai eraill, prif orchwyl y Jermon oedd naddu y sglodion. A chan fod y bwrdd yn llifio yn gyflym a didrafferth, ar clytia yn cymeryd ei hollti yn gyflym ac hwyllys, nid oedd obaith ir Jermon gael egwyl - ac yr oedd yn ofynol iddo gario ymlaen a naddu heb stopio bron er ceisio cadw y cocyn i lawr. Yr oedd yn gorfod gadael y “dradlan” yn achlysurol i rhoi

	<p>sylw ir bwrdd llifio neu fater arall, ac yn yr ysbeidiau byrion hyn yr oedd y cocyn yn cynyddu. Yr oedd yn ymdrech galed i geisho cadw y cocyn i lawr, ac ni allwn fforddio i golli mynyd ! Gwaith eithriadol o galed oedd naddu bron yn ddistop trwy y dydd yn yr awyr lwchlyd, ac yn yr haf ar haul yn tywynu yr oedd yn boeth iawn. Yn Shed Sinc bach yr oedd naddu yn fwy hamddenol o herwydd natur galed y cerrig, yr oedd rhaid cymeryd mwy o amser yw trafod, ac naddu ac ail naddu yn bwyllog. Ond yn y Shediau rhywiog yr oedd y techneg yn hollol wahanol, yr oedd naddu (ar hollti wrth gwrs) yn llawer rhwyddach ac o ganlyniad roedd y “pace” yn llawer cyflymach. Yr oedd pris y £ ond tua ¼ - 1/3 yr hyn a geid yn y dosbarthiadau isaf (fel Shed Sinc Bach). Felly yr oedd rhaid cynyrchu gwerth cymaint dair neu bedair gwaith, ac yn ychwanegol yr oedd y gweithwyr ar gyfartaledd yn ieuengach ac ar eu goreu, ac yn amcanu am y cyflog uchaf posibl, felly nid oedd arbed ar y gweithio, ac yn fuan iawn fe fy rhaid i mi ddatblygu y “skill” o naddu ar “bedair slap”, wedi dod i ddeall ac adnabod yr Injan naddu yr oeddwn yn gally gwneud hyn yn rhwydd hefor sizes mana, dyweder i 20 x 10. Ond yr oedd yn gofyn mwy o ymdrech a skill ar sizes mwyaf. Yn wir yr oedd yn rhaid naddu ar “bedair slap”</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 423
Trawsgrifiad	<p>Shed “Sengal”</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Y wal yr oeddwn yn gweithio yn Shed Sinc bach gyda R.D. Pritchard 1922-4</p>
Nodiadau	

Casgliad	Shed Sinc Bach 1922-24
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	
Trawsgrifiad	
Nodiadau	
Casgliad	
Tags	
What Facet	
Location description	
Tud	T 424
Trawsgrifiad	Shed ddwbwl Cynllun a nodiadau Y wal yr oeddwn yn gweithio yn Shed Lord gyda Wm Parry 1924-6
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What	73

Facet	
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 425
Trawsgrifiad	<p>i gadw'r cocyn i lawr, a rhag iddo wneud meistr arnaf. Golyga naddu ar "bedair slap" fod pen y sglodion yn cael ei naddu pan oedd y gyllath yn dod i lawr y tro cyntaf, a phan yr oedd ar ei ffordd i fynny ac dod i lawr eto (yr ail waith) yr oeddwn wedi troi fy hun ar lechen ac yn barod i naddu yr ochr. Y gylleth i fynny eto, troi y lechen yn barod i naddu yr ail ben ; ac yn olaf naddu yr ail ochr. Trwy hyn nid oedd y gylleth yn dod i lawr yn wag o gwbl, yr oedd yn naddu ar y ffordd i lawr bob tro. Oherwydd "shiap" anniben rhai sglodion nid oedd yn bosibl eu naddu ar bedair slap, ac yr oedd hyn yn arafu y "Process". Wedi cwblhau naddu llechen ai rhoi yn ei lle priodol, yr oedd yr Injan wedi arafu ac yr oedd yn ofynnol "tradlio yn wag" ddwywaith neu dair (tra yn codi y lechen nesaf) i godi "speed" , a dyna oedd ein gorchwyl naill ddydd ar ôl y llall, nes oedd ein traed yn "sgaldian" gan y gorchwysu yn enwedig yn yr haf. Yr oedd rhai (helyw) yn cael eu blino hefo dwylo yn "gwisgo ir gwaed" er yr holl ofal o wisgo menyg (darn o ledr).</p> <p>Yr oedd Wm Parry yn cael ei gydnabod fel "gweithiwr mawr". Yr oedd yn chwarelwr medrys ac yn weithiwr cyflym a colli dim amser. Nid oedd ganddo dyddyn na "side line" fel fy hen bardner R.D. Pritchard ac o ganlyniad yr oedd ei holl egni yn cael ei ganolbwyntio ar ei waith yn y chwarel. Yr oedd hefyd gymaint yn ieuengach hefyd , ac rhwng 35 – 40 ? – ac yn ei "brime". Yr oedd yn gweithio yn amyl tra yn "smokio" shag Amlwch, a pwt o bibell ganddo. Yr oedd yn ddyn dymunol ac yn eithaf cymeradwy yn y Shed. Ei ddiddordebau tŷ allan ir chwarel oedd garddio ychydig a pysgota.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 426
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd yn bysgotwr medrys, ac pob amser yn pysgota plyen, ai gynefin oedd Afon Gaseg, ochr uchaf i Bont Waen Gwail, a gweithio ei ffordd yn raddol i fynny cam Afon Gaseg . Cofiaf i mi gael gwadd iw ganlyn ddwy waith neu dair ar gyda'r nos Sadwrn braf yn yr haf. Yn y rhanau isaf ger “Bont Waen” yr oedd coed niferys ar canghennau bron yn cyffwrdd y dwr. Byddwn yn rhyfeddu at ei fedr yn tafly y tair neu bedair pluen rhwng y coed i ddannedd y llif mewn pwll bach ar dwr yn isel ac yn amyl yn codi 2 neu 3 brityll braf. Yr oedd amrhyw or chwarelwyr yn ymbleseru fel hyn a pawb ai le dethol. Yr oeddynt yn gally gwneyd ei ply eu hunain ar gyfer yr amgylchiadau a beth oedd yn “cymeryd” ar y tro.</p> <p>Ni fuom ein dau yn hir cyn dod i ddeall ein gilydd a cydweithio. Yr oeddwn wedi cael profiad ac wedi fy narpharu i raddau helaeth yn Shed Sinc Bach ac yn hynach wrth gwrs. Nid oedd trafod cerrig rhywiog yn gofyn y skill ar amynedd ag oedd anghen hefor cerrig caled. Y peth nodweddiadol oedd y “pace” ar “mass production”.</p> <p>Yr oedd cymaint a allwn ei wneud (ac mwy ar brydiau) i gadwr cocyn i lawr, ac yr oedd cefny ar yr injan am fynudau i rhoi sylw i orchwyl arall yn ddigon ir cocyn enill arnaf.</p> <p>Wedi gweithio bron yn ddistop am awr a hanner cyn naw or gloch, ac wedi cael brecwast digon llwm cyn gadael cartref, yr oedd pawb o honnom yn barod am “baned naw”, yn enwedig y rhai oedd yn byw ymhell fel Pentir, Rhiwlas, Llanllechid, a rhai wedi gadael cartref tua 6 o’r gloch a cerdded pob cam. Nid oedd buses wrth gwrs yn y cyfnod hwnnw. Yr oedd nifer fawr yn dod ar y trênn bach (photo) rhai oedd yn byw yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio, Hanes Cymdeithasol, Cludiant

What Facet	73, 84, 76, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 427
Trawsgrifiad	<p>y “catchment area”. Yr oedd nifer fawr o gweithwyr yn byw yn Pentir, Rhiwlas, Caerhun, Glanadda, Bangor etc ac yr oedd yn ofynnol cerdded milltir mwy neu lai i gyrhaedd track y trêen bach. Ac ar ôl cyrhaedd pen y daith yn Felin Fawr yr oedd yn ofynnol cerdded ar gyfartaledd milltir a rhagor cyn cyrrhaedd lle gweithio, yn enwedig os oedd eishiau mynd i “top” ochr chwith neu Ochr dde. Yr oedd rhai gweithwyr yn dewis cerdded ar “eu hunion” trwy lwybrau anghyfannedd o Rhiwlas etc, yn lle cerdded i Felin hen i gyfarfod y trêen bach. Yr oedd y mwyafrif mawr ardal Bethesda - Gerlan, Carneddi, Rachub, Llan a phellach (Rallt, Fedw, Crymlyn etc) yn gorfod cerdded. Rhyw 50 ? feallai yn dod ar feics ar mwyafrif o rhain yn fechgyn ieuanc. Rhyw 6 ? ar fotor beics. Gellir casgly mai dim arferiad a cyfle i golli amser oedd “paned naw” (a pam naw ? – yr “elevenses” ydi heddyw, wedi dechreu gwaith 9 neu hwyrach ar ôl cyrhaedd ym mhob cysur a brechwast sylweddol – yn y cyfnod hwnw yr oedd y chwarelwr wedi bod ar ei daith neu gweithio ers 2-3 awr ac yn teilyngy rhyw ymborth yw gynnal ymlaen).</p> <p>Nid oedd mor galed arnom ni y rhai oedd yn byw yn gymharol agos, a cael ein brechwast tua 7 am. Fodd bynnag yr oedd pawb yn barod am “banad 9”. Rhyw “mixed blessing” oedd i mi. Yr oedd cael gorffwys a hegwyl oddi ar y “dradlan” yn felys iawn am rhyw 10-15 munud. Nid oedd yr hegwyl yn cael ei gydnabod yn swyddogol, ac yr oedd pawb bron yn bwyta yn y wal, ambell un yn mentro ir cwt tan. Yr oedd y swyddogion yn cau eu llygaid ir arferiad ac yn ei mwynhau eu hunain. Yn achlysurol mi fyddai storm yn torri allan ac mi fyddai “llyffetheirio” dros dro.</p> <p>Yr oedd Wm Parry yn berchenog ar watch – “watch 2/9”. Yr oedd rhain yn boblogaidd ac</p>
Nodiadau	

Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio, Hanes Cymdeithasol, Cludiant
What Facet	73, 76, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 428
Trawsgrifiad	<p>amrhyw or gweithwyr yn meddu un. Fel y gellir disgwyl am y pres (2/9) nid oedd o wneuthuriad uchel ac yr oedd yn “crude” a size poced. Eto yr oeddynt yn cadw amser yn dda ac yn benodol at eu defnyddio yn y gwaith. Yn achlysurol mi fyddai Wm Parry yn edrych arni, yn enwedig pan oedd 9 o’r gloch yn neshau, ac hefyd 12 o’r gloch, amser cinio. Mi fyddwn yn disgwyl am y gorchymun, (tua 10 munud i naw) “dos i wneyd te” ac wedi rhoi y “pen te” yn y tebot, gwneyd fy ffordd yn ôl ir cwt tan, ar tebot o dan fy marclod. Hyd yma yr oeddwn wedi llwyddo i gadw y “cocyn” i lawr, neu o leiaf i beidio ac ennill arnaf, ond gwyddwn yn dda gan brofiad dyddiol y buasai y “cocyn” wedi tyfy yn enbyd yn fy absenoldeb byr, ac y byddai yn frwydr trwy y bore ei ceishio ei gael i lawr. Ond yr oedd yn rhaid “gwneyd te” ac yr oedd yr hamdden ar sgwrs yn dderbyniol. Nid oedd y cwt tan yn bell, ac yr oedd nifer tebyg i mi yn gwneud eu ffordd tuag ato ir un perwyl. Fel rheol yr oedd y “ffowntan” yn berwi, ymuno yn y “quea”, ac yn fy nhro cael llunau y tebot, cael menthyg y “peth troi! – darn o haearn wedi ei unioni o spring Injan dradlio</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Nid oedd amheuaeth am lanweithdra y darn hearn yma. Yr oedd yn cael ei olchi yn barhaus, ugeiniau o weithiau bob dydd ac yn erfyn syml defnyddiol. Pan oedd pethau yn hwylys yr oedd 10 mynyd mwy neu lai yw treulio. Yn achlysurol yr oedd y ffowntan ddim yn berwi ac pawb yn ddiamynedd gorfod aros, neu gwneud te a dwr ddim yn berwi. Weithiau yr oedd pum munyd neu ddeg ychwanegol yn cael eu golli. Yr oeddwn i</p>
Nodiadau	

Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 56
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 429
Trawsgrifiad	<p>gyd fel caethweision yn ymwybodol iawn fod ein “partneriaid” yn hollti cymaint ac a allant yn ein habsenoldeb, ac o ganlyniad am gael y gorchwyl o “wneud te” drosoedd cynted ag oedd yn bosibl a cael mynd yn ôl ir wal. Wedi cyrhaedd drws y Shed, ac mewn safle i weld y wal, yr oedd fy llygaid yn syrthio yn union i gyfeiriad y “cocyn” i gael gweld y gwaethaf, ac bron yn ddieithriad yr oedd wedi tyfy yn uchel, ac byddai “fight” drwy y bore yw gadw i lawr. Teimlo yr oeddym fer Jermons fod y partneriaid yn cymmeryd mantais anheg ar y cyfle, gan fel rheol nid oeddynt wedi codi oddi ar 2 “blocyn” i rhoi sylw ir bwrdd llifio na dim, ond hollti yn ddiarbed. Felly ar ôl panad yr oedd yn ofynnol ir Jermon rhoi sylw ir bwrdd llifio, feallai gyda cymorth ei bardnar, cyn cael dechrau naddu.</p> <p>Fel i mi ddweyd yr oedd “pace” yn llawer cyflymach yn Shed Lord (cerrig gorau rhywiog) ac o ganlyniad yr oedd y cynnyrch yn llawer mwy, ac felly yr oedd yn ofynnol i “gyfri” yn amlach nac yr arfer yn Shed Sinc Bach. Cyfri tua 5 gwaith yn y mis yn lle tair, weithiau rhagor na 5 cyfri yn amyl dydd Gwener dechreu mis.</p> <p>Er fod y cynnyrch yn fwy, yr oedd y dosbarthiadau yn llai, ac yr oedd cyfri yn weddol rhwydd. Yn Shed Lord yr oedd yr holl gynnyrch bron yn y Dosbarth 1 (Best Quality) ac ychydig iawn os dim o 2nd a 3rd, ambell i sgloden gwyneb clwt, neu rith o crych du, neu toriad (cramp) yn gorfod mynd ir 2nd neu 3rds. Yn y Shediau “isaf” (dosbarthiadau) yr oedd y “crewyn” (account ar lechfaen) yn llawer mwy cymhleth, ar cyfri yn llawer mwy trafferthus</p>
Nodiadau	

Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 430
Trawsgrifiad	Cynllun a nodiadau – “ffowntan”
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 56
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 431
Trawsgrifiad	<p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Patrwm o “crewyn “ Dosbarth isaf (fel rhan helaeth or shediau newydd)</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Patrwm o crewyn Dosbarth 1af neu ail yn y Shediau rhywiog (best blue)</p>

Erbyn diwedd y mis yr oedd sizes “amrywiol” wedi ymgasgly ar yr oedd y crewyn olaf yn debycach ir un ar y chwith er cael gwared ac manion a pethau od a cael tal am danynt !

Nid oedd 22 x 11 yn boblogaidd ac yr oedd yn cael eu anwybyddu yn aml. Yr oedd sizes eraill a ychwanegwyd gan dreiglad amser. Yr oedd rhain yn cael eu cynnwys ar y crewyn pan oedd rhai i gael

Sef = 11x14	yn ddiweddarach
13 x 11	14 x 4 ½ Damp course
12 x12	12 x 4 ½ “ “
14 x 9	9 x 4 ½ “ “
14 x 7	8 x 8
10 x 8	
10 x 6	
11 x 7	
11 x 11	
10 x 10	

Nid oedd dosbarth 2ail a 3ydd o dan 13 x 7 nac ir sizes newydd yma a ychwanegwyd o dro i dro ond “Best”. Yr oedd pris 2nd a 3rd yn gyfartal

Nodiadau

Casgliad

Shed B (Lord) 1924-26

Tags

Rheoli, Cyfri llechi

What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 431A
Trawsgrifiad	<p>Ychwanegiad</p> <p>“Mwrw” = tair “carreg” (llechan) = 3 actual “5 mwrw a charrag” + “5 mwrw a charrag” = ¼ cant (Chwarel) 32 actual</p> <p>¼ cant (Chwarel) + ¼ cant (chwarel) = ½ cant (Chwarel) 64 actual</p> <p>½ cant Chwarel + ½ cant Chwarel = un cant (Chwarel) 128 “actuals”</p> <p>10 cant “Chwarel” = mil (mille) 1280 actuals</p> <p>Yr oedd y cerryg (llechi) mwyaf o 24 x 14 – 16 x 8 goreu (Best) (trwch tua 5 ir fodfedd) yn cael eu cario allan (“cyfri”) fesul “pump a charreg”, dyma y term a ddefnyddiwyd yn weddol gyffredinol tra bum yn gweithio yn y chwarel o 1920 – 1954. Pa mor bell yn ôl yr oedd y term wedi cael ei ddefnyddio nid wyf yn gwybod. Yn achlysurol yr oedd y termau a ganlyn yn cael ei defnyddio am “bump a charreg” -</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Cyfri llechi
What Facet	73

Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 431B
Trawsgrifiad	<p>“gafael”, “cowlad”, “haffiad”.</p> <p>Yr oedd cerryg llai na 16 x 8, “pyts”, “ladies bach” etc <u>goreu</u> (best) fel rheol yn cael eu cario allan yn ¼ cant (32 act), ac y sizes manaf (sengals etc), 12 x 6, 11 x 7, 10 x 8, 8 x 8, 11 x 4 ½ , 12 x 4 ½, 9 x 4 ½ etc yn cael eu cario allan yn ½ cant (64 act)</p> <p>Rhaid cadw mewn cof y defnyddiwyd y term “CERRYG” am ddeunydd crai or twll at wneud llechi (pillars ac “blocks”), ac hefyd am lechi wedi ei trin (trimmed slates)</p> <p>Yr oedd pris ir chwarelwr yn gyfartal am Best, 2nd a 3rds o 16 x 8 i lawr</p> <p>Nid oedd dosbarth 2nd ac 3 rd i cerryg llai na “cerryg” dwbwl 13 x 7 ac 12 x 8 , ac nifer o sizes eraill a ddaeth i fod yn gydmharol ddiweddar – 14 x 14, 13 x 11, 12 x 12, 11 x 11 etc</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Cyfri llechi
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 432
Trawsgrifiad	Yr oedd yr holltwr yn ennill ychydig amser cinio hefyd ar y Jermon. Yr oedd bron pawb yn llithro i “wneud te” 5 munyd neu 10 cyn deuddeg, ac yn yr amser byr yma yr oedd y “cocyn” wedi tyfy yn sylweddol. Er ein bod yn

	<p>gweithio tan 5 or gloch ac nifer helaeth or gweithwyr ddim yn cyrhaedd gartref am awr arall, ac wedi bwyta sandwiches digon llwm a te i ginio. Nid oedd “paned dri” ond yr oedd y rhai ieuengaf yn cadw “brechdan dri” , rhywbeth bach i edrych ymlaen ato ac i atalnodi y pnawn a cael spel oddi ar y dradlan. Yn amyl yr oedd y dynion mewn oed a brechdan yn spar neu gacan, ac yn gwybod am y rhai rheibys fyddai yn falch o honynt. Yr oedd rhai yn gwsmeriaid gweddol rheolaidd, ac math o ddealltwriaeth llac rhyngddynt, ac yr oedd y berthynas yn torri ar draws y “wal” neu bardnar a Jermon. Yn amyl mi fyddai y Jermon yn crwydro i pen arall ir Shed am ei “frechdan spar” arferol. Nid oeddem yn gadael y wal i fwyta y “fechdan dri” ond ei bwyta yn y fan a’r lle, a cholli dim amser. Nid oedd cyfleusterau o gwbl i folchi dwylo, ac mae yn amlwg fod llawer or llwch ar llaid wedi ei fwyta yn wirfoddol.</p> <p>Pan oeddwn yn gweithio yn Shed Lord, yr oedd yr enw Will yn gyffredin iawn yn y Shed, fel trwy y gwaith ar gymdogaeth. Yr oedd 16 o Will’s yno ar y pryd a 5 o honnynt yn William John neu Will John, ac minnau yn un o honynt. Dim rhyfedd fod cymaint blas (neu lys) enw ar bron pawb, dyna yr unig ffordd i wahaniaethu ac i adnabod y naill ar llall. Yr oedd enw y cartref etc yn cael ei ddefnyddio cymaint ag oedd yn bosibl, ond mae yn amlwg fod hyn ddim digon. Y pum William John = Will John Bronfoel, Will John Jockey, Will John Rhiwlas, Will John Rhys, Will John Pant (neu Tycerrig, fi)</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 56, 95
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 433
Trawsgrifiad	Yr oedd y dynion hynaf yn cael eu cyfeirio atynt fel “William” ac nid “Will”, fel William Parry, William Daniel etc. William oedd fy mam yn galw fy nhad, chlywais hi erioed yn cyfeirio ato fel Will, William bob amser. Yn y

	<p>cyfnod yma yr oedd peldroed football yn ei fri, a brwdfrydedd mawr yn yr ardal a thrwy y wlad rhan hynny. Yr oedd llawer mwy o dan a brwdfrydedd lleol, a gelyniaeth enbyd yn teyrnasu. "Leagues" o gylch llai, a teams yn cael ei codi yn bob rhan or ardaloedd. Yn cylch Bethesda yr oedd team Bethesda (Comrades), un arall yn Llanllechid (Llechid celts), un arall yn Tregarth, ac un arall yn Glasinfryn, ar cwbl yn perthyn i'r un "League". Yr oedd y teams yn cynnwys bechgyn lleol y cylch, a pawb yn eu hadnabod.</p> <p>Yr oedd team o safon uwch yn Bangor (fel heddyw) ac yr oedd hwn yn cael cefnogaeth brwdfrydig gan to ifanc yr ardal. Llawer mwy o frwdfrydedd nac heddyw, a results y "game" ac ffawd y team oedd y testun llosgawl. Pan fyddai game arbennig ganol wythnos (paw'n Mercher) mi fyddai llun yn colli eu gwaith i fynd i lawr i Fangor. Wrth gwrs y rhai ieuengaf a dibriod oedd fel arfer yn gally fforddio i golli eu gwaith. Rhaid cofio fod cannoedd o fechgyn ifanc yn y Chwarel y blynyddoedd hynny, ac o ganlyniad yr oedd nifer dda yn colli. Nid wyf yn cofio i mi golli ond unwaith neu ddwywaith i ddilyn y dyrfa i weld rhyw game eithriadol gan fod pawb o fy "mates" i yn mynd. Nid teyrnged i mi ydoedd nad oeddwn yn "colli" yn fwy amyl. Ni fûm erioed a llawer o ddiddordeb mewn football, nac enyn tan yw ddilyn yn frwdfrydig.</p> <p>Rhif Wm Parry ydoedd"292" Shedman ac yr oeddwn i fel Jermon yn cario yn un Rhif yn ei sgil tra</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 106
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 434
Trawsgrifiad	yr oeddwn yn gweithio hefo fo.

	<p>Yr oedd arbenigrwydd ir rhif yma, 292, ac un neu ddau arall yn y Shed, sef 165, 147, gan eu bod y link olaf ar “Hen Drefn” o weithio ac yn fuan iawn fe ddiflanodd yr ychydig weddill yma. Yr oedd brawd Wm Parry, sef Griffith Parry Gerlan ai fab Willie Parry (y ddau yn flaenllaw yn Treflys ac yn arweinyddion y gan, yr oeddwn yn adnabod y ddau yn dda, yn enwedig Willie Parry gan ei fod at fy oed ac wedi cydweithio ac o am flynyddoedd yn Treflys) yn gweithio yn ddau bardner yn Rwb (fall) Edward ac ei Rhif hwy fel Rockmen oedd “292”. Y rhif 292 oedd NUber y criw pan oeddynt yn gweithio 20 mlynedd yn ôl dan yr Hen drefn. Er fod y ddau frawd Wm Parry a Griffith Parry wedi gwahanu pan ddaeth y “Drefn newydd”, ac nad oedd cysylltiad rhyngddynt o gwbl, yr oedd Rhif 292 yn cael ei gario ymlaen gan y naill ar llall, un fel Shedman ar llall fel Rockman (Creigiwr). Hefyd Rhif 165 – Ar y pryd yr oedd Daniel Jones Bontuchaf (darlyn) blaenor yn Carneddi , ac yn chwarelwr o fri, hefyd yn gweithio yn Rwb Edward gyda ei fab Frank Jones (sydd yn fyw heddyw Chwe 20/73) ac yn tynny at ei 80 ?). Rhif y ddau fel “Rockmen” oedd No 165. Yn Shed Lord yr oedd mab arall i Daniel Jones yn gweithio sef William David Jones, ai rhif yntau fel Shedman oedd NO 165. Yr oedd rhai eraill hefyd ar cysylltiad yma yn parhau, ond ni fy yn hir cyn ir cysgod yma or Hen Drefn ddiflany.</p> <p>Yr wyf eisoes wedi son am y nifer adyniadau tŷ allan ir Chwarel oedd yn cystadly i fynd an bryd. Yn wir yr oedd digon a mwy ac anodd oedd rhoi sylw i pob peth. Yr oedd bywyd yn llawn ac yn brysur ac yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26, Cynhyrchu llechi C19, Cynhyrchu llechi C20
Tags	Rheoli, Creigio, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 435

Trawsgrifiad	<p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Yr oedd llechi mawr yn cael eu cynnyrchu yn y Shediau goreu. Sizes i fyny i 36" o hyd, y lled yn random ond nid o dan hanner yr hyd. Yr oedd rhain yn cael eu galw yn Queens a Princess. Yr oedd y chwarelwr yn cael eu daly "by weight" ac nid rhif. 10/- ? i £1 ? y dunnell.</p> <p>Ond ar y Sizes gwreiddiol cynnar yr oedd enwau, ac yr oedd yr enwau yma yn prysur ddiflay. I fyny ir 1920, 30, yr oedd pawb bron eu harfer.</p> <p>Dyma yr enwau (nomenclature) a ddefnyddid yn gyffredinol yn fy amser i (1920 -1954). Gwelaf nad yw yr enwau yn cydmharu <u>yn hollol</u> ar hyn a welir yn The Slates of Wales p 86.</p> <p># Y mae yn ymddangos mai yn 1837 y dechreuwyd gwneud y size yma 24" x 14" (Chwareli a Chwarelwyr WJP)</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 436
Trawsgrifiad	<p>sicr ddim yn ddiflas ac yn llusgo.</p> <p>Yr oedd ysgol Nos yn boblogaidd gan nifer fawr or bechgyn, ac yr oeddwn yn mynychu yn rheolaidd am flynyddoedd. Dechreuais fynd ir Ysgol Nos pan oeddwn yn Shed Sinc Bach, a credaf i mi fynd pob gaeaf am 12-</p>

	<p>14 mlynedd. Yn y cyfnod yma cawsom drafod “daeareg”, Llenyddiaeth Saesneg gan Silyn Roberts am 6 mlynedd, ac Bywydeg gan Dr R Alun Roberts am 6 mlynedd. Yr oedd 50 mwy neu lai o aelodau o ddosbarth Dr Alun Roberts (photo). Gwnaethom elwa yn hael mewn adloniant ac addysg yn y dosbarthiadau yma. Yn yr haf yr oedd y dosbarth yn cyfarfod yn achlysurol i ymweld a llefydd diddorol (yn ymwneyd ar testun) yng ngyffiniau Bangor ar cylch – Penmon – Gwaith Coper Mynydd Parys ; Llyn Idwal, Llanfaes, etc etc. Hefyd cefais i a rhai o fy ngyfeillion y fraint o fynd i “Ysgol Haf” am fis, ir Prif Ysgol yn Bangor, cynllyn a drefnwyd cydrwng Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac Undeb y Chwarelwyr. Cawsom amser hyfryd, cael darlithiau yn y bore (teimlo ein hunain allan o le, “misfits”, yn mysg y gwir fyfyrwyr, ac fod stamp y chwarael ar cefndir arnom i gyd), ymweld a llefydd o ddiddordeb yn y pnawn, a cael ei gwadd i de, gan nifer o benaethiaid y coleg. Yr oeddwn i a fy nghyfaill yn mynd yn ôl ac blaen i Fangor ar y beics ac yn mwynhau y daith, yn enwedig ar fore braf ac mewn dillad gweddol !! dwt, yn lle y carpia a llwch y Chwarael, yr oedd yn newid mawr i ni ar bob ystyr.</p> <p>Pan yn Shed Lord y gwelais ac y teimlais y “llwch” ar ei anterth (Cefais brofiad helaeth ar fater y llwch nes ymlaen). Yr oedd llwch yn pob Shed, ac yr oedd pawb yn ei dderbyn heb</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol, Rheoli
What Facet	73, 62, 123, 77, 57
Location description	Chwarael y Penrhyn
Tud	T 437
Trawsgrifiad	gwyno, ac oddigerth ei fod yn nuisance nid oedd neb yn bryderys nac yn ymwybodol or effaith ddamiol ag oedd yn ei gael.

	<p>Fel i mi ddweyd yr oedd “pace” yn gweithio yn Shed Lord yn gyflym iawn, nifer y gweithwyr yn fwy, y byrddau llifio yn gweithio yn gyflymach, mwy o hollti a naddy yn dilyn, mwy o rwbel yn cael ei godi ai symyd, llai o ddrysau. Yn y Shediau sengal yr oedd drws i pob wal, ac yn yr haf a tywydd yn braf yr oedd bron pawb yn agor ei ddrws ac yr oedd rhyw gymaint o “draught” yn cael ei henyn, ac yn clirio i <u>rhaddau</u> y llwch. Ond nid oedd hyn yn digwydd yn y Shediau dwbwl, yn enwedig tua canol y Shed, lle yr oedd yr awel yn cael fawr o effaith i glirio y llwch. Ar ddiwrnod dawel yn yr haf (ac gaeaf rhan hynny) ar llwch yn amlwg gan belydrau yr haul, ag oedd yn tywynny yn ddiarbed trwy y ffenestri oedd yn y to, ac dim modd ei osgoi pan ar y dradlan, prin yr oeddwn yn gally gweld y dynion oedd yn symyd ac gweithio tua canol y Shed oherwydd y llwch trwchus. Nid oedd “extractors” o unrhyw fath, moddion diweddarach oedd rhain a ddaeth o rhaid trwy ddeddf gwlad, ond rhy ddiweddar i nifer fawr.</p> <p>Yn y Shediau dwbwl yr oedd “overhead travelling cranes”. Yr oedd “overhead rails” wedi cael eu trefny (yw gweld heddyw) ac yn rhedeg ar hyd a lled y Shed i bob man. Yr oedd dau neu dri crane (mobile) yn darn uchaf a darn isaf, ac yr oedd yn bosibl ei symud yn hwylys ir lle y mynach. Yr oedd rhain yn gymmorth mawr, pan yn trafod pileri etc mawr, ac yn ysgafn a cyflym, dadlwytho a codi “clytiau” trymion ir bwrdd llifio.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol, Llifio, Rheoli
What Facet	73, 57
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 438
Trawsgrifiad	

	<p>Pilar yn cael ei drafod gan yr “Overhead crane”. Credaf mai o ddeuty i 5 cwts oedd “capacity” y travelling crane ?</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>“Sled bach bren”. “Relic” or “hen drefn”, ysgafn ac hwyllys (4-5 cwts)</p> <p>Y shediau dwbwl a adeiladwyd gyntaf – sef Shed A (Princess May), Shed B (Lord), Shed E (Sebastopol) a Shed F (Douglas) yn union ar ôl y Rhyfel byd cyntaf – 1918. Gellir casgly fod rhain ar y pryd yn chwildro ofnadwy, mewn ystyriaeth ar gwalia oer, a dim cynorthwy peiriannau. Fe hadeiladwyd mwy neu lai yn y man lle yr oedd gynt y rhes gwalia arbennig, sef Rhes Princess May, Rhes Lord etc ac dyma mae yn debyg pam y glynodd yr enw wrthynt. Yn swyddogol wrth y llythyren yr oeddynt yn cael eu galw – A, B, E a F. Fe fwriadwyd ir bedair Shed yma i gael eu goleuo a trydan, gellir dychmygu yr argraff a gafodd chwyldro or fath ar y gwaith pan nad oedd son am drydan ir ardal ar cylch. Mae yn amlwg na fy y cynllyn yn llwyddiant. Tebyg fod diwrnod gwaith o oleu dydd</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Cludiant
What Facet	73, 77
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 439
Trawsgrifiad	yn ddigon ac mwy na digon. Ond fe glywais i na y rheswm pam na wnaeth y cynllyn lwyddo ydoedd fod y goleu trydan yn lleol, ac uwch ben pob wal (dim goleu uchel cyffredinol fel y ceir heddyw mewn gweithdai etc), ac fod cysgodion enbyd yn cael eu tafly gyda'r canlyniad fod damweiniau yn dilyn. Nid oedd son am y goleu

	<p>trydan pan ddechreuais i yn y chwarel (1920) ac ni ddaethym ar draws neb oedd yn ei gofio, nac neb yn crybwyll am dano o gwbl. Ond yr oedd nifer or “fittings” yn aros, “brackets” “insulators” etc, yn tystio fod bwriad wedi bod ar dro i oleuo y Shediau cynnar. Yr oedd “bracket” yn aros uwch ben ein wal ni, ac hefyd “Rhif y wal”. Beth oedd pwrpas y “Rhif” nid wyf yn gwybod, tebyg i pwrpas yr oruchwyliaeth. Ond mae yn amlwg fod pwrpas y Rhif wedi marw yn ieuanc, gan na chlywais grybwyll amdanynt o ochr y gweithwyr na oruchwyliaeth na beth oedd yr amcan.</p> <p>Pan ddechreuais i yn y Chwarel yr oedd Seindorf (Band) y Chwarel fel “Band y gwaith” wedi marw – mae yn amlwg nad oedd llawer o flynyddoedd ers hyn, gan fod nifer yn parhau i weithio yn y chwarel ac oedd wedi bod yn aelodau or Band. Yr oedd rhain erbyn hyn bron yn ddieithriad yn aelodau ac asgwrn cefn Band yr ardal, “Bethesda Silver Band” ac hwn ydi i yn ei gofio. Yr oeddynt yn gorymdeithio i lawr ac i fynny stryd fawr Bethesda ar rhyw achlysur ac esgus or Douglas Arms at Lon Station, aros yn Lon Pab a rhoi performance yno, yn enwedig ar nos Sadwrn – neu wrth y “Rhinws” a pen Lon Station. Pan yn gorymdeithio yr oedd “Robin Solwidiwr” yn ddifeth yn marchio ar y blaen yn cael ei ddilyn gan Sgt Evans (Darlyn o Band y Chwarel ger United Club 1910 ??)</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 46, 110
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 440
Trawsgrifiad	Yr oedd damweiniau yn gyffredin iawn fel y gellir disgwyl mewn gwaith mor “hazardous”, ac i fynny i 1920-1930 pan oedd rhagor na 2000 yn gweithio yn y Chwarel, yr oedd nifer fawr o ddamweiniau yn digwydd yn ddyddiol. Gwellodd pethau i raddau fel y lleihaodd nifer y gweithwyr, ac mesurau diogelwch yn fwy caeth. I

	<p>fynny i 1945 yr oedd meddyg parhaol (resident) yn Ysbyty y Chwarel ai holl amser yn cael ei gymeryd i drin a trafod achos damweiniau. Yr oedd y damweiniau “mawr” yn digwydd, fel y gellir deall, ir creigwyr (Rockmen), oherwydd natur beryglys ei gwaith, ond yr oedd llawer mwy o fam ddamweiniau yn digwydd yn y “lan” (Shediau). Yr oedd man hollti a naddu a thrafod sglodion fel “razelydd” o ddydd i ddydd yn gyfryw fel yr oedd llawer i “fan” ddamweiniau yn dilyn. Prin yr oedd diwrnod yn mynd heibio heb i un neu ddau yn y Shed gael ei anafy. Toriad – “cuts”, “bruises”, “abrasions” etc oedd y cyffredin, anafy y dwylaw ar traed rhan amlaf. Yr oedd rhaid “reportio” pob damwain ir swyddog, ac yr oedd “first aid post” yn pob “man swyddfeydd”, felly yn union ar ôl yr anafy yr oeddem yn gwneud traed mor gyflym ag oedd bosib am yr “is swyddfeydd” yma i gael ymgeledd dros dro a bandage. Fel rheol yr oedd swyddog yn bresennol ac yn gwneud y gwaith, ac os oedd o or farn fod yr anafiad yn teilyngu ymweld ar Ysbyty (ar meddyg) yr oedd yn rhoi ffurflen bwrpasol i ni, ac ein hanfon i lawr ir ysbyty am driniaeth fanylach, ac ir meddyg dystio ar y ffurflen ein bod yn “fit” neu “unfit for work”.</p> <p>Credaf i mi gael damwain gydmharol fach pan</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 57, 69
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 441
Trawsgrifiad	oeddwn yn gweithio yn Shed Sinc bach. Gallaf weld y graith y fynydd yma, “cut palm base index finger rt hand”, credaf i mi gael dau bwyth yn y toriad a cael “holidays” am wythnos. Yr oedd “holidays” or fath yn felys iawn, nid oedd obaith am “holiday” ond trwy ddamwain neu salwch. Pan yn wir sal yr oeddem yn gaeth ir gwely neu

	<p>o leiaf y tŷ, ond pan oedd man anafiadau ond pan oedd man anafiadau yr oeddem yn gally crwydro ac hel ein traed, mynd am dro etc, ac fel rheol yr oedd bron yn sicr fod un on cyfeillion yn digwydd bod gartref ar y pryd. Ond yr oedd yn rhaid ymweld ar meddyg o dro i dro ac iddo yntau gadarnhau ein arhosiad gartref – neu ein bod yn barod i ail ddechreu gweithio. Fel rheol or ddydd Llun yr oeddem yn ail ddechreu : felly wedi mynd heibio dydd Mawrth dyweder yr oedd gobaith da na fuasem yn gorfod dechreu tan y Llun dilynol, ac yr oeddem yn cael hamdden nefolaidd ar draul yr “awdurdodau”. Pan wedi anafy yr oedd “compensation” yw gael yn y swyddfa a cyfraniad gan yr Undeb ar Friendly Society (yn fy achos i “Oddfellows”) felly rhwng y tri yr oeddem bron, os nad “gwell allan” nag pe taem yn gweithio. Ond ni allech anafy “i order” wrth gwrs ac yn sicr nid oedd yr amgylchiad ei hun yn profiad dymunol. Yr oedd y “shock”, colli gwaed (prin) ar boen ar y pryd ac feallai am ddyrnodiau yn dreth ac blinder. Hefyd yr oedd y driniaeth gan y meddyg, glanhau yr ardal, “stichio” etc, heb “rhewi” nac “anasthetics” na dim i leihau y boen yn y cyfnod hwnnw. Gallai man ddamweiniau y Shediau eich gadael heb fys neu ddarn o fys, neu yn gloff am eich hoes, etc etc.</p> <p>Pan yn gweithio hefo Wm Parry yn Shed Lord cefais ddwy ddamwain, ac yn rhyfedd fe dorais</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73, 57, 123, 121
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 442
Trawsgrifiad	<p>“tendon” un bawd (fy llaw) yn un, a tendon y bawd arall yn yr ail. Nid wyf yn cofio syd y digwyddodd y cyntaf – ond yr ail – yr oeddwn yn cario darn o lechfaen (tua 20 lbs o bwysau ?) “waste” ydoedd, ac pan yn ei godi i ben y llwyth rwbel, dyma fo yn torri yn ddau ar draws ei ganol, a”collapsio” yn fy nwyllaw. Mae yn amlwg fod toriadau (sigiad) ynddo nad oeddwn wedi sylwi. Cefais archoll ddofn ar draws ac hyd cefn fy mawd, a codi talp</p>

	<p>or cnawd ac mae yn amlwg torri y tendon. Yr wyf yn ysgrifennu ar y fynydd hefo cymorth y bawd cam : y mae un (y dde) fwy cam nar llall, ond y ddau ac nifer o fan greithiau eraill yn fy ngysyllty ar gwaith peryglus y Chwarel. Anodd meddwl neu dod ar draws “defnydd” naturiol sydd yn fwy (hazardous) creulon nac llechfaen yw thrafod. Ar ôl torri, hollti, naddu etc yr oedd yr (edges) ymylon fel gwydyr. “Pilieri” neu glytiau (Blocks) yn dod i fyny or twll, newydd eu trin, ar penau ar ochrau yn amyl yn “slip” ac yn gadael ymyl fel cylleth “jagged”. Y mae yn rhyfedd fod cyn lleied o ddamweiniau ac ystyried natur y gwaith. Yr oedd y gweithwyr wedi datblygu (yn ddjarwybod) gofal a parch ir perygl, ac yn wyrthiol yn osgoi damweiniau. Yr oedd nifer or dynion hynaf na chawsant ddamwain o gwblwl tra yr oeddwn y gweithio yn y Shediau. Yr oeddynt yn eithriadol o ofalys ac yn parchu y lechfaen. Yr oedd y rhai ieuengaf yn enwedig y Jermyns yn fwy ddibrofiad ac rhyfygys, ac wrth gwrs yr oedd naddu a clirio y rwbel etc yn fwy peryglus. Yr oedd rhai (cofiaf amdanynt yn dda) yn “prone” i ddamweiniau ac dragwyddol yn gwisgo bandage ar fys neu law.</p> <p>Yr oedd rhai gweithwyr, ac yr oedd pawb yn gwybod</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73, 57, 69
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 443
Trawsgrifiad	am danynt yn dda, “ yn anifeilaidd” hefo eu hunain. Dyna y term yr oedd yn cael ei gyfeirio atynt, gan eu bod yn parhau i weithio yn wyneb bron pob damwain ag oedd yn digwydd iddynt. Yn achlysurol yr oeddynt yn cael “cut” erchyll a fyddai yn teilyngu nifer o bwythau, neu pydriad drwg etc. Yr oeddynt yn cely y ffaith ac dim yn reportio fel y dylasant rhag ofn, ac yn sicr y buasant yn cael eu hanfon ir Ysbyty a gorfod aros gartref. Gwir fod rhai ohonynt a teulyoedd yw cadw neu (a) tyddyn, ac yr oedd colli gwaith yn torri ar eu cyflog (o dan

	<p>contract). Yr oedd yn wahanol i ni fel Jermyns cwbwl i ennill oedd i ni gael spel or “gaethglyd”. Yr oeddynt yn rhwymo rhyw gerpyn am yr archoll a cario ymlaen . Tebyg wedi mynd gartref fod yr archoll yn cael gwell sylw ? Gallwn enwi nifer o rhan heddyw ar fy nghof.</p> <p>Rhwng 1920 – 30 nid oedd damweiniau mawr ac angheuol yn anghyffredin, ar blynnyddoedd oedd yn dilyn yr oedd damwain angheuol yn achlysurol yn digwydd. Rhwng 1920-30 yr oedd nifer y gweithwyr yn 2000 neu rhagor, yn rhaddol o flwyddyn i flwyddyn yr oedd y rhif yn lleihau. Hefyd yr oedd deddfau safety yn mynd yn fwy caeth ac o ganlyniad yr oedd damweiniau mawr yn lleihau. Yr wyf yn cofio y braw ar sobri yr oedd yn aqchosi i holl waith ac feallai yn arbennig i ni yr ifanc – pan oedd damwain fawr wedi cymeryd lle. Yr oedd newydd yn mynd fel tan gwyllt trwy y gwaith, ac yr oedd y Shediau mewn safle addas i weld y ffordd fawr ac oedd yn arwain or rhan fwyaf or Chwarel i gyfeiriad yr Ysbyty. Felly yr oedd pawb yn gadael eu gwaith, pan oedd argoelion fod y “strechiar” yn debyg o basio heibio</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 57, 69
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 444
Trawsgrifiad	ac yn tyru i ben y Shed i aros a holi yn dawel. Yn amyl yr oedd damwain wedi digwydd yn “Top gwaith”, rhan uchaf y chwarel (Ochr Dde) ac yr oedd y strechar ar cludwyr (gweithwyr y Bonc) wedi cymeryd peth amser i ddod or bonc ac i lawr yr Inclines. Oherwydd yr anhawsterau ar gofal yr oedd rhaid ei gymeryd, yr oedd enw y truan ac rhyw amlinelliad beth oedd wedi digwydd wedi cyrhaedd Red Lion (yn amyl trwy cyfrwng y Swyddfa oedd yn ymyl) (phone) ac yr oedd y ffeithiau bratiog yn cael eu cario o group i Group. Yn amyl os oedd y ddamwain wedi digwydd yn Ochr dde neu rhan arall pell fel Agor Douglas neu George neu uchelion Ochr

	<p>Chwith yr oedd shiawns nad oeddem yn adnabod y truan, ond “Hugh Robaitch” lle ar lle – ac nid oedd yn golygu fawr i ni. Fodd bynnag yr oedd y shock yr un mor enbyd, ac yn sobri pawb or hynaf ir ieuengaf. Ni allwn ar bob achlysur or fath beidio meddwl am ei deuly, ei wraig gartref mewn tŷ yn olwg y chwarel feallai, ac tebyg plant truan yn yr ysgolion cyfagos, ac ar y pryd yn gwybod dim am y trychineb ac beth oedd yn eu haros, ac yn mynd i ddymchwel eu hapusrwydd ac yn wir eu cynhaliaeth – nid oedd “Social Security” na fawr o gymorth y blynyddoedd hynny, a gwaeth byth fel y treiglyd yn ôl ir 1900 a cyn hynny. Yn achlysyrol wrth gwrs yr oedd “damwain fawr” yn digwydd yn waelod y Chwarel, y ponciau isaf, ac yr oedd y rhanau yma yn fwy cyfarwydd i ni, ac yr oeddem yn adnabod yr helyw or gweithwyr, ac o ganlyniad yr oedd y drychineb yn dod yn nes adref i ni = “hwn a hwn ydi o”, ac ninnau feallai yn cael “cerrig” oddiwrtho yn barhaus.</p> <p>Pan oedd damwain yn digwydd yn y ponciau isaf</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 57, 69
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 445
Trawsgrifiad	<p>yr oedd yn ofynnol dod ar strecher i fynny y Tank (shaft). Ar y pryd nid oedd “telephone” i waelod y chwarel ac yn sicr (hyd heddiw) ir rhanau pell or ponciau, felly nid oedd neb yn gwybod pwy oedd y truan, nes ir Tank droi, a pawb yn disgwyl a dyfaly, ond nid oeddem yn hir yn cael gwybod pwy ydoedd (neu oeddynt) ac beth oedd wedi digwydd. Yr oedd gennym amcan pa mor ddifrifol oedd y ddamwain – gan nifer y cludwyr. Os oedd nifer sylweddol yr oedd hyn yn argoli damwain fawr a thebyg angheuol. Os oedd y nifer yn fach ac ond digon i newid trosodd, yr oedd hyn yn awgrymu nad oedd y ddamwain yn fawr, ac tebyg mai torri coes neu rhywbeth cyffelyb, neu salwch, oedd yr achos. .</p>

	<p>Pan oedd damwain angheuol yn digwydd yr oedd yn arferiad ir Bonc rhoi goreu i weithio a mynd gartref am y diwrnod er parch ar truan, ac hefyd effaith y “shock” ar ei gydweithwyr. Yr oedd yn dod adref i bob un o honnom y perygl oedd yn ein gwyneb, ac yn enwedig y rhai oedd yn gweithio ochr yn ochr ar truan. Wedi ir “strecher” fynd heibio ac i ni wybod y ffeithiau, yr oeddem yn llusgo yn ôl, a dechreu gweithio eto.</p> <p>Wedi crybwyll am telephone, llwm ir eithaf oedd y ddarpariaeth yma yn y chwarel, ac ystyried ei fod yn waith mor eang a perygls. Rhyw 6-8 “extensions” oedd i gael. Y nifer helaeth o’r man swyddfeydd heb y cyfleusterau, nid oedd y phone yn swyddfa y “Setters” (y prif swyddogion) ac o ganlyniad yr oedd cerdded diarbed yn ôl ac blaen. Hefyd nid oedd goleu trydan yrn yr un swyddfa oddigerth y prif seyddfa i fynny i 1955 a thebyg ar ôl hynny.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Llifio, Trin Cerrig, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 57, 69
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 446
Trawsgrifiad	<p>Pan oedd y dydd yn fyr ar goleu yn pally, lampiau olew oedd at ein gwasanaeth. Peth gwrthyn mewn gwaith mor fawr</p> <p>Yn ystod y blynyddoedd yr oeddwn yn Shed Lord, ac yn wir rhai blynyddoedd cyn hynny, ac yn sicr ar ôl gadael y Shed, yr oedd rhai o honnom (nifer fach) yn crwydro a thrampio y mynyddoedd. Yn wir <u>y chydig iawn</u> o ddiddordeb oedd yr ardalwyr yn gymeryd yn yr unigeddau, a rhan fwyaf erioed wedi bod ar eu cyfil. Tebyg bod yn gywir dweud na allai un o bob dau ddweyd pa run oedd Garnell Llewelyn ac Carnedd Dafydd, ac dim syniad</p>

	<p>beth oedd enwau y mynyddoedd ar ochr dde i Nant Ffrancon, er eu bod wedi byw yn eu golwgar hyd eu hoes. Gallai y Glyder, Garn ac Elidir etc fod yn China. Yr oedd gwybodaeth yr helyw ar cyffredin yn gorffen ar ôl Y Fronllwyd, Benbraichmelyn, Moel Faban ac Moelwynion a Moelyci a Tryfan. Anodd credu fod triglolion Bethesda a llefydd or fath wedi ei genni magu a byw ar hyd eu hoes yn eu golwg, ac yn cymeryd nesaf peth i ddim o ddiddordeb ynddynt. Yr oedd cannoedd o fechgyn ieuanc yn y chwarel a gallech gyfri ar un law faint oedd yn cymeryd unrhyw ddiddordeb yn yr unigeddau.</p> <p>Gwir fod rhai bechgyn ardaloedd cyfagos ir bryniau – fel Rachub, Mynydd Llandegai, gerlan etc yn crwydro rhanau arbennig a cydmharol agos, yr abwyd ar adyniad oedd defaid. Yr oedd nifer yn feddiannol ar dyddyn, neu rentio cae neu ddau, ac yn pori y defaid yn ystod yr haf ar “cynefin” yn y “mynydd”. Y mae yn amlwg eu bod yn cael pleser diddiwedd, ac yn trafod y defaid, cynefin, cwn, etc yn barhaus. Yr oeddynt bron i gyd yn feddiannol ar ddau gi defaid, ac feallai ond dwsin neu ddau o ddefaid</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 30411, 83
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 447
Trawsgrifiad	<p>Ond yr oedd ddigon o reswm ac asgus i fynd i “fynny y mynydd i weld y defaid”. Yr oedd eu diddordeb yn y mynyddoedd yn darod lle yr oedd “cynhefin” y defaid yn darfod. Yn achlysurol crwydro ymhell i ddod a “crwydryn” yn ôl, ac dyrnodiau “hel defaid” ar gyfer cyneifio a tipio.</p> <p>Yr oedd nifer arall yn “crwydro” yr unigeddau, ond rhain eto i bwrpas, pysgotwyr yn cerdded i Cwm Afon Goch, heibio Gyrn, neu dros yr Aryg am Llyn Melynlllyn a Dulyn, ac ymhell am Llyn Anafon uwch ben Llanfairfechan, neu cerdded o Bethesda trwy Pant y Daran a dros Garnedd Dafydd ac i lawr i Ffynnon Lloer,</p>

	<p>neu i fynny trwy Cwm Pen Llafar a cyrhau Garnedd Llewelyn am Ffynnon Llugwy neu Cowlyd. Fel rheol yr oedd rhain yn cychwyn yn hwyr y nos neu cyn toriad dydd fel ag i ddechreu pysgota cyn gynted ag oedd y wawr yn torri. Nifer yn pysgota yn anghyfreithlon gefn nos, “styllenu” etc (gallwn enwi nifer ac ymhelaethu ar y testun !). Ychydig iawn or ardalwyr oedd a gwir ddiddordeb yn yr unigeddau. Yr oeddwn i yn digwydd bod yn un o rhai hynny a cefais ddiddordeb a pleser diddiwedd yn eu crwydro, ac o ganlyniad fe ddois yn gyfarwydd a pob adran o Dyffryn Conwy i Pen -y-Gwryd, ac Bettws y coed.</p> <p>Pan oeddem yn “Bela”, ar ar ôl hynny, ar hir ddydd braf yn yr haf, yr oedd ddim gennym godi ein hadain ar ôl cael “swper chwarel” ac “off” a ni (ar ôl diwrnod lluddiedig yn y Chwarel) i bysgota an dwylaw, rhanau uchaf Afon Berthen o “Rochfa Tŷ Gwyn” i fynny. Golyga hyn gerded o Pant tros Pen – Braichmelyn, Mynydd Perfedd ac am y “rochfa” (olchfa) dwy filltir a rhagor ar dringo. Pysgota a chwarel a crwydro yn raddol heb ystyried nes sylweddoli</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	73, 30411, 83, 84
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 448
Trawsgrifiad	<p>ein bod yn mhell ac bron yn “Pant y Daran”. Ychydig bysgod yr oeddem yn ei gael a rhain yn fan ond yr oedd y pleser werth ei gael, ac yn enwedig wrth gau a troi yr afon mewn llefydd addas. Gweld fod argoelion fod dydd yn darfod ac cyflymy am gartref.</p> <p>Pan oeddwn yn Shed Lord y dechreuais grwydro ymhell ac ar draws yr unigeddau. Dydd Sadwrn diwedd y mis oedd yr unig wir gyfle, gan fod shiawns cael diwrnod ar ei hyd, yn enwedig os oeddwn wedi “cyfri noson cynt”</p>

	<p>neu yn fore iawn y Sadwrn. Yr oedd yn ofynnol cael diwrnod ar ei hyd i wneud shiwrna sylweddol, ac nid oedd y Sul yn cael ei ystyried ar unrhyw gyfri. Yr oedd y Sul yn cael ei neilltuo ir capel yn ddeddfol, ac nid i “wag rodiana” – ac nid oedd yn croesi ein meddwl i wrthwyneby hyn, ac buasem yn destyn shiarad ir ardal. Felly os am daith fawr, Sadwrn diwedd mis oedd y cyfle goreu – ac hefyd Llun ac Sadwrn Pasg a Sulgwyn.</p> <p>Er ein bod wedi gweithio yn galed iawn ar hyd yr wythnos, , a thebyg yn fore iawn Sadwrn diwedd mis ac feallai wedi rhoi sylw ir ardd neu “gweiriau” y cymdogion gyda'r nosau, eto nid oeddem yn oedi ond cynllynio yn frwdfrydig am y daith ir unigeddau. Tebyg y buasai wedi bod yn llawer gwell in corph pe buasem yn cymeryd pen yr wythnos yn hamddenol, a cael ein cefn atont. Nid oedd hyn yn croesi ein meddwl ac yr oeddem ar dan am fynd ac yn mwynhau yr awyr iach a pob mynyd or daith. Yr oedd llawnder yw weld ar bob llaw a golygfeydd hyfryd, ac nid oeddwn yn blino cerdded yr hen lwybrau. Fe wnaaf ond crybwyll rhai or teithiau</p> <p>1) Cychwyn o Pant a galw am Ned yn Gerlan, mynd</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	30411, 73, 96
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 449
Trawsgrifiad	ymlaen am Tangarth ar hyd llwybr Aryg, parhau i ddringo yn wastad, trosodd uwch ben Afon Wen ac am Cefn Tir, ac ar i lawr ar ein penau am Llyn Dulyn. Wedi oedi yno am ychydig a cael dipyn o luniaith ymlaen ac trosodd am Melyn-llyn. Cerdded i lawr y cwm am ychydig ac ir dde a trosodd am rhanau isaf Llyn Eigiau, ymlaen i'r dde a croesi Afon Porth, cael gafael ar y track a gwneud ein ffordd i Dolgarrog. O'r diwedd dod ir

	<p>ffordd fawr a cael bus i Llanrwst. Wedi cael lluniaeth mewn cafe, mynd yn hyderys am y bus, canfod er shiom nad oedd bus i Bettws y coed, a dim i wneud ond cerdded – nid oedd “hitchio” yn ffashiynol yr amser hynny, felly nid oedd obaith am lift, ond ymdrechu i gario ymlaen. Or diwedd cyrhaedd Bettws y coed ac ond ychydig funudau wrth gefn. Dyna nefoedd oedd cael eistedd yn y bws, a gweld y wlad yn mynd heibio. Wedi’r holl ymdrech cawsom ddiwrnod hyfryd a bythgofiadwy, ac wedi cerdded oddeutu 20 milltir o fynydd gwyllt a dringo tua 3000 o droedfeddi , ar daith ychwanegol ar y ffordd o Llanrwst i Bettws – y – coed. Gwnaethom y daith yma droion, neu ei chychwyn o leiaf hyd Afon Wen. Yr oedd “variations” sef cario ymlaen am Foelgrach a Gledrffordd am rhanau uchaf Cwm Eigiau, trosodd ac am Cowlyd, cael gafael ar y “track” ac i lawr ar ir dde am Trefriw – ac bus gartref</p> <p>2) Beic i Capel Curig a dilyn y llwybr (unig y cyfnod hwnnw) i Llyn Geirionnydd, trosodd i Crafnant ac i lawr i Trefriw. Bus yn ôl i Capel Curig ac beic gartref.</p> <p>3) I fynny trwy Tan-y-Foel ac heibior Gyrn, i lawr Nant Gam , croesi’r Afon Goch o dan y Rhaeadr ac i lawr y Cwm hyfryd. Troi ir dde a cael gafael ar yr hen ffordd Rhyfeinig trwy Bwlch y ddaufaen</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	30411, 77
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 500 (sic)
Trawsgrifiad	<p>ac i lawr i Ro-wen a Tyn y Groes, bws i Conwy ac wedyn i Llandegai a gartref.</p> <p>4) Cyfarfod yn Bontgasseg a dros Benbraichmelyn am Bont Ogwen. I fynny ochr chwith y Chwarel, manteisio ar y gelltydd (Inclines) serth, croesi ar hyd un or ponciau uchaf (Ceiling) i Ochr dde, cael gafael ar y llwybr aneglur sydd yn cyfeirio i Marchlyn. Wedi cyrhaedd Marchlyn codi i fynny yn syth ir dde, cyrhaedd y “top” rhwng Garnedd y Filiast a Mynydd Perfedd, golygfa hyfryd o Nant Ffrancon. Ymlaen ar</p>

	<p>flaenau uchaf Cwm Dudodyn ac am Foel Goch a llethrau y Gyrn ac i gyfeiriad Llyn cwn ; canfod y llwybr serth ochr dde i Gegin Gythraul ac i lawr am Llyn Idwal, cadw i'r chwith ac ymlaen am Llyn Ogwen ar ffordd fawr a bws gartref (yr oeddem yn gwybod amser y bws yn dda ac yr oedd un hwylys tua 7.30pm ar y Sadwrn o Llyn Ogwen (wedi gadael Bettws y coed) felly yr oeddem yn trefny ein taith fel ag i gael y bws yma.</p> <p>5) Taith gyffredin ac un or favourites oedd (nid oeddem yn nglŵm i fws) gadael Gerlan ac codi trwy Tangarth am Gyrn y Wigau – cael gafael ar “llwybr Aryg” heibio i Bera Bach, Yr Aryg, Garnedd uchaf, Foel Goch, ac i ben Carnedd Llewelyn. Ymlaen uwch ben Ysgolion Duon, ac i ben Carnedd Dafydd. Ymlaen eto ychydig ar hyd eu crib a troi i lawr am Pant y Daran ac dilyn Afon Berthan at Rochfa Tŷ Gwyn, dilyn y wal nes dod i “giât mynydd” ac i lawr dros Benbraich am Bont Gaseg ac gartref.</p> <p>Nid wyf ond wedi nodi rhai or teithiau, yr oedd ymestyn a cwtio ar rhain ac “variations” o bob math, symyd fel oedd yr ysbryd ar amser, a crwydro fel defaid i rhywle oedd yn ein deny. Yn amyl mynd “wisg ein trwynau” heb gynllyn, aros yn amyl i adeilady twr, gwneud tan, pysgota ffoes, troi yr Afon etc etc</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	30411, 77
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 501
Trawsgrifiad	Oherwydd y nifer ddiddiwedd bron o ddiddordebau ac ad-dyniadau allanol yma, yr oedd bywyd ymhell o fod yn faichus ac yn “bore”, ac er yr holl weithio caled ac amgylchiadau llwm (neu gyffredin) yr oedd pawb yn ymddangos yn hapys iawn, ac yn sicr felly yr ifanc, credaf fod yr awyrgylch yn llawer gwell ag y mae heddyw, hefor gor lawnder, bywyd esmwyth, diymdrech.

	<p>Ar ein teithau niferys ir unigeddau nid wyf yn cofio i ni erioed cyfarfod ac neb lleol, ond wrth gwrs ambell i Fugail, neu Dyddynwr wedi bod yn ymweld ar defaid neu ferliod, ac hefyd pysgotwyr ar eu shwirna yn ôl neu blaen. Yr oedd yr ardalwyr fel yn gochel yr unigeddau ac yn gwybod dim amdanynt, fel ag y maent hed heddyw !</p> <p>Yn y cyfnod y magwyd i, ac y bum yn y Chwarel, ac yn enwedig ir blynnyddoedd oedd yn dilyn i ddechreu yr ail ryfel byd , 1938, yr oedd garddio yn cymeryd llawer on hamser. . Yr oedd bron pawb yn yr ardal yn cymeryd diddordeb yn yr ardd, ac eithaf cystadleuaeth yn cymeryd lle, ac trafod yr ardd ar cynyrch yn destyn blasus bob amser, ar chwarelwyr yn cyfnewid had (yn enwedig tatws cynnar) ac yn cario ir naill ar llall. Yr oedd ni fel bechgyn ifanc yn gorfod gwneud ein rhan, ac yn wir yn gwenyd yn wirfoddol gan mai eithriadau oedd ddim yn gwneud. Yn y gwanwyn yn enwedig ar ôl cael “swper chwarel” ac pnawn Sadwrn, yr oeddem i gyd yn rhoi “hand” i glirio a paly, rhai yn gweithio yn fwy eiddgar nar lleill, ac yn rhoi mwy o amser. Ond yr oedd yn arferiad ac fe ddisgwylir ir meibion helpy y tad.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 56
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 502
Trawsgrifiad	Yr oedd rhai a dim llawer o ddiddordeb ganddynt yn yr ardd, ac ad-dyniadau mwy blaus eraill; pysgota etc, ac o ganlyniad yn osgoi neu wneud ychydig. Fod bynnag, gyda'r nosau braf yn y gwanwyn yr oedd bron pawb yn yr ardd, ac yr oedd yn bleser gweld y gerddi mor dwt a therfnys. Wedi ebwch y gwanwyn, yr oedd yr ardd yn cael ei gadael mwy neu lai i'r tad yw chadw yn drefnys dros yr haf, nes deuai yr hydref, ac fe ddisgwylir ir meibion rhaoi llaw i godir tatws ai cadw at y gaeaf.

	<p>Bron yn gyffredin yr oedd rhan helaeth or ardd yn cael ei rhoi i datws. Rhai gerddi dim ond tatws. Gellir deall hyn gan fod tatws yn cyfranu yn helaeth at ymborth “staple” y gaeaf, ac yn lled gadw y teuly i fynd tan y tymor nesaf, ac i rhaddau helaeth yr oedd y teuly yn ddibynnol ar y tatws. Yr oedd tatws yn dod yn agos iawn ir bara fel fon cynhaliaeth. Felly gellir deall felly pam yr oedd bron pawb yn trin pob congyl or ardd, ac yn ymdrechu i gael cymaint ag oedd yn bosibl allan o honni, er cynorthwyo y cyflog isel y chwarel. Yr oedd teulyoedd niferys yn ffasiwn, ac yr oedd angen lot o fwyd yw cynnal, yn enwedig plant “rheibys” ar ei tyfiant oedd yn barhaus yn llwglyd. Nid oedd prynu tatws yn “bulck” at y gaeaf yn arferiad, yr oedd pob teuly yn ceishio cario ymlaen ar adnoda eu hunain a cynnyrch yr ardd, nid oedd arian ar gyfer ond y “rhaid”, ac yn wir ddim digon i hynny. Yr oedd gennym ni ardd helaeth ac pob darn yn cael ei drin. Yr oedd fy “nhad” yn arddwr da, ac wedi etifeddy y ddawn oddi wrth ei dad (Richard Roberts Tŷ cerrig) ac ei ewythr oedd yn berchennog ar “Nursery”. Gan ein bod yn feddaiannol a gardd helaeth, yr oeddem yn gally amrhywio y cynnyrch (crops) ac er fod rhan dda</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 56
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 503
Trawsgrifiad	<p>yn cael eu rhoi ir tatws, yr oeddem hefyd yn codi ffa, pys, ffa dring, cabbage, lettuce, shallots, (tomatoes yn y tŷ gwydr a cucumbers) a llu o amrhywiaeth. Hefyd yr oedd coed afalau ac eirion da yno. Yn ddiweddarach yr oeddem yn meithrin a codi llawer o flodau a shrubs, rhosod etc, ac yn pen draw yr ardd yr oedd darn wedi ei gau ir ieir. Yn ychwanegol i sbarion bwyd y tŷ yr oedd rhain yn cael yn ystod yr haf ddigon a chwyn, gwair etc. Yn y gauaf yr oeddynt yn cael rhyddid or ardd fawr i gyd, ac yn help mawr i gadw y lle yn lan at y gwanwyn dilynol.</p>

	<p>Yr oedd gardd bron i bob tŷ yn yr ardal, ac yn Llwybyr Main Mynydd Llandygai yr oedd llain o “dir” wedi ei neilltuo ar gyfer pob tŷ. (tua erw ?) – rhain yw gweld heddyw, ond bron i gyd wedi ei hesgeuluso erbyn hun, a gellir deall hynny (darlyn). Oherwydd natur fynyddig a caregog yr ardal yr oedd yr holl erddi o ansawdd sal. Tir llwm syr ydoedd, ac yn naturiol brwyn, rhedyn ai fath oedd yn ffynu arno. Yr oedd rhai rhanau ychydig yn well nau gilydd, sef rhanau isaf y dyffryn fel “Pant”, lle yr oedda ni yn byw, a glanau Afon Ogwen at Brynbella. Yn ôl safonau cyffredin yr oedd y “rhanau goreu” yma yn sal, haenen denau o brudd llwm ar wely trwch o rafel (gravel). Nid oedd gwrteithiau (fertilizers) celfyddydol yw cael ar gyfer garddwr cyffredin cefn gwlad, ac pe byddent ar gael nid oedd arian ar ei cyfer. Felly ychydig iawn o gymorth oedd y pridd sal yn ei gael a dim cynysgaeth yn cael ei rhoi yn ôl. Oherwydd anwybodaeth nid oedd cadw “compost” yn arferiad. Yr oeddem ni yn cario llwythi yn y ferfa o “chwyn” i lanau Afon Ffrydlas ger y ty</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 56
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 504
Trawsgrifiad	<p>er cael gwared a hwy, a thrwy hynny yn llwmhau yr pridd o “organic matter” anghenrheidiol. Yr oedd bron pawb yn ceisio “scroungio” ychydig dail gan dyddynwr cyfagos, neu gael llwyth trol yn achlysurol o fferm sylweddol. Yr oeddem ni yn ffortunus, gan fod fy ewythr yn cadw tyddyn gosaf, ar ffin ein gardd. Hefyd yr oedd fferm fach (Pant Farm) mewn rhyw 20 llath in tŷ ni. Felly rhwng y ddau “darddiad” yma, yr oeddym yn gwneud yn well na rhelyw. Gan ein bod fel teulu (yn ôl arferiad y cyfnod) yn rhoi cymorth “amser y gwair” yn y ddau le (darlun), yr oeddem ninnau yn ein tro yn cael ein “ration” or tail. Yr oeddem yn falch iawn oi gael ac teimlo ein hunan yn ffortunus. Pan yn edrych yn ôl, yr wyf yn sylweddoli tail mor sal ydoedd, gwerth fel</p>

	<p>“humus” mae yn debyg, ond fawr or elfennau sylfaenol at dyfiant ynddo. Bwyd llwm iawn oedd y gwartheg yn ei gael, ac i ychwanegu at bethau yr oedd tuedd i gadw gormod o bennau (overcrowding) hyn yn cael ei hyrwyddo gan y bywyd caled ar awch i gynorthwyo budget y teuly. Pan yn edrych yn ôl a cofio y math o anifeiliaid yr oeddynt, yn crafy byw ar groen o dir sal, yr oeddynt yn fach ac ysgyrniog, ar y pryd nid oeddynt yn od i ni ac dyna oedd ein safon. Yn ddiweddarach ac ar ôl crwydro tipyn a gweld gwartheg mawr llawn eu croen ar waelod gwlad, yr oeddwn yn sylweddoli pa mor druenys oedd ein hen safonau. Hefyd yr oedd y llaeth (llefrith) yn sal ddifrifol ac yn denau. Ychydig iawn o hwn yr oeddem yn ei gael (pint y dydd i deuly mawr) er saled ydoedd.</p> <p>Yr oedd yn arferiad yn yr ardal, yn enwedig rhanau fel Llanllechid, Rachub etc, llefydd oedd yn</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol
What Facet	61, 83
Location description	Bethesda, Gwynedd
Tud	T 505
Trawsgrifiad	weddol agos i ffermydd sylweddol, fel Coetmor, Talsarn, etc, i gael rhes (feallai dwy res) o datws diweddar yn y cae tatws. Yr oedd y tir yn cael ei drin gan y ffermwr, ac yr oedd yntau yn neilltuo nifer o rhesi (llain) ar gyfer teuluoedd arbennig, a oedd yn rhoi cynorthwy rheolaidd tymor y gawir, yd, codi tatws etc. Fel rheol yr oedd y “chwarelwr” yn gally prynu yr had gan y ffermwr, neu dod a had ei hun. Yr oedd y ffermwr yn rhoi y gwrtaiith (tail) wedi i’r chwarelwr rhoi yr had i lawr a cynorthwyo y ffermwr ar y rhan helaeth or cae , yr oedd yr aradr yn cau. Yr oedd rhes o datws yn y cae yn drysor ir chwarelwr ac yn asgwrn cefn yw cynhaliaeth dros y gaeaf. (y gwir yw fod y chwarelwr yn taly yn ddrud am y “ffafr”, ac yn gweithio yn galed dros y flwyddyn) ar y fferm. Er

	<p>mewn llawer i achos yr oedd wrth ei fodd ac yn cymeryd diddordeb yn weithgaredda cyffredinol y fferm ac yn ymfforsio yn ei gysylltiad a hi.</p> <p>Fel popeth arall fe lithrodd y ddwy flynedd yn Shed Lord yn gyflym . Ychydig wythnosau cyn ir terfyn ddod yr oeddwn yn dyfaly beth fyddai fy ffawd, ac i lle y buaswn yn cael fy anfon i weithio. Un peth oedd yn sicr y buaswn yn cael shift o Shed Lord, anamyl iawn oedd “bachgen” wedi cyrhaedd ei 20 oed, ac o ganlyniad yn dod yn “bardner” ac yn teilyngy cyflog chwarelwr profiadol ar holl “freintiau”, yn llwyddo i gael aros mewn Shed fel Shed Lord, os nad oedd ganddo dad neu frawd a “lle” addas yn cael ei drefny. Yr oedd yn anhawdd iawn cael wal yn un or shediau goreu yma, a fawr o obaith i ddyn ifanc ar “wire pulling”. Yn achlysurol yr oedd wal</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Hanes Cymdeithasol, Rheoli
What Facet	61, 73, 83
Location description	Bethesda, Gwynedd. Chwarel y Penrhyn
Tud	T 506
Trawsgrifiad	<p>yn mynd yn wag, oherwydd marwolaeth, ymddeol etc, ac yr oedd cystadleuaeth frwyd yn cymeryd lle, yn allanol ac tŷ ôl ir lleni. Yr oedd yn dra pwysig ir oruchwyliaeth i pwy oedd y “wal” i fod, yr oedd pob ymgais yn cael ei wneud i gael gweithiwr cydwybodol a didrafferth, er ychwangy at gynnyrch cyffredinol y Shed, ac i wneud gwaith o ddydd i ddydd y swyddog oedd yn gyfrifol yn esmwyth.</p> <p>Yr oeddwn yn dra ymwybodol or ffeithiau yma, ac felly nid oedd obaith cael aros yn y Shed. Fodd bynnag, ar y pryd yr oedd Shed newydd yn cael ei hadeilady mewn tafliad carreg i Shed Lord, y 14eg i gael ei chodi. Erbyn hyn nid oeddynt yn cael yr enwau fel y rhai cyntaf, gan nad oedd cysylltiad o gwbl ar Shed a “Rhes gwalia”</p>

	<p>arbennig neu Bonc, ac o ganlyniad yr oedd y Shediau diweddaraf (yma ar ôl 1930 ?) yn cael ei galw yn syml Shed N (etc) ac wrth llythyren y maent yn cael ei hadnabod hyd heddyw. Yr oeddwn yn gwybod fod nifer o rhai at fy oed i, a rhai hyn, yn cael ei symud i Shed N oherwydd “overcrowding” yn rhai or Shediau, ac rhai fel finnau beynydd yn dod i oed (20). Yr oeddwn yn gwybod hefyd fod Will Phill, fy hen “mate” ac fy mhardner pan oeddwn yn bela yn Ponc Rhysold, yn cyrraedd ei 20 oed bron yr un amser a fi, ac felly fe drefnwyd i ni ein dau gael “transfer” yr un pryd i Shed N ac i weithio yn ddau bardner (a Jermon yn ddiweddarach).</p> <p>Yr oedd y Shediau diweddar yma (ar ôl tua 1930) yn gwahaniaethu yn ei cynllun (plan) ir hen Shediau safonol, ac yn gwahaniaethu rhwng y naill ar llall. Yr oedd “idea” newydd yn cael ei gynnig, a cynllyn y “lay out” yn gwahaniaethu, y cwbl er hyrwyddo ychwaneg o gynnyrch a hwylyso gwaith.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin Cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 507
Trawsgrifiad	<p>Ac felly am Shed N, yr oedd layout y Shed yn wahanol iawn ir hen shediau ag oeddwn wedi ymarfer a nhw (mwy am y lay-out eto)</p> <p>Pan oedd Shed newydd yn cael ei hadeiladu, yr oedd ymgais yn cael ei wneud gan yr oruchwyliaeth mor fuan ag oedd yn bosibl, i gwblhau gosod yr peiriannau fel ag i gael pedair neu chwech wal yn barod at weithio, a dod a gweithwyr i mewn i ddechreu cynyrchu ar unwaith. Yn y cyfamser yr oedd rhagor or peiriannau etc yn cael eu trefny, ac rhagor o ddynion yn dod i fewn, nes or diwedd ir Shed fod yn llawn. Yr oedd y “process” yma yn cymeryd wythnosau os nad misoedd, ac felly hefo Shed “N”. Rhai wythnosau cyn i mi gael transfer, yr oedd</p>

	<p>nifer fach yn barod yn gweithio yn y Shed, a pan ddaeth ein hamser ni, nid oeddem yn ddieithr ir snags ar manteision.</p> <p>Fodd bynnag yr oeddem yn edrach ymlaen i gael gadael y caethiwed o “jermon” am byth, ac bod yn is-wasanaethgar, ac ymateb i pob archeb heb gwestiwn. Yr oeddem yn camu o gaethiwed i rhyddid, ac bod yn feistr ar ein hunan o hyn ymlaen, trefny ein dydd a gwaith fel y mynom, cael codiad yn ein cyflog, ac o hyn ymlaen ar “level” a pob chwarelwr profiadol arall. Ac yn ychwanegol mi oedd “benefit” ein hymdrech yn dod yn ôl i ni yn bersonol “settlo mawr” (Balance due) a shiawns da o gael “settlo mawr” yn lle y “cardod” a cildwrn slafaidd gan ein pardnar pan yn Jermon. Yr oedd y rhyddid ar posibiliadau yn adyniad mawr. Fe ddaeth dydd Gwener diwedd mis olaf yn Shed Lord ac hel y celfi yn barod at ddechreu yn Shed N o dan amodau newydd y Llun dilynol.</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Trin cerrig, Llifio
What Facet	73
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 508
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd gan y chwarelwr ddull arbennig o “adio” ei “gyfri”, a dyma y dull oedd fy nhad yn gwneud cyfrifon y capel. Wn i ddim a oedd y dull yma yn cael ei arfer tŷ allan ir chwarel gan fasnachwyr etc. Feallai fod y dull symyl yma yn gyffredin ir cyfnod ac nid yn gyfyng ir chwareli yn unig. Fe geishiaf egluro y drefn, ond nid yw yn hawdd gwneud ar bapur</p> <p>Wrth nodi i lawr yn golofn drefnys gwerth pob “size” yn ôl y cyfanswm oedd ar y “crewyn” ar y pryd, ac wedyn cyfri yr eitemau i sicrhau nad oedd dim wedi ei adael allan neu ei gofnodi ddwywaith, yr oeddynt yn mynd ati i</p>

	<p>“addio” y golofn (511). Gan ddechreu un waelod y golofn ac ymgymryd ar “farthings” yn gyntaf, yr oeddynt yn gweithio ei ffordd i fynny ac ar ôl cael pedair farthing yr oeddynt yn gwneud “stroke” (line) fach ir dde (511) (yn dynodi ceiniog). Cario ymlaen nes cael pedair farthing eto (ceiniog) a “line” fach ir dde ac felly nes cyrhaedd y “pen”. Rhoi i lawr y gweddill ($\frac{1}{4}$, $\frac{1}{2}$, $\frac{3}{4}$) ar y gwaelod (total) os oedd gweddill yw gael. Wedyn cyfri nifer y lines bach (ceiniogau) ac cynnwys at y ceiniogau. Wedi cael deuddeg ceiniog (swllt) gwneud stroke (line) fawr ir dde, a cario ymlaen i fynny y golofn, a rhoi “stroke” fawr am bob swllt (12 ceiniog) nes cyrhaedd pen y golofn (511) yna cyfri y “lines” mawr ac cynnwys at y sylltau. Cyfri rhain ac rhoi y cyfanswm i lawr (dull symyl ond anawdd ei eguro !) “mor glir a mwd” ?</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli, Llifio
What Facet	73, 51
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 509
Trawsgrifiad	<p>Yr oedd yr helyw or gweithwyr hynaf yn y Shediau yn cofio “prishiau cerryg” ar eu cof heb drafferth, yn cynnwys $\frac{3}{4}$, $\frac{1}{2}$, $\frac{1}{4}$ o unrhyw size. Ond nid y to ifanc, er wrth gwrs yr oeddynt yn gyfarwydd ar rhan helaeth or prishiau, yn enwedig y rhai mwyaf cyffredin. Fodd bynnag, yr oedd yn hawddach ac yn fwy symyl a sicr i ddefnyddio y “Clandrwr”. Yr oedd clandrwr (510) neu ddau yn pob shed, ac yr oedd beunydd yn cael ei fenthycu ac ar “drafael”. Y rhai mwyaf darbodydys fel rheol oedd yn feddiannol ar “Glandrwr”. Fe wnes i amrhyw yn fy nhro o hen glawr caled llyfr neu cardboard addas.</p> <p>Yr oedd pob gweithwyr (neu un o bob partneriaeth) yn y Shed yn clandro pob crewyn, neu gael “cymydog” i wneud yn ei lle (os nad oeddynt yn gyfarwydd a ffigyrau). Ar ddiwedd y mis yr oedd gwerth y crawia yn cael ei hel at ei gilydd yn un cyfanswm, ac o ganlyniad yr oedd y gweithwyr yn gwybod gwerth ei gynnyrch ai ymdrech</p>

	<p>am y mis ac faint o arian i ddisgwyl fel “Balance due” “settlo mawr”. Yr oedd y gweithwyr yn rhoi yr “estimate” yma ar gefn y crewyn olaf am y mis. Er wrth gwrs yr oedd y swyddfa (page 3) yn gweithio yr “account” yn fanwl ac annibynnol, ond yr oedd estimate yn gymorth ac arweiniad, ac yn boddioni y gweithwyr ei fod yn cael ei haeddiant. Os oedd yr “estimate” y gweithwyr ar cyfri y swyddfa yn gwahaniaethu tua 1/- mey neu lai yr oedd checkio ar y ddwy ochr, ar chwarelwyr yn cael ei hysbysu. Yr oedd pob chwarelwyr yn cadw yn ofalys “copy” or crawia am y mis ac ddim yn eu tafly ir rwbel hyd ar ôl Sadwrn settlo mawr, rhag ofn i rhywbeth godi ei ben.</p>
Nodiadau	Clandrwr - calculator
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli
What Facet	73, 51
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 510
Trawsgrifiad	<p>“Clandrwr”</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Nid oedd wahaniaeth yn prishiau 1st ac 2nd + 3rd o # 16 x 9 i lawr (oddigerth 14 x 14) (1/10 y cant best</p> <p>(Dyma derfyn tan gaeaf nesaf, pwy bynnag sydd byw ac iach (a symyd i Shed N) Mawrth 16/73)</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26

Tags	Rheoli
What Facet	73, 51
Location description	Chwarel y Penrhyn
Tud	T 511
Trawsgrifiad	<p>Crewyn dosbarth isaf (Class 3rd) (Patrwm)</p> <p>Cynllun a nodiadau</p> <p>Ar ôl i gynnwys y crewyn gael ei checkio yng ngwmni y chwarelwr yr oedd y crewyn yn cael ei droi drosodd, ac yr oedd y “Marciwr” yn rhoi y Rhif, Dyddiad ac ei arwyddo, ac yn y swyddfa yr oedd yn entro yr account i lyfr y Shedman. Ar y crewyn olaf y mis yr oedd yr “estimate” yn cael ei gynnwys gan y gweithiwr (gwerth cynnyrch y mis)</p> <p>Cynllun a nodiadau</p>
Nodiadau	
Casgliad	Shed B (Lord) 1924-26
Tags	Rheoli
What Facet	73, 51

Location description	Chwarel y Penrhyn
-------------------------	-------------------